Comisiwn Ffiniau i Gymru

Boundary Commission for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

# Ymgynghoriad Cynigion Diwygiedig: Cynrychiolaethau

Cyfrol 13: 10613 - 10830

**BCW-10613 / [redacted] / Glyn Ceiriog**

Mae Glyn Ceiriog yn rhan o Wrecsam ar hyn o bryd, rydym yn agos at y Waun ac mae gennym gysylltiadau bws a thrên a'r A483 gyflym i Wrecsam sef ein hysbyty agosaf.

Mae'r ffyrdd sy'n mynd tua'r de-orllewin o'r fan hon yn mynd ar draws ardal wledig fawr, nid yw'r cynnig y dylid cysylltu'r Waun a Glyn Ceiriog â Sir Drefaldwyn yn ymarferol o ran pobl leol yn gallu cael gafael ar wasanaethau iechyd neu frys. Dim ond hanner awr i ffwrdd yw Wrecsam mewn car ond mae'r Trallwng dros awr i ffwrdd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau cyhoeddus sydd eu hangen arnom yn hawdd eu cyrraedd i ni yn Wrecsam.

Am y rhesymau hyn, nid wyf yn cefnogi'r newid ffin hwn a gobeithiaf y bydd y pwyntiau pwysig hyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth ac y byddwn yn aros yn rhan o Wrecsam.

**BCW-10614 / [redacted] / Wrecsam**

Mae'n ymddangos yn rhyfedd nad ydym wedi ein cysylltu â'r ardal Gyngor leol, Wrecsam, ond ag ardal helaeth a mwy gwledig mewn sir arall. (Mae'n debyg bod De Clwyd yr un mor wael). Mae'n ymddangos fel ardal fawr iawn i'w cwmpasu ac mai ychydig y bydd gennym yn gyffredin â Sir Drefaldwyn. Rydym yn edrych tua Wrecsam a hyd yn oed y tu hwn i Gaer a rhannau eraill o ogledd-orllewin Lloegr, er ein bod yn falch o'r dreftadaeth Gymreig yma hefyd. Mae'r map ei hun yn datgelu pa mor hurt yw'r cysylltiad deheuol, clwt atodol bychan sydd bron wedi'i dorri i ffwrdd gan y ffin. Rwy'n tybio bod y newidiadau yn ymdrech i gael niferoedd cyfartal ym mhob etholaeth ond mae'r cynnig newydd hwn yn ymddangos yn rhyfedd i mi. Ni fyddwn i eisiau bod yn AS etholaeth o'r fath!

**BCW-10615 / [redacted] / Cwmbrân**

Mae Cwmbrân yn anarferol o fod â dau AS mewn ardal fach. Rwyf i yn Etholaeth Sir Fynwy ond rwy'n cytuno â'r newid i'r ffin gan y bydd hyn yn rhoi fy ardal gyda Thorfaen ynghyd â'm Bwrdeistref Sirol a'm cynghorwyr yn ogystal ag AS dros Dorfaen.
Fodd bynnag, rwy'n anghytuno â lleihau nifer yr ASau i 32 gan y bydd hyn yn gwanhau llais Cymru yn San Steffan. Hefyd bod pob etholiad sy'n cael ei gynnal yn defnyddio system bleidleisio gyfrannol, rwy'n ffafrio pleidlais sengl drosglwyddadwy, gan sicrhau mwy o gyfranoldeb drwy hynny.
Yn gyfnewid, rwy'n credu y dylid cynyddu'r Senedd i 80 o aelodau o leiaf i ganiatáu mwy o graffu a datganoli mwy o bwerau fel yr Heddlu a'r System Gyfiawnder.

**BCW-10616 / [redacted] / Caerffili**

Rwy’n cefnogi ac yn mabwysiadu’r gwrthgynigion fel y’u cyflwynwyd gan yr AS Wayne David ( BCW 9929 ). Tra bod gwrthgynigion Wayne David yn bodloni holl amodau’r meini prawf ar gyfer penderfynu ar newidiadau i ffiniau Etholaeth Caerffili, mae cynigion y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn methu â gwneud hynny, am y rheswm a roddwyd gan Wayne David.

**BCW-10618 / [redacted] / Caerffili**

Mae’r cynnig i uno Caerffili a Gorllewin Casnewydd yn anymarferol.
Mae Caerffili bron yn faestref i Gaerdydd at y mwyafrif o ddibenion.
Mae cysylltiadau â Chasnewydd yn wael ac nid oes unrhyw gysylltiadau diwylliannol rhwng y ddwy.
Mae Caerffili yn gweithredu’n dda, mae ganddi hunaniaeth leol gref a chysylltiadau gwael â Chasnewydd.
Byddech hefyd yn gwneud gwaith unrhyw gynrychiolydd etholedig etholaeth o’r fath yn anodd iawn oherwydd faint o deithio y byddai’n rhaid iddo ei wneud.

**BCW-10619 / [redacted] / Henffordd**

Roeddwn i’n gweithio i Hen Gyngor Sir Morgannwg a’i olynydd Gorllewin Morgannwg fel yr Arolygydd Is-adrannol ar gyfer yr holl faterion priffyrdd hyd at y ffin â Phowys yn Ystradgynlais.

Roedd yn amlwg o sylwadau a wnaed gan ein criwiau a’r cynrychiolydd lleol ar y pryd y dylid cysylltu’r holl ardal i’r de o’r mynydd draw at Grai â Chwm Tawe gan fod y rhan fwyaf o waith a siopa yn cael ei wneud i lawr tuag at Abertawe.

Mae’n ymddangos bod ychwanegu’r ardaloedd hyn at Aberhonddu a Maesyfed yn gam i gael poblogaethau cyfartalog yn hytrach nag ystyriaeth o anghenion y bobl.
Rwyf i wir yn gobeithio y bydd y rhan hon o’r cynllun yn cael ei diwygio.
Mae pobl yn bwysicach na blwch taclus o rifau cyfartal.

**BCW-10620 / [redacted] / Caersws**

Mae bob un o’r tri ohonom yn parhau i gefnogi’r cynigion sy’n cadw Sir Drefaldwyn yn ei gyfanrwydd fel etholaeth. Mae gan Sir Drefaldwyn hunaniaeth ddiwylliannol a hanesyddol gref iawn, ag anghenion penodol. Rydym yn croesawu cymunedau cyfagos lleol sydd â thirweddau ac anghenion tebyg i’n rhai ni.
Rydym yn gwrthwynebu’n gryf unrhyw awgrym y dylid rhannu Sir Drefaldwyn mewn unrhyw ffordd o gwbl.

**BCW-10621 / [redacted] / Casnewydd**

Mae'n gwbl hurt bod Trecelyn yn rhan o ardal Gorllewin Casnewydd ac Islwyn. Roedd yn ddigon gwael pan roddodd y ffin flaenorol ni yn ardal Caerffili ond nid yw'r cynnig newydd hwn yn gwneud unrhyw synnwyr.
Byddai'r ardal yn ymestyn o Wynllŵg i Lwyncelyn sy'n enfawr ac na fyddai byth fodd ei rheoli'n effeithiol.

Siawns mai'r unig ateb gwirioneddol yw gwahanu ardal arfaethedig Gorllewin Casnewydd ac Islwyn yn 2 ardal ar wahân.

Nid yw eu huno yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl.

**BCW-10622 / [redacted] / Bargoed**

Pam mae'r symudiad i ardal Bargoed yn cael ei gynnig, siawns ei bod yn gwneud mwy o synnwyr aros yn rhan o Fwrdeistref Sirol Caerffili

**BCW-10623 / [redacted] / Conwy**

Pan fo gan gynifer ohonom ni bleidleisiau gwastraff, mae'n rhaid i ni droi at bleidleisio tactegol. Sut ydym ni i fod i wybod dros bwy i bleidleisio os ydych chi'n newid y ffiniau drwy'r amser?

**BCW-10624 / [redacted] Ar ran Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd / Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd**

Nid yw Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd yn gweld unrhyw reswm i'r ffiniau etholiadol newid. Mae Afon Elái (sy'n llifo heibio gwaelod Mynydd Lecwydd) yn darparu llinell ffin naturiol rhwng Bro Morgannwg a Chaerdydd.

**BCW-10625 / [redacted] / Rhisga**

Nid wyf i'n credu y dylai Islwyn ymuno â Gorllewin Casnewydd gan fod hynny'n annheg i bobl Islwyn gan fod yr etholaethau yn rhy wahanol i'w gilydd. Mae un yn rhan o ddinas Casnewydd a'r llall yn drefi a phentrefi yn y cymoedd. Maent mewn gwahanol awdurdodau lleol ac maent yn wahanol gymunedau a byddai'n annheg cael un AS i'w cynrychioli.

**BCW-10626 / [redacted] / Croesoswallt**

Nid yw ail-lunio ffiniau yn mynd i wneud cynrychiolaeth etholiadol yn decach nag y mae ar hyn o bryd. Yr unig ffordd o wneud hyn yw disodli'r system y cyntaf i'r felin gyda chynrychiolaeth gyfrannol fel bod pob pleidlais yn cyfrif ac nad ydym byth eto mewn sefyllfa lle mae gan un blaid fwyafrif o 80 sedd o ddim ond 43% o'r bleidlais boblogaidd.

**BCW-10627 / [redacted] / Wrecsam**

Rwyf o'r farn nad yw rhoi'r ardal hon gyda'i gilydd â'r Drenewydd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl. CBS Wrecsam yw ein cyngor lleol ac felly mae'n gwneud synnwyr ein rhoi ni yn etholaeth Wrecsam. Bydd ein rhoi yn yr ardal newydd hon yn ein difreinio'n llwyr o'r etholaeth.
Ailystyriwch y penderfyniad disynnwyr hwn os gwelwch yn dda.
[redacted]

**BCW-10628 / [redacted] / Merthyr Tudful**

Rwy'n cytuno â'r newid hwn i ffin yr etholaeth ac yn ei gefnogi.

**BCW-10629 / [redacted] / Abertawe**

1. NI ddylai Cymru fod yn colli 8 etholaeth tra bod Lloegr yn caffael 10 etholaeth yn y lle cyntaf, gan y bydd yn ddewis gan grŵp anetholedig o ddieithriaid i ddylunio bwlch democrataidd rhwng gwledydd, Cymru a Lloegr yn yr achos hwn, yn yr undeb, gan waethygu ymhellach y bwlch democrataidd presennol rhwng Cymru a Lloegr. Naill ai mae POB gwlad yn colli canran gyfartal/nifer gymesur o etholaethau ac ASau neu mae POB gwlad yn caffael canran gyfartal/nifer gymesur o etholaethau ac ASau. Mae unrhyw beth arall yn achosi rhwyg.
2. Mae ASau etholaethau yng Nghymru yn pleidleisio dros golli 8 etholaeth tra bod Lloegr yn caffael 10 mor hurt â thyrcwn yn pleidleisio dros y Nadolig.
3. Os bydd cynigion i uno rhannau o 6 etholaeth i greu 5 etholaeth er mwyn cymryd cynrychiolaeth seneddol oddi wrth bobl de Cymru o ffactor o 1 AS yn cael eu dilyn, yna dylech o leiaf fod yn ddigon doeth i wahanu'r Gŵyr i ffwrdd fel un etholaeth ar ei ben mwyaf dwyreiniol. Yna, rhannwch Ddinas Abertawe i ffwrdd fel un etholaeth ar derfynau eithafol yr hyn y gellir ei ddiffinio fel terfyn cydgyffyrddol "y Ddinas", unwch sir Castell-nedd a Phort Talbot gydag Aberafan fel tair tref arfordirol, unwch Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl fel etholaeth arall o ystyried graddau'r gorgyffyrddiad trefol rhwng y ddwy, yna gwahanwch "Sir" Abertawe i ffwrdd fel etholaeth newydd yn dilyn terfyn mwyaf allanol cymoedd isafonydd afon Tawe o'r ffynonellau niferus o'r nentydd amrywiol nes cyrraedd ffiniau traddodiadol etholaethau'r canolbarth.
4. Mae'r wardiau yn sir Abertawe, h.y. y tu allan i derfynau'r ddinas wedi dioddef erioed o ddosbarthiad anghyfartal o gyllid, buddsoddiad a datblygiad seilwaith am yr union reswm bod Dinas Abertawe wedi arallgyfeirio cyllid, buddsoddiad a datblygiad seilwaith o'r fath i ganolbwyntio'n llwyr ar ganol y ddinas a gor-ganoli adnoddau oddi wrth y rhai yng nghefn gwlad, gan wastraffu miliynau o bunnoedd ar waith ffordd a symud ffyrdd diddiwedd yng nghanol y ddinas e.e. y system lôn sengl unffordd, a'r system lôn fysiau ar gyfer y cynllun bysiau plygu byrhoedlog, tra bod gweddill y sir i gyd yn cael ei esgeuluso. Byddai'n well felly i'r wardiau cwm Tawe sy'n cyfansoddi gweddill sir Abertawe beidio â bod ynghlwm i ddinas Abertawe mewn unrhyw ran, fel etholaeth.
5. Dylid gwneud pob cynnig ffin yn destun pleidlais gyhoeddus i atal yr ymdrech lechwraidd aflwyddiannus hon o jerimandro er budd y Torïaid rhag cael ei gweithredu heb graffu priodol gan yr etholwyr a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y ddyfais annemocrataidd hon yn y pen draw.
6. Mae Comisiwn Etholiadol y pedair gwlad wedi colli ymddiriedaeth yr etholaeth, ac mae'n rhaid iddo wynebu diwygiadau democrataidd dwys.

**BCW-10630 / [redacted] / Rhydaman**

Rwy'n siomedig iawn o weld bod llwybr cul wedi cael ei greu a fyddai'n rhoi lleoliadau fel Pontardawe, Ystradgynlais, Gwauncaegurwen a Brynaman Isaf yn yr un etholaeth ag Aberhonddu a Rhaeadr.

Mae Cwm Tawe yn lle gwahanol iawn i Aberhonddu a Sir Faesyfed. Lle'r wyf i'n byw, ym Mrynaman Isaf, nid ydym hyd yn oed yng Nghwm Tawe ond yn Nyffryn Aman.

Rhydaman yw fy nhref bost, Castell-nedd Port Talbot yw fy sir ond nawr nid wyf i'n mynd i fod â'r un AS a'r un o'r ddau le hynny.

Bydd y newid hwn yn golygu y bydd pleidleisiau pobl yn y trefi bach a'r pentrefi hyn yn gael eu boddi gan bleidleisiau mewn ardal wahanol iawn.

Dylem naill ai i gyd gael ein dychwelyd i etholaeth Castell-nedd neu'n rhannol yn ôl i Gastell-nedd ac yn rhannol i Gaerfyrddin.

**BCW-10631 / [redacted] / Dinbych**

I bwy bynnag a fynno wybod. Rwy'n ysgrifennu hwn ar ran fy hun, un o drigolion Dinbych, a'm tad sydd â dyslecsia difrifol ac o Nantglyn.

Rydym yn gwrthod yn ddiffuant cynnig y Comisiwn ar y ffiniau newydd, yn enwedig y ffiniau newydd ar gyfer etholaeth bresennol Dyffryn Clwyd.

Mae fy nhad o Nantglyn. Cafodd ei fagu yno. Aeth i'r siopau yn Ninbych, aeth i'r ysgol yn Ninbych, a gweithiodd yn Ninbych, fel y rhan fwyaf o'r gymuned. Gweithiodd fel llanc ifanc yn y pentrefi cyfagos; o Lansannan, Groes/Saron a Gweunydd Dinbych, sydd hefyd yn hynod ddibynnol ar Ddinbych.

Mae cysylltu'r ardaloedd hyn â Bangor yn hytrach na Dinbych yn hurt. Gallech feicio i Ddinbych yn yr amser y byddai'n ei gymryd i chi yrru i Fangor. Nid yw hyn yn gwneud synnwyr cyn yr holl dreuliau! Nid oes gan yr ardaloedd hyn ddim yn gyffredin ac all eu cysylltu'n wleidyddol, i fod yn foesgar, fod yn ddim ond anwybodaeth.

Mae gan ardal arfaethedig "Gogledd Clwyd" gysylltiadau ardal amheus. Ceir cysylltiad agos iawn rhwng cymunedau arfordirol Bae Colwyn-Towyn-y Rhyl-Prestatyn. Ac mae'r olaf wedi'i gysylltu â Dwyrain Clwyd yn hytrach na'i gymunedau â chysylltiad tebyg yng Ngogledd Clwyd. Yn ogystal â'r gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd rhwng y cymunedau arfordirol hyn, mae'n gwneud ychydig neu ddim synnwyr pam maent wedi'u gwahanu. (Heb sôn am y ddibyniaeth gyffredin amlwg ar y diwydiant twristiaeth)

Rydym hefyd yn anghytuno'n bersonol ar gynnwys ardal Rhuthun-Llandyrnog-Bodfari yn Nwyrain Clwyd. Mae gan Ruthun a Dinbych gysylltiadau economaidd cryf iawn, o ran cyflogaeth a phrynwriaeth. Yn ogystal â chysylltiadau cryf o ran addysg a chysylltedd cymdeithasol, mae hefyd yn bwysig ystyried bod llawer o bobl o Ddinbych yn mynd i'r ysgol yn Rhuthun ac i'r gwrthwyneb.

Pan fyddwch yn ystyried yr hyn yw Dwyrain Clwyd, a pha ardaloedd y mae wedi cael ei gysylltu â nhw, fel Nantglyn a Bangor, mae'n wallgof a bod yn onest. Pe na bawn i'n credu yng ngallu'r comisiwn, byddwn yn cael fy nhemtio i feddwl bod hyn yn jerimandro bwriadol.

Cofion Gorau.
[redacted].

**BCW-10632 / [redacted] / Bargoed**

Hollol hurt

Rhannu awdurdod Caerffili yn dair etholaeth.
Un awdurdod, un etholaeth.
Bydd y dryswch y mae’n ei achosi yn atal pobl rhag gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt

**BCW-10633 / [redacted] / Caerdydd**

Rydym yn cefnogi’n llawn y cynigion diwygiedig, a fyddai’n sicrhau bod Pontprennau a Phentref Llaneirwg, gan gynnwys Sant Edeyrn, yn parhau i fod yn rhan o Etholaeth Gogledd Caerdydd. Yn yr un modd â chymunedau eraill yng Ngogledd Caerdydd, fel Llys-faen, yr Eglwys Newydd a Rhiwbeina, ceir cysylltiadau cymunedol cryf ac amwynderau rhwng y lleoedd.

Rydym yn annog y Comisiwn i gadw a chymeradwy’r cynigion wedi’u diweddaru yng ngoleuni statws parhaus Gogledd Caerdydd fel etholaeth Seneddol, sy’n cynnwys Ffynnon Taf.

**BCW-10634 / [redacted] / Caerdydd**

Annwyl Syr/Fadam

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddydd Mercher 19 Tachwedd.

Yn benodol, rwy'n ysgrifennu ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i etholaeth De Caerdydd a Phenarth.

Nid yw symud Cathays wedi cael ei grybwyll fel opsiwn yn ystod y broses ymgynghori ac ymgysylltu a ddilynwyd hyd yma ac mae ei gyflwyno fel fait accompli ar y cam olaf yn ymddangos yn anonest, ac nid yn ysbryd y datganiad a wnaed ar ddechrau'r broses gan yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, Shereen Williams.

“Rydym yn benderfynol o ddatblygu'r argymhellion gorau posib ar gyfer etholaethau newydd Cymru, a gwyddom mai'r unig ffordd o sicrhau hynny yw denu'r cyfranogiad cyhoeddus mwyaf rydym erioed wedi ei gael.

“Mae hygyrchedd wrth galon beth rydym yn ceisio cyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru llais holl bwysig i'w hychwanegu i'r sgwrs am ffiniau etholaethol Cymru, ac rydym am i bawb yng Nghymru cael cyfle i ddatgan eu barn.”

Fel un o drigolion Cathays ers dros 35 mlynedd, rwy'n gwrthwynebu'r cam hwn. Dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol lle mae ward Cathays yn aros yng Nghanol Caerdydd (Dwyrain Caerdydd newydd) ac mae ward Trowbridge yn aros yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Mae'r cynnig olaf hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac yn golygu symud dwy ward yn unig o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na'r pedair sy'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae'n werth nodi mai dim ond un cyflwyniad a dderbyniodd y Comisiwn yn awgrymu symud Cathays ac roedd hwn gan rywun yn Altrincham efallai nad oes ganddo wybodaeth leol ac a wnaeth y sylw yn gwbl seiliedig ar rifau. Dull gwallus gan nad yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i gysylltiadau cymunedau lleol.

Fodd bynnag, derbyniodd y Comisiwn lawer o ymatebion gan drigolion sy'n cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown o fewn cymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod o fewn yr un sedd Seneddol am fwy na thrigain mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn, yn ei adolygiadau aflwyddiannus blaenorol ers 2010 erioed wedi ceisio gwahanu Cathays a Phlasnewydd.

Mae Trowbridge yn ward heb unrhyw fynediad ffordd uniongyrchol i'r Sblot, ac rwy'n derbyn y pwynt hwn. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr un sefyllfa yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae'r Sblot a Trowbridge yn cynnig degawdau o hanes yn rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r ateb arfaethedig yn sedd newydd Rhondda.

Mae ward Cathays wedi'i chysylltu'n annatod â'r wardiau eraill yng nghymuned ehangach y Rhath, sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown.

Mae'n ymddangos mai'r frawddeg hon isod yw'r cyfiawnhad dros y penderfyniad ac mae'n wallus yn ei thybiaeth bod gan Cathays, sy'n boblog iawn, (nid yn gwbl berthnasol i'r pwynt hwn) gysylltiadau da â wardiau eraill yn y de.

"Mae'r Comisiwn o'r farn bod ward etholiadol Cathays yn ward hynod boblog ac wedi'i chysylltu'n dda sydd â chysylltiadau a rhwymau da â'r wardiau i'r de ac felly mae'n briodol fel rhan o etholaeth De Caerdydd a Phenarth."

Yr ardal i'r de o'r ward yw Canol i Ddinas, sy'n llai poblog ac yn ffinio wardiau nad oes unrhyw gysylltiadau â nhw. Mae cysylltiadau cymunedol Cathays gyda Phlasnewydd, Pen-y-lan, Cyncoed ac Adamsdown. Mae'r datganiad yn wallus yn ei dybiaethau ac felly ni all fod yn gyfiawnhad dilys dros symud Cathays.

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol gyda'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. A bod yn onest, mae ei lleoli yn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hurt ac ni fydd dealltwriaeth rwydd o hyn ymhlith yr etholaeth. Fodd bynnag, mae gan Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown lawer o gysylltiadau cymunedol:

• I raddau helaeth iawn, mae poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn rhychwantu Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, a cheir neuaddau preswyl yn agos iawn yn Cathays a Phlasnewydd.
• Mae Cyngor Caerdydd o'r farn bod wardiau Cathays a Phlasnewydd mor rhyng-gysylltiedig bod rheolau cynllunio wedi cael eu pasio dim ond i gynnwys Tai Amlfeddiannaeth ac asiantau gosod yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)
• Mae'r dalgylch ysgol uwchradd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.
• Mae plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays a Phlasnewydd yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).
• Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed, o'r fath bod trigolion ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn

ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath sydd wedi'i chanolbwyntio ar ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Plwca.

- Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir rhwng Cathays a Phlasnewydd yn hirhoedlog a chawsant eu parchu'n briodol gan gynigion gwreiddiol y Comisiwn.
- Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi'i threfnu o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)
- Mae dalgylchoedd meddygfeydd teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac yn rhannu pryderon a demograffeg cyffredin.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Gobeithiaf ar ôl darllen fy nhystiolaeth yma y bydd y Comisiwn bellach yn gwrthdroi'r cynigion diwygiedig ac yn dychwelyd i'r cynigion cychwynnol fel y'u cyhoeddwyd.

Yn gywir

[redacted]

**BCW-10635 / [redacted] / Rhydaman**

Annwyl Syr/Fadam

Cyfeiriad at fy llythyr dyddiedig 24 Hydref 2021, a 22 Hydref 2022 ynghylch y pwnc uchod. Roedd prif fyrdwn fy sylwadau yn gwrthwynebu cynnig drafft y Comisiwn Ffiniau i drosglwyddo rhannau o Ddyffryn Aman uchaf a Chwm Tawe i Frycheiniog a Sir Faesyfed.

Rwyf newydd gael fy ngwneud yn ymwybodol o Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, sydd hefyd yn anghytuno â'r cynigion hyn ac yn awgrymu, o ran ardal Abertawe: *"Ysgogir ein cynigion gan ddau brif ffactor yn seiliedig ar y mae prawf cysylltiadau lleol. Yn gyntaf, rydym yn credu'n gryf y dylai Cwm Tawe a Dyffryn Aman Uchaf fod yn rhan o'r ateb yn yr ardal hon ac mae hyn yn gwneud gwahanol siâp o etholaethau yn angenrheidiol i fodloni'r ystod etholaeth statudol. Mae holl gysylltiadau cymdeithasol, economaidd, cymunedol a gweinyddol yr ardal gyda chytref Abertawe/Castell-nedd. Ychydig, os o gwbl, o'r ffactorau statudol y mae ei chynnwys mewn etholaeth sy'n seiliedig ar Bowys yn eu bodloni yn ein barn ni."* Maent yn awgrymu y dylai ardaloedd Dyffryn Aman uchaf a Chwm Tawe gael eu cynnwys yn etholaeth Dyffryn Lliw newydd.

Yn fy llythyr dyddiedig 22 Hydref 2022, awgrymais wrthgynnig amgen lle byddai ardaloedd dyffryn Aman uchaf a chwm Tawe yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Awgrymais hefyd ddiwygiadau eraill i'r cynigion drafft ac rwy'n nodi o Adroddiad y Comisiynwyr bod fy awgrym o drosglwyddo Blaen Hafren, Llanidloes, Llandinam, Ceri a'r Ystog o Sir Drefaldwyn a Glyndŵr i Frycheiniog a Sir Faesyfed yn cael ei rannu gan y Comisiynwyr Cynorthwyol, sydd wedi cynnwys yr ardaloedd hyn yn eu cynigion ar gyfer etholaeth Canol a De Powys newydd.

Fel y nodwyd, nid oeddwn yn ymwybodol o gwbl o Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol tan ddechrau'r wythnos hon. Fodd bynnag, gallaf ddweud bellach, os ystyrir bod y gwrthgynnig a amlinellir yn y fy llythyr dyddiedig 22 Hydref 2022 yn annerbyniol, fy mod yn cefnogi'n llawn Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol o etholaeth Dyffryn Lliw newydd fel opsiwn amgen.

Hyderaf fod hyn o gymorth ac y bydd y sylwadau ychwanegol hyn yn cael eu cynnwys yn ystyriaethau terfynol y Comisiwn Ffiniau.

Yn gywir

[redacted]

**BCW-10636 / [redacted] / Caerdydd**

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddydd Mercher 19 Tachwedd.

Rwy'n ysgrifennu ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i etholaeth De Caerdydd a Phenarth.

Rwy'n gwrthwynebu'r cam hwn. Mae ward Cathays wedi'i chysylltu'n annatod â'r wardiau eraill yng nghymuned ehangach y Rhath, sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown.

Dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol lle mae ward Cathays yn aros yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd ac mae ward Trowbridge yn aros yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac yn golygu symud dwy ward yn unig o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na'r pedair sy'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod o fewn yr un sedd Seneddol am fwy na thrigain mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn, yn ei adolygiadau aflwyddiannus blaenorol ers 2010 erioed wedi ceisio gwahanu Cathays a Phlasnewydd.

Derbyniodd y Comisiwn un cyflwyniad (gan rywun wedi'i leoli yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn.

Derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (gan drigolion Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown o fewn cymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Rwy'n derbyn bod Trowbridge yn ward heb unrhyw fynediad ffordd uniongyrchol i'r Sblot. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr un sefyllfa yn union yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae'r Sblot a Trowbridge yn cynnig degawdau o hanes yn rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r ateb arfaethedig yn sedd newydd Rhondda.

Ni soniwyd am symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth fel opsiwn yn ystod y prosesau cynigion ac ymgynghori personol. Mae ei gyflwyno fel 'fait accompli' ar y cam olaf yn ymddangos yn anonest, ac nid yn ysbryd y datganiad a wnaed ar ddechrau'r broses gan yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn, Shereen Williams.

"Rydym yn benderfynol o ddatblygu'r argymhellion gorau posib ar gyfer etholaethau newydd Cymru, a gwyddom mai'r unig ffordd o sicrhau hynny yw denu'r cyfranogiad

cyhoeddus mwyaf rydym erioed wedi ei gael.” “Mae hygyrchedd wrth galon beth rydym yn ceisio cyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru llais holl bwysig i’w hychwanegu i’r sgwrs am ffiniau etholaethol Cymru, ac rydym am i bawb yng Nghymru cael cyfle i ddatgan eu barn."

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol gyda’r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. A bod yn onest, mae ei lleoli yn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hurt ac ni fydd dealltwriaeth rwydd o hyn ymhlith yr etholaeth. Fodd bynnag, mae gan Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown lawer o gysylltiadau cymunedol:

• I raddau helaeth iawn, mae poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn rhychwantu Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, a cheir neuaddau preswyl yn agos iawn yn Cathays a Phlasnewydd.
• Mae Cyngor Caerdydd o’r farn bod wardiau Cathays a Phlasnewydd mor rhyng-gysylltiedig bod rheolau cynllunio wedi cael eu pasio dim ond i gynnwys Tai Amlfeddiannaeth ac asiantau gosod yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)
• Mae’r dalgylch ysgol uwchradd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.
• Mae plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays a Phlasnewydd yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).
• Mae’r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed, o’r fath bod trigolion ym mhob un o’r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath sydd wedi’i chanolbwyntio ar ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Plwca.
• Mae’r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir rhwng Cathays a Phlasnewydd yn hirhoedlog a chawsant eu parchu’n briodol gan gynigion gwreiddiol y Comisiwn.
• Mae’r Eglwys yng Nghymru wedi’i threfnu o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)
• Mae dalgylchoedd meddygfeydd teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac yn rhannu pryderon a demograffeg cyffredin.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Gobeithiaf ar ôl darllen y dystiolaeth yma y bydd y Comisiwn bellach yn gwrthdroi’r cynigion diwygiedig ac yn dychwelyd i’r cynigion cychwynnol fel y’u cyhoeddwyd.

## BCW-10637 / Stephen Kinnock AS / Aberafan

Ar ôl cyhoeddi’r cynigion diwygiedig, mae fy nghyflwyniad ysgrifenedig i’r ymgynghoriad ar y cynigion diwygiedig wedi’i atodi.

Yn gywir,

Stephen Kinnock

Aelod Seneddol dros Aberafan

Gweinidog yr Wrthblaid dros Fewnfudo

**Stephen Kinnock**
Aelod Seneddol dros Aberafan
[redacted]

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings,
Llys Ffitsalan
Caerdydd,
CF24 0BL

Ein Cyf: SNK/CM

09 Tachwedd 2022

Annwyl Gadeirydd,

**Parthed: Cynigion Diwygiedig Adolygiad 2023 y Comisiwn Ffiniau i Gymru – Aberafan Porthcawl**

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru am yr holl waith yr ydych wedi ei wneud ar y cynigion cychwynnol a diwygiedig ar y ffiniau etholaeth seneddol yng Nghymru. Bu gan y Comisiwn swyddogaeth galed iawn i'w chyflawni, yn ail-lunio'r ffiniau etholaeth seneddol yn unol â'r meini prawf llym a rhagnodol a gyflwynir yn y Ddeddf Etholaethau Seneddol a'r arwyddocâd y mae'r Ddeddf wedi ei neilltuo i gwota etholiadol y DU.

Mae cynigion diwygiedig y Comisiwn yng nghyswllt etholaeth bresennol Aberafan ac etholaeth arfaethedig *Aberafan Porthcawl* i'w croesawu.

Maent yn cydnabod ac yn parchu'r cysylltiadau hanesyddol, daearyddol a chymunedol sy'n bodoli rhwng y wardiau sy'n cyfansoddi etholaeth bresennol Aberafan ac yn cynnwys wardiau o etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n rhannu nodweddion tebyg i'r wardiau o Aberafan.

Roedd wardiau Corneli, y Pîl, Rest Bay, Notais, Canol Dwyrain Porthcawl, Canol Gorllewin Porthcawl a Drenewydd yn rhan o etholaeth Aberafan cyn Adolygiad Ffiniau 1983 pan y'u defnyddiwyd i greu etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr ynghyd â wardiau o Ogwr.

Mae hefyd i'w groesawu bod y Comisiwn wedi rhoi ystyriaeth i'r pryderon ynghylch y cynigion gwreiddiol a fyddai wedi arwain at gynnwys wardiau a oedd yn cynnwys rhannau o dref Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig *Aberafan Porthcawl*. Mae rhoi wardiau Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr, Cefn Glas a Llangewydd a Brynhyfryd yn y cynigion diwygiedig ar gyfer *Pen-y-bont ar Ogwr*, yn hytrach nag *Aberafan Porthcawl*, yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Mae'r cynnig diwygiedig hefyd yn sicrhau bod y tarfu ar ffiniau llywodraeth leol cyn lleied â phosibl, â dim ond dau awdurdod lleol, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr, dan sylw.

**Stephen Kinnock**
Aelod Seneddol dros Aberafan
[redacted]

Mae'r cynnig diwygiedig ar gyfer *Aberafan Porthcawl* yn bodloni'r cwota etholiadol, a chyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl o fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth, yn cydnabod ystyriaethau daearyddol arbennig, ffiniau llywodraeth leol, ffiniau etholaethau presennol, cysylltiadau lleol, a'r anhwylustod y mae newidiadau o'r fath yn eu creu yn anochel.

Mae *Aberafan Porthcawl* yn gynnig sy'n bodloni'r gofynion a gyflwynir yn y Ddeddf ac o roi amser iddo yn gynnig a all weithio i'r cymunedau lleol.

Yn gywir,

[redacted]

**Stephen Kinnock**
**Aelod Seneddol dros Aberafan**

[redacted]

**BCW-10638 / [redacted] / Casnewydd**

Annwyl Syr neu Fadam,

Rwy’n byw yn etholaeth seneddol bresennol Islwyn.

Nid oes gennyf unrhyw ddymuniad i gael fy “uno” gyda Gorllewin Casnewydd. Nid oes gan y trigolion lleol na minnau lawer i’w wneud â Chasnewydd.

Mae fy nghymdogion yn dueddol o ddisgrifio pobl Casnewydd fel “townies”, tra ein bod ni’n drigolion y Cymoedd. Er fy mod i’n gwrthwynebu’r defnydd o’r term “townies”, rwyf o’r farn bod ei ddefnydd yn dystiolaeth o ddiffyg uniaethiad â Chasnewydd.

Os oes yn rhaid i chi ad-drefnu etholaeth Islwyn, rwy’n eich annog i’w hail-ddosbarthu gydag etholaethau eraill yn y cymoedd, nid gyda Gorllewin Casnewydd.

Yn gywir,

[redacted]

[redacted]

**BCW-10639 / [redacted] / Porthcawl**

Mae gennyf nifer o wrthwynebiadau i'r cynigion hyn.
Gweithdrefnol
Trwy ba fodd y mae'r cynigion hyn wedi cael eu cyfathrebu i'r cyhoedd? Mae ymgynghoriad yn ddilys dim ond os yw'n effeithiol a bod cyfathrebu trylwyr wedi digwydd ar draws pob grŵp mewn cymuned.
Nid yw'n ymddangos bod llawer ynghylch hyn yn y cyfryngau newyddion?
Ble mae'r ddogfen resymeg i gefnogi'r 'ymgynghoriad' hwn? Ymddiheuriadau os wyf i wedi ei methu ar y wefan hon neu yn rhywle arall.

2 cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd

Mae Porthcawl eisoes wedi'i lleoli'n anghyfforddus o fewn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr o ran demograffeg a sail economaidd a gwleidyddol. Yn gyffredinol, mae'n gilfach dosbarth canol, yn rhannol i bobl sydd wedi ymddeol ac yn rhannol i dwristiaid. Mae ganddi lawer mwy yn gyffredin â'r lleoliadau Arfordir Treftadaeth i'w ddwyrain.

Mae ganddi'r potensial hefyd o fod yn atyniad gwyliau gartref mawr i dwristiaid sy'n cael ei esgeuluso'n druenus o dan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd.

Mae'n ymddangos bod y cynigion hyn o chwith o'r safbwynt eu bod yn adlewyrchu rheidrwydd sy'n diwallu anghenion cymarebau niferoedd poblogaeth sydd wedi'u penderfynu'n artiffisial. Yn hytrach, dylent fod yn creu cymunedau cydlynol a fydd yn cael eu gwasanaethu'n effeithiol gan y gwleidyddion yn hytrach nag i'r gwrthwyneb.

**BCW-10640 / [redacted] / Aberdâr**

Rwy'n credu ei fod yn syniad da lleihau nifer y cynghorau sydd gennym ni. Nid oes angen yr holl gynghorwyr hyn arnom i gynrychioli pobl Cwm Cynon. Dim ond er eu budd eu hunain maen nhw yno a dim byd arall. Maen nhw'n cael arian am wneud dim oherwydd os ewch chi atynt gydag unrhyw broblemau byddant yn dweud y byddant yn gweld beth allant ei wneud ond pan fyddwch chi'n cael ateb yn ôl maent yn dweud wrthych fod eu harweinydd wedi ei atal. Nid oes ots ganddo am y bobl yn Aberdâr, dim ond ei ward ef, ac maen nhw'n cael popeth i lawr yn Aberpennar. Edrychwch ar yr arian y gellid ei arbed trwy dorri'r cynghorau hyn yn hanner. Rwy'n gobeithio y bydd yn digwydd.

**BCW-10641 / [redacted] / Dinbych**

Fel y gwyddoch, cyflwynodd Dr James Davies ein safbwyntiau i'r Comisiwn mewn llythyr yn ystod y cyfnodau ymgynghori cychwynnol ac eilaidd. Gwnaeth gyflwyniad yng Ngwrandawiad Cyhoeddus Wrecsam hefyd.
Yn ffodus, roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn cyd-fynd â llawer o'r rhai a wnaed gan bobl eraill yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd.
Er nad yw cynigion diwygiedig y Comisiwn yn adlewyrchu'n llawn y gwrthgynigion yr oedd y Blaid Geidwadol wedi eu cyflwyno, maent yn cymryd i ystyriaeth llawer o'r dadleuon beirniadol yr oeddem yn eu gwneud, ac a wnaed gan bleidiau gwleidyddol eraill, unigolion a chynghorau hefyd. Hoffwn ddiolch i'r Comisiwn am wrando ar ein A.S.
Mae'n chwith gennyf weld chwalfa arfaethedig etholaeth Dyffryn Clwyd. Mewn gwirionedd, bydd unrhyw gyfres o gynigion ffiniau yn methu â chymryd i ystyriaeth yr holl gysylltiadau cymunedol sy'n bodoli. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod etholaethau Gogledd Clwyd a Dwyrain Clwyd yn ffurfio endidau cydlynol. Yn benodol, rwy'n credu y bydd croeso i ail-uno Bae Colwyn a Llandrillo-yn-Rhos, ac mae cymunedau glan môr, lled-wledig a gwledig etholaeth arfaethedig Dwyrain Clwyd yn cyd-fynd â'i gilydd yn weddol foddhaol yn absenoldeb ardaloedd diwydiannol ar hyd aber Afon Dyfrdwy. Bydd y rhai yn Rhuthun hefyd yn cael eu calonogi y cynigir bellach y bydd ardaloedd gwledig cyfagos yn ne Sir Ddinbych yn cael eu cynnwys yn sedd Dwyrain Clwyd.
Felly, rwy'n cefnogi'r cynnig diweddaraf ar gyfer Gogledd a Dwyrain Clwyd.

**BCW-10642 / [redacted] / Port Talbot**

Rwy'n byw ar y briff ffordd sy'n cysylltu Port Talbot gyda Dyffryn Afan uchaf ym Mhontrhyd-y-fen Port Talbot.
Nid oes gennyf unrhyw gysylltiadau â chymunedau Abertawe neu Gastell-nedd sydd mewn gwahanol gymoedd yn llwyr.

Bydd pobl ar ddwy ochr ein rhes fach o dai ar hyd y brif ffordd a'n holl erddi yn cefnu ar afon Afan yn cael eu cynrychioli gan wahanol aelodau etholedig sy'n cynrychioli ardaloedd cwbl wahanol.

Ar hyd ein prif ffordd â nifer fach iawn o dai, mae gennym gysylltiadau cymunedol cryf gyda phawb yng Nghwm Afan ac rydym yn poeni y byddwn yn cael ein cynrychioli gan aelodau etholedig eraill, gan ynysu ein safbwyntiau a rhannu ein synnwyr cryf o gymuned.

Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr chwaith i leoli pobl sy'n uniaethu â bod mewn cymuned Port Talbot, Cwm Afan, ac yn byw ynddi'n gorfforol, y tu allan i'w hardal pan ddaw'n fater o gael eu cynrychioli gan aelod etholedig o ddwy ardal arall sydd â gwahanol broblemau lleol.

Rwy'n teimlo y byddaf i a'm cymdogion yn cael ein rhoi o dan anfantais ddifrifol gan y cynnig presennol ac y bydd ein materion lleol yn nyffryn Port Talbot yn cael eu hanwybyddu neu'n cael eu hystyried yn ddibwys o'u cyfuno â'r materion sy'n effeithio ar Abertawe a Chastell-nedd sy'n wahanol i'n materion ni.

Rwy'n poeni'n arw ei bod yn amhosibl i aelod etholedig gynrychioli pobl mewn cymunedau mor wahanol ac na fydd ein gwerthoedd cymunedol a'n llais yn cael eu clywed.

Rwy'n credu'n gryf y dylai Dan-y-bont Pontrhyd-y-fen gael ei lleoli o fewn yr etholaeth yng Nghwm Afan Port Talbot.

**BCW-10643 / [redacted] / Y Coed Duon**

Nid oes gan Islwyn ddim o gwbl yn gyffredin â Chasnewydd, a dylai barhau i fod yn rhan o Gaerffili, sy'n dref mewn cwm. Mae'r ffin arfaethedig yn gwahanu Oakdale o Bontllan-fraith, dim ond milltir i ffwrdd, tra bod Gorllewin Casnewydd o leiaf 10 milltir i ffwrdd. Nid yw hyn yn gwneud unrhyw synnwyr!

**BCW-10644 / [redacted] / Castell-nedd**

Fel y gallwch weld o'm cyfeiriad, rwy'n byw yn Llansawel ac roeddwn yn etholaeth Castell-nedd erioed tan y newid diwethaf pan wnaethant ein taflu i mewn gyda Sgiwen ac Aberafan. Nawr, er fy mod yn byw dim ond 2 filltir o Gastell-nedd a dyna fy nghyfeiriad, rwy'n cael fy ychwanegu at Borthcawl sydd dros 15 milltir i ffwrdd ac yn rhan o ardal Pen-y-bont ar Ogwr ... wn i ddim pwy feddyliodd am yr ardaloedd hyn a phenderfynu ei fod yn syniad da, ond rwy'n credu y dylent roi cynnig arall arni. O fy mhrofiadau i dros y blynyddoedd, rydych yn gofyn i bobl am eu barn ond byth yn cymryd unrhyw sylw. Nid oes neb yr wyf i'n ei adnabod yn hapus am hyn mewn unrhyw ffordd. Rwyf i wedi ysgrifennu hyn yn yr ymgynghoriad ar y cychwyn ac mae'n ymddangos bod dim wedi newid.

**BCW-10645 / [redacted] / Abertawe**

Mae Bryniau Clwyd yn well enw i Ddwyrain Clwyd, o gofio bod yr ardal yr un fath ag AHNE Bryniau Clwyd.

**BCW-10646 / Dr James Davies AS / Dyffryn Clwyd**

Mae llythyr wedi'i atodi.

Diolch.

James

--

**Dr James Davies AS**
***Vale of Clwyd/Dyffryn Clwyd***
*Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Swyddfa Cymru*

**Dr James Davies AS**
Member of Parliament for the Vale of Clwyd / Aelod Seneddol dros Ddyffryn Clwyd

[redacted]

Comisiwn Ffiniau i Gymru Ty Hastings
Llys Ffitsalan
Caerdydd
CF24 OBL

Drwy e-bost yn: cffg@ffiniau.cymru

8 Tachwedd 2022

Annwyl Syr/Madam,

**Parthed: Arolwg o Etholaethau Seneddol yng Nghymru 2023 - Cynigion Diwygiedig**

Diolch yn fawr iawn am y copi o adroddiad y Comisiwn Ffiniau i Gymru sy'n cynnwys cynigion diwygiedig ar gyfer newidiadau i etholaethau Seneddol yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, cyflwynais fy marn i'r Comisiwn drwy lythyr yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a'r ail gyfnod ymgynghori. Cyflwynais hefyd yng Ngwrandawiad Cyhoeddus Wrecsam.

Yn ffodus, roedd y safbwyntiau a fynegwyd gennyf yn ategu llawer o'r rheini a wnaed gan eraill yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd.

Er nad yw cynigion diwygiedig y Comisiwn yn adlewyrchu'n !lawn y gwrthgynigion roeddwn i a'r Blaid Geidwadol wedi'u cyflwyno, maent yn ystyried llawer o'r dadleuon hollbwysig roeddem yn eu gwneud, ac yr oedd pleidiau gwleidyddol eraill, unigolion a chynghorau wedi'u gwneud hefyd. Hoffwn ddiolch i'r Comisiwn am wrando.

Yr wyf yn dal i fod yn drist wrth i etholaeth Dyffryn Clwyd rhannu. Mewn gwirionedd, ni fydd unrhyw set o gynigion ffiniau yn ystyried yr holl gysylltiadau cymunedol sy'n bodoli. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod etholaethau Gogledd Clwyd a Dwyrain Clwyd yn ffurfio endidau cydlynol. Yn benodol, credaf y bydd ailuno Bae Colwyn a Llandrillo-yn-Rhos yn cael ei groesawu, tra bod cymunedau glan y mer, lled-wledig a gwledig Dwyrain Clwyd arfaethedig yn eistedd gyda'i gilydd yn eithaf boddhaol yn absenoldeb ardaloedd diwydiannol ar hyd Aber Afon Dyfrdwy. Bydd y rheini yn Rhuthun hefyd yn falch o glywed y cynigir i ardaloedd gwledig cyfagos yn ne Sir Ddinbych i gael eu cynnwys o fewn sedd Dwyrain Clwyd erbyn hyn.

Yn olaf, credaf fod y dull enwi newydd a awgrymir ar gyfer y ddwy etholaeth yn synhwyrol ac yn briodol. Unwaith eto, rwy'n gwerthfawrogi'r ymdrechion y mae'r Comisiwn wedi'u gwneud yn hyn o beth.

Cofion cynnes,

Yn gywir,

[redacted]

**Dr James Davies MA MB BChir (Cantab)**
**Aelod Seneddol dros Ddyffryn Clwyd**

[redacted]

**BCW-10647 / [redacted] Plaid Werdd Cymru / Ceredigion**

Syr,

Fi yw'r swyddog a benodwyd yn ffurfiol i roi sylwadau ar ran Plaid Werdd Cymru am y broses newid ffiniau yr ydych yn ymgymryd â hi ar hyn o bryd, hoffwn gyflwyno'r sylwadau canlynol a gasglwyd o bob cwr o Gymru dros yr wythnosau diwethaf. Gwneir y sylwadau hyn yn enw'r bobl a enwir ac o'r ardaloedd a enwir.

[redacted] Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe: Gwrthwynebu

*Hoffwn wrthwynebu cynnwys wardiau Pontardawe (4,283), Trebanos (1,092) ac Alltwen (2,023) o Gastell-nedd Port Talbot yn yr etholaeth hon. Mae'r rhain i gyd yn rhannau o Gwm Nedd ac nid oes ganddyn nhw unrhyw gysylltiad mewn unrhyw ffordd â Brycheiniog a Maesyfed, felly galwaf arnyn nhw i gael eu dileu o'r etholaeth fel y cynigiwyd a'u rhoi yn yr etholaeth Gogledd Abertawe Ganolog arfaethedig.*

[redacted] Wrecsam: Gwrthwynebu, Gwrthgynnig

*Hoffwn wneud cais ffurfiol i wardiau Ponciau (3,521) ac Esclus (2,013) gael eu tynnu o etholaeth arfaethedig Sir Drefaldwyn a Glyndwr i etholaeth arfaethedig Wrecsam. Yn ôl fy nghyfrifo, bydd hyn yn lleihau'r etholaeth yn Sir Drefaldwyn a Glyndwr i 71,419 ac yn cynyddu'r etholaeth yn Wrecsam i 76,498 a fydd yn golygu y bydd y ddwy etholaeth â chworwm o hyd, yn fy nhyb i. Rwy'n gofyn am newid hyn i adlewyrchu'r ffaith bod gan y ddwy ward hyn fwy o gysylltiadau (yn ffisegol ac yn gymdeithasol) â Wrecsam na Thrallwng, Machynlleth a'r Drenewydd.*

[redacted] (cadeirydd Plaid Werdd Pen-y-bont ar Ogwr), Rhondda:

Gwrthwynebu, Gwrthgynnig

*Dymunaf weld ward Penprysg (2,474), Hendre (3,175) a Felindre (2,087) yn cael eu tynnu o etholaeth arfaethedig Rhondda a rhoi Penprysg yn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr (78,938) a Hendre a Felindre yn etholaeth Bro Morgannwg (75,688). Rwy'n derbyn ac yn deall y byddai hyn yn golygu na fydd cworwm ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn cadw cworwm ym Mro Morgannwg, ond hoffwn ddatgan bod Penprysg wedi bod yn rhan o Ben-y-bont ar Ogwr erioed ac nid oes ganddi gysylltiad â Rhondda o gwbl.*

[redacted] Sir Drefaldwyn: Gwrthwynebu

*Hoffwn gwyno am gynnwys wardiau Cefn (3,768), Gogledd Y Waun (1,846), De'r Waun (1,503), Esclus (2,013), Tre Ioan (2,461), Pant (1,528), Penycae (1,525), Penycae a De Rhiwabon (2,026), Plas Madog (2,078), Ponciau (3,521), Rhiwabon (2,078), Corwen (1,799), Llandrillo (931) a Glyn Ceiriog (1,685) yn etholaeth arfaethedig Sir Drefaldwyn a Glyndwr. Rwyf i o'r farn bod hyn yn ymosodiad ar hunaniaeth ddiwylliannol Sir Drefaldwyn, etholaeth nad yw wedi newid ers ei ffurfio ym 1918, dros ganrif yn ôl, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, mae wedi ethol y fath lu o wleidyddiaeth Cymru (Arglwydd Carlile 1983 - 1997, Emlyn Hooson 1962 - 1979, Clement Davies 1929 - 1962, David Davies 1906 - 1929, Stuart Rendel 1880 - 1894, William Herbert 1604 - 1640) y byddai cysylltu unrhyw beth â hi yn sarhad i*

*bobl y sir.*

Yn yr holl etholaethau arfaethedig eraill, ni chasglwyd unrhyw gwynion na gwrthgynigion mewn pryd rhwng agor yr ymgynghoriad a heddiw (9 Tachwedd 2022), felly wrth gloi, hoffwn ddiolch i'r Comisiwn am ei waith ac rwy'n gobeithio y bydd hawl ganddyn nhw gael saib ar ôl weithio i bob pwrpas bob dydd am y deng mlynedd diwethaf.

Yn gywir

[redacted]

Ceredigion

**BCW-10648 / [redacted] / Corwen**

Annwyl Syr,

Ymgynghoriad a chynigion diwygiedig ar gyfer ffiniau yng Nghymru.

Wrth edrych ar ddwysedd daearyddol a phoblogaeth etholaeth Sir Drefaldwyn a Glyndwr gofynnaf i chi ystyried y canlynol:

a. Mae diwylliant ardal Corwen yn wahanol iawn i fwyafrif yr etholaeth.
Mae Corwen yn ardal Cymraeg ei hiaith ac mae'r diwylliant yn wahanol iawn i ardaloedd yn agos i'r ffin â Lloegr.

b. Poblogaeth yr etholaeth Sir Drefaldwyn a Glyndwr arfaethedig yw rhyw 76000.
Poblogaeth Corwen yw rhan fawr o Sir Drefaldwyn a Glyndwr gyda rhyw 3000.

c. Poblogaeth Dwyfor Meirionnydd yw 29000

d. Mae amrywiaeth ddiwylliannol Dwyfor Meirionnydd yn fwy tebyg i ardal Corwen.

Hoffwn gynnig cynnwys ardal Corwen yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd.
Roedd gorffennol hanesyddol Corwen yn sir Meirionnydd.

Byddai hyn yn addasu poblogaeth Dwyfor Meirionnydd o 69000 i 72000, a fyddai'n fwy tebyg i ardaloedd eraill yng Nghymru.

Diolch yn fawr am eich ystyriaeth.

[redacted]

**BCW-10649 / [redacted] Cyngor Cymuned Rhosllannerchrugog / Wrecsam**

31. Wrecsam

Sylwadau a gafwyd gan aelodau Cyngor Cymuned Rhosllannerchrugog ynglŷn â'r cynnig i symud wardiau Pant / Ponciau / Rhos a Thre Ioan i Glyndwr / Trefaldwyn

Ysgogodd y newid i'r cynigion gwreiddiol a wnaed bryder a gofid sylweddol oddi wrth drigolion lleol, grwpiau cymunedol ac aelodau etholedig.

Cytunodd yr aelodau'n unfryd y dylai wardiau Cyngor Cymuned Rhos aros yn rhan o Wrecsam ac nid cael eu gwthio i etholaeth Glyndwr / Trefaldwyn er mwyn cyd-fynd â'r cyfyngiadau nifer penodedig ac maent wedi siomi y gwnaed addasiadau i hyn, a oedd yn gynnig addas a dealladwy yn ôl y farn unfryd.

Byddai'r cynnig hwn hefyd yn arwain at rannu ein ward etholiadol, sy'n ymddangos yn hurt ac yn hynod o annheg. Prin yw'r cysylltiad sydd gan Gyngor Cymuned Rhos â Glyndwr / Trefaldwyn, os o gwbl, byddai'r ardal yn eithriadol o fawr, gyda 4/5 etholaeth ar wahân, a theimlwyd y byddai cynrychiolaeth Cyngor Cymuned Rhos yn brin iawn yn y pen draw. Ni fyddai gan y gymuned unrhyw syniad o beth oedd yn digwydd yn yr etholaeth, a phrin fyddai gwybodaeth a dealltwriaeth ardaloedd eraill o beth oedd yn digwydd yn ein hardal ni.

Mae sawl Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn aelod o Gyngor Cymuned Rhos ac maent yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth ac eglurhad i'r aelodau am bethau sy'n digwydd yn yr etholaeth. Yn anffodus, byddai hyn yn cael ei golli a theimlir ei fod o fudd a phwysigrwydd mawr.

Mae gan ardal Rhos a'i wardiau gysylltiadau hynod agos â Wrecsam, yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol, i'w gwaith, digwyddiadau a phobl. Mae'r cyngor yn gweithio'n ar y cyd â Wrecsam yn rheolaidd, yn ogystal â'n trigolion eraill, wrth weithio yn yr ardal a'i mynychu.

Teimlai'r aelodau mai'r unig reswm y mae newidiadau wedi'u gwneud i'r cynigion gwreiddiol yw oherwydd gwrthwynebiadau gan Frynteg i symud i Sir y Fflint, a bod hyn wedi arwain at dynnu Rhos allan o Wrecsam.

Ochr yn ochr â hyn, mae aelodau a thrigolion lleol wedi eu siomi'n fawr ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth am y cynnig a'r newidiadau a wnaed i'r cynnig gwreiddiol.

## BCW-10650 / cynghorydd Bernard Gentry – Ceidwadwyr Ardal Gogledd Cymru / Anhysbys

Annwyl Gomisiwn,

Hoffai Ceidwadwyr Ardal Gogledd Cymru wneud y sylwadau canlynol ynghylch y cynigion ffiniau diwygiedig ar gyfer etholaethau newydd arfaethedig Gogledd Clwyd a Dwyrain Clwyd:

1. Rydym yn croesawu bod Bagillt a'r Fflint wedi cael eu symud o Ddwyrain Clwyd i Alun a Glannau Dyfrdwy.
2. Rydym yn croesawu bod New Brighton, Argoed a Choed-llai wedi aros yn Nwyrain Clwyd yn hytrach na'u symud i Alun a Glannau Dyfrdwy.
3. Rydym yn croesawu’r ffaith bod Llanfair DC a Llangollen bellach yn Nwyrain Clwyd, ochr yn ochr â Rhuthun.
4. Rydym yn croesawu’r enwau "Gogledd Clwyd" a "Dwyrain Clwyd" yn lle "Clwyd" a "Delyn"

Cynghorydd Bernard Gentry
Aelod Ceidwadol Cyngor Cymuned Llanaelhaearn
Dirprwy Gadeirydd Ceidwadwyr Gwleidyddol Gogledd Cymru
Dirprwy Gadeirydd Aelodaeth Ceidwadwyr Gogledd-orllewin Cymru
Is-lywydd Cymdeithas Geidwadol Vauxhall
Ysgrifennydd Trefniadol Cymdeithas Geidwadol Streatham

## BCW-10651 / [redacted] / Ystrad Meurig

Rwy’n gwrthwynebu’r newidiadau hyn i’r ffiniau am sawl rheswm. Yn gyntaf, rwyf i o’r farn bod lleihau nifer yr etholaeth ei hun yn groes i fudd Cymru. Byddai gostyngiad o'r fath yn cyfyngu amrywiaeth cynrychiolaeth Cymru yn y Senedd. Yn ail, mae’n debyg y bydd yr etholaeth newydd yn ardal rhy fawr i un AS ei gwasanaethu. Bydd yn rhaid i’r AS deithio pellteroedd hwy i gymorthfeydd lleol a bydd angen cynyddu nifer y rhain mae’n sicr, ac os na fydd eu nifer yn cynyddu, bydd ein gallu i gysylltu â’n AS yn dirywio oherwydd bydd gan yr AS ardal fwy i’w gwasanaethu a bydd yn treulio mwy o amser yn teithio. Ac yn drydydd, mae gan Geredigion wead cymdeithasol a gwleidyddol unigryw, a gallai cynrychiolaeth o’r elfen unigryw honno yn y Senedd ddod i ben wrth uno â Phreseli (er mwyn cyflawni cynrychiolaeth ‘gyfannol’ ledled y DU) a dylid cadw’r elfen unigryw hon er gwaethaf pob dim. Pe na cedwir amrywiaeth, bydd y Senedd yn mynd yn rhy homogenaidd, a gyda system etholiadol y cyntaf i’r felin, ni ddylid annog y fath homogeneiddio.

**BCW-10652 / [redacted] / Llangollen**

Syr/Madam
1. Rwy’n croesawu’r ffaith bod Bagillt a'r Fflint wedi’u symud o Ddwyrain Clwyd i Alun a Dyfrdwy.
2. Rwy’n croesawu’r ffaith bod New Brighton, Argoed a Choed-llai wedi’u cadw yn Nwyrain Clwyd yn lle’u symud i Alun a Dyfrdwy.
3. Rwy’n croesawu’r ffaith bod Llanfair DC a Llangollen yn Nwyrain Clwyd bellach, ochr yn ochr â Rhuthun.
4. Rwy’n croesawu’r ffaith bod Llandrillo-yn-Rhos wedi’i aduno â Bae Colwyn, yng Ngogledd Clwyd.
5. Rwy’n croesawu’r enwau "Gogledd Clwyd" a "Dwyrain Clwyd" yn lle "Clwyd" a "Delyn".
Cofion
[redacted]

[redacted]

**BCW-10653 / [redacted] / Dwyrain Clwyd**

Ar ôl gwneud sylwadau'n flaenorol am y newidiadau arfaethedig i ffiniau, roedd gen i ddiddordeb mewn gweld y cynigion diweddaraf.

Rwy'n adnabod yr ardal yn arbennig o dda. Cefais fy magu ym Mhrestatyn, roedd fy Mam yn athrawes gyflenwi mewn ysgolion ledled y rhanbarth, gweithiodd fy Nhad yn Y Parlwr Du ar ffordd yr arfordir, ac yn ogystal â'r brif addysg ym Mhrestatyn, astudiais un Lefel A yn Nhreffynnon. Felly mae gen i syniad da o sut mae'r cymunedau'n cyd-gysylltu.

Y newid pwysicaf yr ydych wedi'i wneud yw cael gwared â 'Delyn' ac enwau arfaethedig Gogledd Clwyd a Dwyrain Clwyd, ac rwy'n croesawu hyn yn fawr. Yn ogystal â bod yn rhesymegol, maen nhw hefyd yn rhai y gall y boblogaeth ar y cyfan uniaethu â nhw a theimlo cysylltiad â nhw.

O ran yr ardaloedd mwy penodol, dyma fy sylwadau:

Rwy'n cytuno'n llwyr bod Bagillt a'r Fflint wedi'u symud allan o Ddwyrain Clwyd ac i Alun a Dyfrdwy. Mae gan y Fflint yn arbennig gysylltiad enfawr â Glannau Dyfrdwy felly mae hyn yn gwneud synnwyr ar bob lefel. Mae'n dilyn, felly, fod New Brighton, Argoed a Choed-llai wedi'u cadw yn Nwyrain Clwyd yn lle'u symud i Alun a Dyfrdwy.

O ystyried natur a lleoliad daearyddol Rhuthun, roeddwn i'n hapus i weld bod Llanfair DC a Llangollen yn Nwyrain Clwyd bellach, ochr yn ochr â Rhuthun, mae'r rhain yn cyd-fynd yn gryf yn ddiwylliannol.

Pleser o'r mwyaf yw nodi bod Llandrillo-yn-Rhos wedi'i aduno â Bae Colwyn yng Ngogledd Clwyd. Byddai wedi bod yn warth gwirioneddol o weld y pâr naturiol hwn yn cael ei hollti.

Rwy'n gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir

[redacted]

**BCW-10654 / [redacted] / Llansantffraid**

[redacted]

I'r Comisiwn Ffiniau i Gymru

1 Tachwedd 2022

Nodwch fy nghefnogaeth i'r cynnig ffiniau terfynol ar gyfer cadw cymuned hanesyddol Sir Drefaldwyn yn etholaeth newydd ac ehangach Sir Drefaldwyn a Glyndŵr

Llofnodwy [redacted]

**BCW-10655 / [redacted] / Aberdâr**

Nid wyf i'n credu bod y gostyngiad arfaethedig yn nifer yr etholaethau yng Nghymru yn ddim mwy nag ymgais sinigaidd i leihau nifer yr ASau Llafur. Bydd yn lleihau cynrychiolaeth a hygyrchedd mewn ardal o amddifadedd economaidd.

**BCW-10656 / [redacted] / Llansantffraid**

[redacted]

I'r Comisiwn Ffiniau i Gymru

1 Tachwedd 2022

Nodwch fy nghefnogaeth i'r cynnig ffiniau terfynol ar gyfer cadw cymuned hanesyddol Sir Drefaldwyn yn etholaeth newydd ac ehangach Sir Drefaldwyn a Glyndwr.

Llofnodwyd [redacted]

[redacted]

**BCW-10657/ [redacted] / Dinbych**

A gaf i ddweud yn gyntaf, am her bron yn amhosibl yr ydych wedi'i hwynebu ac mor braf yw gweld corff cyhoeddus yn amlwg yn gwrando ar y pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad.
Mae symud Bagillt a'r Fflint allan o Ddwyrain Clwyd i Alun a Dyfrdwy yn amlwg yn gwneud synnwyr i'r bobl sy'n byw yno, a hefyd y cynnig i gadw New Brighton, Argoed a Choed-llai yn Nwyrain Clwyd.
Rwy'n siŵr mai cynnwys Llanfair DC a Llangollen yn Nwyrain Clwyd, ochr yn ochr â Rhuthun yw'r peth iawn i'w wneud yn llwyr o gofio'r ddaearyddiaeth a'r cysylltiadau masnach niferus rhwng yr ardaloedd hyn.
Ymddangosai'r syniad y gellid gwahanu Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn yn rhyfedd iawn o'r dechrau ac mae'r cynnig bellach i gadw Rhos yng Ngogledd Clwyd yn gwneud synnwyr perffaith.
Yn olaf, croesewir yr enwau "Gogledd Clwyd" a "Dwyrain Clwyd" yn lle "Clwyd" a "Delyn" yn fawr ac maen nhw'n gwneud llawer mwy o synnwyr i ni sy'n byw yma. Maen nhw'n disgrifio'r ardaloedd yn syth.
Diolch am eich cynigion diwygiedig sy'n lleddfu pryderon lleol yn fawr, a da iawn unwaith eto am fod yn barod i wrando a gweithredu. Byddai'n braf petai hyn yn arfer cyffredin ym mhob corff tebyg!
Yn gywir,
[redacted]

**BCW-10658 / [redacted] Cyngor Tref Y Rhyl / Y Rhyl**

Adolygiad Ffiniau Seneddol 2023

Yn ddiweddar, mae’r Cyngor Tref wedi ystyried y cynigion drafft diwygiedig a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori ac yn dymuno cyflwyno’r sylwadau canlynol ar ran etholaeth arfaethedig Gogledd Clwyd.

Bydd y cynnig yn arwain at wahanu trefi’r Rhyl a Phrestatyn i etholaethau etholiadol gwahanol gyda’r Rhyl yn dod yn rhan o etholaeth Gogledd Clwyd a Phrestatyn yn ymuno ag etholaeth ddiwygiedig Dwyrain Clwyd.

Nid yw aelodau Cyngor y Dref yn credu bod hyn yn briodol oherwydd y rhesymau canlynol:

Yn hanesyddol mae’r Rhyl a Phrestatyn wedi datblygu fel cyd-drefi gwyliau (sydd bob amser yn cael ei marchnata fel un gyrchfan) ac maent wedi cael eu lleoli o fewn yr un ardaloedd etholiadol a gweinyddol erioed. Mae’r trefi wedi cael eu cysylltu erioed ac maen nhw wedi dychwelyd yr un Aelod Seneddol erioed. Nid oes rhwystr glas na gwahaniad arall rhwng y ddau anheddiad trefol. Os bydd y cynigion yn mynd yn eu blaen yna, i bob pwrpas, bydd eiddo drws nesaf i’w gilydd yn ethol gwahanol Aelodau Seneddol. Mae’r Cyngor yn cyflwyno y bydd hyn yn creu dryswch ac anghyfleustra i etholwyr ac yn gwanhau/torri’r hunaniaeth/cysylltiadau presennol sydd wedi’u rhannu rhwng y cymunedau.

I orllewin y Rhyl, mae Afon Clwyd yn llifo i’r môr drwy’r Foryd. Mae’r afon hon wedi bod yn rhwystr naturiol rhwng y Rhyl a’r cymunedau i’r Gorllewin erioed. Hon hefyd yw ffin y llywodraeth leol bresennol. Drwy ymuno’r Rhyl tua’r gorllewin â chymunedau Bae Cinmel, Towyn, ac Abergele, bydd yr ymraniad naturiol hwn yn cael ei golli. Wrth fynd ymhellach i’r Gorllewin ni fu erioed gysylltiad ag ardal Bae Colwyn, a bydd y cynnig o bosibl yn creu etholaeth y mae’r Cyngor yn credu y bydd yn brin o gydlyniant cymunedol ac unrhyw berthynas rhwng etholwyr.

**BCW-10659 / [redacted] / De Clwyd**

Annwyl Gomisiynwyr,

Hoffem fynegi ein barn ar y cynigion a gyflwynwyd ar gyfer y ffiniau newydd sy'n effeithio ar yr hen Edeirnion (De Clwyd).

Maen nhw'n gwbl anhyfyw yn ein barn ni o ran budd a chydnawsedd â'r system wleidyddol. Rydym ni o'r farn y gallai'r cynigion presennol arwain at ddiffyg budd yn unig.

Nid oes bron i unrhyw gysylltiadau dyddiol rhwng yr ardal hon a'r Drenewydd, Trallwng a Machynlleth.
Rydym wedi'n gwahanu gan fynyddoedd y Berwyn ac mae'r rhyngweithio rhwng cymunedau ar y naill ochr o'r mynydd a'r llall yn brin iawn. Nid oes unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus rhwng y ddwy ardal.

Byddai'n rhaid i unrhyw un sy'n dymuno teithio i'r Drenewydd neu Trallwng ar drafnidiaeth gyhoeddus groesi ffin Cymru a Lloegr cyn dod yn ôl i Gymru.
Wrth gynnal arolwg bach o bobl leol, nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw un sydd wedi bod i'r Drenewydd neu Trallwng at ddiben penodol. Er bod llawer wedi teithio trwyddyn nhw ar eu fforddi Gaerdydd. (h.y. gemau rygbi).

A bod yn deg, mae ychydig mwy o gysylltiad â Machynlleth, ond mae'r daith hon hyd yn oed yn cynnwys teithio trwy etholaeth Dwyfor Meirionnydd am gryn bellter.

Hoffem nodi yma fod Undeb Amaethwyr Cymru wedi cadw eu cysylltiadau â Meirionnydd.

Y papur newydd lleol yw Pethe Penllyn sydd wedi'i leoli yn y Bala.
Mae plant yn mynd i'r Ysgol Uwchradd yn y Bala, Rhuthun a Llangollen.
Mae'r meddygfeydd teulu yng Nghorwen, Cerrigydrudion a'r Bala.

Wrth edrych ar y ffigurau poblogaeth rhwng Llandrillo and Glyndyfrdwy (yr hen Edeirnion) sef rhyw 3,000, byddai hyn yn hafalu'r niferoedd gofynnol rhwng yr etholaethau amrywiol i gyfateb bron yn berffaith.

Felly byddem yn awgrymu y byddai etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn opsiwn llawer tecach. Fodd bynnag, pe na bai'r opsiwn hwnnw'n dderbyniol, byddem yn awgrymu'n garedig mai etholaeth Aberconwy yw'r opsiwn gorau nesaf gan fod rhyngweithio o leiaf â Cherrigydrudion, Llanrwst a Llandudno.

O hyd
Yn gywir,

[redacted]

**BCW-10660 / [redacted] / Plasnewydd**

Helô,

Rwy'n ysgrifennu  yn dilyn cyhoeddi'r cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddydd Mercher 19 Tachwedd.

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â'r cynnig i symud ward Cathays i mewn i Dde Caerdydd a Phenarth.

Rwy'n gwrthwynebu'r symudiad hwn. Mae gan ward Cathays gysylltiad annatod â gweddill y wardiau yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown.

Dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol lle mae ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd ac mae ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac yn golygu mai dim ond dwy ward fydd yn symud o'u hetholaethau presennol, mewn cyferbyniad â'r pedair sy'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi dal yr un sedd Seneddol ers dros chwedeg mlynedd. Yn wir, yn ei adolygiadau blaenorol y rhoddwyd gorau iddynt ers 2010, nid yw'r Comisiwn erioed wedi ceisio gwahanu Cathays a Phlasnewydd.

Cafodd y Comisiwn un cyflwyniad (gan breswylydd yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn.

Cafodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (gan breswylwyr Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown o fewn cymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Rwy'n derbyn bod Trowbridge yn ward heb ffordd uniongyrchol i'r Sblot. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr union un sefyllfa o fewn ei

gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae degawdau o hanes yn gysylltiedig â’r Sblot a Trowbridge fel rhan o'r un etholaeth yn wahanol i'r ateb arfaethedig yn sedd newydd Rhondda.

Nid yw symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth wedi’i grybwyll fel opsiwn yn ystod y cynigion a’r prosesau ymgynghori blaenorol. Mae ei gyflwyno fel ‘fait accompli’ ar y cam olaf yn ymddangos yn annidwyll, ac nid yn yr un ysbryd â’r datganiad a wnaed gan Ysgrifennydd y Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau’r broses.
"Rydym yn benderfynol o ddatblygu’r cynigion gorau posibl ar gyfer etholaethau newydd yng Nghymru, a gwyddom mai’r unig ffordd y gallwn wneud hynny yw cynnwys y cyhoedd gymaint â phosibl." "Mae hygyrchedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru lais gwerthfawr i’w ychwanegu at y drafodaeth am newidiadau i ffiniau Cymru, ac rydym am sicrhau bod pawb yn gallu mynegi eu barn."

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae ei leoli o fewn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hollol wirion ac ni fydd yn hawdd i'r etholwyr ei ddeall. Fodd bynnag, mae gan Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown lawer o gysylltiadau cymunedol:

□ Mae mwyafrif llethol y boblogaeth myfyrwyr o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn ymestyn dros Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, gyda neuaddau preswyl yn agos yn Cathays a Phlasnewydd.
□ Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried bod wardiau Cathays a Phlasnewydd wedi’u cydblethu cymaint fel bod rheolau cynllunio wedi’u caniatáu i gwmpasu HMOs a byrddau asiantiaid gosod eiddo yn y ddwy ward hynny yn unig (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)
□ Mae dalgylch ysgol uwchradd Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.

- Mae plant ysgolion cynradd Cathays a Phlasnewydd yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (wedi'i lleoli ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (wedi'i lleoli yng Nghyncoed)
- Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed, yn golygu bod preswylwyr y tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath yng nghanol ardaloedd siopa Crwys Rd, Albany Rd a City Rd.
- Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir rhwng Cathays a Phlasnewydd yn hirsefydlog ac yn cael eu parchu'n gywir gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.
- Trefnir yr Eglwys yng Nghymru o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)
- Mae dalgylchoedd meddygfeydd meddygon teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac yn rhannu pryderon a demograffeg gyffredin.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Ar ôl darllen y dystiolaeth hon, gobeithio y bydd y Comisiwn yn awr yn gwrthdroi'r cynigion diwygiedig ac yn dychwelyd at y cynigion cychwynnol fel y'u cyhoeddwyd.

[redacted]

Preswylydd Ward Plasnewydd, Etholaeth Canol Caerdydd.

**BCW-10661 / [redacted] / Bangor**

Diolch am ffiniau newydd diwygiedig Bangor Aberconwy. Rwy'n hapus gweld bod ward Pentir wedi'i chynnwys ynghyd â wardiau eraill fel Mynydd Llandygai a Thregarth a dinas Bangor, sydd â chysylltiadau agos â ni. Mae hwn yn newid pwysig i sicrhau y bydd gennym yr un gynrychiolaeth yn Senedd y DU o ran ble rydym yn byw a ble mae llawer ohonom yn gweithio.

Rwyf hefyd yn cefnogi cynnwys wardiau gwledig Sir Ddinbych (beth ellid ystyried De Clwyd?) yn yr etholaeth hon. Mae hwn yn newid pwysig sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn amlwg yn yr etholaeth hon, a oedd mewn peryg o ddiflannu o dan y cynigion gwreiddiol.

Rwy'n cefnogi'r cynigion diwygiedig ar gyfer ffiniau newydd Bangor Aberconwy yn llwyr. Yr unig fân awgrym yw y dylid newid yr enw i 'Bangor ac Aberconwy' er mwyn dangos bod y rhain yn ddwy ardal ddaearyddol ar wahân.

**BCW-10662 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae trosglwyddo cymuned Pencoed i etholaeth Rhondda yn opsiwn hawdd ond wedi'i seilio ar sylfaen wael o rifau yn hytrach nag ymarferoldeb.
Mae cysylltiadau trafnidiaeth hynod o wael rhwng Pencoed a Rhondda a byddai'n fwy synhwyrol ychwanegu wardiau Cwm Ogwr at Etholaeth Rhondda gan eu bod yn ffinio â'r Etholaeth ac mae ganddyn nhw gysylltiadau trafnidiaeth well â hi.
Mae gan gymunedau'r Cymoedd gysylltiadau diwylliannol a hanesyddol cryf o ganlyniad i'w gorffennol yn y pyllau glo, ond mae gan Bencoed gysylltiadau diwylliannol, hanesyddol ac economaidd llawer agosach â'r Trefi a'r cymunedau yn yr Etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr newydd a dylai barhau yn yr etholaeth honno yn unol â'r cynnig gwreiddiol.

**BCW-10663 / [redacted] / Abertawe**

Byddai'r newid arfaethedig i'r ffiniau yn gosod y rhan hon o Gwm Tawe mewn etholaeth nad oes gan yr ardal fawr ddim yn gyffredin â hi mewn perthynas â defnydd tir a demograffeg hanesyddol a phresennol. Mae hon yn ardal ôl-ddiwydiannol a chredaf na fyddai buddiannau'r trigolion yn cael eu cynrychioli'n dda yn yr etholaeth newydd arfaethedig, sy'n amaethyddol i raddau helaeth o ran defnydd tir. Mae hwn yn gynnig sydd heb ei ystyried yn briodol, a chredaf y dylid ei wrthwynebu'n gryf.

**BCW-10664 / [redacted] / Caerdydd**

Ysgrifennaf yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddydd Mercher 19 Hydref.

Ysgrifennaf ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth.

Rwy'n gwrthwynebu'r symudiad hwn. Mae ward Cathays wedi'i chysylltu'n agos â'r wardiau eraill yng nghymuned ehangach y Rhath, sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown.

Fel llawer o breswylwyr Cathays, mae gennyf gysylltiadau cryf â chymunedau cyfagos y Rhath, yn wahanol i gymunedau De Caerdydd a Phenarth. Rwy'n gweithio ym Mhlasnewydd, yn siopa ym Mhlasnewydd, mae fy meddygon wedi'u lleoli ym Mhlasnewydd ac yn y ward hon a'r wardiau cyfagos y mae fy nghysylltiadau cymunedol.

Mae arolwg y Comisiwn yn nodi bod "ward etholiadol Cathays yn ward dra phoblog a chysylltiedig sydd â chysylltiadau da â'r wardiau i'r de, ac felly mae'n briodol yn rhan o etholaeth De Caerdydd a Phenarth." Dyma'r unig resymeg a gyflwynwyd i esbonio'r penderfyniad, ond mae'n sylfaenol ddiffygiol.

1. Mae'r ffaith ei bod yn dra phoblog yn ymddangos yn amherthnasol i'r penderfyniad. Nid yw'r arolwg yn crybwyll unrhyw ardal arall fel un tra phoblog fel esboniad ar gyfer penderfyniad. Mae wardiau eraill yn y ddinas sy'n dra phoblog, felly nid yw hyn yn rhoi unrhyw sail resymegol i'r penderfyniad, a dim ond sylw ydyw. Byddai'r ward bellach yn cael ei chynnwys mewn etholaeth â wardiau sy'n dra gwahanol, ac o natur fwy gwledig a llai poblog.

2. Sonnir am gysylltiadau cryf â'r wardiau i'r de, ac eto ni chyflwynir unrhyw dystiolaeth i gadarnhau hyn. Nid oes gan Cathays gysylltiadau cymunedol â Butetown a'r Sblot, fel y nodir yn fanylach isod. Yn wir, mae edrych ar fap o'r etholaeth arfaethedig yn dangos pa mor fach yw'r ffin â'r wardiau i'r de, gyda phriffyrdd a rheilffyrdd yn creu cymunedau ar wahân.

Rwy'n credu'n gryf y dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol, sef cynnwys ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd, a chynnwys ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac mae'n golygu mai dim ond dwy ward sy'n symud o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na'r pedair a gaiff eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi'u cadw o fewn yr un sedd Seneddol ers dros 60 mlynedd. Yn wir, yn ei arolygon blaenorol ers 2010 na weithredwyd, nid oedd y Comisiwn erioed wedi ceisio gwahanu Cathays oddi wrth Blasnewydd.

Derbyniodd y Comisiwn un cyflwyniad (gan breswylydd yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn.

Derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (gan breswylwyr yng Nghaerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown o fewn cymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Derbyniaf fod Trowbridge yn ward heb fynediad ffordd uniongyrchol i'r Sblot. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr union un sefyllfa yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae gan y Sblot a Trowbridge ddegawdau o hanes fel rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r datrysiad arfaethedig ar gyfer sedd newydd Rhondda.

Ni chrybwyllwyd symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth fel opsiwn mewn cynigion a phrosesau ymgynghori blaenorol. Mae cyflwyno hyn fel 'fait accompli' yn y cam olaf yn ymddangos yn annidwyll, ac yn groes i ysbryd y datganiad a wnaed gan Ysgrifennydd y Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau'r broses. "Rydym yn benderfynol o ddatblygu'r argymhellion gorau posibl ar gyfer etholaethau newydd Cymru, a gwyddom mai'r unig ffordd o sicrhau hynny yw denu'r cyfranogiad cyhoeddus mwyaf rydym erioed wedi ei gael." "Mae hygyrchedd wrth galon beth rydym yn ceisio'i gyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru lais hollbwysig i'w ychwanegu i'r sgwrs am ffiniau etholaethol Cymru, ac rydym am i bawb yng Nghymru gael cyfle i ddatgan eu barn."

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae gosod y ward yn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hollol hurt ac ni fydd etholwyr yn deall hyn yn hawdd. Fodd bynnag, mae gan Cathays lawer o gysylltiadau cymunedol â Phlasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown:

• Mae mwyafrif llethol y boblogaeth myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn wedi'u lleoli yn Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, a lleolir y neuaddau preswyl gerllaw yn Cathays a Phlasnewydd.
• Mae Cyngor Caerdydd o'r farn bod wardiau Cathays a Phlasnewydd wedi'u cydblethu gymaint fel bod rheolau cynllunio wedi'u pasio â'r unig nod o ymdrin â thai amlfeddiannaeth a byrddau asiantaethau gosod tai yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)
• Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.
• Mae'r plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays a Phlasnewydd yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Ysgol Bro Edern (a leolir ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (a leolir yng Nghyncoed).
• Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn golygu bod preswylwyr y tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o amgylch ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Ddinas.
• Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir gan Cathays a Phlasnewydd yn hirsefydlog ac fe'u parchwyd yn briodol yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn.
• Trefnir yr Eglwys yng Nghymru o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)
• Mae dalgylchoedd meddygfeydd teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays,

Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac maent yn ymwneud â'r un pryderon a demograffeg gyffredin.

Diolch i chi am ddarllen y cyflwyniad hwn. Rwy'n gobeithio, ar ôl darllen y dystiolaeth hon, y bydd y Comisiwn yn gwrthdroi'r cynigion diwygiedig ac yn dychwelyd i'r cynigion cychwynnol fel y'u cyhoeddwyd.

**BCW-10665 / [redacted] / Pont-y-pŵl**

Mae’r cynnig i wneud Croesyceiliog a Llanyrafon yn rhan o Dorfaen yn gwneud synnwyr. Fodd bynnag, hoffwn gael Gwent fel yr enw. Mae arwyddocâd hanesyddol yn perthyn i’r enw Gwent, ond nid yw Torfaen yn golygu unrhyw beth ac nid yw unrhyw un yn gwybod sut i’w ynganu, gan gynnwys llawer o’r bobl sy’n byw yma!

**BCW-10666 / [redacted] / Pencoed**

Rwy’n byw yn nhref Pencoed ac yn gwrthwynebu, yn y ffordd gryfaf posibl, cynnwys y dref yn etholaeth seneddol newydd arfaethedig Rhondda. Yn ogystal, rwyf o’r farn bod yr amserlen a roddwyd ar gyfer cyflwyno’r safbwyntiau hyn, ar fater hanfodol bwysig sy’n effeithio ar ddyfodol y dref rwy’n byw ynddi, yn gwbl annigonol ac annerbyniol. Os oes awydd difrifol i gael barn onest, ystyriol ac agored gan unigolion, grwpiau a sefydliadau ar y newid arfaethedig hwn, dylid bod wedi neilltuo llawer mwy o amser. Nid oedd yr un o’r cynigion blaenorol wedi awgrymu cynnwys Pencoed o fewn ffiniau Rhondda, felly mae gweld y newid enfawr hwn a awgrymir yn sioc ac yn syndod llwyr.

Ers dros ganrif, mae pobl Pencoed wedi uniaethu â Phen-y-bont ar Ogwr ac nid â Rhondda, ac yn wir ein tref bost yw Pen-y-bont ar Ogwr. Mae un o gampysau Coleg Penybont, sy’n uchel ei barch, wedi’i leoli yn y dref. Mae digonedd o dystiolaeth yn dangos bod ein hysgolion yn rhyngweithio â’u cymheiriaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn hytrach na Rhondda.

Mae’n rhaid mai sicrhau sefydlogrwydd economaidd a diwylliannol cymunedau ddylai fod yn sail i’r rhesymeg y tu ôl i unrhyw newidiadau i ffiniau, ond mae’n gwbl afresymol cysylltu Pencoed â Rhondda drwy Gilfach Goch gyda’r llain deneuaf o dir a heb unrhyw gysylltiadau ar gyfer cerbydau. Nid oes unrhyw gysylltiadau uniongyrchol o Bencoed i’r etholaeth newydd, ar reilffordd neu ar y ffyrdd.

Wrth ystyried y map o’r newidiadau arfaethedig i’r ffiniau, mae’n amlwg mai’r ateb llawer symlach a mwy dichonadwy fyddai gosod Cwm Ogwr yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na Phencoed, yn Rhondda gan fod llawer mwy o gysylltiadau rhwng Cwm Ogwr â Rhondda gan gynnwys dwy ffordd ar wahân, sef yr A4061 a’r A4093, sy’n cysylltu’r cwm yn uniongyrchol ag etholaeth Rhondda. Hefyd, mae Cwm Ogwr yn rhannu ffin ar ei holl ochr ddwyreiniol â Rhondda. Yn ogystal, mae cymunedau Cwm Ogwr, h.y. Nant-y-moel, Bro Ogwr, a Melin Ifan Ddu, â llawer mwy yn gyffredin na Phencoed â chymunedau Rhondda, yn economaidd ac yn ddiwylliannol.

# Rhondda




© Crown copyright and database rights [2022] OS [100047875]

**BCW-10667 / [redacted] / Pencoed**

At: Y Comisiwn Ffiniau

Rwy'n byw yn nhref Pencoed ac yn gwrthwynebu, yn y ffordd gryfaf posibl, cynnwys y dref yn etholaeth seneddol newydd arfaethedig Rhondda. Yn ogystal, rwyf o'r farn bod yr amserlen a roddwyd ar gyfer cyflwyno'r safbwyntiau hyn, ar fater hanfodol bwysig sy'n effeithio ar ddyfodol y dref rwy'n byw ynddi, yn gwbl annigonol ac annerbyniol. Os oes awydd difrifol i gael barn onest, ystyriol ac agored gan unigolion, grwpiau a sefydliadau ar y newid arfaethedig hwn, dylid bod wedi neilltuo llawer mwy o amser. Nid oedd yr un o'r cynigion blaenorol wedi awgrymu cynnwys Pencoed o fewn ffiniau Rhondda, felly mae gweld y newid enfawr hwn a awgrymir yn sioc ac yn syndod llwyr. Ers dros ganrif, mae pobl Pencoed wedi uniaethu a Phen-y-bont ar Ogwr ac nid a Rhondda, ac yn wir ein tref best yw Pen-y-bont ar Ogwr. Mae un o gampysau Coleg Penybont, sy'n uchel ei barch, wedi'i leoli yn y dref. Mae digonedd o dystiolaeth yn dangos bod ein hysgolion yn rhyngweithio a'u cymheiriaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn hytrach na Rhondda.
Mae'n rhaid mai sicrhau sefydlogrwydd economaidd a diwylliannol cymunedau ddylai fod yn sail i'r rhesymeg y tu 61 i unrhyw newidiadau i ffiniau, ond mae'n gwbl afresymol cysylltu Pencoed a Rhondda drwy Gilfach Goch gyda'r llain deneuaf o dir a heb unrhyw gysylltiadau ar gyfer cerbydau. Nid oes unrhyw gysylltiadau uniongyrchol o Bencoed i'r etholaeth newydd, ar reilffordd neu ar y ffyrdd.

Wrth ystyried y map o'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau, mae'n amlwg mai'r ateb llawer symlach a mwy dichonadwy fyddai gosod Cwm Ogwr yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na Phencoed, yn Rhondda gan fod llawer mwy o gysylltiadau rhwng Cwm Ogwr a Rhondda gan gynnwys dwy ffordd ar wahan, sef yr A4061 a'r A4093, sy'n cysylltu'r cwm yn uniongyrchol ag etholaeth Rhondda. Hefyd, mae Cwm Ogwr yn rhannu ffin ar ei hell ochr ddwyreiniol a Rhondda. Yn ogystal, mae cymunedau Cwm Ogwr, h.y. Nant-y-moel, Bro Ogwr, a Melin Ifan Ddu, a llawer mwy yn gyffredin na Phencoed a chymunedau cyfagos yn Rhondda, yn economaidd ac o ran treftadaeth a diwylliant.

Mae preswylwyr Pencoed yn cael eu targedu unwaith eto oherwydd gwleidyddiaeth y wlad hon, er anfantais iddynt. Yn sicr, ni wnaed y penderfyniad hwn er buddy bobl yn ein tref. Fel preswylydd, rwy'n gwrthwynebu'n bersonol am yr hell resymau a nodir ac rwyf o'r farn mai ffolineb llwyr fyddai gwneud y newidiadau hyn.

Hyderaf y byddwch yn rhoi'r ystyriaeth y mae'n ei haeddu i hyn.

Cofion [redacted]

[redacted]

**BCW-10669 / [redacted] / Hwlffordd**

Mae hynny'n edrych yn llawer mwy synhwyrol na'r arswyd cynharaf pan gawsom ein gwahanu oddi wrth ein prif dref. Bellach, gwelaf yr ardal lle'r ydym, i raddau helaeth, yn byw, yn siopa ac yn defnyddio gwasanaethau.

**BCW-10670 / [redacted] / Caerdydd**

# Gweler fy ngwrthwynebiadau yn erbyn gosod Cathays y tu allan i’r ffiniau arfaethedig ar gyfer etholaeth newydd Dwyrain Caerdydd.

[redacted]

10 Tachwedd 2022

I BWY BYNNAG A FYNNO WYBOD

Ysgrifennaf yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru <u>ddydd Mercher 19 Tachwedd</u>.

Ysgrifennaf ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth.

Rwy’n gwrthwynebu’r symudiad hwn. Mae ward Cathays wedi’i chysylltu’n agos â’r wardiau eraill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown.

Dylai’r Comisiwn ddychwelyd i’r cynnig gwreiddiol, sef cynnwys ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd, a chynnwys ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Mae’r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac mae’n golygu mai dim ond dwy ward sy’n symud o’u hetholaethau presennol, yn hytrach na’r pedair a gaiff eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi’u cadw o fewn yr un sedd Seneddol ers dros 60 mlynedd. Yn wir, yn ei arolygon blaenorol ers 2010 na weithredwyd, nid oedd y Comisiwn erioed wedi ceisio gwahanu Cathays oddi wrth Blasnewydd.

Derbyniodd y Comisiwn un cyflwyniad (gan breswylydd yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn.

Derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (gan breswylwyr yng Nghaerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown o fewn cymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Derbyniaf fod Trowbridge yn ward heb fynediad ffordd uniongyrchol i'r Sblot. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr union un sefyllfa yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae gan y Sblot a Trowbridge ddegawdau o hanes fel rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r datrysiad arfaethedig ar gyfer sedd newydd Rhondda.

Ni chrybwyllwyd symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth fel opsiwn mewn cynigion a phrosesau ymgynghori blaenorol. Mae cyflwyno hyn fel 'fait accompli' yn y cam olaf yn ymddangos yn annidwyll, ac yn groes i ysbryd y datganiad a wnaed gan Ysgrifennydd y Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau'r broses.
"Rydym yn benderfynol o ddatblygu'r argymhellion gorau posibl ar gyfer etholaethau newydd Cymru, a gwyddom mai'r unig ffordd o sicrhau hynny yw denu'r cyfranogiad cyhoeddus mwyaf rydym erioed wedi ei gael." "Mae hygyrchedd wrth galon beth rydym yn ceisio'i gyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru lais hollbwysig i'w ychwanegu i'r sgwrs am ffiniau etholaethol Cymru, ac rydym am i bawb yng Nghymru gael cyfle i ddatgan eu barn."

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae gosod y ward yn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hollol hurt ac ni fydd etholwyr yn deall hyn yn hawdd. Fodd bynnag, mae gan Cathays lawer o gysylltiadau cymunedol â Phlasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown:

- Mae mwyafrif llethol y boblogaeth myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn wedi'u lleoli yn Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, a lleolir y neuaddau preswyl gerllaw yn Cathays a Phlasnewydd.
- Mae Cyngor Caerdydd o'r farn bod wardiau Cathays a Phlasnewydd wedi'u cydblethu gymaint fel bod rheolau cynllunio wedi'u pasio â'r unig nod o ymdrin â thai amlfeddiannaeth a byrddau asiantaethau gosod tai yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)
- Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.
- Mae'r plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays a Phlasnewydd yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Ysgol Bro Edern (a leolir ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (a leolir yng Nghyncoed).
- Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn golygu bod preswylwyr y tair ward etholiadol yn

ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o amgylch ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Ddinas.

- Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir gan Cathays a Phlasnewydd yn hirsefydlog ac fe'u parchwyd yn briodol yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn.
- Trefnir yr Eglwys yng Nghymru o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)
- Mae dalgylchoedd meddygfeydd teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac maent yn ymwneud â'r un pryderon a demograffeg gyffredin.

Diolch i chi am ddarllen y cyflwyniad hwn. Rwy'n gobeithio, ar ôl darllen y dystiolaeth hon, y bydd y Comisiwn yn gwrthdroi'r cynigion diwygiedig ac yn dychwelyd i'r cynigion cychwynnol fel y'u cyhoeddwyd.

[redacted]

**BCW-10671 / [redacted] / Pencoed**

At: Y Comisiwn Ffiniau
Rwy’n byw yn nhref Pencoed ac yn gwrthwynebu, yn y ffordd gryfaf posibl, cynnwys y dref yn etholaeth seneddol newydd arfaethedig Rhondda. Yn ogystal, rwyf o’r farn bod yr amserlen a roddwyd ar gyfer cyflwyno’r safbwyntiau hyn, ar fater hanfodol bwysig sy’n effeithio ar ddyfodol y dref rwy’n byw ynddi, yn gwbl annigonol ac annerbyniol. Os oes awydd difrifol i gael barn onest, ystyriol ac agored gan unigolion, grwpiau a sefydliadau ar y newid arfaethedig hwn, dylid bod wedi neilltuo llawer mwy o amser. Nid oedd yr un o’r cynigion blaenorol wedi awgrymu cynnwys Pencoed o fewn ffiniau Rhondda, felly mae gweld y newid enfawr hwn a awgrymir yn sioc ac yn syndod llwyr. Ers dros ganrif, mae pobl Pencoed wedi uniaethu â Phen-y-bont ar Ogwr ac nid â Rhondda, ac yn wir ein tref bost yw Pen-y-bont ar Ogwr. Mae un o gampysau Coleg Penybont, sy’n uchel ei barch, wedi’i leoli yn y dref. Mae digonedd o dystiolaeth yn dangos bod ein hysgolion yn rhyngweithio â’u cymheiriaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn hytrach na Rhondda.
Mae’n rhaid mai sicrhau sefydlogrwydd economaidd a diwylliannol cymunedau ddylai fod yn sail i’r rhesymeg y tu ôl i unrhyw newidiadau i ffiniau, ond mae’n gwbl afresymol cysylltu Pencoed â Rhondda drwy Gilfach Goch gyda’r llain deneuaf o dir a heb unrhyw gysylltiadau ar gyfer cerbydau. Nid oes unrhyw gysylltiadau uniongyrchol o Bencoed i’r etholaeth newydd, ar reilffordd neu ar y ffyrdd.
Wrth ystyried y map o’r newidiadau arfaethedig i’r ffiniau, mae’n amlwg mai’r ateb llawer symlach a mwy dichonadwy fyddai gosod Cwm Ogwr yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na Phencoed, yn Rhondda gan fod llawer mwy o gysylltiadau rhwng Cwm Ogwr â Rhondda gan gynnwys dwy ffordd ar wahân, sef yr A4061 a’r A4093, sy’n cysylltu’r cwm yn uniongyrchol ag etholaeth Rhondda. Hefyd, mae Cwm Ogwr yn rhannu ffin ar **ei holl ochr ddwyreiniol** â Rhondda. Yn ogystal, mae cymunedau Cwm Ogwr, h.y. Nant-y-moel, Bro Ogwr, a Melin Ifan Ddu, â llawer mwy yn gyffredin na Phencoed â chymunedau cyfagos Rhondda, o ran economi, treftadaeth a diwylliant.

Hyderaf y byddwch yn rhoi’r ystyriaeth y mae’n ei haeddu i hyn.

Cofion
[redacted]

# Rhondda




© Crown copyright and database rights [2022] OS [100047875]

**BCW-10672 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Dymunaf aros o fewn ffiniau Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer popeth, dyma ein Bwrdeistref Sirol ac ni ddylid ei newid.

**BCW-10673 / [redacted] / Dinbych-y-pysgod**

A bod yn onest, rwy'n corddi dros hyn.
Unwaith eto, mae hunaniaeth Sir Benfro yn cael ei chwtogi’n barhaus. Am ba reswm, yn sicr nid er lles y preswylwyr. Os bydd hyn yn mynd yn ei flaen, mae’n amlwg y bydd yn digwydd yn groes i’n dymuniadau, gan ein sathru eto. Rwy’n amau o ddifrif pam yr ydych yn rhoi’r bleidlais i ni o gwbl, gan mai jôc yw’r holl ymgynghoriadau hyn, fel y’u gelwir.

**BCW-10674 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Ysgrifennaf i fynegi fy siom llwyr ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau seneddol ar gyfer Pencoed.
Rwy'n byw yn nhref Pencoed ac yn gwrthwynebu, yn y ffordd gryfaf posibl, cynnwys y dref yn etholaeth seneddol newydd arfaethedig Rhondda.
Yn ogystal, rwyf o'r farn bod yr amserlen a roddwyd ar gyfer cyflwyno'r safbwyntiau hyn, ar fater hanfodol bwysig sy'n effeithio ar ddyfodol y dref rwy'n byw ynddi, yn gwbl annigonol ac annerbyniol.
Os oes awydd difrifol i gael barn onest, ystyriol ac agored gan unigolion, grwpiau a sefydliadau ar gynnig o'r fath, dylid bod wedi neilltuo llawer mwy o amser.
Nid oedd yr un o'r cynigion blaenorol wedi awgrymu cynnwys Pencoed o fewn ffiniau Rhondda, felly mae gweld y newid enfawr hwn a awgrymir yn sioc ac yn syndod llwyr.

Ers dros ganrif, mae pobl Pencoed wedi uniaethu â Phen-y-bont ar Ogwr ac nid â Rhondda, ac yn wir ein tref bost yw Pen-y-bont ar Ogwr.
Mae un o gampysau Coleg Penybont, sy'n uchel ei barch, wedi'i leoli yn y dref, ac mae digonedd o dystiolaeth gan ein hysgolion sy'n eu bod yn rhyngweithio â'u cymheiriaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn hytrach na Rhondda.

Mae'n rhaid mai sicrhau sefydlogrwydd economaidd a diwylliannol cymunedau ddylai fod yn sail i'r rhesymeg y tu ôl i unrhyw newidiadau i ffiniau, ond mae'n gwbl afresymol cysylltu Pencoed â Rhondda drwy Gilfach Goch gyda'r llain deneuaf o dir a heb unrhyw gysylltiadau ar gyfer cerbydau.
Nid oes unrhyw gysylltiadau uniongyrchol o Bencoed i'r etholaeth newydd, ar reilffordd neu ar y ffyrdd.

Mae hyn yn cyferbynnu ag agosrwydd Pencoed at dref Pen-y-bont ar Ogwr, a'r cysylltiadau o ran ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, y berthynas gref â'r dref a gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau masnachol a rennir a chysylltiadau cyffredin ag amrywiaeth o gymunedau ffydd lleol.

Wrth ystyried y map o'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau, mae'n amlwg mai'r ateb llawer symlach a mwy dichonadwy fyddai gosod Cwm Ogwr yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na Phencoed, yn Rhondda gan fod llawer mwy o gysylltiadau rhwng Cwm Ogwr â Rhondda gan gynnwys dwy ffordd ar wahân, sef yr A4061 a'r A4093, sy'n cysylltu'r cwm yn uniongyrchol ag etholaeth Rhondda. Hefyd, mae Cwm Ogwr yn rhannu ffin ar ei holl ochr ddwyreiniol â Rhondda.
Yn ogystal, mae cymunedau Cwm Ogwr, h.y. Nant-y-moel, Bro Ogwr, a Melin Ifan Ddu, â llawer mwy yn gyffredin na Phencoed â chymunedau cyfagos yn Rhondda, o ran economi, treftadaeth a diwylliant.

Hyderaf y byddwch yn rhoi'r ystyriaeth y mae'n ei haeddu i hyn.

[redacted]

## BCW-10675 / Cyng Andrew Davies / Llangadog

Cysylltaf â chi i fynegi fy ngwrthwynebiad i'r newidiadau arfaethedig yr ydych yn eu cynnig i ffiniau etholiadol Cymru. Yn gyntaf, yr wyf yn gweld hyn fel erydiad sylweddol yn ein llais Cymreig yn San Steffan. Wrth reswm, golyga llai o Aelodau Seneddol yn eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin lai o lais i bobl Cymru, a thrwy hynny ergyd i ddemocratiaeth.
Yn ail, nid wyf am weld erydiad i ffiniau gogleddol etholaeth Caerfyrddin (*arfaethedig*), gan 'gyfrannu' i Ceredigion. Nid oes cyfiawnhad i hyn, ac ardaloedd yn perthyn i Sir Gaerfyrddin ydynt.
Yn gywir,
Cyng. Andrew Davies
(Cynghorydd Sir dros ward Llangadog, Cyngor Sir Caerfyrddin).

## BCW-10676 / Cyng. Arwel Davies / Sir Gaerfyrddin

Bore da

Cyfeiriaf at y cais i ymgynghori ar Gynigion Diwygiedig yr Arolwg Seneddol a hoffwn ddatgan fel a ganlyn.

Cefnogaf yr arolwg diweddaraf o’r ffiniau ar gyfer Caerfyrddin ond teimlaf y byddai’r cynnig a gyflwynwyd i gynnwys 3-4 ward ogleddol yn etholaeth Ceredigion yn achosi llawer o ddryswch ymhlith etholwyr. Er enghraifft, mae Cynwyl Gaeo bellach yn rhan o ward Cil-y-cwm ers yr arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Gaerfyrddin/ adroddiad argymhellion terfynol y Comisiwn Ffiniau i Gymru, ym mis Awst 2019.

Nid oes gan breswylwyr pentrefi Cil-y-cwm, Llanwrda a Llansadwrn a’r cyffiniau unrhyw gysylltiad â Cheredigion.

Cofion cynnes

Arwel Davies, Cynghorydd Sir

## BCW-10677 / [redacted] / Anhysbys

Annwyl Syr neu Fadam,

Mae’n ymddangos bod y cynigion diwygiedig wedi’u hystyried yn ofalus. Yn benodol, mae trosglwyddo’r Fflint a Bagillt i’r etholaeth i’r dwyrain iddynt yn gynnig gwell, a byddai’r enw Dwyrain Clwyd yn hytrach na Delyn yn deitl gwell.

[redacted]

**BCW-10678 / Kevin Brennan AS / Caerdydd**

Ymateb Kevin Brennan AS i Gynigion Diwygiedig Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru:

Croesawaf yn gryf y penderfyniad gan y Comisiwn i gadw ei gynnig cychwynnol ar gyfer etholaeth Gorllewin Caerdydd sy’n ymwneud â chynnwys Pont-y-clun. Oherwydd datblygiadau tai sylweddol yng ngogledd-orllewin y ddinas, bydd ward Pont-y-clun yn datblygu cysylltiadau lleol cryfach ag etholaeth bresennol Gorllewin Caerdydd. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod holl sedd Gorllewin Caerdydd fel y mae ar hyn o bryd i’r gorllewin o Afon Taf yn cael ei chadw.

Yn ogystal, croesawaf y ffaith bod y Comisiwn wedi gwrthod gwrthgynigion gan y Blaid Geidwadol, y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru yn ogystal â chynnig y Comisiynydd Cynorthwyol. Byddai pob un o’r rhain wedi cynnwys wardiau i’r dwyrain o Afon Taf, yn anesboniadwy, yn etholaeth Gorllewin Caerdydd, a/neu’n cynnwys wardiau i’r gorllewin o’r afon mewn etholaethau i’r dwyrain iddi, gan anwybyddu cysylltiadau cymunedol a chysylltiadau trafnidiaeth sefydledig.

Cyfeiriaf at fy ymateb i’r ymgynghoriad blaenorol, sydd wedi’i gynnwys isod, am wrthwynebiadau manylach i’r gwrthgynigion y cyfeirir atynt uchod.

Mae cynigion cychwynnol y Comisiwn yn llwyddo i gynnal parhad, cysylltiadau cymunedol a ffiniau daearyddol etholaeth bresennol Gorllewin Caerdydd i’r graddau mwyaf posibl.

BCW-10179/ Kevin Brennan AS/ Caerdydd

Ymateb y Comisiwn Ffiniau i’r Gwrthgynigion ar gyfer Gorllewin Caerdydd

Cynnig y Ceidwadwyr Cymreig

Dymunaf fynegi fy ngwrthwynebiad yn y ffordd gryfaf bosibl i’r gwrthgynnig gan y Ceidwadwyr Cymreig mewn perthynas ag etholaeth Gorllewin Caerdydd.

Mae’r gwrthgynnig hwn yn awgrymu (heb unrhyw ymresymiad cymhellol amlwg) hepgor ward Riverside, sydd wedi’i lleoli i’r gorllewin o afon Taf, o etholaeth Gorllewin Caerdydd. Mae hefyd yn cynnig ychwanegu Ystum Taf, sydd ar ochr ddwyreiniol afon Taf, at etholaeth Gorllewin Caerdydd.

Mae'n anodd dirnad unrhyw resymeg yn y cynigion hyn o gymharu â chynnig cychwynnol y Comisiwn, sy'n bodloni meini prawf rheol 5 o ran etholaethau presennol ac ystyriaethau daearyddol wrth gadw holl sedd bresennol Gorllewin Caerdydd sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin o afon Taf.

Mae'r Comisiwn yn ychwanegu Pont-y-clun at ran ogledd-orllewinol yr etholaeth lle mae nifer sylweddol o ddatblygiadau tai newydd ar waith, sy'n cryfhau cysylltiadau lleol rhwng Gorllewin Caerdydd a Phont-y-clun.

Mewn gwirionedd, mae ward Riverside yn wahanol iawn o ran cymeriad i ganol y ddinas, sydd i'r dwyrain o afon Taf. Mae canol y ddinas yn cynnwys eiddo masnachol yn bennaf (siopau, bwytai, bariau, swyddfeydd, y stadiwm, y castell, yr orsaf reilffordd ac ati) a rhai fflatiau.

Mae ward Riverside yn ardal breswyl yn bennaf, ac er gwaethaf ei henw, mae'n ymestyn ymhell o gyffiniau uniongyrchol yr afon. Mae de Riverside yn un o ardaloedd mwyaf amrywiol Cymru, mae ganddi gysylltiadau lleol agos iawn â ward gyfagos Treganna, ac mae ardal siopa leol Heol Ddwyreiniol y Bont-faen (sydd hefyd yn brif lwybr bysiau) yn ffurfio asgwrn cefn sy'n cysylltu'r ddwy ward.

Mae'r rhan fwyaf o bobl leol yn gwneud eu siopa ar hyd Heol y Bont-faen yn hytrach nag yng nghanol y ddinas. Mewn gwirionedd, mae ward Riverside yn cwmpasu rhannau helaeth o'r ardal y byddai'r rhan fwyaf o breswylwyr lleol yn ei hystyried fel Treganna, gan ddod i ben, fel y mae, yn Heol Lecwydd a Heol Llandaf. Y man lle mae wardiau Treganna a Riverside yn cyfarfod ger y groesffordd hanesyddol ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yw'r man y mae preswylwyr lleol yn ei ystyried fel calon cymuned Treganna.

Mae rhan Pontcanna yn ychwanegu at yr amrywiaeth unigryw sy'n bodoli yn ward Riverside gan ei bod yn gartref i nifer fawr o siaradwyr Cymraeg, fel y mae ward gyfagos Treganna, yn gynyddol. Mae mwyafrif llethol y plant o ward Riverside yn mynychu ysgolion yng ngorllewin y ddinas. Ar lefel uwchradd, maent yn mynychu, yn bennaf, Ysgol Uwchradd Fitzalan (ward Treganna), sy'n ysgol amrywiol iawn, Ysgol Gyfun Plasmawr (Y Tyllgoed), sy'n ysgol cyfrwng Cymraeg, ac Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf (Llandaf).

Yn yr un modd, mae cysylltiadau cryf rhwng ward Riverside a Llandaf. Mae Caeau Llandaf, sef man agored cyhoeddus mawr, ei hun wedi'i leoli yn ward Riverside.

Yn ymarferol, nid oes unrhyw gysylltiadau cymunedol arbennig o gryf ar draws yr afon, gan fod ardaloedd preswyl Riverside ac ardaloedd preswyl Canol Caerdydd wedi'u gwahanu, nid yn unig gan afon Taf, ond hefyd gan ganol masnachol y ddinas, y ganolfan ddinesig, a pharcdiroedd eang.

Gan droi at y cynnig ar gyfer Ystum Taf, unwaith eto, mae'n anodd gweld sut y byddai hyn yn agos at fod mor gydlynus â chynnig gwreiddiol y Comisiwn. Nid oes llawer sy'n gyffredin rhwng Llandaf ac Ystum Taf ac eithrio eu bod ill dau â'r elfen 'Taf' yn eu henwau. Maent ar ochrau gwahanol i'r afon ac mae'r bont wedi'i lleoli ymhell oddi wrth y tai yn ward Llandaf. Mae dinas hanesyddol Llandaf yn wahanol iawn i gymuned Ystum Taf, sydd â'i chanolfan siopa leol ei hun. Yn ymarferol, nid oes cysylltiad cryf rhwng y ddwy gymuned.

Mae ardal ystad dai Danescourt yn ward Llandaf, sydd hefyd â'i chanolfan siopa ei hun, yn rhan o ddalgylch Ysgol Gyfun Radur, ac nid oes gan yr ardal unrhyw gysylltiadau agos ag Ystum Taf. Yn wir, ceir cysylltiadau lleol rhwng Ystum Taf ac ardaloedd cyfagos yr Eglwys Newydd a Gabalfa i'r dwyrain o afon Taf, yn hytrach na ward Llandaf i'r gorllewin. Felly, mae'r cynnig hwn yn waeth na chynnig y Comisiwn o ran meini prawf Rheol 5.

Cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol

Byddai'r awgrym hwn yn wyriad radical iawn oddi wrth feini prawf y Comisiwn, a byddai'n creu sedd na ellid ei disgrifio'n gredadwy fel etholaeth Gorllewin Caerdydd mewn unrhyw ffordd. Mae'n ymddangos fel ôl-ystyriaeth ac o ganlyniad i newidiadau y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn eu cynnig mewn mannau eraill yng Nghaerdydd, yn hytrach na chynnig cydlynus ar gyfer Gorllewin Caerdydd yn seiliedig ar feini prawf Rheol 5.

Byddai'n hepgor Radur, sydd â chysylltiad agos â wardiau cyfagos yng Ngorllewin Caerdydd ac y mae ei hysgol gyfun yn gwasanaethu'r wardiau hynny yn bennaf, e.e. Danescourt (ward Llandaf) a Chreigiau. Mae cysylltiadau cryf hefyd rhwng Pentyrch a Chreigiau. Mae'r datblygiadau tai parhaus yn yr ardal yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng y wardiau hyn yng Ngorllewin Caerdydd. Nid yw'n gwneud llawer o synnwyr i'w hepgor ar yr union adeg y maent yn dod yn fwy cysylltiedig oherwydd y tai newydd.

Nid yw ychwanegu wardiau Llanharan, Llanhari a Brynna yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl, gan nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau â Gorllewin Caerdydd. Ymddengys eu bod wedi'u hychwanegu er mwyn cael y niferoedd cywir a chyrraedd y cwota yn unig, yn hytrach na bodloni meini prawf rheol 5, yn enwedig o ran ystyriaethau daearyddol, etholaethau presennol, a chysylltiadau lleol.

Felly, rwy'n gwrthwynebu newid cynnig y Comisiwn Ffiniau ar gyfer Gorllewin Caerdydd. O ganlyniad, ni welaf fod angen newid y cynigion ar gyfer Caerdydd yn ei chyfanrwydd, sy'n galluogi cadw pedair etholaeth Seneddol gydlynus ar gyfer Prifddinas Cymru. Er hwylustod, ailadroddaf fy nghyflwyniad gwreiddiol isod.

'Rwyf wedi dadlau'n gyson mewn arolygon ffiniau diweddar, â chefnogaeth etholwyr lleol, ei bod yn ddymunol cadw sedd seneddol i'r gorllewin o afon Taf, gan adlewyrchu cysylltiadau cymunedol a thrafnidiaeth sy'n bodoli yng Ngorllewin Caerdydd.

Mae'r Comisiwn, yn ei gynigion mewn ffurfiau ychydig yn wahanol, wedi cefnogi'r drefn honno yn ei gynigion diweddaraf. Mae'r cynnig drafft diweddaraf yn dychwelyd at drefn flaenorol a gefnogwyd gan y Comisiwn wrth ychwanegu ward Pont-y-clun. Er bod y ward hon y tu allan i ffiniau Dinas a Sir Caerdydd, mae'n adlewyrchu'r datblygiadau tai diweddar yng ngogledd-orllewin yr etholaeth sy'n ymestyn i gyfeiriad Pont-y-clun. O ystyried y cyfyngiadau sydd ar y Comisiwn, mae'n anodd gweld sut y byddai unrhyw gynnig amgen yn bodloni'r egwyddorion y mae'n ofynnol i'r Comisiwn eu dilyn, heb effeithio'n sylweddol ar gydlyniad cynrychiolaeth seneddol ledled Caerdydd yn gyffredinol.

Felly, rwy'n cefnogi'r cynigion ar gyfer Gorllewin Caerdydd, a hefyd ar gyfer Caerdydd yn gyffredinol.'

**BCW-10679 / Chris Evans AS a Rhianon Passmore AS / Islwyn**

Diolch i chi am sicrhau bod cynigion diwygiedig Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol Cymru ar gael. Fel dau gynrychiolydd cenedlaethol Islwyn, rydym yn dymuno gwneud cyflwyniad pellach o dystiolaeth i'r Comisiwn ar ôl derbyn y cynigion diwygiedig.

Bydd y newidiadau a nodir yn y cynigion newydd yn gweld etholaeth Islwyn yn cael ei rhannu'n ddwy, rhwng sedd newydd Islwyn a Gorllewin Casnewydd, a sedd Caerffili. Rhaid i ni ddweud ein bod yn siomedig dros ben bod y Comisiwn wedi dod i'r casgliad hwn.

Ar ôl astudio'r rhesymu, credwn fod sail gref i'r Comisiwn ailedrych ar y cynigion hyn. Mae hyn yn seiliedig ar nifer o faterion y rhoddwyd sylw iddynt yn ein cyflwyniad gwreiddiol i'r Comisiwn, a oedd yn cefnogi cynnig gwreiddiol y Comisiwn. Ar ben hyn, hoffem ailadrodd ein safbwynt nad oes cysylltiad traddodiadol yn ddaearyddol, yn gymdeithasol nac yn ddiwylliannol rhwng Pontllanfraith, Cefn Fforest a Phengam â thref Caerffili. Roedd y tair ward yn rhan o Gyngor Bwrdeistref Cymoedd Islwyn ac nid Caerffili.

Mewn trawsgrifiadau o'r dystiolaeth lafar, mynegwyd pryder mawr mai ychydig iawn sydd gan Argoed wledig yn gyffredin â dinas amrywiol Casnewydd.

Mae Islwyn wedi'i hadnabod ers tro fel etholaeth lofaol ac mae llawer o etholwyr wedi bod mewn cysylltiad ynghylch eu hofnau na fyddent yn cael eu cynrychioli'n briodol gan Aelod Seneddol y bydd angen iddo gydbwyso pryderon pobl mewn dinas drefol a phobl sy'n byw mewn trefi neu bentrefi gwledig. Ar ôl darllen tystiolaeth y Comisiwn ei hun, byddem hefyd yn nodi nad oedd y Ceidwadwyr Cymreig na Llafur Cymru yn gwrthwynebu'r cynigion gwreiddiol.

Ar ben hyn, lluniodd Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol gynigion amgen a ddiystyrwyd gan y Comisiwn. Cynigiwyd newidiadau hefyd gan Blaid Lafur Gorllewin Casnewydd a ddiystyrwyd gan y Comisiwn. Rydym yn ei chael hi'n anodd deall pam na chafodd y cynigion hyn eu hystyried, er bod y cynigion ar gyfer Caerffili wedi cael eu hystyried. Byddwch yn nodi o'r pecyn tystiolaeth gwreiddiol y consensws ymhlith Plaid Lafur Islwyn, ynghyd â ninnau fel yr Aelod o'r Senedd a'r Aelod Seneddol dros Islwyn, ein bod wedi cefnogi'r cynigion gwreiddiol ochr yn ochr â'r ddwy blaid wleidyddol genedlaethol. Ar ôl derbyn y cynnig gwreiddiol, mae rhywun yn gofyn pa beth sylweddol sydd wedi newid safbwynt y Comisiwn.

Roedd Islwyn gyfan yn cefnogi'r cynigion, gyda'r dystiolaeth wreiddiol bod cysylltiad cryfach rhwng etholaeth Caerffili a Chasnewydd drwy Fedwas, Trethomas a Machen, nag sydd ag Islwyn. Ceir tystiolaeth bellach o hyn yn y ffaith bod prif dref Caerffili yn ddaearyddol agosach at Gasnewydd na phrif dref Islwyn, sef y Coed Duon. Gobeithiwn y bydd y Comisiwn yn ailedrych ar y cynigion hyn ac yn dychwelyd at y cynigion gwreiddiol a dderbyniwyd, ac a gefnogwyd yn llwyr gennym, ac a fyddai orau i ddemocratiaeth gyfranogol, dinasyddion a'r boblogaeth ehangach eu derbyn.

Edrychwn ymlaen at eich sylwadau.

Chris Evans AS

Rhianon Passmore AS

**BCW-10680 / [redacted] / Caernarfon**

Nid wyf yn hapus i weld hanner etholaeth Arfon yn cael yr enw Dwyfor Meirionnydd, a cholli Arfon yn gyfan gwbl, mae fel colli hunaniaeth – pam mae angen newid?

Byddai'n well gennyf pe bai'n aros yr un fath – mae'n siŵr bod y fath newid mawr ledled Cymru yn mynd i gostio arian y gellid ei ddefnyddio'n well yn yr hinsawdd bresennol.

**BCW-10681 / [redacted] / Y Trallwng**

Cefnogaf y cynnig drafft ar gyfer etholaeth Maldwyn a Glyndŵr. Yn lleol, ceir teimlad cryf iawn o blaid y cynnig hwn, gan ei fod yn helpu i sicrhau y gall democratiaeth gynrychioliadol barhau wrth wneud ein hetholaethau'n fwy cytbwys, gan ofalu bod gan bawb ohonom fwy o lais, a llais mwy cyfartal, o ran llywodraethu'r DU.

Yn ogystal, mae hwn yn ateb gwych o ran cynnal statws hanesyddol Sir Drefaldwyn, sydd wedi'i chynrychioli yn y Senedd ers 1542. Mae ychwanegu rhannau o Dde Clwyd hefyd yn helpu i ailgydbwyso'r anomaleddau demograffig sy'n bodoli oherwydd y newidiadau yn y boblogaeth dros yr ugain mlynedd diwethaf, gan helpu i gynyddu ein cysylltiadau â phobl rydym eisoes â chysylltiad agos â nhw.

Cefnogaf y cynnig.

**BCW-10682 / [redacted] / Machynlleth**

Credaf fod yr ardal arfaethedig i gynnwys yr ardal rwy'n byw ynddi yn gwneud llawer mwy o synnwyr na Phowys, sy'n cwmpasu ardal mor enfawr yn ddaearyddol

**BCW-10683 / [redacted] / Y Fenni**

Dylid cydlynu'r newidiadau yng nghynrychiolaeth Cymru yn Senedd San Steffan gyda chodiad cyfatebol (neu fwy) yn nifer yr aelodau yn Senedd Cymru. Rwyf yn ddrwgdybus iawn ynghylch rhesymau llywodraeth San Steffan dros newid y gynrychiolaeth fel hyn, gan amau bod cymhellion gwleidyddol pur y tu ol i'r holl broses, sef ei gwneud yn haws i'r Ceidwadwyr ddal ei gafael ar rym. Ysywaeth, yr un mor sinigaidd yw fy agwedd at y broses ymgynghori bondigrybwyll, hefyd. Wnaiff yr holl charade yr un mymryn o wahaniaeth i'r cynlluniau terfynnol.

**BCW-10684 / [redacted] / Y Drenewydd**

Bydd penderfyniad y Comisiwn Ffiniau i gadw Sir Drefaldwyn yn gyfan yn sicrhau y bydd Sir Drefaldwyn yn parhau o fewn etholaeth newydd Maldwyn a Glyndŵr, a rhoddaf fy nghefnogaeth lawn i hyn.

**BCW-10685 / [redacted] / Caerdydd**

I'r Comisiwn Ffiniau,

Ysgrifennwn ar ran Cangen Cathays y Blaid Lafur yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Ein safbwynt ni yw ein bod yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ac yn gwrthwynebu'r cynigion diwygiedig a fydd yn gweld Cathays yn symud i Dde Caerdydd a Phenarth, a Trowbridge yn aros yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Mae'r cynnig yn yr Ail Ymgynghoriad yn symud Rhymni a Llanrhymni i etholaeth newydd Canol Caerdydd ac yn cadw Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac mae'n golygu mai dim ond dwy ward sy'n symud o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na'r pedair a gaiff eu symud yn y fersiwn ddiwygiedig. Mae Comisiynau Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi'u cadw o fewn yr un sedd Seneddol ers 1950.

CYSYLLTIADAU CYMUNEDOL

Derbyniodd y Comisiwn un cyflwyniad yn awgrymu'r newid hwn. Derbyniodd y Comisiwn lawer o ddatrysiadau amgen eraill. Derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion yn cefnogi cadw Cathays a'r wardiau eraill o fewn cymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Ni chrybwyllwyd symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth fel opsiwn mewn cynigion a phrosesau ymgynghori blaenorol. Mae cyflwyno hyn fel 'fait accompli' yn y cam olaf yn ymddangos yn annidwyll, ac yn groes i ysbryd y datganiad a wnaed gan Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Shereen Williams, ar ddechrau'r broses.

"Rydym yn benderfynol o ddatblygu'r argymhellion gorau posibl ar gyfer etholaethau newydd Cymru, a gwyddom mai'r unig ffordd o sicrhau hynny yw denu'r cyfranogiad cyhoeddus mwyaf rydym erioed wedi ei gael." A dywedodd hefyd, "Mae hygyrchedd wrth galon beth rydym yn ceisio'i gyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru lais hollbwysig i'w ychwanegu i'r sgwrs am ffiniau etholaethol Cymru, ac rydym am i bawb yng Nghymru gael cyfle i ddatgan eu barn." Ymddengys nad yw'r datganiadau hyn yn cyfateb o gwbl i'r cynnig sydd wedi gwadu ymgynghoriad priodol i breswylwyr Cathays ac sydd wedi anwybyddu cysylltiadau cymunedol clir. Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth, ond mae gan Cathays a Phlasnewydd lawer o gysylltiadau cymunedol:

• Mae mwyafrif llethol y boblogaeth myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn wedi'u lleoli yn Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, a lleolir y neuaddau preswyl gerllaw yn Cathays a Phlasnewydd.

• Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays a Phlasnewydd.

• Mae'r plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays a Phlasnewydd yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Ysgol Bro Edern (a leolir ym Mhen-y-lan) neu

Ysgol Uwchradd Caerdydd (a leolir yng Nghyncoed). Mae dalgylchoedd Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica o fewn ardal ehangach y Rhath sy'n cynnwys Cathays.

• Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn golygu bod preswylwyr y tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o amgylch ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Ddinas.

• Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir gan Cathays a Phlasnewydd yn hirsefydlog ac fe'u parchwyd yn briodol yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn.

• Trefnir yr Eglwys yng Nghymru o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd.

• Mae dalgylchoedd meddygfeydd teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays a Phlasnewydd ac maent yn ymwneud â'r un pryderon a demograffeg gyffredin.

Diolch i chi am ddarllen ein gwrthwynebiad i'r cynigion sydd, yn ein barn ni, yn anwybyddu cysylltiadau cymunedol hirsefydlog ac yn mynd yn groes i ddatganiadau Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ei hun.

Diolch i chi eto.

[redacted] Cadeirydd Cangen Cathays y Blaid Lafur

[redacted] Trysorydd Cangen Cathays y Blaid Lafur

**BCW-10686 / [redacted] / Aber-miwl**

Ni allaf wneud sylw ar sut mae'r cynigion yn effeithio ar ardaloedd eraill o Gymru, gan nad wyf yn byw ynddynt, ond rwy'n falch o weld y bydd y ffiniau arfaethedig yn cadw Sir Drefaldwyn yn gyfan ac nid cael ei rhannu.

**BCW-10687 / [redacted] / Y Trallwng**

Mae angen i chi gadw enw ein sir ni yn Sir Drefaldwyn.

**BCW-10688 / [redacted] Y Trallwng**

Annwyl Gomisiynwyr

Rwy'n ysgrifennu atoch i gefnogi eich newid ffiniau arfaethedig i Etholaeth Sir Drefaldwyn, gan ehangu'r ardal i gynnwys rhannau o dde Clwyd.

Pan wnes i eich annerch chi yn eich gwrandawiad yn Wrecsam yn gynharach eleni, awgrymais hefyd y newid i'r enw arfaethedig, o Sir Drefaldwyn a Glyndwr i Sir Drefaldwyn a'r Dyffrynnoedd. Mae hyn yn cydnabod cymoedd Ceiriog a Llangollen ac, fel cyfeiriad yn seiliedig ar leoliad, rwy'n credu ei fod yn fwy cynhwysol. Gobeithio y gallwch ailystyried yr enw.

Yn gywir,
[redacted]

**BCW-10689 / [redacted] / Pencoed**

Nid wyf yn cytuno â'r cynnig i symud Pencoed a Heol-Y-Cyw o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'i wneud yn rhan o Rondda Cynon Taf.

Mae gan Bencoed gysylltiadau cryf a seilwaith â Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac mae'n agos at dref Pen-y-bont ar Ogwr.

Nid wyf yn meddwl y bydd unrhyw fudd i drigolion wrth symud o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Rondda Cynon Taf. Mae'n ymddangos yn llawer iawn o newidiadau biwrocrataidd costus heb unrhyw fudd o gwbl i'r trigolion. Gwastraff amser, ymdrech ac arian. Does bosib nad oes pethau gwell i ganolbwyntio arnynt na symud ffiniau dim ond er mwyn eu symud.

**BCW-10690 / [redacted] / Caernarfon**

Ar sail poblogaeth, ella bod y newidiadau yn gwneud synnwyr ond mae maint yr etholaeth yn gweund gwaith AS bron yn amhosib . Unwaith eto , dan ni'n cael ein cosbi am fyw yng nghefn gwlad Cymru .

Mae'n bryd i lywodraeth San Seffan sylweddoli fod mwy i wleidyddiaeth na'r Tŷ Cyffredin yna yn Llundain. Y bobl gyffredin sy'n bwysig .

**BCW-10691 / [redacted] / Y Trallwng**

Hoffwn gefnogi'n llawn y cynnig a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Comisiynwyr Ffiniau mewn perthynas ag etholaeth newydd Sir Drefaldwyn a Glyndwr.

Teimlaf fod hyn yn gyfiawn o ran cadw'r sedd hynafol yng nghanolbarth Cymru a hefyd yn ychwanegu at ei rhan bresennol o ffin de Clwyd a fydd yn gwella'r etholaeth bresennol o ran ffermio a thwristiaeth yn benodol.

**BCW-10692 / [redacted] / Dolgarrog**

Rwy'n deall bod y ffiniau hyn yn seiliedig ar boblogaeth ond mae hyn yn gadael rhai, fel fy ward i, yn fawr iawn ac yn amrywiol iawn. Bydd yn golygu mwy o amser teithio yn bwyta i mewn I'r amser y gall ein cynrychiolydd dreulio yn gweithio ar ran ei etholwyr. Ar sail hynny, rwy'n credu eu bod yn annheg ac yn anghytbwys.

**BCW-10693 / [redacted] / Meifod**

Mae gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru swydd anodd ac mae wedi cydnabod hen sir hanesyddol Sir Drefaldwyn. Rwy'n llwyr gefnogi cynnig y Comisiwn.

**BCW-10694 / [redacted] / Machynlleth**

Cymry sy'n byw ym Machynlleth a Bro Ddyfi yn bennaf. Credaf fod gennym fwy yn gyffredin â Cheredigion neu Arfon Dwyfor. Mae cynnwys yr ardal hon gyda de-ddwyrain Clwyd yn dangos camddealltwriaeth syfrdanol o sefyllfa ddaearyddol a diwylliannol yr etholaeth ac yn amlwg wedi ei gwblhau gan bobl sydd heb lawer o ddealltwriaeth na phryder am yr ardal. Trist hefyd yw cael cynrychiolaeth. Os oes rhaid i mi gael fy nghynrychioli yn Llundain rydw i eisiau i hynny gael ei wneud yn iawn. Mae hwn yn gyfnod lle mae llywodraeth y DU yn erydu pwerau Llywodraeth Cymru ac yn cynllunio llai o gynrychiolaeth ar gyfer fy etholaeth yn Llundain. Byddai'n well gen i gynrychiolaeth lawn yng Nghaerdydd ac annibyniaeth ar Loegr/llywodraeth y DU.

**BCW-10695 / [redacted] / Coed-duon**

Rwy'n gwrthwynebu uno etholaeth cymoedd bach fel Islwyn gyda dinas arfordirol.

Nid oes unrhyw fanteision strategol i bobl Islwyn o ran y cynnig hwn ac mae'n peryglu holl ddylanwad gwleidyddol a sylw buddsoddi'n symud tuag at y ganolfan ddinesig a phoblogaeth fwyaf, sef dinas Casnewydd.

Nid yw'r cynnig hwn yn ystyried yr anghydbwysedd economaidd-gymdeithasol rhwng y ddwy etholaeth bresennol ac felly mae'n peryglu dieithrio ac ymgorffori anghydraddoldebau pellach mewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus o fewn cymunedau cymoedd sydd eisoes yn ddifreintiedig.

Fy newis i yw bod Islwyn yn parhau'n etholaeth annibynnol.

Fodd bynnag, byddai Islwyn a’i chymunedau yn cael eu gwasanaethu'n well wrth uno ag un o etholaethau cyfagos y cymoedd fel Caerffili, Blaenau Gwent neu Dorfaen pe bai’r angen i uno yn anochel.

**BCW-10696 / [redacted] / Pontardawe**

Mae rhoi Pontardawe a rhan uchaf Cwm Tawe yn yr un etholaeth a gogledd Powys yn hollol ddi-synnwyr. Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng Cwm Tawe gyda'r ardaloedd yr ochr arall i Fannau Brycheiniog.

**BCW-10697 / [redacted] / Wrecsam**

Er fy mod yn deall mai’r briff yw cydraddoli'r niferoedd cyn belled ag y bo modd, mae pentrefi Rhos, Jonstown, a Penycae wedi’u clymu’n hanesyddol, ac yn ddiwylliannol, i faes glo gogledd-ddwyrain Cymru, ac i Wrecsam, ac mae’n anodd amlygu cysylltiadau lleol â swmp o’r sedd arfaethedig, gydag enw rhyfedd iawn, sef Sir Drefaldwyn a Glyndwr. Felly, nid wyf yn deall rhesymeg y cynnig hwn.

[redacted]

**BCW-10698 / [redacted] / Casnewydd**

Gan fod gan Sir Fynwy a Thorfaen y nifer cywir o etholwyr yn eu hardaloedd awdurdod lleol presennol, mae'n gwneud synnwyr i'r rhain fod yn etholaethau ac felly mae'n anochel bod Casnewydd yn cael ei gadael gyda rhaniad anffodus rhwng dwy etholaeth trwy ganol y ddinas. Mae hyn yn anffodus ond yn ddealladwy o ystyried y cyfyngiadau a osodwyd ar yr adolygiad hwn.

Gallaf weld rhesymeg cysylltu lleoedd fel Rhisga a Threcelyn gyda Chasnewydd, maent wedi'u cynnwys yn ôl troed ardal drefol Casnewydd y SYG.

Fodd bynnag, wrth fynd ymhellach i'r gogledd i Islwyn, mae daearyddiaeth lletchwith, ac mae Coed-duon yn cael ei gwahanu oddi wrth Bontllan-fraith er bod y ddau anheddiad yn gyfagos ac yn debyg. Un dewis arall posibl yn lle hyn fyddai i wardiau'r Coed-duon, Argoed, a Phenmaen gael eu cynnwys yn etholaeth Caerffili. I gydbwyso'r niferoedd, byddai wedyn yn ymarferol i ward Bedwas, Trethomas a Machen a ward St James gael ei gynnwys yn sedd Gorllewin Casnewydd ac Islwyn. Tra bod gan St James ymyl sydd i bob pwrpas yn rhan o dref Caerffili, mae'r rhan fwyaf o St James yn debyg o ran cymeriad i'r Graig. Byddai'r newid hwn hefyd yn uno Machen â Machen isaf.

Gan fy mod i'n byw yng Nghasnewydd, byddaf yn ildio i safbwyntiau croes yn rhan Caerffili o'r etholaeth os yw'r ymatebwyr hynny'n teimlo fy mod wedi camgynrychioli eu cymunedau, ond yn seiliedig ar fy ngwybodaeth fy hun, mae'r newid bach hwn sy'n gyson â niferoedd yr etholwyr yn ymddangos yn welliant rhesymol i’r cynigion.

**BCW-10699 / [redacted] / Caerdydd**

Rwy'n gwneud sylwadau ar y cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru a gyhoeddwyd ddydd Mercher, 19 Tachwedd. Yn benodol, y cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth. Rwy'n gwrthwynebu'r cam hwn yn llwyr. Mae ward Cathays yn rhan annatod o'r Rhath ac felly mae'n rhan annatod o'r wardiau eraill sy'n rhan o gymuned y Rhath, sef Pen-y-lan, Adamsdown, ac yn enwedig Plasnewydd. Mae'r cynnig gwreiddiol yn ffit mwy naturiol lle mae ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd a ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth. Dylai'r Comisiwn fynd yn ôl at y cynnig gwreiddiol hwn.

Mae cynnal y ffit naturiol hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac mae'n cynnwys dim ond dwy ward yn symud o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na phedair fel sy'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig. Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod o fewn yr un sedd Seneddol am fwy na chwedeg mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn yn ei adolygiadau blaenorol ers 2010 erioed wedi ystyried gwahanu Cathays oddi wrth Blasnewydd.

Un cyflwyniad yn unig a dderbyniwyd gan y Comisiwn (gan breswylydd yn Altrincham, 178 milltir o Cathays) a oedd yn awgrymu'r newid hwn. Derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (gan drigolion Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown o fewn cymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Nid yw symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth wedi cael ei grybwyll fel opsiwn yn ystod y cynigion blaenorol a'r prosesau ymgynghori. Mae ei gyflwyno fel 'fait accompli' ar y cam olaf yn anonest, ac nid yn ysbryd y datganiad a wnaed gan yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau'r broses:

"Rydyn ni'n benderfynol o ddatblygu'r cynigion gorau posibl ar gyfer etholaethau newydd Cymru, ac rydyn ni'n gwybod gallwn ond wneud hynny drwy gael yr ymglymiad cyhoeddus mwyaf rydyn ni wedi'i gael erioed." "Mae hygyrchedd wrth wraidd beth rydyn ni'n ceisio ei gyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru lais gwerthfawr i ychwanegu at y drafodaeth am newidiadau ffiniau Cymru, ac rydym eisiau sicrhau y gall pawb fynegi eu barn."

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae ei lleoli o fewn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn rhyfedd iawn, ac ni fydd yr etholwyr yn ei ddeall. Fodd bynnag, mae llawer o gysylltiadau cymunedol rhwng Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown:

- Mae poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn rhychwantu Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, gyda neuaddau preswyl yn agos at Cathays a Phlasnewydd.
- Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried bod wardiau Cathays a Phlasnewydd wedi cydblethu cymaint fel bod rheolau cynllunio wedi cael eu pasio ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth ac asiantau gosod yn y ddwy ward hynny

(https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)

- Mae’r dalgylch ysgolion uwchradd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.
- Mae'r plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays a Phlasnewydd yn mynd yn eu blaenau i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (sydd wedi ei lleoli ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).
- Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed, yn golygu bod preswylwyr ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath sydd wedi’i chanoli o amgylch ardaloedd siopa Heol Crwys, Heol Albany a Heol y Ddinas.
- Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cael eu rhannu rhwng Cathays a Phlasnewydd, yn hirsefydlog, ac fe'u parchwyd yn gywir gan gynigion cychwynnol y Comisiwn
- Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cael ei threfnu o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)
- Mae dalgylchoedd meddygfeydd hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac yn rhannu pryderon a demograffeg gyffredin.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Gobeithio ar ôl darllen y dystiolaeth hon y bydd y Comisiwn nawr yn gwyrdroi'r cynigion diwygiedig ac yn dychwelyd at y cynigion cychwynnol, fel y’u cyhoeddwyd.

**BCW-10700 / [redacted] / Pencader**

Diolch am yr arolwg diweddar gan y Comisiwn ffiniau yng Nghymru, rwyn cefnogi yr arolwg ar Sir Gaerfyrddin,

Dydw i ddim yn cytuno gyda'r argymhelliad sydd wedi cael ei gyflwyno sy'n awgrymu bod 3 neu 4 o wardiau gogledd Sir Gaerfyrddin yn symud i Etholaeth Caeredigion a bod yr Etholaeth yn cael ei galw'n etholaeth Ceredigion a Dyffryn Teifi.

Mi fydde newid o'r fath yma yn creu dryswch i etholwyr, mae'r ffin fel ac y mae yn dilyn yr afon Teifi yn gwneud hi'n glir i bawb.

Mae'r ffaith bod trigolion y ddwy Sir yn symud o un Sir i'r llall er mwyn cyrraedd cyfleisterau sy'n berthnasol iddynt yn rhywbeth derbynniol i bawb a dyma yw'r sefyllfa ar hyd a lled y Wlad.

Diolch am y cyfle i ymateb.

**BCW-10701 / [redacted] / Pencoed**

Rydw i eisiau aros yn sir Pen-y-bont ar Ogwr. Nid wyf yn deall pam y byddai hyd yn oed yn cael ei newid. Yr arhosfan nesaf ar y trên yw Pen-y-bont ar Ogwr felly pam fydden ni'n cael ein hystyried yn rhan o’r Rhondda?

**BCW-10702 / [redacted] / Gŵyr**

Rwy'n teimlo fod "Gŵyr" ei hun, sy’n ardal wledig a ffermio, gyda thwristiaeth hefyd yn rhan o'r ardal, yn cael ei llethu gan adael yr ardaloedd o gwmpas Waunarlwydd/Pengelli, a gogledd-orllewin Canol Dinas Abertawe yn cael ei ymgorffori yn y Gŵyr, yn enwedig gan fod ardal poblogaeth uchel arall sef Sgeti, Fforestfach, a'r ardaloedd sy’n gyfagos iddi yn cael ei hychwanegu ar yr un pryd. Mae gan yr ardaloedd hyn werthoedd hollol wahanol yn fy marn i a bydd yn amhosibl i unrhyw un gynrychioli'r bobl gyfan pan fydd ystod mor eang o anghenion. Rwy'n teimlo y bydd gan yr ardal broblemau cyfredol na ellir eu cynrychioli gan un person. Mae angen i'r bobl sy'n byw yn y Gŵyr (yr ardal nid ffin yr etholaeth) gael gwell cynrychiolaeth fel ardal ei hun. Rwy’n teimlo y bydd y cynnig hwn yn golygu y bydd Gŵyr yn cael ei golli fel ardal, yn ogystal â’r bobl sy'n ei gwneud yn ardal y mae pobl eisiau ymweld â hi, gweithio a byw ynddi.

**BCW-10703 / [redacted] / Caerdydd**

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn cyhoeddi'r cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Rwy'n ysgrifennu i wrthwynebu'r cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth. Mae gan ward Cathays gysylltiadau cryf â'r wardiau sy'n weddill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown.

Cathays i Adamsdown a'r cymunedau cyfagos, sy'n gwneud y Rhath yn ardal unigryw, fywiog ac amlddiwylliannol o Gaerdydd. Mae cymuned gelfyddydol fawr yn yr ardaloedd hyn, wedi'i hatgyfnerthu gan gymuned y myfyrwyr sy'n byw yn draddodiadol yn Cathays.

Mae Made in Roath yn sefydliad celfyddydau cymunedol a sefydlwyd i ddathlu'r gymuned fywiog ac arddangos yr amrywiaeth o ddoniau o Cathays, Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown

Rwy'n teimlo y dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol, sef bod ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd a ward Trowbridge yn rhan o Dde Caerdydd a Phenarth. Mae'r cynnig yn bodloni Rheol 5 ac yn cynnwys dim ond dwy ward yn symud o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na phedair fel sy'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Nid yw symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth wedi cael ei grybwyll fel opsiwn yn ystod y cynigion blaenorol a'r prosesau ymgynghori. Mae cyflwyno hyn ar y cam olaf yn ymddangos yn anonest, ac nid yn ysbryd y datganiad a wnaed gan yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau'r broses.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi edrych i sicrhau bod yr ardaloedd hynny o fewn yr un sedd Seneddol ers dros chwedeg mlynedd.

Nid yw'r Comisiwn yn ei adolygiadau blaenorol ers 2010 erioed wedi ystyried gwahanu Cathays a Phlasnewydd.

Mae'r Comisiwn wedi derbyn nifer o ymatebion (gan drigolion Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown o fewn cymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae ei lleoli o fewn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn rhyfedd iawn, gan fod anghenion cymunedau yn wahanol iawn.

Fodd bynnag, mae llawer o gysylltiadau cymunedol rhwng Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown:

- Mae mwyafrif llethol poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd, Adamsdown. Mae'n gyffredin i'r myfyrwyr hyn aros yn y Rhath ar ôl gadael y brifysgol.

- Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried bod wardiau Cathays a Phlasnewydd wedi cydblethu cymaint fel bod rheolau cynllunio wedi cael eu pasio ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth ac asiantau gosod yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)
- Mae’r dalgylch ysgolion uwchradd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.
- Mae'r plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays a Phlasnewydd yn mynd yn eu blaenau i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (sydd wedi ei lleoli ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).
- Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed, yn golygu bod preswylwyr ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath sydd wedi’i ganoli o amgylch ardaloedd siopa Heol Crwys, Heol Albany a Heol y Ddinas, ac maent yn rhannu llawer o'r un cyfleusterau cymunedol, fel Canolfan Mackintosh, Maes Hamdden y Rhath ac ati.
- Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cael eu rhannu rhwng Cathays a Phlasnewydd yn rhai hirsefydlog.
- Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cael ei threfnu o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)
- Mae dalgylchoedd meddygfeydd hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac yn rhannu pryderon a demograffeg gyffredin.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Rwy’n gobeithio, ar ôl darllen hwn, y bydd y Comisiwn hwn nawr yn gwyrdroi'r cynigion diwygiedig ac yn dychwelyd at y cynnig cychwynnol, sef ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd a ward Trowbridge yn dod yn rhan o Dde Caerdydd a Phenarth.

**BCW-10704 / [redacted] / Rhisga**

Cytunaf yn fras gyda ffin Gorllewin Casnewydd ac Islwyn gan fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi bod yn drychineb i hen ardal Islwyn. Fodd bynnag, rwy'n meddwl y byddai Gorllewin Casnewydd ac Islwyn Isaf, mor bell â Crosskeys, yn well i'r gogledd. Byddai'n well cysylltu ardaloedd Caerffili, Bedwas a Machen â Chaerdydd.

**BCW-10705 / [redacted] / Maesycwmer**

Byddwn i'n cynnig bod Maesycwmer yn aros yn etholaeth Islwyn. Mae ein pentref yn agos at yr ardal a byddai'n cael ei lyncu gan ardal fawr etholaeth Caerffili.

**BCW-10706 / [redacted] / Llanybydder**

Rwy'n ysgrifennu atoch i wrthwynebu cynnig Ceredigion o ran newid ffiniau a chreu "Ceredigion a Dyffryn Teifi".

Mae'r cynigion gwreiddiol fel y'u cyhoeddwyd gan y Comisiwn ar gyfer ffin Caerfyrddin yn adlewyrchu'n gywir gysylltiadau dilys Llanybydder a'i wardiau cyfagos yn Sir Gaerfyrddin, ac yn ystyried yr hanes a'r daearyddiaeth leol - gan gynnwys y rhwydwaith afonydd.

Yn wir, byddai cynnwys Teras Highmead, Llanybydder yng Nghaerfyrddin yn llawer mwy darbodus a buddiol i'r trigolion hynny gan eu bod nhw'n aml yn datgan eu bod nhw'n cael eu hesgeuluso gan Geredigion. Byddai eu cynnwys yn Llanybydder yn sicr o gefnogi'r trigolion hynny a'r gwaith eithriadol y mae Caerfyrddin yn ei wneud i weithio ar amddiffynfeydd llifogydd lleol, fel y canmolwyd yn ddiweddar mewn cyfarfodydd ymgynghori!

Nid yw trigolion Llanybydder yn dymuno cael eu cynnwys yng Ngheredigion.

**BCW-10707 / [redacted] / Castell-nedd**

Credaf y byddai nawr yn gyfnod da i ddiddymu cyngor Coedffranc er mwyn arbed arian a gobeithio lleihau'r dreth gyngor yn ein hardal.

**BCW-10708 / [redacted] / Pontllan-fraith**

Ar wahân i fod yn rhan o Gyngor Caerffili, nid oes gan Bontllan-fraith unrhyw gysylltiad hanesyddol na chysylltiad presennol â Chaerffili. Yn hanesyddol, Islwyn fu erioed. Ein prif ardal fanwerthu a masnach yw Coed-duon, a bydd felly am byth, ac a fydd, o dan eich cynigion, yn parhau i fod yn rhan o Islwyn tra bod Pontllan-fraith yn symud i Gaerffili. Mae'n ymddangos yn chwerthinllyd ac yn gwbl ddiangen i newid y sefyllfa sydd ohoni sydd wedi gweithio'n llwyddiannus ers cymaint o flynyddoedd. Mae Islwyn fel Bwrdeistref eisoes wedi cael ei golli a'i amsugno gan Gyngor nad oedd ganddo berthynas ag Islwyn. Gadewch i ni beidio â gwneud yr un camgymeriad eto trwy newid ffiniau'r etholaeth yn ddiangen.

**BCW-10709 / [redacted] / Llanybydder**

Yn anffodus, mae Llanybydder yn cael ei rannu gan siroedd Caerfyrddin a Cheredigion a gyda mwyafrif Llanybydder yn dod o dan Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys y farchnad da byw, yr ysgol, siopau, meddygfeydd a'r eglwysi.

Oherwydd hyn, credaf y dylid symud y ffin er mwyn i'r pentref gael ei gynnwys yn Sir Gaerfyrddin yn hytrach na Cheredigion a'r ffin yn cael ei thynnu ar y gylchfan ar y B4338, ar ochr orllewinol yr afon y tu hwnt i arwydd pentref Llanybydder, felly byddai'r safle carafanau a'r ardal coetiau a Theras Highmead yn dod o dan Sir Gaerfyrddin.

Er nad yw hyn wedi bod yn broblem fawr yn y gorffennol, mae wedi dod i'r amlwg bod rhan o'r pentref sydd yng Ngheredigion wedi cael ei esgeuluso'n fwy nag ardal Sir Gaerfyrddin am resymau anhysbys i mi fy hun.

Nid wyf yn awgrymu hyn gyda barn wleidyddol ond er lles y pentref a'i welliannau datblygu parhaus gan y cyngor a chymunedau pentref amrywiol.

Gohebu ag un Cyngor Sir a chynnwys holl drigolion y pentref fyddai'r ffordd synhwyrol a llai cymhleth a byddai'n cyflymu unrhyw gynigion neu geisiadau a wnaed ar gyfer gwelliannau a digwyddiadau cymunedol.

**BCW-10710 / [redacted] / Llantrisant**

Pontypridd a Llantrisant, dyna ddylai enw'r etholaeth fod. Dylai cymuned bellaf y de-orllewin, Brynna, fod yn rhan o etholaeth y Rhondda, gan fod y cynnig presennol yn gadael tipyn o lanast rhwng de sedd y Rhondda a de-orllewin fy etholaeth.

A yw'r Comisiwn wedi ystyried y twf disgwyliedig yn y boblogaeth yn wardiau Creigau a Radur yn sgil y tai newydd mawr i ogledd-orllewin canol y ddinas. Datblygiad fydd yn cynyddu poblogaeth Gorllewin Caerdydd yn sylweddol, cyn symud Meisgyn a Phont-y-clun i Orllewin Caerdydd?

**BCW-10711 / [redacted] / Bae Colwyn**

Dydw i ddim yn hapus. Dydw i ddim eisiau bod yn rhan o Ogledd Clwyd a fydd yn cael ei ddominyddu gan drefi Sir Ddinbych, a gweld gwahanu rhwng Bae Colwyn a Llandrillo-yn-Rhos. Mae'n chwerthinllyd gan fod fel Bae Colwyn a Llandrillo-yn-Rhos bron yn un, beth bynnag.

**BCW-10712 / [redacted] / Crosskeys**

O ran symud rhan o Islwyn i fod yn rhan o Gasnewydd.

Rwy'n anghytuno'n llwyr ag uno rhan o Islwyn â Chasnewydd. Ni ddylai hyn ddigwydd. Nid oes dim byd yn gyffredin rhwng dinas Casnewydd a'r cymoedd. Ac o'm mhrofiad i, nid yw'r bobl yn cyd-dynnu, gan ei bod yn ymddangos bod datgysylltiad llwyr â'u bywydau dyddiol.

Mae llinell drên Glynebwy yn rhedeg o Lynebwy i Gaerdydd ac mae'n cael llawer o ddefnydd, gan redeg trwy Islwyn, heb unrhyw gysylltiad â Chasnewydd. Mae'r A467 yn rhedeg drwy Islwyn gan fynd o amgylch Rhisga, Crosskeys i Lynebwy. Mae'n dod o draffordd yr M4 ac wedi cael ei chysylltu'n gyfartal, ac yn cael llawer o ddefnydd o Gaerdydd a Chasnewydd. Mae ffyrdd eraill yn ffyrdd bwydo o'r ddwy ddinas i Rhisga, sef dechrau Islwyn.

Mae Islwyn (enw hynafol o Fynydd Islwyn - mynydd lleol a ddefnyddiwyd gan ein bardd enwog Islwyn, o Ynys-ddu) eisoes wedi cael ei lyncu pan ddaeth yn rhan o Gaerffili, ond mae ein ward hynafol yn dal i sefyll. Bydd cael gwared ar ein cynrychiolydd AS - sy'n deall yr ardal a'r bobl - yn gwneud tro gwael ag Islwyn gyfan.

Fel tenant y cyngor, a gwirfoddolwr cynrychioliadol o denantiaid yn adran tai cyngor Caerffili, pleidleisiais i, ynghyd â nifer o bobl eraill, dros aros o dan drefn y cyngor. Nid wyf yn dymuno bod o dan unrhyw gyfundrefnau eraill, ac nid yw llawer o bobl eraill, chwaith. Yma yng Nghaerffili, mae gennym well cyfle i gael ein rheoli'n iawn yn hytrach na bod yn rhan o ddinas.

**BCW-10713 / [redacted] / Llanfair-ym-Muallt**

Rwy'n llwyr gefnogi unrhyw gynigion i leihau nifer yr aelodau sy'n cael eu hethol yn ddemocrataidd. Mae gennym lawer gormod ar hyn o bryd.

**BCW-10714 / [redacted] Cyngor Tref Llwchwr / Abertawe**

Mae Cyngor Tref Llwchwr yn dymuno gwneud y sylwadau canlynol-

Mae adroddiad yr Argymhellion Diwygiedig yn cydnabod bod gwrthgynnig wedi cael ei gyflwyno yn datgan 'mae'r Comisiwn yn cydymdeimlo â'r trefniadau amgen a gynigir. Fodd bynnag, nid oedd y Comisiwn yn teimlo bod y dystiolaeth a dderbyniwyd yn cyfiawnhau rhannu cymuned y Mwmbwls ac fel rhan o'r gwrthgynnig, byddai cymuned y Mwmbwls yn cael ei rhannu ar draws etholaethau arfaethedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe, a Chanol Abertawe'.

Mae'r Cyngor Tref yn dymuno cyflwyno gwrthgynnig i'r Argymhellion Diwygiedig i'r perwyl y byddai wardiau Pontarddulais, Penllergaer, Llangyfelach a Mawr (cyfanswm etholwyr: 12,891) yn cael eu cynnwys yng Ngŵyr a Gorllewin Abertawe a byddai ward Sgeti (cyfanswm etholwyr: 11,304) yn cael ei chynnwys yng Nghanol a Gogledd Abertawe.

Byddai hyn yn:

- mynd i'r afael â diffyg cydlyniant daearyddol ward arfaethedig Canol a Gogledd Abertawe
- bod o fewn y cwota rhifiadol y mae'r Comisiwn Ffiniau yn gweithredu ynddo
- cydnabod y cysylltiadau hanesyddol, gweinyddol, cymdeithasol, economaidd a daearyddol rhwng wardiau Pontarddulais, Mawr, Penllergaer a Llangyfelach ag etholaeth Gŵyr, gan eu bod yn wardiau a oedd i gyd ym Mwrdeistref Dyffryn Lliw yn flaenorol
- cydnabod y cysylltiadau hanesyddol, gweinyddol, cymdeithasol, economaidd a daearyddol rhwng Sgeti a chanol Abertawe
- defnyddio ffin naturiol (coedwig Hendrefoilan, coedwigoedd Nant yr Olchfa a Dyffryn Clun) fel y ffin rhwng y ddwy etholaeth, gan osgoi ffin yr etholaeth sy'n croesi'r ardal drefol barhaus sy'n ffurfio llawer o'r ffin rhwng Sgeti ac Uplands.

**BCW-10715 / [redacted] Plaid Lafur Glandŵr Cwmbwrla / Abertawe**

Fi yw ysgrifennydd cangen y Blaid Lafur yn ward Glandŵr Cwmbwrla. Mae'r gangen hon wedi ymuno fel cangen ers dros 20 mlynedd.

Yn ystod cyfarfod diweddar, nododd ein haelodau y bydd Glandŵr a Chwmbwrla yn cael eu rhannu i'r ddwy ffin newydd, gyda Glandŵr yn mynd yn rhan o Ddwyrain Abertawe a Chastell-nedd, a Chwmbwrla yn rhan o Ogledd Canol Abertawe.

Rydym yn hynod siomedig am y penderfyniad i rannu ein cangen.

Rwy'n teimlo y byddwn yn colli ein hunaniaeth gan fod gennym gysylltiadau mor agos a materion tebyg yn uno'r ddwy ward. Mae'n ymddangos yn anhygoel bod y ddwy ward yn cael eu rhannu a byddai wedi gwneud mwy o synnwyr i gadw Glandŵr yr ochr hon, gydag afon Tawe yn rhaniad mwyaf naturiol ar gyfer y ffin newydd.

Byddwn yn eich annog i ailystyried y penderfyniad hwn o ystyried yr effaith y bydd yn ei chael ar y ddwy gymuned ac wrth gwrs cangen sydd wedi bod yn gangen ffyniannus ac unedig ers dros 20 mlynedd.

**BCW-10716 / [redacted] / Meifod**

Rwy'n ysgrifennu i gefnogi'r newidiadau arfaethedig i etholaeth Sir Drefaldwyn, fel yr opsiwn lleiaf gwael sy'n bwysig yn cadw Sir Drefaldwyn yn ei chyfanrwydd. Mae sir Drefaldwyn yn hanesyddol a chymdeithasol bwysig, ac rwyf ond yn gallu cefnogi'r newidiadau arfaethedig oherwydd bod hyn wedi cael ei gydnabod gan y Comisiwn. Fy enw dewisol ar gyfer yr etholaeth newydd fyddai Sir Drefaldwyn a'r Dyffrynnoedd.

**BCW-10717 / [redacted] / Castell-nedd**

Plaid Werdd Castell-nedd Port Talbot yn ymateb i'r Comisiwn Ffiniau

Fel mater o egwyddor, mae Plaid Werdd Castell-nedd Port Talbot yn gwrthwynebu’r gostyngiad o 650 o AS i 600 tra'n parhau i fod â siambr anetholedig yn San Steffan. Yng Nghymru, rydyn ni'n colli 20% o'n ASau sydd wedi eu hethol yn ddemocrataidd, ac felly'n colli ein llais yn San Steffan. Mae angen gwir ddiwygiad democrataidd ar y DU.

Wedi dweud hynny, oni bai bod y Llywodraeth yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r bwriad i leihau ASau, bydd y cynlluniau, ar ryw ffurf, yn cael eu weithredu. O ganlyniad, gweler isod safbwyntiau aelodau o Blaid Werdd CNPT ynglŷn â'r ffiniau diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022.

Cyffredinol

Ar hyn o bryd, mae gan Gastell-nedd Port Talbot ddwy etholaeth yn y Fwrdeistref Sirol. Byddai’n cael ei ystyried yn fwy ffafriol pe gallai un neu ddwy o'r etholaethau arfaethedig fod wedi cael eu cynnwys o fewn ffin y Fwrdeistref. Fodd bynnag, mae trigolion Castell-nedd Port Talbot wedi eu rhannu rhwng tri Chyngor cyfagos, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Powys ac Abertawe. Felly, mae'r ymgais hon yn cael ei hystyried yn ymarfer mathemategol lefel uchel yn hytrach nag ymgais wirioneddol i geisio llunio etholaethau sydd â chydlyniant cymdeithasol wrth eu gwraidd.

Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe

Mae cysylltiadau hirsefydlog rhwng Pontardawe, Castell-nedd ac Abertawe o ran cysylltiadau lleol, llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus a diwylliant. Mae ardal Cwm Tawe yn ardal gyn-ddiwydiannol a lled-wledig gyda rhai ardaloedd trefol difreintiedig iawn, sy'n debyg i weddill Castell-nedd Port Talbot ac nid yn debyg i Bowys sy'n llawer mwy gwledig. Mae gan ardal Cwm Tawe nifer uchel o siaradwyr Cymraeg, nad oes gan dde Powys, felly mae Cwm Tawe yn ddiwylliannol yn wahanol i dde Powys. Mae hyn i gyd ar wahân i'r ffaith bod ardal y ffin newydd yn enfawr, gyda ffordd fynyddig hir rhwng y gweddill ohoni a Chwm Tawe nad oes modd teithio arni ym misoedd y gaeaf. Byddai'r cam hwn yn dieithrio etholwyr oddi wrth eu AS ac o gynrychiolaeth yn y Senedd. Ymarfer desg yw hwn i symud niferoedd o etholwyr o gwmpas a fydd yn cael effaith negyddol ar allu trigolion Cwm Tawe i ymgysylltu’n rhagweithiol â democratiaeth.

Castell-nedd a Dwyrain Abertawe

Roedd y cynnig cychwynnol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021 yn cynnwys Canol Coedffranc, Gorllewin Coedffranc a Gogledd Coedffranc yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Er bod y penderfyniad i leihau cwantwm etholaethau San Steffan yng Nghymru yn cael ei wrthwynebu, y canlyniad i leoli 'ardaloedd Coedffranc' yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe oedd y mwyaf rhesymegol.

Mae gan drigolion Coedffranc rif llinell dir Abertawe ac maent yn cysylltu’n agosaf â thref Castell-nedd. O safbwynt cydlyniant cymdeithasol, mae'n fwyaf rhesymegol

lleoli ardaloedd Coedffranc yn etholaeth arfaethedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Mae dewis rhoi 'ardaloedd Coedffranc' yn etholaeth Aberafan a Phorthcawl yn ddi-sail ac yn afresymol o safbwynt cydlyniant cymdeithasol. Mae hefyd yn afresymegol yn ddaearyddol gan fod llawer o rwystrau ffisegol yn dylanwadu ar drigolion Coedffranc i fynd i Gastell-nedd neu Abertawe yn hytrach na Phort Talbot, Aberafan neu Borthcawl. Felly, byddai Plaid Werdd CNPT yn annog y Comisiwn Ffiniau i ddychwelyd i'r cynnig cychwynnol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021.

Aberafan a Phorthcawl

Yn ddaearyddol, mae ardaloedd Coedffranc yn cael eu hynysu o weddill yr etholaeth arfaethedig gan fod Afon Nedd yn gwahanu'n ffisegol aneddiadau Sgiwen, Llandarcy, Jersey Marine a Thwyni Crymlyn o Aberafan a Phorthcawl. Byddai Plaid Werdd CNPT yn annog y Comisiwn Ffiniau i ddychwelyd i'r cynnig cychwynnol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021.

Ac eithrio'r uchod, a chan nodi nad ein dewis ni yw uno etholaethau, mae’n debyg mai dyrannu Porthcawl gydag Aberafan yw’r opsiwn lleiaf gwael. Er hynny, nid oes gan y cynnig hwn y cysylltiadau ffisegol a chymdeithasol chwaith sydd eu hangen ar gyfer etholaeth gydlynol.

**BCW-10718 / [redacted] / Pencoed**

Rwy'n un o drigolion tref Pencoed ac yn gwrthwynebu'n gryf iawn cynnwys y dref yn etholaeth seneddol newydd arfaethedig y Rhondda. Hefyd, rwy'n meddwl bod yr amserlen a roddwyd i gyflwyno'r safbwyntiau hyn, ar fater hanfodol bwysig sy'n cael effaith ar ddyfodol y dref yr wyf yn byw ynddi, yn gwbl annigonol ac annerbyniol. Os oes awydd difrifol i gael barn onest, ystyriol ac agored unigolion, grwpiau a sefydliadau ar y newid arfaethedig hwn, yna dylai llawer mwy o amser fod wedi cael ei neilltuo. Nid oedd unrhyw un o'r cynigion blaenorol wedi awgrymu cynnwys Pencoed o fewn ffin y Rhondda, felly mae gweld y newid enfawr a awgrymir yma yn sioc a syndod llwyr.

Ers dros ganrif, mae pobl Pencoed wedi uniaethu â Phen-y-bont ar Ogwr ac nid gyda'r Rhondda; yn wir ein tref bost yw Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gennym gampws Coleg Pen-y-bont uchel ei barch wedi'i leoli yn y dref. Mae gan ein hysgolion gyfoeth o dystiolaeth sy'n dangos eu bod yn rhyngweithio â'u cymheiriaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac nid gyda'r Rhondda.

Does bosib mai'r rhesymeg y tu ôl i unrhyw newidiadau ffiniau ddylai fod sicrhau sefydlogrwydd economaidd a diwylliannol cymunedau, ond mae cysylltu Pencoed â'r Rhondda trwy Gilfach Goch trwy'r llain deneuaf o dir heb unrhyw gyswllt i gerbydau yn hurt bost. Nid oes unrhyw gysylltiadau rheilffordd uniongyrchol na chysylltiadau ffyrdd i'r etholaeth newydd o Bencoed.

Wrth ystyried y map o'r newidiadau ffiniau arfaethedig, mae'n amlwg mai ateb llawer mwy syml a hyfyw fyddai disodli Pencoed â'r cyfan o Gwm Ogwr, sydd â llawer mwy o gysylltiadau â'r Rhondda, gyda dwy ffordd ar wahân, yr A4061 a'r A4093, yn ei gysylltu'n uniongyrchol ag etholaeth y Rhondda. Mae Cwm Ogwr hefyd yn rhannu ffin ar ei holl ochr ddwyreiniol gyda'r Rhondda. Mae hefyd yn wir fod gan gymunedau Cwm Ogwr h.y., Nantymoel, Bro Ogwr a Melin Ifan Ddu llawer mwy yn gyffredin â chymunedau cyfagos y Rhondda o ran economi, treftadaeth a diwylliant na Phencoed.

Hyderaf y byddwch yn rhoi ystyriaeth haeddiannol i hyn.

**BCW-10719 / [redacted] / Coed Duon**

Rwy'n byw yng Nghefn Fforest a fu'n rhan o etholaeth Islwyn ers ei dechrau ym 1983. Mae eich cynigion diwygiedig yn difetha ein hunaniaeth hirsefydlog, mae'n diystyru'n llwyr ddaearyddiaeth naturiol y trefi pentref hyn. Roedd eich cynnig gwreiddiol o gadw Cefn Fforest yn Islwyn, a chadw Islwyn yn etholaeth yn llawer mwy rhesymegol ac ymarferol na'r cynnig diwygiedig a fydd yn cadw Caerffili yn etholaeth ac yn symud Cefn Fforest iddi.

Nid oes gan Cefn Fforest unrhyw gysylltiad ag etholaeth the Caerffili, ac mae Pengam a fydd hefyd yn cael ei datgysylltu o Islwyn, wedi'i wahanu oddi wrth Gaerffili gan ffin afon naturiol. Mae'r cynigion newydd hyn hefyd yn llwyr anwybyddu pa mor agos yw Cefn Fforest i'r Coed Duon. Mae'r rhain yn wardiau cyfagos, cydlynus. Ac eto bydd y cynigion hyn yn gwahanu'r wardiau cyfagos hyn oherwydd bydd Coed Duon yn parhau yn Islwyn o dan y cynllun newydd hwn.

Mae hyn yn amlwg yn anghyfiawn, yn enwedig gan nad oes unrhyw ffiniau ffisegol rhwng y wardiau hyn i ganiatáu am y fath ddatgysylltu. Mae'r cynigion diwygiedig hyn yn datgysylltu Pontllanfraith hefyd, ward sy'n rhedeg trwy etholaeth Islwyn. Sut yn y byd mae datgysylltu'r ward hon yn bodloni'r meini prawf a bennwyd?

Nodaf wrthwynebiadau blaenorol i alinio Caerffili â Gorllewin Casnewydd, ond y realiti llym yw os oes rhaid i unrhyw uno ddigwydd â Gorllewin Casnewydd siawns mai â'r rhannau hynny o Gaerffili sydd â ffin â hi y mae'n rhaid i hyn fod. Yn eich adroddiad diweddaraf, rydych yn dweud y gwnaethoch benderfynu gwyrdroi eich penderfyniad gwreiddiol i gysylltu rhannau o etholaeth Caerffili â Gorllewin Casnewydd oherwydd y cafwyd amddiffyniad 'angerddol' am yr etholaeth honno. Wel os yw hynny'n wir, dylai amddiffyniad angerddol am Islwyn arwain at ailsefydlu'r cynigion gwreiddiol!

At hynny, mae tynnu wardiau fel Cefn Fforest o Islwyn ac uno'r wardiau sy'n weddill â rhywle mor bell a digysylltiad â Gorllewin Casnewydd, yn dangos nad yw meini prawf yn bwysig, nad yw cysylltiadau daearyddol yn bwysig, nid yw hunaniaeth a threftadaeth hirsefydlog yn bwysig. Nid oes unrhyw gyfiawnhad dros rannu etholaeth Islwyn fel hyn, sy'n datgysylltu wardiau fel Cefn Fforest a Phengam a Phontllanfraith oddi wrthi ac yn rhwygo cymunedau sydd wedi'u cysylltu'n hanesyddol.

Hyderaf er budd tegwch, y byddwch yn ailystyried y cynllun hwn eto ac yn dychwelyd i'ch cynigion blaenorol ac yn cadw etholaeth Islwyn.

**BCW-10720 / [redacted] / Castell-nedd**

Mae lleoli Sgiwen yn etholaeth Aberafan wedi peri dryswch erioed i drigolion Canol Coed-ffranc. Mae gennym berthynas agos â thref Castell-nedd ac yn uniaethu â’r ardal honno yn fwy nag Aberafan, Port Talbot neu Borthcawl hyd yn oed. Er bod lleihau nifer yr ASau yn peri siom gan y byddwn yn colli lefel arbennig o graffu yn ein democratiaeth, ymddangosai mai’r penderfyniad gwreiddiol i leoli wardiau Coed-ffranc yn yr etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe arfaethedig oedd y mwyaf rhesymegol. Felly, er syndod i mi pan oedd y cynlluniau diwygiedig yn adleoli wardiau Coed-ffranc o Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe i Aberafan a Phorthcawl, rhoddodd yr argraff i mi a llawer o drigolion mai ymarfer ben bwrdd yn unig yw hwn wedi’i seilio ar fathemateg ac nid cydlyniad cymdeithasol.

Y canlyniad mwyaf rhesymegol fyddai dychwelyd wardiau Coed-ffranc i etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Byddwn i’n annog y comisiwn yn gryf i wneud hyn.

**BCW-10721 / [redacted] / Wrecsam**

Pam ydym ni yn Nhre Ioan yn cael ein rhoi yn etholaeth Powys? Nid ydym unman yn agos ati, rydym yn rhan o Wrecsam, mae o fewn pellter cerdded i Dre Ioan. Edrychwch eto ar hyn a’n gadael ni yn Wrecsam.

**BCW-10722 / [redacted] / Sgiwen**

Hoffwn i wrthwynebu rhoi ward Coed-ffranc gyda ward Port Talbot/ Pen-y-bont ar Ogwr.

Nid oes neb yn y ward yn uniaethu â Phort Talbot/ Pen-y-bont ar Ogwr, roedd yn gamgymeriad ei rhoi yn y ward honno yn y lle cyntaf, nid oes gennym unrhyw gysylltiad â nhw o gwbl.

**BCW-10723 / [redacted] / Castell-nedd Port Talbot**

Mae gen i bryderon ynglŷn â’r newid ffiniau yn gyffredinol a’r effaith y bydd hyn yn ei chael ar ddemocratiaeth drwy leihau nifer yr ASau a chreu etholaethau mwy. A minnau’n un o drigolion Canol Coed-ffranc yn Sgiwen ac yn Gynghorydd Bwrdeistref Sirol, rwyf i’n teimlo efallai fod trigolion lleol yn teimlo mwy o gysylltiad ag etholaeth Castell-nedd nag ag Aberafan a Phorthcawl. Er fy mod i’n deall y gallai fod barn wahanol o ward Dwyrain Abertawe mewn cysylltiad ag uno Sgiwen ond byddwn i wedi meddwl y byddai gan Sgiwen gysylltiad agosach â Chastell-nedd o ran lleoliad a chysylltiadau trafnidiaeth.

**BCW-10724 / [redacted] Swyddog Canlyniadau Abertawe / Abertawe**

Mae Swyddog Canlyniadau Abertawe o blaid cynigion y Comisiynydd Cynorthwyol gan eu bod yn cyd-fynd yn well â'r ffordd y mae'r cyhoedd yn ystyried cymunedau. Nid yw'r cynigion diwygiedig yn ystyried cymunedau presennol o gwbl. Bydd y cynigion diwygiedig yn arwain at ddryswch pleidleiswyr gyda ffiniau'n croesi ffiniau etholiadol eraill.

Mae angen mynd i'r afael â Wardiau darfodedig ac mae angen diweddaru'r cynigion i adlewyrchu'r Wardiau a ddefnyddiwyd yn Etholiadau Llywodraeth Leol mis Mai 2022. Mae hyn yn effeithio ar ardaloedd yn hen Wardiau Castell, Mawr a St Thomas. Mae'n rhaid i unrhyw gynnig diwygiedig gynnwys y newidiadau ffiniau a ddefnyddiwyd ym mis Mai 2022. Yn olaf, mae dod â Glandŵr i Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe yn ddryslyd. Dylid cadw ffin yr afon fel ffin naturiol.

**BCW-10725 / [redacted] / Abertawe**

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynnig i gynnwys Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn ward Brycheiniog, Maesyfed a Chwm-Tawe. Mae ein holl gysylltiadau lleol â Chastell-nedd ac Abertawe, nid Brycheiniog. Byddem yn bellter hurt o swyddfa ein cynrychiolydd etholedig. Mae gan Gwm Tawe a Dyffryn Aman gymeriad gwahanol iawn i Bowys – maen nhw'n fwy Cymraeg eu hiaith, yn fwy difreintiedig ac mae ganddyn nhw economi wledig lawer llai. Ni fydd AS a etholwyd i gynrychioli mwyafrif yr etholaeth yn ein cynrychioli ni.

Er ei bod yn wir bod gan Ystradgynlais fwy yn gyffredin â Chwm Tawe nag â gweddill Powys, yn hanesyddol roedd Ystradgynlais yn rhan o Sir Brycheiniog erioed ac mae Cwm Tawe wedi bod yn rhan o Sir Forgannwg a'i chyrff olynol erioed. Mae dadl gryfach dros gynnwys Ystradgynlais mewn etholaeth tua'r de, fel y cyfaddefwyd yn eich adroddiad cynnig. O'r adroddiad hwnnw mae'n amlwg eich bod yn derbyn bod cynnwys Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn yr etholaeth newydd yn llawer llai delfrydol o safbwynt daearyddol a diwylliannol, ond byddai newid ffiniau yn gwneud y niferoedd yn rhy anodd ar gyfer yr ardaloedd cyfagos. Mae'n ymddangos ein bod yn niwed canlyniadol derbyniol, ac nid yw hyn yn ddigon derbyniol ar gyfer ymarfer sydd i fod yn ymwneud â gwella cynrychiolaeth ddemocrataidd.

**BCW-10726 / [redacted] Cyngor Cymuned Maesycwmer / Maesycwmer**

Dymuna'r Cyngor Cymuned wrthwynebu'r cynnig i rannu etholaeth Islwyn.

Nid yw'r un o'r cynigion ar gyfer rhannu ac uno gwahanol rannau yn gwneud synnwyr o ran cysondeb daearyddol / hanesyddol.

Rydym yn adleisio'r pryderon a godwyd gan AS Wayne David.

**BCW-10727 / Y Cyng. Lisles / Pontypridd**

Mae Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol a gyhoeddwyd yn 2022 yn cyfeirio at nifer o Ffactorau Hanfodol neu Statudol Eraill ar dudalen 7. Rhoddir pwyslais hafal i bob un, gan gynnwys bod yn gydffiniol, sef bod ffiniau etholaethau presennol a'u cysylltiad ag ardaloedd prif awdurdod lleol. Mae ffactorau eraill yn cynnwys unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau a'r anghyfleustra y mae newidiadau o'r fath yn ei greu ac osgoi creu unrhyw etholaethau newydd gyda rhannau wedi'u datgysylltu. Mae'r broses hon hefyd yn helpu i greu ffiniau sy'n gydlynol ac adnabyddus mewn cymunedau. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at geisio ymddwyn mor synhwyrol â phosibl yn hytrach nag 'ychwanegu cymunedau fel Pont-y-clun... a Ffynnon Taf yn syml i gael y niferoedd iawn." (t.16).

Gwnaeth gweinyddwyr etholiadol sylwadau hefyd fod, "po leiaf y mae etholaethau a phrif awdurdodau lleol yn cyd-ffinio, y mwyaf cymhleth y daw'r sefyllfa o safbwynt gweinyddol." (t.24)

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y cynigion terfynol wedi taflu allan y mathau hyn o ystyriaethau o ran rhai o'r ardaloedd etholaethau newydd a fydd yn gwasanaethu ardal sirol CBS RhCT. Yn aml, mae'n ymddangos fel petai ward wedi'i 'ychwanegu' i gael y niferoedd iawn heb unrhyw ystyriaeth o'r cysylltiadau ac ati rhwng wardiau/siroedd ac ati. Yr ardal 'lled-wahanedig' a ychwanegwyd at etholaeth Rhondda yw'r rhan rhyfeddaf oll.

Mae ward Ffynnon Taf CBS RhCT yn mynd ar ei phen ei hun i etholaeth Gogledd Caerdydd. Mae'n ymddangos yn rhyfedd ei symud ar ei phen ei hun. Mae ward Pont-y-clun CBS RhCT yn mynd i etholaeth Gorllewin Caerdydd, unwaith eto ar ei phen ei hun. Nid oes gan Ffynnon Taf unrhyw beth yn gyffredin â wardiau eraill Gogledd Caerdydd ond yn fwy cyffredin â wardiau eraill yn etholaeth Gorllewin Caerdydd, e.e. Pentyrch/Creigiau. Bydd hefyd yn golygu y bydd yr unig goleg sy'n cynnig addysg chweched dosbarth yng nghwm Taf cyfan yn dod o dan AS gwahanol.

Fodd bynnag, yn etholaeth Rhondda – nid yw hyn yn dilyn y canllawiau. Fel y nodwyd uchod, gan fod rhan 'led-wahanedig', mae'n ymddangos yn rhyfedd iawn cynnwys ardal Pencoed/Felindre/Hendre ac efallai byddan nhw'n well mewn un o'r wardiau cyfagos eraill.

Mae gan Lanharan a Brynna, o'r un awdurdod lleol, fwy o gysylltiad daearyddol ag etholaeth Rhondda nag ag etholaeth Pencoed/Felindre/Hendre sydd mewn gwahanol awdurdod lleol. Ni fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr i ffigurau etholaeth Pontypridd drwy dynnu Llanharan a Brynna o etholaeth Pontypridd a'i ychwanegu at etholaeth Rhondda.

Gellid cynnwys Nant-y-moel a chwm Garw yn yr etholaeth hon gan fod ganddyn nhw gymaint yn fwy yn gyffredin na Phencoed ac ati.

**BCW-10728 / Y Cyng. Lisles / Pontypridd**

Mae Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol a gyhoeddwyd yn 2022 yn cyfeirio at nifer o Ffactorau Hanfodol neu Statudol Eraill ar dudalen 7. Rhoddir pwyslais hafal i bob un, gan gynnwys bod yn gydffiniol, sef bod ffiniau etholaethau presennol a'u cysylltiad ag ardaloedd prif awdurdod lleol. Mae ffactorau eraill yn cynnwys unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau a'r anghyfleustra y mae newidiadau o'r fath yn ei greu ac osgoi creu unrhyw etholaethau newydd gyda rhannau wedi'u datgysylltu. Mae'r broses hon hefyd yn helpu i greu ffiniau sy'n gydlynol ac adnabyddus mewn cymunedau. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at geisio ymddwyn mor synhwyrol â phosibl yn hytrach nag 'ychwanegu cymunedau fel Pont-y-clun... a Ffynnon Taf yn syml i gael y niferoedd iawn." (t.16).

Gwnaeth gweinyddwyr etholiadol sylwadau hefyd fod, "po leiaf y mae'r etholaethau a phrif awdurdodau lleol yn cyd-ffinio, y mwyaf cymhleth y daw'r sefyllfa o safbwynt gweinyddol." (t.24)

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y cynigion terfynol wedi taflu allan y mathau hyn o ystyriaethau o ran rhai o'r ardaloedd etholaethau newydd a fydd yn gwasanaethu ardal sirol CBS RhCT. Yn aml, mae'n ymddangos fel petai ward wedi'i 'ychwanegu' i gael y niferoedd iawn heb unrhyw ystyriaeth o'r cysylltiadau ac ati rhwng wardiau/siroedd ac ati. Yr ardal 'lled-wahanedig' a ychwanegwyd at etholaeth Rhondda yw'r rhan rhyfeddaf oll.

Mae ward Ffynnon Taf CBS RhCT yn mynd ar ei phen ei hun i etholaeth Gogledd Caerdydd. Mae'n ymddangos yn rhyfedd ei symud ar ei phen ei hun. Mae ward Pont-y-clun CBS RhCT yn mynd i etholaeth Gorllewin Caerdydd, unwaith eto ar ei phen ei hun. Nid oes gan Ffynnon Taf unrhyw beth yn gyffredin â wardiau eraill Gogledd Caerdydd ond yn fwy cyffredin â wardiau eraill yn etholaeth Gorllewin Caerdydd, e.e. Pentyrch/Creigiau. Bydd hefyd yn golygu y bydd yr unig goleg sy'n cynnig addysg chweched dosbarth yng nghwm Taf cyfan yn dod o dan AS gwahanol.

Fodd bynnag, yn etholaeth Rhondda – nid yw hyn yn dilyn y canllawiau. Fel y nodwyd uchod, gan fod rhan 'led-wahanedig', mae'n ymddangos yn rhyfedd iawn cynnwys ardal Pencoed/Felindre/Hendre ac efallai byddan nhw'n well mewn un o'r wardiau cyfagos eraill.

Hefyd, mae gan Lanharan a Brynna, o'r un awdurdod lleol, fwy o gysylltiad daearyddol ag etholaeth Rhondda nag ag etholaeth Pencoed/Felindre/Hendre sydd mewn gwahanol awdurdod lleol. Ni fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr i ffigurau etholaeth Pontypridd drwy dynnu Llanharan a Brynna o etholaeth Pontypridd a'i ychwanegu at etholaeth Rhondda.

Gellid cynnwys Nant-y-moel a chwm Garw yn yr etholaeth hon gan fod ganddyn nhw gymaint yn fwy yn gyffredin na Phencoed ac ati.

**BCW-10729 / Y Cyng Frank Little- Democratiaid Rhyddfrydol Aberafan a Chastell-nedd / Castell-nedd**

Ar ran fy hun a’r Democratiaid Rhyddfrydol lleol, mae’n rhaid i mi fynegi anfodlonrwydd llwyr eich bod, yn ogystal â gwrthod ein gwrthwynebiad nad oes gan bron i unrhyw wardiau Castell-nedd yr ydych yn cynnig eu hychwanegu at Frycheiniog unrhyw gysylltiad â’r ardal honno, rydych hefyd wedi dileu’r un ailddosbarthiad yr oeddem yn cytuno ag ef. Er nad yn gwbl hapus â bod yn gysylltiedig â ward Dinas Abertawe, roedd aduno Coed-ffranc â gweddill Castell-nedd yn rhywbeth roeddem ni wedi pwyso arno gyda Chomisiwn Ffiniau blaenorol. Nid oes unrhyw gysylltiadau lleol rhwng Coed-ffranc a Phorthcawl. Yn wir, mae dwy neu dair afon rhyngom ni. Hoffwn gofrestru ein gwrthwynebiad i’r ailddosbarthiad diwygiedig hwn ac yn ailadrodd ein gwrthwynebiad i symudiadau Cwm Tawe.

Rwy’n pwysleisio bod y gwrthwynebiadau hyn wedi’u gwneud ar sail cysylltiadau lleol yn unig, nid ar sail ystyriaethau gwleidyddol. Yn wir, mae’n bosibl y bydd eich cynigion ar eu hwyneb o fudd i’r blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn y rhanbarth. Fodd bynnag, rydym yn pryderu ynglŷn â brogarwch a democratiaeth yn gyffredinol.

- Frank Little

Ysgrifennydd, Democratiaid Rhyddfrydol Aberafan a Chastell-nedd

Cynghorydd, Cyngor Tref Coed-ffranc

**BCW-10730 / [redacted] / Caerdydd**

Ysgrifennaf yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan y Comisiynau Ffiniau i Gymru ddydd Mercher 19 Tachwedd. Ysgrifennaf ynglŷn â'r cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth.

Rwy'n gwrthwynebu'r symud hwn. Mae ward Cathays wedi'i gysylltu'n gynhenid â'r wardiau eraill yng nghymuned ehangach y Rhath, sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown. Dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol lle mae ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd ac mae ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac yn cynnwys symud dwy ward yn unig o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na'r pedair sy'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig. Mae'r holl Gomisiynau Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod yn yr un sedd Seneddol am fwy na chwedeg mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn erioed wedi ceisio gwahanu Cathays a Phlasnewydd yn ei adolygiadau blaenorol ers 2010.

Cafodd y Comisiwn un cyflwyniad (oddi wrth drigolyn yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn. Cafodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (oddi wrth drigolion Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown yng nghymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Rwy'n derbyn bod Trowbridge yn ward heb unrhyw ffordd fynediad uniongyrchol i Splott. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn union yr un sefyllfa yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae Splott a Trowbridge yn dod gyda degawdau o hanes yn rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r ateb arfaethedig yn y sedd Rhondda newydd.

Ni fu unrhyw sôn am symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth fel opsiwn yn ystod y prosesau cynnig ac ymgynghori blaenorol. Mae ei gyflwyno ar ffurf derfynol ar y cam olaf hwn yn ymddangos yn anonest, ac nid yn ysbryd y datganiad a wnaed gan yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau'r broses.

"Rydym yn benderfynol o ddatblygu'r argymhellion gorau posib ar gyfer etholaethau newydd Cymru, a gwyddom mai'r unig ffordd o sicrhau hynny yw denu'r cyfranogiad cyhoeddus mwyaf rydym erioed wedi ei gael." "Mae hygyrchedd wrth galon beth rydym yn ceisio cyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru llais holl bwysig i'w hychwanegu i'r sgwrs am ffiniau etholaethol Cymru, ac rydym am i bawb yng Nghymru cael cyfle i ddatgan eu barn."

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol â wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae ei lleoli yn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hurt ac ni fydd yr etholaeth yn ei ddeall yn hawdd. Fodd bynnag, mae gan Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown lawer o gysylltiadau cymunedol:

• Mae'r boblogaeth o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd ar y cyfan. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn ymestyn dros Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, gyda neuaddau preswyl yn agos i Cathays a Phlasnewydd.

• Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried bod wardiau Cathays a Phlasnewydd mor gyd-gysylltiedig fod rheolau cynllunio wedi'u pasio dim ond ar gyfer tai amlfeddiannaeth a bwrdd asiantiaid gosod eiddo yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)

• Mae dalgylch ysgol uwchradd Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.

• Mae'r plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays a Phlasnewydd yn mynd ymlaen i Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (y Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

• Mae'r cysylltiadau cymunedol ledled Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed, yn golygu bod trigolion yn y tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o amgylch cylchoedd siopa Heol Crwys, Heol Albany a Heol y Ddinas.

• Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir rhwng Cathays a Phlasnewydd, yn hirsefydlog ac fe'u parchwyd yn briodol gan gynigion gwreiddiol y Comisiwn.

• Trefnir yr Eglwys yng Nghymru o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)

• Mae dalgylchoedd meddygfeydd teulu yn ymestyn dros ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac yn rhannu pryderon a demograffeg gyffredin.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Rwy'n gobeithio y bydd y Comisiwn yn gwyrdroi'r cynigion diwygiedig ar ôl darllen y dystiolaeth yma ac y bydd yn dychwelyd i'r cynigion gwreiddiol fel y cyhoeddwyd.

**BCW-10731 / [redacted] / Caerfyrddin**

Ysgrifennaf i gefnogi cynigion hynod ystyriol Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer etholaeth Caerfyrddin gan gynnwys ychwanegu Ward Llangynnwr. Maen nhw'n cydbwyso cymunedau a daearyddiaeth Sir Gaerfyrddin yn gywir gan ystyried cysylltiadau cymunedol, cyfleusterau cyhoeddus a phatrymau cymudo.

Mae ychwanegu Llangynnwr i'w groesawu'n arbennig gan fod Llangynnwr yn rhan annatod o Dref Caerfyrddin ac mae ganddi gysylltiadau cryf â wardiau cyfagos Llanddarog ac Abergwili yn ogystal â Chapel Dewi a Llanarthne. At hynny, prif ganolfan boblogaeth Llangynnwr yw Tre-gynnwr sydd wedi'i hadeiladu ar ochr mynydd sy'n wynebu ac yn edrych dros dref Caerfyrddin o'r de. Mae'n gartref i orsaf rheilffordd Caerfyrddin, Gorsaf Heddlu Caerfyrddin, Swyddfa Didoli Post Brenhinol Caerfyrddin ac Ysgol Bro Myrddin Caerfyrddin. Mae trigolion lleol yn nalgylchoedd ysgol gynradd ac ysgolion uwchradd Caerfyrddin a cheir mynediad i'r GIG drwy Ysgol Glangwili sydd gerllaw a phractisau meddygon teulu yn Nhref Caerfyrddin.

O ystyried nad yw lleoli'r ward yng Nghaerfyrddin yn effeithio'n ormodol ar niferoedd Llanelli na Chaerfyrddin mae ei lleoli yn etholaeth Caerfyrddin yn benderfyniad doeth sydd i'w groesawu.

Ar y cyfan, mae hon yn gyfres ragorol o gynigion sy'n gwella atebolrwydd democrataidd yn Sir Gaerfyrddin.

**BCW-10732 / [redacted] Swyddog Canlyniadau CBS Castell-nedd Port Talbot / Port Talbot**

Cynigion Diwygiedig –Adolygiad Ffiniau Seneddol 2023

Mewn ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau i Gymru a chyhoeddiad ei gynigion diwygiedig ar gyfer Adolygiad Ffiniau Seneddol 2023, gan mai fi yw Swyddog Canlyniadau ardal Cyngor Castell-nedd Port Talbot, cyflwynaf y pwyntiau egwyddor canlynol i'w hystyried.

Er gwybodaeth, trafodwyd a chofnodwyd y sylwadau a nodir isod mewn cysylltiad ag etholaethau newydd arfaethedig Aberafan Porthcawl, Brycheiniog Maesyfed, a Chwm-tawe a Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe gan aelodau yn ystod cyfarfod llawn y cyngor a gynhaliwyd ddydd Mercher, 9, Tachwedd 2022.

Pwyntiau Egwyddor

Mae'n amlwg bod y cynigion diwygiedig sydd bron yn unfath â chynigion gwreiddiol y Comisiwn, gyda mân newidiadau yn unig gan gynnwys y rhai hynny i dair ward etholiadol Coed-ffranc, yn parhau i fod â diffyg ystyriaeth briodol o gymunedau naturiol, cysylltiadau lleol gwirioneddol, a ffiniau hawdd eu hadnabod, gyda blaenoriaeth lwyr yn canolbwyntio ar gyflawni'r ystod etholiadol statudol ar draul yr holl faterion eraill.

O ganlyniad i gyfyngiadau deddfwriaethol a roddwyd ar y Comisiwn, mae wedi cynnal ymarfer rhifyddol i ad-drefnu blociau adeiladu'r wardiau etholiadol i gyflawni'r canlyniad dymunol, heb fawr o ystyriaeth i ansawdd llywodraethiant lleol a gan greu etholaethau nad ydyn nhw'n hawdd i'r etholaeth eu hadnabod mwyach.

Nid yw'r cynigion diwygiedig a gyhoeddwyd yn ystyried yn briodol ddaearyddiaeth yr ardal na'r ffiniau naturiol rhwng cymunedau lleol a ddatblygwyd dros bron i ganrif.

Y pryder mwyaf o hyd yw'r cynnig nad yw wedi'i newid i gynnwys ardaloedd Pontardawe, Aman, a Chwm Tawe Uchaf yn etholaeth arfaethedig Brycheiniog, Maesyfed a Chwm-tawe.

I bob pwrpas, byddai hyn yn gwahanu'n ddemocrataidd gymunedau preswyl wardiau Cwm Tawe oddi wrth weddill ardal Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

I sicrhau y cedwir yr ystod etholiadol statudol, bydd ardaloedd preswyl, masnachol a diwydiannol bywiog etholaethau presennol Aberafan a Chastell-nedd yn cael eu hollti a'u hailffurfio i greu etholaethau newydd lle na fydd niferoedd mawr o etholwyr yn teimlo cysylltiad mawr â nhw. Mae'n anochel y bydd hyn yn ei dro yn arwain at ddirywio ymgysylltiad â'r broses ddemocrataidd.

Er bod y Comisiwn yn cadw at y rheolau perthnasol wrth wneud y penderfyniadau, mae'n anochel y bydd y modelu yn arwain at wahaniaethau sylweddol yn siâp a maint etholaethau Cymru gan arwain at ddiffyg democrataidd na ellir ei wella'n hawdd nac yn gyflym.

Ynghyd â'r pryder hwn mae'r cymhlethdod ychwanegol y bydd creu etholaethau seneddol newydd yn ei achosi ar gyfer y gwahanol haenau o lywodraeth yng Nghymru.

Ni fydd cynigion diwygiedig y Comisiwn, pe cânt eu mabwysiadu, yn adlewyrchu'r ffiniau etholaeth presennol ar gyfer Senedd Cymru mwyach, drwy ailffurfio etholaethau Aberafan a Chastell-nedd yn sylweddol ac arwain at orgyffwrdd sylweddol ag etholaethau cyfagos yn y gogledd, dwyrain a'r gorllewin.

Hefyd, mae'r cynigion diwygiedig yn galw am groesi ffiniau prif awdurdod lleol er mwyn cyrraedd y cwota etholiadol statudol a bennwyd gan Lywodraeth y DU.

Bydd newidiadau sylweddol o'r fath yn arwain at ddirywio graddol, gorgyffwrdd, a chymhlethdod ychwanegol mewn atebolrwydd cynrychiolwyr etholedig (ASau Cymru a'r DU ac Aelodau Etholedig) yn arbennig wrth ymdrin â materion critigol, fel adfywio economaidd neu fuddsoddi mewn seilwaith ar lefel Llywodraeth Cymru a'r DU.

Yn ogystal, bydd y cynigion yn arwain at ddryswch a chamddealltwriaeth sylweddol ymhlith etholwyr lleol na fyddan nhw'n gallu adnabod na nodi pwy sy'n eu cynrychioli ar bob haen o lywodraeth mwyach.

Mae'n anochel y bydd hyn yn arwain at lefel gynyddol o risg i weinyddu digwyddiadau etholiadol yn ddiogel gyda materion trawsffiniol lluosog or-gymhleth a'r potensial cynyddol o fethiant gweinyddol pan fydd gwahanol fathau o ffiniau ar waith mewn unrhyw ddigwyddiadau etholiadol cyfunol yn y dyfodol.

Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol

Ar y sail hon, er nad oes ateb perffaith o hyd, mae'r Swyddog Canlyniadau'n cytuno â barn y Comisiynwyr Cynorthwyol yn eu hadroddiad annibynnol fod 'llwybr amgen' hyfyw yn bodoli wrth bennu cyfluniad sy'n adlewyrchu'r cymunedau dan sylw yn llawer gwell wrth gadw'n agos at y ffactorau statudol.

Creda'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn gryf fod holl gysylltiadau cymdeithasol, economaidd, cymunedol a gweinyddol ardaloedd Pontardawe, Aman, a Chwm Tawe Uchaf yng nghytref Abertawe/Castell-nedd, ac yn eu barn nhw, prin yw'r ffactorau statudol y mae eu cynnwys mewn etholaeth ym Mhowys yn eu bodloni, os o gwbl.

Hefyd, roedd ganddyn nhw bryderon arbennig ynglŷn ag uno Dwyrain Abertawe â Chastell-nedd, a gwnaethon nhw nodi gwrthwynebiadau niferus i hyn, yn arbennig o ward etholiadol Llansamlet a bwysleisiwyd gan dystiolaeth a roddwyd mewn gwrandawiad cyhoeddus.

Cafwyd dadleuon cryf fod y gymuned hon yn wynebu Abertawe, nid Castell-nedd, o ran cysylltiadau hanesyddol, economaidd a thrafnidiaeth.

Ar sail honno, ffafriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol fodel 'hybrid' model sy'n cynnwys cynllun dwyrain/gorllewin i'r gogledd o Ddinas Abertawe (ar hyd traffordd yr M4 i bob pwrpas).

Nid yw'r cynllun hwn heb ei gynsail, ac mae'n debyg iawn i ardal flaenorol Cyngor Bwrdeistref Dosbarth Dyffryn Lliw a fodolodd rhwng 1974 a 1996. Enw'r etholaeth arfaethedig hon fyddai Dyffryn Lliw.

Ar sail y model 'hybrid' hwn, o ran etholaethau presennol Castell-nedd ac Aberafan, cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol etholaeth sy'n cynnwys tref Castell-nedd, rhan helaeth o etholaeth bresennol Aberafan, a wardiau etholiadol Dwyrain a Gorllewin Maesteg ynghyd â Chaerau o ardal weinyddol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, oherwydd cysylltiadau trafnidiaeth, cymunedol ac eraill rhwng Cwm Afan a Maesteg.

Enw arfaethedig yr etholaeth hon fyddai Castell-nedd, Aberafan a Maesteg.

Dylai cynigion y Comisiwn ar gyfer newid fod yn ddymunol, effeithiol a chyfleus i gymunedau lleol. Byddai'r cynigion diwygiedig hyn yn dirywio effeithiolrwydd cynrychiolaeth etholedig, yn anghyfleus i'r etholaeth ac yn cynyddu cymhlethdod a'r risg o wall gweinyddol wrth gynnal etholiadau.

Am y rhesymau a nodwyd uchod ac yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod diweddar Cyngor Castell-nedd Port Talbot, gan mai fi yw Swyddog Canlyniadau, rwyf yn cefnogi ac yn cymeradwyo'n llawn gynigion a safbwynt ystyriol y Comisiynwyr Cynorthwyol a nodwyd yn eu hadroddiad annibynnol ac yn annog y Comisiwn yn gryf i ailystyried ei benderfyniad i wrthod y cynllun amgen ystyriol hwn.

Yn gywir

[redacted]

Swyddog Canlyniadau

**BCW-10733 / [redacted] / Caerdydd**

Ysgrifennaf gan mai fi yw Aelod Ward y Cyngor dros Cathays, yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddydd Mercher 19 Tachwedd.

Ysgrifennaf ynglŷn â'r cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth.

Gwrthwynebaf y symud hwn. Mae ward Cathays wedi'i gysylltu'n gynhenid â'r wardiau eraill yng nghymuned ehangach y Rhath, sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown.

Dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynigion gwreiddiol lle mae ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd ac mae ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac yn cynnwys symud dwy ward yn unig o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na'r pedair sy'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae'r holl Gomisiynau Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod yn yr un sedd Seneddol am fwy na chwedeg mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn erioed wedi ceisio gwahanu Cathays a Phlasnewydd yn ei adolygiadau blaenorol ers 2010.

Cafodd y Comisiwn un cyflwyniad (oddi wrth drigolyn yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn.

Cafodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (oddi wrth drigolion Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown yng nghymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Rwy'n derbyn bod Trowbridge yn ward heb unrhyw ffordd fynediad uniongyrchol i Splott. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn union yr un sefyllfa yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae Splott a Trowbridge yn dod gyda degawdau o hanes yn rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r ateb arfaethedig yn y sedd Rhondda newydd.

Ni fu unrhyw sôn am symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth fel opsiwn yn ystod y prosesau cynnig ac ymgynghori blaenorol. Mae ei gyflwyno ar ffurf derfynol ar y cam olaf hwn yn ymddangos yn anonest, ac nid yn ysbryd y datganiad a wnaed gan yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau'r broses.

"Rydym yn benderfynol o ddatblygu'r argymhellion gorau posib ar gyfer etholaethau newydd Cymru, a gwyddom mai'r unig ffordd o sicrhau hynny yw denu'r cyfranogiad cyhoeddus mwyaf rydym erioed wedi ei gael." "Mae hygyrchedd wrth galon beth rydym yn ceisio cyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru llais holl bwysig i'w hychwanegu i'r sgwrs am ffiniau etholaethol Cymru, ac rydym am i bawb yng Nghymru cael cyfle i ddatgan eu barn."

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol â wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae ei lleoli yn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hurt ac ni fydd yr etholaeth yn ei ddeall yn hawdd. Fodd bynnag, mae gan Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown lawer o gysylltiadau cymunedol:

• Mae'r boblogaeth o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd ar y cyfan. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn ymestyn dros Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, gyda neuaddau preswyl yn agos i Cathays a Phlasnewydd.

• Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried bod wardiau Cathays a Phlasnewydd mor gyd-gysylltiedig fod rheolau cynllunio wedi'u pasio dim ond ar gyfer tai amlfeddiannaeth a bwrdd asiantiaid gosod eiddo yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)

• Mae dalgylch ysgol uwchradd Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.

• Mae'r plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays a Phlasnewydd yn mynd ymlaen i Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (y Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

• Mae'r cysylltiadau cymunedol ledled Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed, yn golygu bod trigolion yn y tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o amgylch cylchoedd siopa Heol Crwys, Heol Albany a Heol y Ddinas.

• Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir rhwng Cathays a Phlasnewydd, yn hirsefydlog ac fe'u parchwyd yn briodol gan gynigion gwreiddiol y Comisiwn.

• Trefnir yr Eglwys yng Nghymru o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)

• Mae dalgylchoedd meddygfeydd teulu yn ymestyn dros ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac yn rhannu pryderon a demograffeg gyffredin.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Rwy'n gobeithio y bydd y Comisiwn yn gwyrdroi'r cynigion diwygiedig ar ôl darllen y dystiolaeth yma ac y bydd yn dychwelyd i'r cynigion gwreiddiol fel y cyhoeddwyd.

**BCW-10734 / [redacted] / Lloegr**

Fy nghwestiwn cyntaf yw beth yw gwneuthuriad y Comisiwn Ffiniau i Gymru o ran aelodau o Gymru ac aelodau o Loegr?

Yn ail, pam mai dim ond 4 wythnos sydd wedi'i neilltuo ar gyfer yr ymgynghoriad hwn? Mae hyn yn warthus o ystyried pwysigrwydd y cwestiwn a'i ganlyniadau.

Yn drydydd, a minnau'n Gymro yn byw yn Lloegr, nid wyf wedi clywed bron i ddim byd am y cynigion hyn. Pam nad ydyn nhw wedi'u cyhoeddi'n fwy a'r tu hwnt i ffiniau Cymru?

Mae'r broses gyfan hon wedi'i chadw'n dawel iawn a gellid ystyried hyn, ynghyd â'r cynigion eu hunain, yn duedd tuag at gadw pŵer yn Lloegr a hyd yn oed cadw dylanwad y Torïaid.

Rwyf i'n arddel y dylid cynnal safbwynt mwy gwrthrychol a diduedd ac i'r perwyl hwnnw hoffwn atebion i fy nghwestiynau uchod os gwelwch yn dda.

**BCW-10736 / [redacted] / Tredegar**

Hoffwn roi sylwadau ynglŷn ag enw'r etholaeth. Cynigiaf y dylid ei galw'n Blaenau Gwent a Chwm Rhymni gan y byddai hyn yn cynnwys ochr Rhymni yr etholaeth gan y byddai hyn yn cysylltu ag enw blaenorol y Cyngor, Cyngor Dosbarth Cwm Rhymni a byddai'n cwmpasu'r wardiau yn yr etholaeth newydd hon.

**BCW-10737 / [redacted] / Caersws**

Mae eich map yn dangos Trefeglwys, Llawr y Glyn a Phenffordd-las yn rhan o ward Blaen Hafren, ond rydym wedi ein cynnwys gyda Llanbrynmair er gwaethaf ein gwrthwynebiadau. Mae braidd yn dangos eich dirmyg llwyr o wleidyddion llawr gwlad.

**BCW-10738 / Nick Thomas-Symonds AS / Torfaen**

Ysgrifennaf yn y cyflwyniad ychwanegol hwn, i gefnogi'n gryf y cynnig ar gyfer Etholaeth Torfaen sy'n ddi-newid ers y cynnig gwreiddiol.

Mae fy nghefnogaeth wedi'i seilio ar y rhesymau rwyf wedi'u nodi'n flaenorol, sydd wedi'u cynnwys isod i fod yn fwy hwylus.

Diolch am eich sylw i'r mater hwn.

Yn gywir,

Y Gwir Anrhydeddus Nick Thomas-Symonds AS

Nodiadau Trafod i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru i Ategu Tystiolaeth 17 Chwefror 2022 am 16:50 gan y Gwir Anrhydeddus Nick Thomas-Symonds, AS Torfaen

1. Cefnogaf y cynnig ar gyfer Etholaeth Seneddol Torfaen sy'n cynnwys 100% o'r sedd bresennol, a'r wardiau hynny sy'n weddill yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sydd yn Etholaeth Seneddol Trefynwy ar hyn o bryd. Mae safbwynt Plaid Llafur Cymru yn gyson â fy safbwynt i yn y mater hwn. Nodaf isod y rhesymau am hyn.

2. Ystyriaethau Daearyddol Arbennig: mae daearyddiaeth ffisegol yn cefnogi'r cynnig hwn, gydag Afon Lwyd yn rhedeg trwy'r etholaeth o'i tharddiad yng ngogledd Blaenafon i lawr i Gwmbrân cyn ymuno ag Afon Wysg.

3. Ffiniau Llywodraeth Leol: mae'r cynnig hwn yn cywiro anomaledd gan ei fod yn dod i ben â'r sefyllfa lle mae wardiau yn Ardal Awdurdod Lleol Torfaen yn Etholaeth Seneddol Trefynwy. Rwyf wedi bod yn AS lleol ers mis Mai 2015, felly gallaf gadarnhau bod y sefyllfa bresennol wedi peri dryswch yn aml, gyda phobl yn cysylltu â fy swyddfa i ynglŷn â materion polisi gwaith achos y bu'n rhaid i ailgyfeirio i AS Trefynwy.

4. Ffiniau Etholaethau Presennol: mae'r cynigion yn cadw holl Etholaeth Seneddol Torfaen bresennol yn gyflawn.

5. Cysylltiadau Lleol: mae cael ardal Awdurdod Lleol Torfaen yn cyd-fynd â'r etholaeth seneddol yn adlewyrchu cysylltiadau hanesyddol diwylliannol ac economaidd-gymdeithasol dwfn iawn.

**BCW-10739 / [redacted] / Treffynnon**

Bydd y newid hwn yn drysu pobl. Bydd gennych etholaeth a fydd yn gwasanaethu dwy ardal Awdurdod Lleol wahanol. Byddai'n well gen i gadw at yr hyn sy'n gyfarwydd i ni. Delyn! Pam gwella rhywbeth nad yw wedi torri?

**BCW-10740 / [redacted] / Aberdâr**

Rwy'n falch bod y Comisiwn wedi gweld rheswm ac wedi ychwanegu wardiau Gogledd Aberaman a De Aberaman at y cynnig gwreiddiol ar gyfer etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr. Fodd bynnag, ni allaf gytuno â phenderfyniad y Comisiwn i newid yr enw i Ferthyr Tudful a Chynon Uchaf.

Nid yw Cynon Uchaf yn enw a ddefnyddir yn gyffredin gan bobl bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o bobl yng ngogledd Cwm Cynon yn dweud eu bod yn dod o ardal Aberdâr, nid Cynon uchaf na gogledd Cynon. Wedi'r cyfan, mae'r ardal gyfan (ac eithrio un neu ddau o eiddo ar ymyl RhCT ger Glyn-nedd/Pont-Nedd-Fechan) yn ardal tref bost Aberdâr (CF44). Hefyd, ac eithrio'r Rhigos, Penderyn a rhan o Hirwaun, roedd yr ardal gyfan a mwyafrif helaeth y boblogaeth yn hen ardal Cyngor Dosbarth Trefol Aberdâr. Hyd heddiw, mae pob un eiddo yn nalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr. Mae Aberdâr yn enw perffaith dda i ddisgrifio'r ardal ac yn cael ei ddefnyddio llawer yn fwy na Chynon Uchaf, a bod yn onest, prin rwyf wedi clywed unrhyw un yn ei ddefnyddio bob dydd.

Mae bron yn sicr y bydd yr etholaeth newydd yn cael ei alw'n Ferthyr drwy ddiogi'r cyfryngau (yn yr un ffordd ag y maen nhw'n mynnu galw RhCT yn Rhondda er nad yw mwyafrif poblogaeth RhCT yn byw yng nghwm Rhondda). Rwyf i o'r farn y bydd defnyddio Cynon Uchaf ar gyfer ail ran yr enw yn annog diogi ond byddai Merthyr ac Aberdâr yn fwy tebygol o gael ei ddweud yn llawn (gan hepgor Tudful yn amlach nag Aberdâr mae'n debyg).

Gallai enw dwyieithog Merthyr Tudful-Aberdâr fod yn bosibilrwydd gwerth chweil arall.

**BCW-10741 / [redacted] / Trallwng**

Mae'n drist fod sir hynafol a hanesyddol  Sir Drefaldwyn bun cael ei rhannu oherwydd diffyg poblogaeth.

**BCW-10742 / [redacted] / Prestatyn**

Hoffwn i ddweud diolch am ystyried yr awgrymiadau a wnaed yn y Gwrandawiad yn Wrecsam ynglŷn â'r cynnig i newid ffiniau Dwyrain a Gogledd Clwyd.

Yn bersonol, rwyf i'n hapus iawn i weld bod yr enwau wedi'u newid i "Gogledd Clwyd" a "Dwyrain Clwyd" yn lle "Clwyd" a "Delyn" ac mae'n ymddangos gymaint yn fwy synhwyrol bod New Brighton, Argoed a Choed-llai wedi aros yn Nwyrain Clwyd yn hytrach na'u symud i Alun a Dyfrdwy a bod Bagillt a'r Fflint hefyd wedi'u symud allan o Ddwyrain Clwyd i Alun a Dyfrdwy. Yn yr un modd, bod Rhuthun, Llanfair DC a Llangollen bellach yn Nwyrain Clwyd, ac i'r gwrthwyneb, fod Llandrillo-yn-Rhos yn ôl gyda Bae Colwyn yng Ngogledd Clwyd.

Mae'n braf iawn gweld bod awgrymiadau synhwyrol wedi'u gweithredu, diolch!

**BCW-10744 / [redacted] / Sgiwen**

Rwy'n credu ei bod yn hurt bod Sgiwen a Phorthcawl yn yr un etholaeth oherwydd y pellter rhyngddynt – sut mae hynny'n olwg teg o'r materion y mae angen mynd i'r afael â nhw.

**BCW-10745 / [redacted] / Castell-nedd**

Ni ddylai Sgiwen fod yn yr un etholaeth â Phorthcawl. Nid ydym unman yn agos atyn nhw. Pam nad ydym ni yn Abertawe neu Castell-nedd? Ble mae'r synnwyr cyffredin?

**BCW-10746 / [redacted] / Sgiwen**

Rwy'n credu ei bod yn gwbl ddigywilydd rhoi fy ardal gyda thref gwbl wahanol eto sydd ag anghenion cwbl wahanol i'n rhai ni. Dylem ni gael ein cysylltu â Dwyrain Abertawe/Castell-nedd, o leiaf fod gennym ni ddemograffeg debyg ac maen nhw'n adnabod fy ardal yn well gan fod llawer o bobl yn gweithio'n fwy yn yr ardaloedd hyn na'r rhai yr ydym wedi cysylltu â nhw yn y cynnig.

**BCW-10747 / [redacted] / Castell-nedd**

Mae'r awgrymiadau ar gyfer ffiniau newydd yn gwbl hurt! Nid yw'n ymddangos yn rhesymegol o gwbl ychwanegu rhannau o Abertawe at Gastell-nedd a chael gwared ar rannau o Gastell-nedd. Ar adeg pan fo'r cyhoedd yn cael pethau'n eithriadol o anodd ac yn gorfod ymladd i gael pethau i'w cymunedau, bydd y newidiadau hyn yn ei wneud yn fwy cymhleth. Pam na ellir gwneud pethau'n haws i'r cyhoedd trwy gael etholaethau yn seiliedig ar awdurdodau lleol? Gallai'r newidiadau arfaethedig i ffiniau hefyd ei gwneud yn fwy anodd cyrraedd eu cynrychiolwyr oherwydd problemau trafnidiaeth gyhoeddus (mae bysiau fel rheol yn seiliedig ar awdurdodau lleol). Sut fyddai dim o hyn o fudd i'r cyhoedd?

**BCW-10748 / [redacted] / Caersws**

Hoffwn gefnogi'r diwygiad arfaethedig i ffiniau etholaeth seneddol Sir Drefaldwyn.

Gwrthwynebais ar ran Cyngor Cymuned Caersws i'r diwygiadau arfaethedig blaenorol yn 2012 a 2016 ar y sail y byddent yn arwain at ymrannu Sir Drefaldwyn ac yn amddifadu'r gymuned o'r gynrychiolaeth y mae wedi ei mwynhau ers oes y Tuduriaid. Mae'r cynigion presennol yn lliniaru'r broblem hon i raddau derbyniol, cyn belled ag y mae Sir Drefaldwyn yn y cwestiwn o leiaf.

Rwy'n sylweddoli efallai y bydd y pleidleiswyr yng Nglyndŵr yn teimlo bellach eu bod yn wynebu anhawster tebyg, ond rwy'n credu mai'r ateb arfaethedig yw'r gorau sydd ar gael o gofio'r uchafswm amrywiad etholwyr a ganiateir o +/-5%. Yr amrywiad cyfyngedig hwn sydd wrth wraidd y broblem. Dyfynnaf o'n cyflwyniad yn 2012.

"Nid ydym yn gwrthwynebu'n benodol i leihau nifer yr ASau, ond rydym yn gwrthwynebu i'r cyfyngiadau rhy gul ar yr amrywiad a ganiateir o ran maint etholaethau. Efallai fod hyn yn dderbyniol mewn ardal drefol fawr ond mae'n gwbl amhriodol i ardaloedd prin eu poblogaeth a gwasgaredig Cymru wledig. Bydd yn arwain at wahanu cymunedau a oedd yn gydlynol gynt ac uno rhai cwbl wahanol, i bob pwrpas bydd yn torri'r cyswllt rhwng AS a'i etholaeth, sef y nodwedd fwyaf hollbwysig o system democratiaeth seneddol Prydain."

[redacted] 14/11/2022

**BCW-10749 / [redacted] / Wrecsam**

Roedd yn peri ychydig o ddryswch bod rhai sylwadau a roddwyd yn anhapus ynghylch enw Sir Drefaldwyn a Glyndŵr; roeddwn yn teimlo ei fod yn enw a oedd yn gweddu'n naturiol o gofio bod y wardiau newydd a ymgorfforwyd o Ardal Glyndŵr i raddau helaeth, a oedd yn ardal gyfansoddiadol o Sir Gadwedig Clwyd. Rwy'n credu pe bawn i'n newid yr enw y byddai i'r enw tair rhan Sir Drefaldwyn, Maelor a Glyndŵr i gynrychioli'n well cynnwys wardiau a oedd yn rhan o Ardal Wrecsam Maelor yng Nghlwyd.

Nid wyf yn teimlo'n gadarnhaol iawn tuag at etholaeth ddiwygiedig Sir Drefaldwyn a Glyndŵr gan ei bod wir yn teimlo fel bod cymunedau o Sir Wrecsam wedi cael eu hychwanegu gyda fawr ddim parch i gysylltiadau cymunedol yn yr ardal - mae methu â chynnwys Llangollen ac ardal wledig Llan yn sefyll allan fel un o'r dewisiadau gwael hyn gan fod y pentrefi yn Nyffryn Ceiriog yn dibynnu ar wasanaethau yn Llangollen a cheir llawer o groes-ddefnydd o wasanaethau rhwng Llangollen a Chefn Mawr/Acre-fair, yn y cynnig hwn mae Trefor wedi'i wahanu o'r wardiau cyfagos sydd â chysylltiadau agos yn Wrecsam sydd hefyd yn anwybyddu cysylltiadau cymunedol - ni ddylai Llangollen gael ei gwahanu oddi wrth Ddyffryn Ceiriog nac ardal Cefn Mawr mewn gwirionedd. Mae siâp yr etholaeth i'r gogledd yn anhrefnus a chribog; y mae'n ymddangos sy'n ganlyniadau o ryw gyfnewid wardiau ar antur rhwng etholaethau.

Rwyf hefyd yn teimlo'n negyddol am yr etholaeth hon yn gyffredinol gan fod ward Trefaldwyn a rhai o wardiau Wrecsam/Sir Ddinbych wedi'u gwahanu gan gadwyn Mynyddoedd y Berwyn - nid oes angen dweud eu bod wedi'u hynysu'n *fawr* o'i gilydd yn ddaearyddol ac nad ydynt yn rhannu unrhyw gysylltiadau cymunedol arwyddocaol. Mae hefyd yn ward lle nid yn unig y mae'n rhaid i chi adael yr etholaeth i deithio o'r gogledd i'r de, ond mae'n rhaid i chi adael Cymru hefyd, mae'n cymryd 20 munud mewn car i ddychwelyd i'r etholaeth yn teithio tua'r gogledd neu'r de drwy Groesoswallt (Ac mae'n cymryd mwy o amser fyth ar fws ac nid oes trenau uniongyrchol rhwng gogledd a de'r etholaeth hyd yn oed).

Mae wir yn teimlo fel y rhoddwyd llawer llai o ystyriaeth a sylw i ran ogleddol yr etholaeth hon nag a roddwyd i dde'r etholaeth (Sir Drefaldwyn).

_ _ _ _ _ _ _

Rwyf wedi atodi fersiwn arfaethedig o'r etholaeth hon sy'n cynnwys mwy o Dde Clwyd fel bod yr ardaloedd o Wrecsam a ychwanegwyd at yr etholaeth hon yn teimlo llai fel ôl-ystyriaeth a bod ganddynt fwy o gymunedau wedi'u cynrychioli yn yr etholaeth y maent yn rhannu cysylltiadau â nhw hefyd – mae hyn er mwyn lliniaru'r problemau sydd gennyf gyda'r ffaith fod De Wrecsam a Sir Drefaldwyn mor ar wahân am y rhesymau a amlinellir uchod.

O gofio'r gofynion newydd i etholaethau gynnwys etholaeth fwy, mae rhai etholaethau yn mynd i edrych braidd yn anarferol yn anffodus - mae fy nghynnig ar gyfer Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn un o'r rhain ond rwy'n credu bod y cysylltiadau cymunedol yn llawer mwy ystyriol yn y cynnig hwn nag yn y ddau olaf. O etholaeth arfaethedig Wrecsam, rwyf wedi cymryd Marchwiel, Owrtyn a Bronington (sy'n ffurfio

ochr ddwyreiniol etholaeth bresennol De Clwyd). Fel nad yw Wrecsam yn mynd y tu hwnt i'r cwota etholaethol, mae Holt hefyd yn ymuno â'r etholaeth hon, wedi'i gyfiawnhau gan y cysylltiadau rhwng Marchwiel a Phentre Maelor.

Yn y cynnig hwn, mae'n RHAID gwahanu Pen-y-cae a De Rhiwabon fel y dangosir ar y map neu mae rhan Maelor Seisnig yr etholaeth yn troi'n allglofan na chaniateir o gwbl mewn etholaethau.

Ceir ychydig o enwau posibl ar gyfer y ddarpar etholaeth hon: Sir Drefaldwyn a Wrecsam Maelor; Sir Drefaldwyn a Maelor; Sir Drefaldwyn, Glyndŵr a Maelor. Yn bersonol, rwyf wedi dewis Sir Drefaldwyn a Wrecsam Maelor; mae Sir Drefaldwyn yn dal i fod wedi'i chadw'n llawn yn y cynnig hwn ac roedd mwyafrif y wardiau newydd yn ffurfio rhan o Fwrdeistref Wrecsam Maelor pan roedd yn bodoli yn rhan o Glwyd, heb sôn am y ffaith fod llawer yn adnabod y rhannau o'r etholaeth hon a gymerir o Sir Wrecsam fel rhannau o Wrecsam, sef y rheswm am gynnwys y gair “Wrecsam” yn enw'r etholaeth.

Ni fyddwn yn ystyried bod Sir Drefaldwyn a De Clwyd yn enw arbennig o ddiddorol hyd yn oed os gallech ddadlau ei fod yn cynrychioli'r ardal y byddai'r etholaeth yn ei chwmpasu.

Yr agwedd negyddol ar yr etholaeth hon, wrth gwrs, yw na all ffitio wardiau Corwen a Llandrillo i mewn heb fynd y tu hwnt i'r cwota etholaethol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon na heb achosi fy etholaeth Wrecsam arfaethedig i fynd y tu hwnt i'w chwota ei hun - mewn sefyllfa nad yw'n ddelfrydol o bell ffordd, daw Corwen a Llandrillo yn rhan o'm hetholaeth Gorllewin Clwyd arfaethedig, wedi'i gyfiawnhau gan eu cysylltiadau ychydig yn wannach ag aneddiadau yn Wardiau gwledig Uwchaled, Efenechtyd a Llanfair Dyffryn Clwyd. Agwedd negyddol arall yw bod Llangollen yn Sir Ddinbych sy'n golygu bod yr etholaeth hon yn cwmpasu 2 Awdurdod Lleol.



***Montgomeryshire and Wrexham Maelor compared against County (Left) and Revised proposal (right) boundaries.***

Sir Drefaldwyn a Wrecsam Maelor wedi'i chymharu â ffiniau'r Sir (Chwith) a'r Cynnig diwygiedig (dde).

**BCW-10750 / [redacted] / Wrecsam**

Rwy'n falch iawn o weld bod y comisiwn wedi cymryd i ystyriaeth y sylwadau cryf a wnaed gan y gymuned ynghylch y penderfyniad gwreiddiol i gynnwys Mwynglawdd a Brymbo yn Alun a Glannau Dyfrdwy yn hytrach nag Etholaeth Wrecsam. Mae wedi'i chysylltu gymaint gwell â'r wardiau sy'n rhan o etholaeth newydd arfaethedig Wrecsam.

Fodd bynnag, mae Etholaeth Wrecsam yn teimlo fel pe bai'r comisiwn wedi cymryd dau gam ymlaen ac un cam yn ôl gan fod y cynnig newydd hwn wedi eithrio Rhos o etholaeth Wrecsam - rwy'n credu bod y cysylltiadau yn Rhostyllen yn agosach â Wrecsam na Rhosllannerchrugog i'r de, mae'r A483 yn gwneud iddynt [Rhostyllen a Rhos'gog] deimlo mwy ar wahân.

**BCW-10751 / [redacted] / Wrecsam**

Rwyf wedi atodi isod cynnig amgen llawn a helaeth ar gyfer Gogledd Cymru a Sir Drefaldwyn sydd ychydig yn rhy fawr i ffitio fel un sylw unigol – a fyddech gystal â chymryd yr amser i gymryd golwg arno ac ystyried yr hyn yr wyf i wedi ei ddweud?!

Rwyf wedi cynnwys rhai dyfyniadau o'r canlynol ar y map lle'r wyf yn teimlo'n gryf!

Mae fy syniadau a'm teimladau yn mynd i ganolbwyntio ar gynigion Wrecsam a Sir Drefaldwyn a Glyndŵr gan mai'r rhain yw'r ardaloedd yr wyf fwyaf cyfarwydd â nhw.

Yn gyntaf, rwy'n falch iawn o weld bod y comisiwn wedi cymryd i ystyriaeth y sylwadau cryf a wnaed gan y gymuned ynghylch y penderfyniad gwreiddiol i gynnwys Mwynglawdd a Brymbo yn Alun a Glannau Dyfrdwy yn hytrach nag Etholaeth Wrecsam. Mae wedi'i chysylltu gymaint gwell â'r wardiau sy'n rhan o etholaeth newydd arfaethedig Wrecsam.

Fodd bynnag, mae Etholaeth Wrecsam yn teimlo fel pe bai'r comisiwn wedi cymryd dau gam ymlaen ac un cam yn ôl gan fod y cynnig newydd hwn wedi eithrio Rhos o etholaeth Wrecsam - rwy'n credu bod y cysylltiadau yn Rhostyllen yn agosach â Wrecsam na Rhosllannerchrugog i'r de, mae'r A483 yn gwneud iddynt [Rhostyllen a Rhos'gog] deimlo mwy ar wahân.

Roedd yn peri ychydig o ddryswch bod rhai sylwadau a roddwyd yn anhapus ynghylch enw Sir Drefaldwyn a Glyndŵr; roeddwn yn teimlo ei fod yn enw a oedd yn gweddu'n naturiol o gofio bod y wardiau newydd a ymgorfforwyd o Ardal Glyndŵr i raddau helaeth, a oedd yn ardal gyfansoddiadol o Sir Gadwedig Clwyd. Rwy'n credu pe bawn i'n newid yr enw y byddai i'r enw tair rhan Sir Drefaldwyn, Maelor a Glyndŵr i gynrychioli'n well cynnwys wardiau a oedd yn rhan o Ardal Wrecsam Maelor yng Nghlwyd.

Nid wyf yn teimlo'n gadarnhaol iawn tuag at etholaeth newydd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr gan ei bod wir yn teimlo fel bod cymunedau o Sir Wrecsam wedi cael eu hychwanegu gyda fawr ddim parch i gysylltiadau cymunedol yn yr ardal - mae methu â chynnwys Llangollen ac ardal wledig Llan yn sefyll allan fel un o'r dewisiadau gwael hyn gan fod y pentrefi yn Nyffryn Ceiriog yn dibynnu ar wasanaethau yn Llangollen a cheir llawer o groes-ddefnydd o wasanaethau rhwng Llangollen a Chefn Mawr/Acre-fair, yn y cynnig hwn mae Trefor wedi'i wahanu o'r wardiau cyfagos sydd â chysylltiadau agos yn Wrecsam sydd hefyd yn anwybyddu cysylltiadau cymunedol - ni ddylai Llangollen gael ei gwahanu oddi wrth Ddyffryn Ceiriog nac ardal Cefn Mawr mewn gwirionedd. Mae siâp yr etholaeth i'r gogledd yn anhrefnus a chribog; y mae'n ymddangos sy'n ganlyniadau o ryw gyfnewid wardiau ar antur rhwng etholaethau.

Rwyf hefyd yn teimlo'n negyddol am yr etholaeth hon yn gyffredinol gan fod ward Trefaldwyn a rhai o wardiau Wrecsam/Sir Ddinbych wedi'u gwahanu gan gadwyn Mynyddoedd y Berwyn - nid oes angen dweud eu bod wedi'u hynysu'n *fawr* o'i gilydd yn ddaearyddol ac nad ydynt yn rhannu unrhyw gysylltiadau cymunedol arwyddocaol. Mae hefyd yn ward lle nid yn unig y mae'n rhaid i chi adael yr etholaeth i deithio o'r gogledd i'r de, ond mae'n rhaid i chi adael Cymru hefyd, mae'n cymryd 20 munud mewn car i ddychwelyd i'r etholaeth yn teithio tua'r gogledd neu'r de drwy Groesoswallt (Ac mae'n cymryd mwy o amser fyth ar fws ac nid oes trenau uniongyrchol rhwng gogledd a de'r etholaeth hyd yn oed).

Rwyf hefyd yn poeni am ba oblygiadau fydd hyn yn eu cael i ba AS fydd yn cynrychioli'r etholaeth pan gaiff y cynigion newydd eu hysgrifennu mewn cyfraith - a fydd yr AS o Dde Wrecsam neu a fydd o Sir Drefaldwyn? Maent yn ddwy gymuned ar wahân â gwahanol gymeriadau ac wedi'u gwahanu gan gadwyn fynyddoedd a chan ddarn o Loegr… mae'n annhebygol y bydd yr ASau a ddewisir yn gallu cynrychioli'r ddwy gymuned yn effeithiol o gofio bod gan gyn lleied o bobl gysylltiad neu bresenoldeb cryf yn y *ddwy* ardal.

Rwy'n deall bod hyn o ganlyniad i'r gofynion newydd ac na allwn newid y rheini, ond fe wnaf i ddefnyddio hwn fel cyfle i ddweud mai prin oedd yr ystyriaeth a roddwyd i sut y byddai'r gofynion etholaethol anhyblyg newydd yn effeithio ardaloedd cyffredinol mwy gwledig Cymru - i unrhyw gynnig weithio, byddai'n rhaid anwybyddu ffiniau Sir Ddinbych yn llwyr, sy'n annheg gan ei fod yn gadael yr un sir hon â 3 chynrychiolydd.

Mae'r etholaethau ar arfordir y gogledd braidd yn anniben - mae Gorllewin Clwyd yn arbennig o wyllt yr olwg. Mae Gorllewin Clwyd hefyd yn rhychwantu 3 awdurdod lleol, a dylid osgoi hynny os yw'n bosibl. Yn fy nghynigion isod, rwyf wedi cynnig fersiwn newydd o Orllewin Clwyd sy'n rhychwantu Sir Conwy a Sir Ddinbych yn unig, a ddim yn cynnwys wardiau yng Ngwynedd mwyach. Mae Gogledd Clwyd hefyd yn ymddangos fel pe na bai angen iddi fodoli - mae'n siâp anarferol iawn ac yn gwahanu cymunedau â chysylltiadau agos ar arfordir y gogledd.

Dyma gyfres o'm cynigion fy hun sy'n cyd-fynd â'r cwotâu etholaethol yr wyf yn credu sy'n ystyried cysylltiadau cymunedol yn well ac sydd â Sir Ddinbych yn unig wedi'i chynrychioli gan 3 AS - mae gan weddill y siroedd 2 gynrychiolydd ar y mwyaf ac rwyf wedi cadw etholaethau o fewn un sir pan fo'n bosibl. Mae'r ffiniau i'r de o'm cynnig wedi cael eu cadw'n gyfan gwbl ac felly nid yw hyn yn cael effaith ar y wardiau yn Ne Cymru y byddai gennyf lawer llai o allu i wneud sylwadau personol arnynt.




***1) Sir Drefaldwyn a Wrecsam Maelor***




*Sir Drefaldwyn a Wrecsam Maelor wedi'i chymharu â ffiniau'r Sir (Chwith) a'r Cynnig diwygiedig (dde).*

O gofio'r gofynion newydd i etholaethau gynnwys etholaeth fwy, mae rhai etholaethau yn mynd i edrych braidd yn anarferol yn anffodus - mae fy nghynnig ar gyfer Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn un o'r rhain ond rwy'n credu bod y cysylltiadau cymunedol yn llawer mwy ystyriol yn y cynnig hwn nag yn y ddau olaf. O etholaeth arfaethedig Wrecsam, rwyf wedi cymryd Marchwiel, Owrtyn a Bronington (sy'n ffurfio ochr ddwyreiniol etholaeth bresennol De Clwyd). Fel nad yw Wrecsam yn mynd y tu hwnt i'r cwota etholaethol, mae Holt hefyd yn ymuno â'r etholaeth hon, wedi'i gyfiawnhau gan y cysylltiadau rhwng Marchwiel a Phentre Maelor.

Yn y cynnig hwn, mae'n RHAID gwahanu Pen-y-cae a De Rhiwabon fel y dangosir ar y map neu mae rhan Maelor Seisnig yr etholaeth yn troi'n allglofan na chaniateir o gwbl mewn etholaethau.

Ceir ychydig o enwau posibl ar gyfer y ddarpar etholaeth hon: Sir Drefaldwyn a Wrecsam Maelor; Sir Drefaldwyn a Maelor; Sir Drefaldwyn, Glyndŵr a Maelor. Yn bersonol, rwyf wedi dewis Sir Drefaldwyn a Wrecsam Maelor; mae Sir Drefaldwyn yn dal i fod wedi'i chadw'n llawn yn y cynnig hwn ac roedd mwyafrif y wardiau newydd yn ffurfio rhan o Fwrdeistref Wrecsam Maelor pan roedd yn bodoli yn rhan o Glwyd, heb sôn am y ffaith fod llawer yn adnabod y rhannau o'r etholaeth hon a gymerir o Sir Wrecsam fel rhannau o Wrecsam, sef y rheswm am gynnwys y gair "Wrecsam" yn enw'r etholaeth. Mae hefyd yn cynnig cyfle i roi enw diddorol i Etholaeth Wrecsam…

Ni fyddwn yn ystyried bod Sir Drefaldwyn a De Clwyd yn enw arbennig o ddiddorol hyd yn oed os gallech ddadlau ei fod yn cynrychioli'r ardal y byddai'r etholaeth yn ei chwmpasu.

Yr agwedd negyddol ar yr etholaeth hon, wrth gwrs, yw na all ffitio wardiau Corwen a Llandrillo i mewn heb fynd y tu hwnt i'r cwota etholaethol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon na heb achosi fy etholaeth Wrecsam arfaethedig i fynd y tu hwnt i'w chwota ei hun - mewn sefyllfa nad yw'n ddelfrydol o bell ffordd, daw Corwen a Llandrillo yn rhan o'm hetholaeth Gorllewin Clwyd arfaethedig, wedi'i gyfiawnhau gan eu cysylltiadau ychydig yn wannach ag aneddiadau yn Wardiau

gwledig Uwchaled, Efenechtyd a Llanfair Dyffryn Clwyd. Agwedd negyddol arall yw bod Llangollen yn Sir Ddinbych sy'n golygu bod yr etholaeth arfaethedig hon yn cwmpasu 3 Awdurdod Lleol.

**2) Dinas Wrecsam**

***Dinas Wrecsam wedi'i chymharu â ffiniau'r Cynigion Diwygiedig (Chwith) a'r Sir (dde).***

Byddai newidiadau sylweddol i'r etholaeth hon o'i chymharu â'r ddau gynnig diwethaf, yn bennaf




cael gwared ar wardiau gwledig mawr i'r dwyrain o'r etholaeth, i ffurfio etholaeth llawer mwy symla siâp gwell a chyfansoddiad mwy cyson o ran natur drefol. Mae'r etholaeth hefyd wedi'i lleoli'n gyfan gwbl o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam - roedd rhai cynigion eraill yn cynnwys rhannau o dde Sir y Fflint fel yr Hôb a Chaergwrle. Nid yw hyn yn gwneud synnwyr wrth ystyried cysylltiadau cymunedol a dylid ei wneud dim ond os nad oes unrhyw fodd o gwbl ei osgoi (Mae'n rhwydd iawn ei osgoi).

Byddai newid yr enw i "Dinas Wrecsam" yn cynrychioli'r dyfarniad diweddar o Statws Dinas i Wrecsam gan y ddiweddar Frenhines yn rhan o'i Dathliadau Jiwbilî ond byddai hefyd yn cynrychioli Cyfansoddiad Trefol pennaf y wardiau arfaethedig wedi'u canolbwyntio o amgylch y ddinas.

Gellid hefyd ei alw'n "Wrecsam [Dinas] and Rhosllanerchrugog" neu'r enw syml "Wrecsam" oherwydd efallai nad yw'r enw "Dinas Wrecsam" yn gwbl gynrychiadol o gynnwys Rhosllannerchrugog yn yr etholaeth hon.

**Alun a Glannau Dyfrdwy a Dwyrain Clwyd**




*Alun a Glannau Dyfrdwy a Dwyrain Clwyd wedi'i chymharu â ffiniau'r Cynigion Diwygiedig (Chwith) a'r Sir (dde).*

Mae'r ddwy etholaeth hyn bron yn union fel yr oeddent yn y Cynnig cyntaf a'r unig wahaniaethau yw bod Alun a Glannau Dyfrdwy yn cynnwys dwy Ward Llaneurgain i wneud iawn am gynnwys Mwynglawdd a Brymbo yn Wrecsam a bod "Delyn" yn cael ei hail-enwi'n Dwyrain Clwyd fel y gwnaed yn y cynigion diwygiedig.

Er y dylai Rhuthun a Dinbych fod yn yr un etholaeth oherwydd eu cysylltiadau cryf iawn, nid yw hyn yn bosibl o dan y cwota etholaethol newydd ac mae ceisio gwneud iddynt rannu etholaeth yn cael sgil-effeithiau annymunol, sylweddol waeth ar bob etholaeth arall.

**Creuddyn, Conwy a Bangor**




*Creuddyn, Conwy a Bangor wedi'i chymharu â ffiniau'r Cynigion Diwygiedig (Chwith) a'r Sir (dde).*

Mae'r etholaeth hon yn debyg iawn i etholaeth a oedd yn bodloni yn y gorffennol – Conwy (1950-2010) – y prif wahaniaeth yw bod yr etholaeth hon wedi'i hehangu'n sylweddol i gynnwys Llandrillo-

yn-Rhos, Bae Colwyn a Hen Golwyn. Byddai hon yn etholaeth dda iawn gan ei bod yn cadw cytref arfordirol Llandudno-Llandrillo-Colwyn i gyd gyda'i gilydd yn un etholaeth a oedd yn broblem yr oedd gan lawer gyda hen etholaeth Conwy.

Gallai enwau posibl i'r etholaeth hon gynnwys: Creuddyn, Conwy a Bangor; Aberconwy a Bangor; Bangor Aberconwy; Bangor, Conwy a Llandudno. Dewisais y gair "Creuddyn" i gynrychioli'r ffaith fod penrhyn Creuddyn, lle mae Llandudno a Llandrillo-yn-Rhos wedi'u lleol, wedi'i gynnwys.

Yn anffodus, yn y cynnig hwn mae dal i fod angen gwahanu Bangor a Chaernarfon gan na allwch eu cael nhw gyda'i gilydd a pharchu ffiniau deheuol Gwynedd a Sir Drefaldwyn.

Un broblem amlwg iawn gyda'r etholaeth hon yw ei bod 58 o bobl dros y cwota – rwyf wedi ystyried dau ateb i hyn

- Cynnwys ward Pentir yn Nwyfor Meirionnydd (brig), rwy'n deall bod gwrthwynebiad cryf i hyn ond dyma'r unig ffordd o sicrhau bod etholaeth Creuddyn, Conwy a Bangor yn cyd-fynd â'r cwota heb ymrannu wardiau



- Yr opsiwn rwy'n ei ffafrio (a ddangosir isod) fyddai rhannu Pentir yn ddau, fel hynny gallai'r rhan isaf wledig ddod yn rhan o Ddwyfor Meirionnydd gan dynnu o leiaf 58 o bobl o Greuddyn, Conwy a Bangor, sy'n golygu y bydd yn bodloni'r cwota etholiadol.



**Gorllewin Clwyd**






*Gorllewin Clwyd wedi'i chymharu â ffiniau'r Cynigion Diwygiedig (Chwith) a'r Sir (dde).*

Mae'r etholaeth olaf rwy'n ei chynnig yn opsiwn amgen yn hytrach na Gorllewin Clwyd nad yw'n rhychwantu 3 awdurdod lleol mwyach, heb symud Bangor o Wynedd mwyach. Mae'r etholaeth hon ochr yn ochr â'r etholaeth arfaethedig uchod yn disodli'n llwyr etholaeth annymunol Gogledd Clwyd a fyddai wedi gwahanu Llandudno oddi wrth Landrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn/Hen Golwyn.

Yr agwedd negyddol ar yr etholaeth arfaethedig hon yw bod Llanrwst ryw fymryn ar wahân i weddill yr etholaeth heb i rannau mwyaf gogleddol Aberconwy rannu etholaeth â hi - fodd bynnag, mae'n gysylltiedig â'r cymunedau gwledig i'r de ohoni. Hefyd, fel y trafodwyd yn y cynnig Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, nid yw Corwen a Llandrillo yn cael rhannu etholaeth gyda Llangollen oherwydd cyfyngiadau ar niferoedd.

**Dwyfor Meirionnydd**

Bron heb ei newid o gwbl. Dim ond yn cynnwys hanner isaf ward Pentir a rannwyd yn fy nghynnig i.

Rwyf wedi gludo'r cyfansymiau isod (o roi ateb ward Pentir wedi'i rannu ar waith)

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | City of Wrexham | 73386 | Yes |
| 2 | Montgomeryshire, Maelor and Glyndwr | 76734 | Yes |
| 3 | Clwyd West | 74058 | Yes |
| 4 | Alyn and Deeside | 70831 | Yes |
| 5 | Clwyd East | 74676 | Yes |
| 6 | Creuddyn, Conwy and Menai | 77062 | Yes |
| 7 | Dwyfor Meirionnydd | 69861 | Yes |

**BCW-10752 / [redacted] / Abertawe**

[redacted]

[redacted]

[redacted]

Annwyl Foneddigion,

Hoffwn gefnogi gwrthgynnig i'r un a wnaed gan y Comisiynwyr yn eu Hargymhellion Diwygiedig gan ei fod yn effeithio ar etholaethau Gŵyr a Gorllewin Abertawe/Canol a Gogledd Abertawe i gynnig yr opsiwn amgen canlynol:

• Y byddai wardiau Pontarddulais, Penlle'r-gaer, Llangyfelach a Mawr (cyfanswm etholaeth o 12,891) yn cael eu cynnwys yng Ngŵyr a Gorllewin Abertawe

• Y byddai ward Sgeti (etholaeth o 11,304) yn cael ei chynnwys yng Nghanol a Gogledd Abertawe.

Yn hanesyddol, mae wardiau Pontarddulais, Penlle'r-gaer, Llangyfelach a Mawr wedi bod yn rhan o etholaeth Gŵyr a chyn yr ad-drefniant llywodraeth leol diwethaf roeddent yn rhan o Fwrdeistref Dyffryn Lliw. Cyn hynny, roedd naw deg y cant o etholaeth yr ardaloedd hynny yn byw yn yr hyn a alwyd yn Ardal Drefol Llwchwr.

Ceir cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhwng Pontarddulais, Pont-lliw, Penlle'r-gaer a Gorseinon ond nid oes dim yn bodoli ag ardal Sgeti ac mae'r ardaloedd dan sylw (ynghyd â phentrefi sy'n cyfansoddi Ward Mawr fel Garn-swllt a Felindre) yn defnyddio'r un canolfannau masnachol a gweinyddol.

Byddai'r gwrth-gynnig hwn yn golygu y byddai'r trefi bach a'r pentrefi ar lannau afonydd Llwchwr a Lliw yn parhau i ffurfio rhan o'r un etholaeth – sefyllfa sydd wedi bodoli ers 1885, gan gadw'r cyswllt hanesyddol hirhoedlog rhwng Sgeti a chanol Abertawe.

O gofio y gellid hwyluso'r trefniant hwn o fewn y cwota etholaethol a bennwyd fel paramedrau ar gyfer y Comisiwn, nid oes unrhyw ddadl dros rannu wardiau yn ne Dyffryn Lliw sydd wedi bod yn rhan o'r un etholaeth seneddol yn draddodiadol.

Yn gywir

[redacted]

**BCW-10753 / [redacted] Plaid Lafur Etholaeth Gŵyr / Abertawe**

PLAID LAFUR ETHOLAETH GŴYR

GOWER CONSTITUENCY LABOUR PARTY

[redacted]

Mae Plaid Lafur Etholaethol Gŵyr wedi ystyried yr adroddiad Argymhellion Diwygiedig ac yn dymuno ail-bwysleisio ei chefnogaeth i wahanol drefniant o wardiau yn etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe/Canol a Gogledd Abertawe. Hefyd, mae'r Blaid Lafur Etholaethol yn nodi bod yr adroddiad Argymhellion Diwygiedig yn nodi bod y Comisiwn yn agored i'r trefniadau amgen a gynigir yn dilyn sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r Cynigion Drafft. Rydym yn credu fod y ddadl yn parhau dros drefniant amgen lle byddai wardiau Pontarddulais, Penlle'r-gaer, Llangyfelach a Mawr (cyfanswm etholaeth o 12,891) yn cael eu cynnwys yng Ngŵyr a Gorllewin Abertawe ac y byddai ward Sgeti (etholaeth o 11,304) yn cael ei chynnwys yng Nghanol a Gogledd Abertawe. Byddai hyn:

• yn mynd i'r afael â siâp daearyddol etholaeth arfaethedig Canol a Gogledd Abertawe

• yn cyd-fynd â'r cwota rhifol y mae'r Comisiwn Ffiniau yn gweithredu'n unol ag ef

• yn cydnabod y cysylltiadau gweinyddol, cymdeithasol, economaidd a daearyddol hanesyddol rhwng wardiau Pontarddulais, Mawr, Penlle'r-gaer a Llangyfelach ag etholaeth Gŵyr fel wardiau a oedd yn rhan o hen Fwrdeistref Dyffryn Lliw

• yn cydnabod y cysylltiadau gweinyddol, cymdeithasol, economaidd a daearyddol hanesyddol rhwng Sgeti a chanol Abertawe fel ardal a oedd yn rhan o Fwrdeistref Sirol Abertawe a'i hawdurdodau olynol yn hanesyddol

• yn defnyddio ffin naturiol (coedwig Hendrefoilan, Nant yr Olchfa a choedwig Dyffryn Clun) fel y ffin rhwng y ddwy etholaeth

• yn creu ffin llawer mwy eglur rhwng y ddwy etholaeth yn ardal Sgeti/Uplands lle mae'r ddwy ward (Sgeti ac Uplands) yn ffurfio cytref drefol barhaus i'r gogledd o barc Singleton

• yn creu etholaeth sydd wedi'i chyfansoddi o ganol y ddinas a maestrefi craidd Abertawe ac etholaeth ar wahân yn cynnwys y trefi a'r pentrefi ar y cyffiniau

• yn sicrhau y byddai ardaloedd Dinas a Sir Abertawe a wasanaethir gan Gynghorau Tref a Chymuned yn y ddwy etholaeth dan sylw yn etholaeth Gŵyr.

Rydym yn ymwybodol y cyfeiriwyd cryn dipyn at y ffaith fod unedau plismona yn cynnwys Sgeti a Gŵyr ond byddem yn dadlau o'r un safbwynt bod Casllwchwr a Gorseinon yn ffurfio rhan o'r uned heddlu â Phenlan, ac nad yw'r ddadl hon yn cymryd yr etholaethau presennol na strwythurau llywodraeth leol sefydledig i

ystyriaeth. Rydym yn nodi bod y Comisiwn wedi cymryd daearyddiaeth ffisegol ac unedau gweinyddol hanesyddol i ystyriaeth cyn belled â phosibl mewn rhannau eraill o Gymru. Gofynnwn fod hyn yn digwydd yn ardal Abertawe lle gellid llunio etholaethau gan roi mwy o ystyriaeth i ffiniau ffisegol ac unedau gweinyddol hanesyddol, fel yr amlinellir uchod.

Yn gywir,

[redacted]

Ysgrifennydd

**BCW-10754 / [redacted] / Casnewydd**

Mae'r cynigion hyn yn ddiffygiol ar gymaint o lefelau. Bu ychydig neu ddim cyhoeddusrwydd am y newidiadau arfaethedig, mae lefel y cyfrinachedd yn frawychus. Nid oes yr un person yr wyf i wedi sôn wrtho am y newidiadau hyn wedi bod yn ymwybodol ohonynt. Nid yw lansio ymgynghoriad ac yna methu â'i hysbysebu yn gyfystyr ag ymgynghoriad cyhoeddus. Siawns y dylai newidiadau o'r maint hwn fod yn deilwng o daflen esboniadol i bob aelwyd ynghyd â darllediadau ar y radio a'r teledu?

O ran y newidiadau arfaethedig eu hunain, mae cyfuno fy etholaeth i - Islwyn – gyda Gorllewin Casnewydd yn hurt. Er bod yr etholaethau hyn nesaf at ei gilydd, prin sydd ganddynt yn gyffredin ac yn hytrach maent yn wahanol o ran diwylliant, daearyddiaeth a hanes. Mae Islwyn yn cynnwys cymunedau â gwreiddiau dwfn yng nghymoedd y de, mae Gorllewin Casnewydd yn un hanner o ddinas Casnewydd. Gall unrhyw un dynnu llinellau ar fap, yn yr un modd â rhaniad Affrica yn y 19eg ganrif, ond cyflogwch rywun sydd â gwybodaeth leol ar gyfer y dasg.

Yn bwysicaf oll, mae'r ymarfer hwn yn jerimandro plaen gan y llywodraeth Geidwadol bresennol, ymgais nad yw hyd yn oed wedi'i chuddio i leihau nifer yr ASau Llafur, neu wrthbleidiau, gan greu mwyafrif parhaol yn San Steffan i'r blaid Geidwadol.

Nid oes yn rhaid dweud bod y cyhoedd angen mwy o ddemocratiaeth a chynrychiolaeth yn yr oes gythryblus sydd ohoni, nid llai. Os bydd y cynigion hyn yn mynd rhagddynt, bydd gan Gymru lais llawer gwannach yn San Steffan, sy'n bryder mawr o dan yr amgylchiadau presennol.

Cynigion gwael gan lywodraeth druenus.

**BCW-10755 / [redacted] / Caerdydd**

Gwelaf fod cynnig i etholaeth Gorllewin Caerdydd gynnwys ardal o Greigiau i Bont-y-clun, nad yw yn ardal cyngor Caerdydd. Ar yr un pryd mae tua 7000 o dai newydd yn cael eu hadeiladu yn ardal Radur / Danescourt / y Tyllgoed a fydd yn cynnwys o leiaf 7000 o etholwyr newydd a llawer mwy o drigolion. A yw hyn wedi cael ei gymryd i ystyriaeth?

**BCW-10756 / [redacted] / Abertawe**

Mae hyn yn warth. Rwy'n gwrthwynebu'n llwyr a chyda'm holl enaid.

Nid yw hyn yn ddim mwy na symudiad gwleidyddol i'w gwneud yn haws i'r llywodraeth aros mewn llywodraeth.

Ffiaidd.

**BCW-10757 / [redacted] / Pontardawe**

Rwy’n gwrthwynebu i’r cynigion o roi ardaloedd Abertawe Uchaf ac Aman yn etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed ac yn cael eu symud o Gastell-nedd am y rhesymau canlynol.

1. Mae Cwm Tawe a Dyffrynnoedd Aman Castell-nedd Port Talbot a gynigir yn ardaloedd diwydiannol yn hanesyddol. Mae llawer yn ardaloedd pyllau glo heb unrhyw gysylltiad ag ardaloedd gwledig amaethyddol Brycheiniog a Sir Faesyfed ac yn cyd-fynd yn well â bröydd diwydiannol y de-orllewin. Mae’r cynnig hwn yn torri cysylltiadau sydd gennym eisoes gyda’r cymunedau cymoedd eraill yng Nghastell-nedd. Mae ein cymunedau yn rhannu hanes o ddiwylliant, treftadaeth a thraddodiadau.

2. Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot erioed wedi cael ei gynrychioli ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sy’n dangos nad oes unrhyw gysylltiadau â Brycheiniog na Sir Faesyfed.

3. Nid oes gan ein cymunedau unrhyw gysylltiadau ag ardaloedd Brycheiniog a Sir Faesyfed a byddai amser teithio o Bontardawe yn ne’r ardal arfaethedig i Raeadr yn golygu taith o fwy na 4.5 awr ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae cysylltiadau ffyrdd yn golygu bod hyd yn oed teithio mewn car preifat yn cymryd o leiaf 2 awr i deithio 80 milltir. Mae ein cymunedau yn edrych tuag at dref Castell-nedd neu ddinas Abertawe ar gyfer siopa, cymdeithasu a gwasanaethau. Rwy’n credu y dylai materion daearyddol arbennig gael eu cymryd i ystyriaeth.

4. Rwy’n pryderu y byddem yn rhan o wahanol fwrdd iechyd, heddlu ac awdurdod lleol yn ogystal â phartneriaethau statudol a rhanbarthol eraill a allai greu anawsterau gyda chynrychiolaeth seneddol.

I gloi, ceir sawl rheswm pam mae hyn yn annerbyniol gan gynnwys materion yn ymwneud â daearyddiaeth, hanes, cysylltiadau a chydlyniad cymunedol, demograffeg a’r economi leol. Rwy’n credu’n gryf y byddai hawl unigolyn i gael mynediad at gynrychiolaeth seneddol yn cael ei wanhau’n ddifrifol.

Rwy’n annog i’r cynigion hyn gael eu hailystyried.

**BCW-10758 / [redacted] / Caernarfon**

1. Hoffwn gynnig bod enw yr etholaeth arfaethedig 'Dwyfor Meirionnydd' yn cael ei newid i 'Caernarfon a Meirionnydd' neu 'Caernarfon Meirionnydd'.

2. Byddai'r enw 'Caernarfon a Meirionnydd' neu 'Caernarfon Meirionnydd' yn adlewyrchiad mwy teilwng o broffil daearyddol a hanesyddol yr etholaeth arfaethedig na'r enw 'Dwyfor Meirionnydd'. Mae'r enw 'Dwyfor Meirionnydd' yn llwyr anwybyddu rôl flaenllaw Caernarfon yn hanesyddol a hyd heddiw fel prif ganolfan wleidyddol, gweinyddol, diwylliannol ac economaidd y rhanbarth (ac yng Nghymru drwyddi draw).

3. Bydd yr etholaeth arfaethedig yn cwmpasu nid yn unig y cyfan o ardal etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd, ond hefyd hanner etholaeth bresennol Arfon. Yn yr un modd, bydd yr etholaeth arfaethedig yn cwmpasu y cyfan o ardaloedd hen gynghorau dosbarth 1974-1996 Dwyfor a Meirionnydd, ond hefyd tua hanner ardal hen fwrdeistref Arfon o'r un cyfnod. Yn hynny o beth nid yw'r enw Dwyfor Meirionnydd yn darparu disgrifiad cyflawn o'r etholaeth arfaethedig.

4. Mae yna gynsail hir a di-dor i Gaernarfon fel enw etholaethol yn senedd-dai Llundain a Chaerdydd yn deillio yn ôl cyn belled â 1536. Yn Senedd y DU ar un adeg roedd dwy etholaeth: un ar gyfer Sir Gaernarfon wledig a'r llall ar gyfer y dref sirol, bwrdeistref Caernarfon. Rhwng 1890 a 1945 roedd David Lloyd-George, fu'n Brif Weinidog y DU o 1916 tan 1922, yn AS dros Fwrdeistrefi Caernarfon. Rhwng 1974 a 2001 roedd Dafydd Wigley yn AS dros Gaernarfon, a rhwng 1999 a 2003 yn AC dros Gaernarfon.

5. Yn draddodiadol, mae'r enw 'Caernarfon' ar gyfer etholaethau wedi cynnwys cyfran sylweddol o'r hen Sir Gaernarfon a fodolai cyn 1974 ac felly wedi cynnwys y cyfan o'r hyn a adnabyddir heddiw fel ardal Dwyfor h.y. Llŷn ac Eifionydd.

6. Enw cymharol ddiweddar ei ddefnydd yn y cyd-destun etholaethol ydi Dwyfor. Dim ond ers 2007 y mae'r enw Dwyfor yn bodoli mewn enw ar gyfer unrhyw etholaeth, pan sefydlwyd etholaeth Dwyfor Meirionnydd ar gyfer etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn honno.

7. Dydi Dwyfor ddim yn enw sydd yn berthnasol - nac erioed wedi bod yn berthnasol - i ddisgrifio Caernarfon na'r rhan o'r etholaeth Arfon bresennol fydd yn dod yn rhan o'r etholaeth newydd. Mae'n enw sy'n cyfeirio yn benodol at gyfuniad o ddwy ardal y naill lan i'r afon Dwyfor, h.y. ardal Llŷn (y penrhyn i'r gorllewin o Bwllheli ac i'r de o'r Eifl) ac ardal Eifionydd (h.y. ardal Porthmadog a Chricieth). Mae ffiniau yr hen gyngor dosbarth Dwyfor a fodolai rhwng 1974 a 1996 yn cadarnhau hyn.

8. Mae'r enw Caernarfon, ar y llaw arall, yn enw y gall bobman yn yr etholaeth arfaethedig y tu allan i Feirionnydd uniaethu â hi, o Gaernarfon, Dyffyn Peris a Dyffryn Nantlle i lawr i ben draw Llŷn a Phorthmadog. Tan 2001 roedd yr ardal hon yn rhan o un etholaeth yn Senedd y DU o'r enw Caernarfon.

9. Bydd ail-enwi yr etholaeth arfaethedig i Caernarfon a Meirionnydd (neu Caernarfon Meirionnydd) yn golygu bod enw cywirach a mwy cynhwysol. Byddai hefyd yn cynnal dilyniant o ran rôl ganolog Caernarfon (fel tref ac fel enw ar gyfer ardal) yn y gyfundrefn etholiadol newydd.

**BCW-10759 / [redacted] / Sgiwen**

Ers blynyddoedd lawer mae ein pentref wedi bod yn rhan o etholaeth Aberafan. Ychydig neu ddim ystyriaeth a roddir i'r trigolion gan unrhyw un sy'n gysylltiedig â goruchwylio'r ardal hon. Mae Port Talbot wedi cymryd blaenoriaeth dros ein pentref. Mae'n bryd i anghenion Sgiwen gael sylw.

**BCW-10760 / [redacted] / Pontardawe**

Nid wyf i'n hapus gyda'r newidiadau arfaethedig. Rwy'n ystyried fy hun yn un o drigolion Castell-nedd Port Talbot ac yn teimlo bod y newid ffiniau i Frycheiniog yn gwbl annerbyniol. Rwy'n byw 10 munud i ffwrdd o Gastell-nedd a 30 munud i ffwrdd o Aberhonddu, felly ni allaf ddeall sut mae hyn yn gwneud unrhyw fath o synnwyr. Rwy'n deall yn llwyr sut y byddai trefi fel Ystradgynlais yn cael eu grwpio gyda Brycheiniog gan eu bod ar gyrion y Bannau, ond nid yw unrhyw beth y tu hwnt i hynny yn gwneud synnwyr. Ystyriwch hyn fel fy anghymeradwyaeth o'r newid a awgrymwyd.

**BCW-10761 / [redacted] / Llangefni**

Dyliau y ffiniau aros fel ag y maent ar Ynys Môn !

**BCW-10762 / [redacted] / Pontardawe**

A oes ots mewn gwirionedd? Os yw'n golygu ein bod yn arbed arian trethdalwyr ac yn dal i gael yr un gwasanaeth yna mae'n ddewis syml.

Rwy'n credu mewn gwneud newidiadau er gwell, felly gallaf ond dybio y bydd y newidiadau hyn yn arwain at ostyngiad i'm bil treth gyngor sydd eisoes yn fawr!

**BCW-10763 / [redacted] / Pontardawe**

Mae'n eithriadol o annheg i bobl Pontardawe hyd at Ystalyfera i wneud y newid hwn i'r ffiniau. Byddem yn rhannu AS gyda mannau nad ydynt yn agos atom o gwbl, sydd â gwahanol flaenoriaethau yn llwyr. Ni allai'r etholaeth newydd hon o bosibl fod er ein buddiannau pennaf ni sydd â chysylltiad llawer agosach ag ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd na Sir Frycheiniog. Mae'n ystryw cywilyddus a thaer gan y Ceidwadwyr i ddal gafael ar rym trwy symud etholaeth sy'n pleidleisio dros Lafur i un Torïaidd. Hoffwn glywed hyd yn oed un dadl dros sut y bydd y newid hwn o fudd i'm hardal i.

**BCW-10764 / [redacted] Plaid Lafur Etholaethol Castell-nedd / Castell-nedd**

Rwy'n ysgrifennu ar ran Plaid Lafur Etholiadol Castell-nedd mewn ymateb i gynigion diwygiedig y Comisiwn Ffiniau i Gymru, a gyhoeddwyd ar 19 Hydref 2022. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried yr arsylwadau pellach canlynol, y dylid eu darllen ar y cyd â'n cyflwyniad gwreiddiol. Rydym yn nodi nad yw'r cynigion diwygiedig yn gwyro o'r cynnig gwreiddiol i drosglwyddo ardaloedd dyffryn Aman uchaf a chwm Tawe i Frycheiniog a Sir Faesyfed, gan roi'r enw Brycheiniog, Sir Faesyfed a Chwmtawe i'r etholaeth newydd arfaethedig. Fel y nodwyd yn ein cyflwyniad gwreiddiol, nid oes gan ardaloedd dyffryn Amcan uchaf a chwm Tawe unrhyw gysylltiadau traddodiadol â Brycheiniog a Sir Faesyfed, gan eu bod wedi bod yn rhan o etholaethau diwydiannol Gŵyr neu Gastell-nedd erioed. Rydym yn nodi o'r cynigion diwygiedig yr ystyrir bod cysylltiadau ffyrdd da rhwng Pontardawe ac Ystradgynlais. Efallai fod hynny'n wir. Fodd bynnag, dim ond tua 6 milltir yw'r pellter rhwng Pontardawe ac Ystadgynlais. Mewn cyferbyniad, mae'r pellter rhwng Trebanos yn ne'r etholaeth newydd arfaethedig i Bugeildy yn y gogledd ychydig dros 79 milltir ac yn cymryd 1 awr a 58 munud i'w deithio. Mae hyn yn seiliedig ar deithio mewn car preifat. Mae teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus bron yn amhosibl. Yn wir, rydym yn deall bod teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus o Bontardawe i Raeadr yn golygu taith o fwy na 4.5 awr, un ffordd. Byddai hynny hefyd yn dibynnu ar fod â llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus perthnasol ar gael, ac nid oes yr un ar gael o Ddyffryn Aman. Felly, byddai etholaeth y gellid dadlau sydd eisoes yn rhy fawr yn ddaearyddol, yn arbennig o anodd i aelodau'r cyhoedd sy'n byw yn nyffryn Aman uchaf a chwm Tawe gael mynediad ati. O'r herwydd, mae'n rhaid i ni gofnodi unwaith eto ein gwrthwynebiad i'r cynigion hyn. Rydym yn ailbwysleisio felly manteision ein gwrthgynnig gwreiddiol ac yn tynnu eich sylw at y canlynol: Byddai etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn cynnwys etholaeth bresennol Castell-nedd yn ei chyfanrwydd, yn ogystal â'r 3 ward arfaethedig o etholaeth bresennol Dwyrain Abertawe (Bôn-y-maen 5,391; Llansamlet 11,107; St Thomas 5,514), 1 ward o etholaeth bresennol Gŵyr (Clydach 5,821) a 3 ward o etholaeth bresennol Aberafan (Canol Coed-ffranc 2,892; Gogledd Coed-ffranc 1,811; Gorllewin Coed-ffranc 3,587). Byddai'r cynnig hwn yn arwain at ail-gynnwys wardiau presennol Rhos (1,997), Pontardawe (4,283), Brynaman Isaf (1,040), Allt-wen (2,023), Godre'r-graig (1,514), Trebanos (1,092), Gwaun-Cae-Gurwen (2,220), Ystalyfera (2,169), Cwmllynfell (921) Castell-nedd, ar gyfer cyfanswm o 17,259 o etholwyr. Byddai hyn yn arwain at etholaeth arfaethedig newydd Castell-nedd a Dwyrain Abertawe o 92,900 o etholwyr. Byddai symud yr etholwyr hyn o etholaeth newydd arfaethedig Brycheiniog a Sir Faesyfed yn gadael etholaeth o 54,854. Fodd bynnag, dylai etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed ymuno ag Ynys Môn o ran peidio â bod yn ddarostyngedig i weithrediad Cwota Etholiadol y DU, oherwydd er y byddai ganddi'r etholaeth leiaf, dyma'r etholaeth fwyaf a mwyaf gwledig yn ddaearyddol yng Nghymru. Mae Ynys Môn yn ynys â chysylltiadau daearyddol a lleol penodol, tra bod Brycheiniog a Sir Faesyfed yn ehangder gwledig dirgloëdig â chysylltiadau daearyddol a lleol penodol. Yn yr un modd, ni ddylai etholaeth Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd fod yn ddarostyngedig i weithrediad Cwota Etholiadol y DU, o gofio ei chysylltiadau diwylliannol a daearyddol â Thref Castell-nedd a Chanol Dinas Abertawe. Gellir

cyfiawnhau hyn o ystyried nodweddion unigryw pob etholaeth. Er ei bod yn anodd ail-alinio etholwyr yng nghyd-destun gostyngiad i gyfanswm seddi seneddol Cymru, mae'n eglur bod torri rhan ogleddol etholaeth bresennol Castell-nedd i ffwrdd yn annerbyniol. Nid yw lleoli cymunedau sydd yng Ngwm Tawe a Dyffryn Aman mewn etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed yn gwneud unrhyw synnwyr yn ddaearyddol – byddai'n creu pellter enfawr o ffin i ffin, ni fyddai'n cysylltu â ffiniau llywodraeth leol perthnasol, ac nid yw'n parchu cysylltiadau cymunedol lleol. Hefyd, nid oes gan Gwm Tawe a Dyffryn Aman unrhyw gysylltiadau diwylliannol na hanesyddol â Brycheiniog a Sir Faesyfed; mae gan bobl y cymunedau hyn dreftadaeth ddiwydiannol a'r diwylliant sy'n cyd-fynd â hanes o'r fath. Mae ei sefydliadau fel neuaddau lles glowyr, corau a chlybiau rygbi yn adlewyrchu rhai pob rhan arall o Gastell-nedd, ac yn cyferbynnu'n uniongyrchol â natur ffermio, wasgaredig, wledig Brycheiniog a Sir Faesyfed. Mae'r gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol yn gwbl eglur hefyd. Yn y gorffennol, mae wardiau yng Nghwm tawe a Dyffryn Aman wedi cael eu cydnabod fel ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf oherwydd eu hamddifadedd cymharol a diffyg gwasanaethau, yn gwbl wahanol i gymunedau mwy llewyrchus ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed. Prif ddiben ein gwrthgynnig yw cadw ardaloedd dyffryn Aman uchaf a chwm Tawe mewn etholaeth seneddol y cawsant eu cysylltu â nhw yn draddodiadol, a dyna fu ei ddiben erioed. Mae'n rhaid i ni bwysleisio eto nad oes gan ddyffryn Aman uchaf a chwm Tawe unrhyw gysylltiadau agos gyda Brycheiniog a Sir Faesyfed ac maent yn cyd-fynd yn well â bro ddiwydiannol y de-orllewin. Hefyd, cynrychiolir yr holl ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth bresennol Brycheiniog a Sir Faesyfed ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan eu hawdurdodau lleol priodol. Nid yw Castell-nedd Port Talbot wedi'i gynrychioli, ac ni chafodd ei chynrychioli erioed. Mae hyn yn cryfhau ymhellach y ddadl nad oes gan ddyffryn Aman uchaf a chwm Tawe unrhyw gysylltiadau o gwbl gyda Brycheiniog a Sir Faesyfed. Felly, rwyf wir yn gobeithio y bydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ei gweld yn addas ystyried a gweithredu'r gwrthgynigion hyn yn eu hadroddiad terfynol.

Plaid Lafur Etholaethol Castell-nedd

Tachwedd 2022

**BCW-10765 / [redacted] / Llanymynech**

Rwy'n ysgrifennu at y Comisiwn Ffiniau i Gymru i gefnogi'r cynigion newid ffin i gadw cymuned hanesyddol Sir Drefaldwyn o fewn etholaeth newydd a mwy arfaethedig Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Fodd bynnag, rwy'n siomedig o weld gostyngiad i gyfanswm yr etholaethau yng Nghymru ac yn ofni y byddwn yn colli cynrychiolaeth ymhellach o'i hardaloedd mwyaf gwledig.

**BCW-10766 / [redacted] / Wrecsam**

Nid yw'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cynnig i drosglwyddo i Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Mae'n ardal fawr i un AS fod yn gyfrifol amdani yn ddaearyddol, mae dros 50 milltir rhwng Cefn Mawr a Llanidloes.

Nid oes gennym unrhyw gysylltiad â'r canolbarth. Dim cysylltiadau trafnidiaeth, ni fydd cyfleoedd gwaith yn y canolbarth o bobl sy'n byw yng Nghymuned Cefn.

Nid yw'r newid arfaethedig yn ystyriol iawn ac mae ein cysylltiadau lleol a'n buddiannau hanesyddol wedi cael eu diystyru'n llwyr.

**BCW-10767 / [redacted] / Caerdydd**

Cynigion ffiniau etholaeth Caerdydd

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r cynigion ffiniau diwygiedig i Gymru a gyhoeddwyd ar 19 Tachwedd, i gofnodi fy ngwrthwynebiad i dorri'r cysylltiad rhwng Cathays a'r Rhath, drwy symud Cathays i etholaeth ddiwygiedig De Caerdydd a Phenarth.

Mae gan Cathays gysylltiad cryf â'n cymunedau cyfagos yn y Rhath/Plasnewydd, Pen-y-lan, Cyncoed ac Adamsdown. Mae adolygiadau blaenorol o ffiniau wedi cydnabod erioed y cysylltiadau ffisegol, cymdeithasol, trafnidiaeth, a chymunedol eglur rhwng Cathays a'r Rhath/Plasnewydd yn arbennig, fel y gwnaeth y cynigion gwreiddiol o ffiniau. Rwy'n gobeithio y bydd y Comisiwn yn cydnabod y cysylltiadau hyn ac yn dychwelyd i'r cynnig gwreiddiol lle mae Cathays yn aros yng Nghanol Caerdydd/Dwyrain Caerdydd.

O gymharu â'r diffyg cysylltiadau cymunedol llwyr bron ag ardaloedd newydd o Dde Caerdydd a Phenarth fel Dinas Powys a Sili, mae gan Cathays lawer o gysylltiadau â'r Rhath, Pen-y-lan, Adamsdown. Mae hyn yn cynnwys y boblogaeth fyfyrwyr fawr yr ydym yn ei rhannu ar draws yr ardaloedd hyn, gydag adeiladau Prifysgol yn y wardiau hyn a llety Prifysgol a thai myfyrwyr i'w canfod yn bennaf yn y wadiau hyn hefyd. Mae Cathays yn rhannu canllawiau cynllunio penodol gyda Phlasnewydd yn seiliedig ar y cymunedau tebyg a chysylltiedig yr ydym yn eu cynrychioli, yn benodol yn ymwneud â gwaharddiad ar fyrddau I'w Rentu a chynlluniau Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth Ychwanegol. Mae dalgylchoedd ysgolion wedi'u cysylltu'n agos, ac mae'r dalgylch ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.

Mae ein cysylltiadau siopa, cymdeithasu, a busnes gydag ardal ehangach 'y Rhath' yn gryf ac yn eglur – mae Heol y Crwys, Heol y Plwca a Heol Albany i gyd yn cyfarfod ac yn ffurfio ardal siopa leol sylweddol. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn trefnu ei gweinidogaeth fel Cathays a'r Rhath, gan adlewyrchu cysylltiadau hirhoedlog yr ardal, ac sy'n ffurfio cyswllt cymunedol sylweddol i bobl a sefydliadau yma.

Mae'r cynnig i wahanu Cathays oddi wrth y Rhath a wardiau eraill yr ydym yn eu ffinio ac yn rhannu cysylltiadau cymunedol â nhw yn un arwyddocaol, ac rwy'n gobeithio y bydd yn cael ei wrthod o blaid cynigion drafft cynharach. Er fy mod yn derbyn nad oes gan Trowbridge unrhyw fynediad ffyrdd uniongyrchol i'r Sblot, mae'n rhannu degawdau o hanes â'r Sblot a wardiau eraill yn Ne Caerdydd a Phenarth sy'n ffurfio cysylltiad cryfach na'r hyn y gellid ei adlewyrchu mewn ffiniau etholaethau.

# BCW-10768 / [redacted] / Port Talbot

Ymateb i Adolygiad y Comisiwn Ffiniau Seneddol 2023 gan Grŵp Llafur Cymru Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Cytunodd Grŵp Llafur Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn unfrydol i wrthwynebu'r cynigion diwygiedig a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ffiniau Seneddol. Mae ein pryderon yn canolbwyntio'n benodol ar gynnwys Dyffrynnoedd Uchaf Tawe ac Aman, sy'n rhan o Etholaeth Castell-nedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar hyn o bryd, yn Etholaeth Seneddol Brycheiniog, Sir Faesyfed a Chwmtawe.

Roeddem yn siomedig iawn o nodi, er gwaethaf sylwadau niferus gan unigolion, cymunedau a hyd yn oed y Comisiynwyr Cynorthwyol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, y mae gan bob un ohonynt fwy o wybodaeth leol am yr ardal, bod y Comisiwn yn parhau i leoli'r cymunedau cymoedd, ôl-ddiwydiannol hyn fel atodiad datgysylltiedig braidd i etholaeth wledig wedi'i chanolbwyntio ar Bowys.

Bydd sefydlu Etholaeth Brycheiniog, Sir Faesyfed a Chwmtawe fawr yn golygu y bydd trigolion yn cael trafferth yn cael cynrychiolaeth ar eu problemau. Byddai amrywiad y ffiniau rhwng cysylltiadau etholaeth ar gyfer Senedd y DU a Senedd Cymru yn anodd i drigolion a bydau dryswch ychwanegol yn cael ei achosi gan ffiniau awdurdod lleol trawsbynciol.

Rydym yn deall ei bod yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau'r nifer benodedig o etholwyr fesul ward. Ond rydym hefyd yn ymwybodol bod Rheol 5 yn Atodlen 2 Deddf 1986 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gallai ac y dylai'r Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Adolygiad 2023 a hoffem wneud nifer o bwyntiau perthnasol iawn yng nghyswllt y rhain. Cyflwynir y ffactorau y mae angen eu hystyried yn y pwyntiau bwled isod ac amlinellir ein pryderon penodol oddi tanynt:

• ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint siâp a hygyrchedd etholaeth; Rydym yn teimlo ei bod yn eglur dim ond o edrych ar y mapiau ac yna o weld cadwyn fynyddoedd y Bannau Brycheiniog sydd rhwng Cwm Tawe Uchaf a gweddill ardal Brycheiniog a Sir Faesyfed mai ychydig sy'n cysylltu hen gymunedau glofaol, ôl-ddiwydiannol y Dyffrynnoedd Uchaf â Brycheiniog a Sir Faesyfed wledig. Byddai'n gwneud mwy o synnwyr cyfuno Ystradgynlais â chymunedau eraill y cymoedd yn hytrach na datgysylltu mwy o gymunedau o'u cysylltiadau daearyddol a diwylliannol naturiol.

• ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020

• ffiniau etholaethau presennol

Bydd trigolion Cwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman Uchaf mewn gwahanol grwpiau ar gyfer Senedd y DU, Senedd Cymru ac Awdurdodau Lleol. Bydd hyn yn gwneud cynrychioli'r cymunedau hyn yn anodd a chael cymorth cynrychiadol priodol ar faterion yn anodd iawn i drigolion lleol.

Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail ar gyfer nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd De-orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth yn croesi'r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdodau a dryswch gweinyddol sylweddol.

Yn hanesyddol, roedd Cwm Tawe yn rhan o Sir Forgannwg erioed, ac mae'r cysylltiadau lleol i gyd gyda Chastell-nedd ac Abertawe, nid gydag Aberhonddu a'r canolbarth yn gyffredinol.
• unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau

[redacted]

12 Tachwedd 2022

Bydd gan yr etholaeth arfaethedig begwn deheuol sy'n wahanol iawn o ran cymeriad i'r gweddill. Mae gan wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman gyfartaledd o 38% o siaradwyr Cymraeg, o'i gymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigurau cyfrifiad 2011, wedi'u pwysoli yn ôl poblogaeth y ward). Roedd 60% o ward Brynaman Isaf yn siaradwyr Cymraeg, sy'n un o'r canrannau uchaf yng Nghymru. O'r herwydd, rydym o'r farn ei bod yn warth na chynhaliwyd unrhyw Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg na bod un yn ofynnol. Mae'n ymddangos bod hyn yn diystyru'r cysylltiad diwylliannol sylweddol hwn.

Mae wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman hefyd yn llawer mwy difreintiedig, â sgôr MALlC cyfartalog o 813 o'i gymharu ag 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a Sir Faesyfed (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, sgôr is yn dynodi mwy o amddifadedd). Bydd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn cynnwys dim ond 25% o boblogaeth yr etholaeth, gan beri risg wirioneddol na fydd anghenion gwahanol iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a wneir gan yr etholaeth yn ei chyfanrwydd.

Mae hefyd yn eglur y bydd y wardiau hyn yn cael eu rhoi mewn etholaeth nad yw'n rhannu ei threftadaeth lofaol ac mae'r mater real iawn o ddiogelwch tomenni glo yn peri pryder yn hyn o beth. Mae gan Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ac Etholaeth Castell-nedd un o'r lefelau uchaf o domenni sborion glo ac o ganlyniad ceir arbenigedd a gwybodaeth yn etholaeth Castell-nedd sy'n hybu gwaith gyda'r Awdurdod Glo i ymdrin â phroblemau wrth iddynt godi. Yn sicr nid yw hyn yn wir i Bowys nac etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed. Mae materion yn ymwneud a thirlithriadau ac ysgolion o dan fygythiad yng Nghwm Tawe Uchaf yn gwneud hwn yn fater cyfredol iawn.

• yr anhwylustod sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath

Mae'r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint â chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae swyddfa'r AS presennol yn Llandrindod – taith o fwy na 55 milltir ac 1 awr ac 20 munud mewn car o Gymunedau Dyffryn Aman. Nid yw'n bosibl gwneud y daith yno ac yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod.

Mae'n gwbl amlwg nad yw'r un o'r ffactorau hyn wedi cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ystyried lleoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman. Mae'n ymddangos mai ymarfer rhifau yn llwyr yw hwn, gan roi ychydig neu ddim ystyriaeth i gysylltiadau daearyddol, lleol a hanesyddol.
Fel opsiwn amgen, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnwys Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau presennol a hanesyddol, daearyddiaeth a nodweddion lleol yn llawer gwell.

**BCW-10769 / [redacted] / Abertawe**

Rwy'n ysgrifennu i gefnogi'r opsiynau amgen yn hytrach na chynigion diwygiedig y Comisiwn Ffiniau i Gymru gan Geraint Davies AS a gyflwynir isod.

Yn bwysicaf oll, maent yn ail-uno Sgeti ac Uplands, sy'n cyfansoddi amgylchedd trefol parhaus â chymunedau wedi'u cysylltu'n glos, felly dylent aros yn yr un etholaeth. Mae'r ddau opsiwn amgen yn galluogi hyn, tra hefyd yn dod â Mayals a wardiau eraill Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn un etholaeth.

Opsiwn Amgen 2 sy'n cadw etholaethau sefydledig presennol Gŵyr a Gorllewin Abertawe agosaf, ac mae'n darparu dwy etholaeth sydd bron yn union yr un faint, y ddwy o fewn un y cant o boblogaeth etholaeth darged y DU.

Felly, mae Opsiwn Amgen 2 yn caniatáu i'r enwau etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe gael eu cadw gan roi'r hyblygrwydd mwyaf posibl ar gyfer newid poblogaeth heb newid ffin yn y dyfodol.

Rwy'n sylweddoli bod y newidiadau hyn yn fwy sylweddol na fyddai'n arferol ar gam hwn y broses, ond y canlyniad, yn fy marn i, yw etholaethau mwy cydlynol a chynaliadwy na'r cynigion diwygiedig diweddaraf.

Gwn yn bersonol bod gan yr opsiynau amgen hyn gefnogaeth eang ymhlith y cymunedau amrywiol ar draws Dinas a Sir Abertawe a bod y cymunedau hyn yn awyddus i gael gwrandawiad yn y broses hon.

Mae pobl yn sylweddol mai'r hyn sy'n iawn, o ran y meini prawf, ac nid pwy sy'n iawn neu'r hyn a ddywedwyd ddiwethaf, sydd bwysicaf i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru.

Felly, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried yr opsiynau amgen hyn ac yn ddelfrydol yn derbyn un ohonynt ar gyfer y dyfodol.

**BCW-10770 / [redacted] / Y Coed Duon**

Rwy'n ysgrifennu atoch fel un o etholwyr Islwyn i wrthwynebu eich cynigion diweddarach i ddatgysylltu wardiau o Islwyn a'u huno â Gorllewin Casnewydd. Mae'r tu hwnt i ddealltwriaeth pwy ar y blaned hon heb sôn am rywun yng Nghymru wnaeth feddwl am y cynnig hwn. Rwy'n byw yn y Coed Duon yn etholaeth Islwyn. Rwy'n gweithio yn etholaeth Gorllewin Casnewydd y mae eich cynigion bellach yn uno'r ddwy etholaeth.

A oes gennych chi unrhyw syniad beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd?

Mae eich cynigion dideimlad diweddaraf yn golygu datgysylltu'r wardiau canlynol o etholaeth Islwyn:

Pontllan-fraith

Maesycwmwr

Pengam

Aberbargoed

Cefn Fforest

Ar hyn o bryd, mae'r Coed Duon wedi'i chyduno â wardiau Pontllan-fraith a Chefn Fforest. Nid oes unrhyw ffiniau ffisegol sy'n eu gwahanu.

Mae eich cynigion yn datgysylltu Pontllan-fraith yn llwyr, a hoffwn dynnu eich sylw at y ffaith nad ydych yn cynnwys unrhyw rannau datgysylltiedig yn eich proses gwneud penderfyniadau. Nid yn unig yr ydych chi wedi datgysylltu Pontllan-fraith yn llwyr o'i hetholaeth yn Islwyn, ond o'i union fynydd, Mynyddislwyn, sydd wedi helpu i lunio ei bodolaeth - "mae mynydd yn ddaearyddiaeth ffisegol". Sylwer hefyd, os gwelwch yn dda, y strwythurau ac adeiladau rhestredig hanesyddol sydd wedi cael eu datblygu gyda Phontllan-fraith ac sydd ynghlwm yn uniongyrchol i wardiau cyfagos: hen swyddfeydd Cyngor Dosbarth Trefol Mynyddislwyn, a adnabyddir bellach fel Groundwork Cymru, Melin Gelligroes (cysylltiadau Titanic hanesyddol ag Artie Moore), y bont dros afon Sirhywi, Gelligroes, pont y Dramffordd (yn rhannol yn ward Pontllan-fraith),

Mae'n ein AS presennol wedi bod yn llais cadarnhaol cryf ar ein rhan yn San Steffan ac mae'n gwbl gydlynol â'n cymunedau a phryderon lleol. Ar hyn o bryd, rwy'n gwrthwynebu eich cynigion i ddatgysylltu wardiau o Islwyn ac uno â Gorllewin Casnewydd. Hyderaf y bydd eich ymgais nesaf yn sicrhau nad yw ein lleisiau yn cael eu gwanhau'n ddideimlad ac yn sicr yn fwy ystyriol o'n cymunedau sydd wedi'u cysylltu'n gydlynol â'i gilydd. Mae etholaeth Islwyn yn haeddu cael ei chynrychioli mewn ffordd deg a chyfartal heb gael gwared ar fynydd a chysylltiadau Titanic hanesyddol o galon ein cymunedau yn Etholaeth Islwyn.

**BCW-10771 / [redacted] Gwirfoddolwyr Cadwraeth Pontardawe / Pontardawe**

Mae Gwirfoddolwyr Cadwraeth Pontardawe yn gwrthwynebu'n gryf cynnig y Comisiwn Ffiniau i gynnwys wardiau Pontardawe a Threbanos, a wardiau eraill yng Nghwm Tawe a Dyffryn Aman, yn etholaeth newydd Brycheiniog, Sir Faesyfed a Chwmtawe.

Mae'n siomedig iawn gweld nad yw'r cynllun ar gyfer ein hardal, er gwaethaf gwrthwynebiadau niferus, gan gynnwys rhai'r Comisiynwyr Cynorthwyol, wedi newid o'r cynnig cychwynnol o hyd.

Yn ogystal â'r rheidrwydd i fodloni'r nifer ofynnol o etholwyr fesur ward, mae Rheol 5 yn Atodlen 2 Deddf 1986 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Adolygiad 2023, ac yn benodol:

• ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth;

• ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020

• ffiniau etholaethau presennol

• unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau

• yr anhwylustod sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath

Mae'n amlwg nad yw'r un o'r ffactorau hyn wedi cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ystyried lleoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

Mae'r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint â chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae swyddfa'r AS presennol yn Llandrindod – taith o fwy na 50 milltir ac 1 awr ac 20 munud mewn car o Bontardawe. Nid yw'n bosibl gwneud y daith yno ac yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod.

Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail ar gyfer nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd De-orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth yn croesi'r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdodau a dryswch gweinyddol sylweddol.

Yn hanesyddol, roedd Cwm Tawe yn rhan o Sir Forgannwg erioed, ac mae'r cysylltiadau lleol i gyd gyda Chastell-nedd ac Abertawe, nid gydag Aberhonddu.

Bydd gan yr etholaeth arfaethedig begwn deheuol sy'n wahanol iawn o ran cymeriad i'r gweddill. Mae gan wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman gyfartaledd o 38% o siaradwyr Cymraeg, o'i gymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigurau cyfrifiad 2011, wedi'u pwysoli yn ôl poblogaeth y ward). Mae wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman hefyd yn llawer mwy difreintiedig, â sgôr MALIC cyfartalog o 813 o'i gymharu ag 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a Sir Faesyfed (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, sgôr is yn dynodi mwy o

amddifadedd). Bydd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn cynnwys dim ond 25% o boblogaeth yr etholaeth, gan beri risg wirioneddol na fydd anghenion gwahanol iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a wneir gan yr etholaeth yn ei chyfanrwydd.

Fel opsiwn amgen, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnwys Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau presennol a hanesyddol, daearyddiaeth a nodweddion lleol yn llawer gwell.

**BCW-10772 / [redacted] / Corwen**

Mae Corwen ac Edeirnion yn hanesyddol ac yn weinyddol wedi bod yn rhan o’r hen Feirionnydd am ganrifoedd tan yn ddiweddar. Camgymeriad oedd yr ad-drefnu diwethaf a roddodd ardaloedd o Brymbo i Glynceiriog i Landrillo , a Rhos a Penley i gyd hefo’u gilydd ,dim ond er mwyn cael y niferoedd i weithio. Ymddengys fod yr ymdrech ddiweraddaf yma i gyfartalu nifer yr etholwyr yn ein harwain eto i’r un math o broblemau -ond rhai fydd yn fwy dwys fyth y tro hwn.Does dim perthynas ymarferol rhwng ardal Corwen ,sydd yn nyffryn y Ddyfrdwy,ag ardaloedd fel y Trallwng, y Drenewydd a Llanidloes sydd ymhell dros fynydd y Berwyn.

Tecach a mwy ystyrlon fyddai cynnwys yr hen Edeirnion yn Nwyfor/Meirionnydd lle mae cysylltiadau diwylliannol, amaethyddol addysgol a gweinyddol yn parhau i fod yn bwysig i’r trigolion.

Hefyd,byddai hyn yn rhoi tua tair mil yn fwy o bobl i Ddwyfor/Meirionnydd a thrwy hynny yn dod a rhifau y ddwy etholaeth arfaethedig yn nes at y rhif targed.

Gan mor bwysig yw cynrychiolaeth ddemocrataidd a’r cyfle i bob unigolyn ddatgan ei farn a gwneud gwahaniaeth, mae yn hollol greiddiol y teimlad o berthyn - i bentref, i ardal, i gymuned ,i etholaeth.

Anodd ,os nad yn amhosib,fydd cael y teimlad o berthyn mewn etholaeth fel yr un sydd yn cael ei gynnig gan y Bwrdd ,a thrwy hynny bydd yn gwanhau democratiaeth yn hytrach na’i hybu.

Hyderaf y rhoddwch ystyriaeth ofalus i’r pwyntiau sydd wedi eu nodi uchod ac y cytunwch fod y cyfle i fod yn rhan ystyrlon o’r broses ddemocrataidd yn hanfodol i lwyddiant unrhyw newidiadau i ffiniau etholaethau. Ni fydd y cynigion presennol yn sicrhau hyn.

**BCW-10773 / [redacted] / Y Bala**

Hoffwn fynegi fy marn ar y cynigion diweddar ynghylch y ffin etholaeth newydd ar gyfer De Clwyd, a adnabuwyd fel Edeirnion gynt.

Rwy’n credu fod y cynlluniau newydd hyn yn gwbl anymarferol. Nid oes unrhyw gysylltiadau rhwng Edeirnion a’r Trallwng, Machynlleth na’r Drenewydd, boed yn gysylltiad gwleidyddol neu fel arall. Mae mwyafrif y trigolion lleol yn siopa yn y Bala, Rhuthun neu Langollen. Hefyd, mae bron i bob un o’r plant lleol yn mynychu ysgolion yn y trefi hyn. Nid oes unrhyw blant yn mynd i’r ysgol yn y Drenewydd, y Trallwng na Machynlleth. Mae ein papur newydd lleol hefyd wedi’i leoli yn y Bala.

Oherwydd y cysylltiadau presennol hyn, rwy’n cynnig y byddai etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn opsiwn llawer mwy addas i ni. Fel arall, pe canfuwyd nad oedd modd cyflawni hyn, byddai etholaeth Aberconwy yn ail ddewis derbyniol. Ceir cysylltiadau rhwng Edeirnion ac Aberconwy o leiaf, nad ydynt yn bresennol o gwbl rhwng yr ardaloedd o fewn y ffin arfaethedig newydd.

**BCW-10774 / [redacted] / Pontardawe**

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf cynnig y Comisiwn Ffiniau i gynnwys wardiau Pontardawe a Threbanos, a wardiau eraill yng Nghwm Tawe a Dyffryn Aman, yn etholaeth newydd Brycheiniog, Sir Faesyfed a Chwmtawe. Mae'n siomedig iawn gweld nad yw'r cynllun ar gyfer ein hardal, er gwaethaf gwrthwynebiadau niferus, gan gynnwys rhai'r Comisiynwyr Cynorthwyol, wedi newid o'r cynnig cychwynnol o hyd. Yn ogystal â'r rheidrwydd i fodloni'r nifer ofynnol o etholwyr fesur ward, mae Rheol 5 yn Atodlen 2 Deddf 1986 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Adolygiad 2023, ac yn benodol:

• ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth;

• ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020

• ffiniau etholaethau presennol

• unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau

• yr anhwylustod sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath

Mae'n amlwg nad yw'r un o'r ffactorau hyn wedi cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ystyried lleoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

Mae'r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint â chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae swyddfa'r AS presennol yn Llandrindod - taith o fwy na 50 milltir ac 1 awr ac 20 munud mewn car o Bontardawe. Nid yw'n bosibl gwneud y daith yno ac yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod. Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail ar gyfer nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd De-orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth yn croesi'r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdodau a dryswch gweinyddol sylweddol. Yn hanesyddol, roedd Cwm Tawe yn rhan o Sir Forgannwg erioed, ac mae'r cysylltiadau lleol i gyd gyda Chastell-nedd ac Abertawe, nid gydag Aberhonddu. Bydd gan yr etholaeth arfaethedig begwn deheuol sy'n wahanol iawn o ran cymeriad i'r gweddill. Mae gan wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman gyfartaledd o 38% o siaradwyr Cymraeg, o'i gymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigurau cyfrifiad 2011, wedi'u pwysoli yn ôl poblogaeth y ward). Mae wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman hefyd yn llawer mwy difreintiedig, â sgôr MALIC cyfartalog o 813 o'i gymharu ag 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a Sir Faesyfed (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, sgôr is yn dynodi mwy o amddifadedd). Bydd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn cynnwys dim ond 25% o boblogaeth yr etholaeth, gan beri risg wirioneddol na fydd anghenion gwahanol iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a wneir gan yr etholaeth yn ei chyfanrwydd. Fel opsiwn amgen, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnwys Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw

arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau presennol a hanesyddol, daearyddiaeth a nodweddion lleol yn llawer gwell.

**BCW-10775 / [redacted] / Bala**

Hoffwn fynegi fy marn ynglyn â’r cyhoeddiad diweddar ynglyn â’r ffiniau etholaeth newydd, yn benodol ffin newydd De Clwyd (Edeirnion ynghynt).

Credaf fod y cynlluniau newydd yn hollol anhyfyw oherwydd nad oes unrhyw gysylltiadau (boed yn gysylltiad wleidyddol neu arall) rhwng Edeirnion a’r Drenewydd, Trallwng na Machynlleth.

Mae ein papur lleol wedi ei leoli yn y Bala. Nid oes unrhyw blant lleol yn mynychu’r ysgol uwchradd yn y Drenewydd, Machynlleth nac yn y Trallwng. Yn hytrach maent yn mynychu ysgolion uwchradd yn Y Bala, Rhuthun a Llangollen. Mae’r rhan fwyaf o drigolion lleol hefyd yn siopa yn y trefi yma, yn hytrach na dros y mynydd.

Felly, oherwydd y cysylltiadau yma, rwy’n cyhoeddi y byddai etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn ddewis llawer tecach ar ein cyfer. Byddai etholaeth Aberconwy yn ail ddewis derbyniol os oes anhawster ymuno ein etholaeth ni gyda Dwyfor Meirionnydd. Mae yna o leia gysylltiadau rhwng Edeirnion ac Aberconwy sydd yn syml ddim yn bresennol rhwng ardaloedd y ffin newydd arfaethedig.

**BCW-10776 / [redacted] / Pontardawe**

Rwyf yn gwrthwynebu'n gryf gynnig y Comisiwn Ffiniau i gynnwys wardiau Pontardawe a Threbanos, a wardiau eraill Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn etholaeth newydd Brycheiniog a Sir Faesyfed a Chwmtawe.

Er gwaethaf nifer mawr sy'n gwrthwynebu, gan gynnwys gwrthwynebiad y Comisiynydd Cynorthwyol, siomedig yw gweld nad yw'r cynllun ar gyfer ein hardal wedi newid o'r cynnig gwreiddiol.

Yn ogystal â'r rheidrwydd i fodloni'r nifer gofynnol o etholwyr fesul ward, mae Rheol 5 yn Atodlen 2 o Ddeddf 1986 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gallai'r Comisiwn eu hystyried wrth sefydlu map etholaethau newydd ar gyfer Adolygiad 2023, yn benodol:

• ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth;

• ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020

• ffiniau etholaethau presennol

• unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau

• yr anghyfleustra sy'n dilyn newidiadau o'r fath

Mae'n amlwg nad yw'r un o'r ffactorau hyn wedi cael sylw wrth ystyried lleoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

Mae'r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint ac mae ganddi gysylltiadau trafnidiaeth gwael. Yn Llandrindod y mae swyddfa yr AS presennol—taith o 50 milltir ac 1 awr ac 20 munud mewn car o Bontardawe. Nid yw'n bosibl gwneud y daith yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod.

Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail i nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd y De-orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed-Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth sy'n croesi'r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdod a dryswch gweinyddol sylweddol.

Yn hanesyddol, roedd Cwm Tawe bob amser yn rhan o Sir Forgannwg a chyda Chastell-nedd ac Abertawe, ac nid Aberhonddu, y mae'r holl gysylltiadau lleol.

Bydd gan yr etholaeth arfaethedig flaen deheuol sy'n wahanol iawn o ran cymeriad i weddill yr etholaeth. Mae 38% o wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn siaradwyr Cymraeg ar gyfartaledd, o'u cymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigyrau cyfrifiad 2011, wedi eu pwysoli yn unol â phoblogaeth y ward). Mae wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman hefyd yn llawer mwy difreintiedig, gyda safle MALIC cyfartalog o 813 o'i gymharu â 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a Sir Faesyfed (Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru 2019, mae safle is yn dangos mwy o amddifadedd). Ni fydd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman ond yn cynnwys 25% o boblogaeth yr etholaeth, gan roi risg gwirioneddol na fydd anghenion

gwahanol iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a wneir gan yr etholaeth gyfan.

Fel dewis amgen, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynydd Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnwys Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau presennol a hanesyddol, daearyddol a nodweddion lleol yn llawer gwell.

**BCW-10777 / [redacted] / Casnewydd**

Byddai'n fwy synhwyrol i gymuned Bedwas, Trethomas a Machen (BTM), a wardiau cysylltiedig megis Rhydri a Llanfihangel-y-fedw, ymuno â Gorllewin Casnewydd yn hytrach na Choed-duon a'i hardaloedd cyfagos. Mae BTM yn agosach at Gasnewydd nag yw Coed-duon; er ei bod yn rhan o Fwrdeistref Sirol Caerffili, mae hefyd yn cysylltu â Basaleg a Tŷ-du drwy'r A483 a gwasanaethau bws, er bod gan Goed-duon gysylltiadau cyfyngedig â Gorllewin Casnewydd. Byddai hefyd yn creu etholaeth fwy cywasgedig a fyddai â dealltwriaeth fwy cyffredin o gymuned, na fyddai'n bresennol yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd ac Islwyn. Yn hanesyddol, roedd BTM yn rhan o Sir Fynwy ond fe'i symudwyd i Gwm Rhymni, Morgannwg Ganol, ym 1974.

**BCW-10778 / [redacted] / Caerdydd**

Rwyf yn Aelod o Gyngor Caerdydd ac rwyf yn cynrychioli Ward Plasnewydd (sef y Rhath gan fwyaf). Rwyf yn byw ychydig dros ffin y ward yn Cathays. Ysgrifennaf yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan Gomisiwn Ffiniau i Gymru, ddydd Mercher, 19 Hydref. Ysgrifennaf ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth.

Rwyf yn gwrthwynebu'r cam hwn. Mae cysylltiad cynhenid rhwng ward Cathays a'r wardiau sy'n weddill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown. Dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol gyda ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd a ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac nid yw'n cynnwys ond dwy ward yn symud o'u hetholaethau presennol, o'u cymharu â phedair a fyddai'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac maent wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod yn yr un sedd Seneddol am fwy na thrigain mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn yn ei adolygiadau blaenorol a fethwyd ers 2010 erioed wedi edrych i wahanu Cathays a Phlasnewydd.

Derbyniodd y Comisiwn un cyflwyniad (gan breswylydd yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn. Derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (oddi wrth drigolion Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown yng nghymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth. Rwyf yn derbyn bod Trowbridge yn ward nad oes ganddi fynediad uniongyrchol i'r Sblot. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr un sefyllfa yn union yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae gan y Sblot a Trowbridge ddegawdau o hanes yn rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r ateb arfaethedig ar gyfer sedd newydd y Rhondda.

Ni soniwyd am symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth fel dewis yn ystod y cynigion na'r prosesau ymgynghori blaenorol. Mae ei gyflwyno fel 'fait accompli' ar y cam olaf yn ymddangos yn ddichellgar, ac yn groes i ysbryd y datganiad a wnaeth yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau'r broses.

"Rydym ni'n benderfynol o ddatblygu'r cynigion gorau posibl ar gyfer etholaethau newydd Cymru, ac rydym yn gwybod mai dim ond drwy gynnwys y cyhoedd yn fwy nag erioed o'r blaen y gallwn wneud hynny." "Mae hygyrchedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru lais gwerthfawr i'w ychwanegu at y drafodaeth am newidiadau i ffiniau Cymru, ac rydym yn dymuno sicrhau y gall pawb fynegi eu safbwyntiau."

Nid oes gan Cathays gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae ei lleoli yn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hurt, a bod yn onest, ac ni fydd yr etholwyr yn deall hynny'n rhwydd. Fodd bynnag, mae llawer o gysylltiadau cymunedol rhwng Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown:

• Y rhan amlaf o lawer, mae poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd ar gyfer Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn rhychwantu Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, ac mae neuaddau preswyl yn agos at Cathays a Phlasnewydd.

• Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried bod wardiau Cathays a Phlasnewydd mor gymhlethig i'r graddau bod rheolau cynllunio wedi eu pasio i gynnwys Tai Amlfeddiannaeth a bwrdd asiantau gosod yn unig yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)

• Mae dalgylch yr ysgol uwchradd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.

• Mae'r plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays ac ym Mhlasnewydd yn mynd rhagddynt i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

• Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Ben-y-lan a rhannau o Gyncoed, yn golygu bod preswylwyr ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath y mae ardaloedd siopa Ffordd Crwys, Ffordd Albany a Ffordd y Ddinas yn ganolbwynt iddi.

• Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir rhwng Cathays a Phlasnewydd yn hirsefydlog ac fe'u parchwyd yn gywir gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.

• Trefnir yr Eglwys yng Nghymru o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)

• Mae dalgylchoedd meddygfeydd meddygon teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac maent yn rhannu pryderon a demograffeg gyffredin.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Ar ôl darllen y dystiolaeth hon, gobeithiaf yn awr y bydd y Comisiwn yn dymchwel y cynigion diwygiedig ac yn ailgydio yn y cynigion cychwynnol fel y'u cyhoeddwyd.

**BCW-10779 / [redacted] / Pencoed**

Rwyf yn un o drigolion tref Pencoed ac yn gwrthwynebu yn y termau cryfaf posibl cynnwys y dref yn etholaeth seneddol newydd arfaethedig y Rhondda.

Hefyd, rwyf yn cael yr amserlen a roddir i gyflwyno'r safbwyntiau hyn, ar yr hyn sy'n fater hanfodol bwysig sy'n effeithio ar ddyfodol y dref yr wyf yn byw ynddi, yn gwbl annigonol ac annerbyniol.

Os oes awydd difrifol i gael safbwyntiau gonest, ystyriol, ac agored oddi wrth unigolion, grwpiau, a sefydliadau ar y newid arfaethedig hwn, yna dylai llawer mwy o amser fod wedi ei neilltuo. Nid oedd yr un o'r cynigion blaenorol wedi awgrymu bod Pencoed yn cael ei chynnwys o fewn ffiniau y Rhondda, felly mae gweld wedyn y newid enfawr a awgrymir yma yn sioc ac yn syndod llwyr.

Ers dros ganrif, mae pobl Pencoed wedi uniaethu â Phen-y-bont ar Ogwr ac nid y Rhondda, yn wir Pen-y-bont ar Ogwr yw ein tref bost. Mae gennym gampws Coleg Penybont uchel ei barch a leolir yn y dref. Mae gan ein hysgolion ddigonedd o dystiolaeth sy'n dangos eu bod yn rhyngweithio gyda'u cymheiriaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac nid gyda'r Rhondda.

Siawns nad sicrhau sefydlogrwydd economaidd a diwylliannol cymunedau yw'r rhesymeg y tu ôl i unrhyw newidiadau ffiniau, ond mae cysylltu Pencoed â'r Rhondda drwy Gilfach-goch drwy'r llain deneuaf o dir nad oes ganddi unrhyw gyswllt cerbydol yn afresymol. Nid oes cysylltiadau rheilffordd uniongyrchol na ffyrdd i'r etholaeth newydd o Bencoed.

Wrth ystyried map y newidiadau ffiniau arfaethedig, mae'n amlwg mai ateb llawer mwy syml a dichonadwy fyddai disodli Pencoed â Chwm Ogwr cyfan sydd â chysylltiadau llawer mwy â'r Rhondda, gyda dwy ffordd ar wahân, yr A4061 a'r A4093, sy'n ei gysylltu'n uniongyrchol ag etholaeth y Rhondda.

Mae Cwm Ogwr hefyd yn ffinio ar y Rhondda ar ei ochr ddwyreiniol gyfan. Mae hefyd yn wir fod gan gymunedau Cwm Ogwr h.y., Nant-y-moel, Cwm Ogwr a Melin Ifan Ddu lawer mwy yn gyffredin â chymunedau cyfagos y Rhondda o ran economi, treftadaeth, a diwylliant o'u cymharu â Phencoed.

Hyderaf y byddwch yn rhoi ystyriaeth haeddiannol i hyn.

**BCW-10780 / [redacted] / Clunderwen**

Rwy'n enedigol o Landysilio, Clunderwen sydd yn ward Maenclochog, ac, ar hyn o bryd yn etholaeth Sir Benfro.

Rwyf mor hapus i weld eich bod yn bwriadu symud y ward yma i etholaeth Ceredigion a galw'r ardal yng Ngheredigion Preseli oherwydd dyna'r dynfa naturiol i'n poblogaeth.

Iaith gyntaf yr ardal yw Cymraeg, mae'r addysg yn y Gymraeg, mae ein diwydiant a'n diwylliant yn Gymraeg, mae ein hanes yn Gymraeg ac mae bywyd pob dydd heddiw yn Gymraeg.

Mae dim ond yn iawn felly bod yr etholaeth yn adlewyrchu hyn, a'r un mwyaf amlwg i ward Maenclochog i fod ynddo, yw Ceredigion Preseli.

**BCW-10781 / [redacted] Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf / RhCT**

Ysgrifennaf i gyflwyno ymateb ffurfiol Aelodau Etholedig i'ch ymgynghoriad mewn cysylltiad ag Adolygiad Etholaethau Seneddol 2023 yng Nghymru, cynigion diwygiedig. Cafodd yr ymateb hwn ei ystyried a'i fabwysiadu gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu trawsbleidiol y Cyngor yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2022, gyda gwahoddiad agored i bob Aelod Etholedig.

Yn gyntaf, gwnaeth aelodau gydnabod a gwerthfawrogi'r her sy'n wynebu'r Comisiwn, wrth leihau nifer etholaethau Cymru o 40 i 32, a realiti'r senario hon wrth lunio cynrychiolaeth seneddol newydd yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, byddai ardal weinyddol Cyngor Rhondda Cynon Taf, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn cael eu cynrychioli ar draws pump o'r etholaethau newydd, sef Pontypridd, y Rhondda, Merthyr Tudful a Chwm Cynon, Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd.

Gogledd Caerdydd

Yn y cyfarfod, mynegodd Aelodau bryderon am y cynnig i wneud ward Ffynnon Taf yn rhan o etholaeth Gogledd Caerdydd oherwydd teimlad oedd nad oedd gan Ffynnon Taf gysylltiadau uniongyrchol â'r cymunedau eraill a fyddai'n dod yn rhan o'r etholaeth arfaethedig. Roedd yr aelodau hefyd yn teimlo y byddai hyn yn achosi dryswch yn y gymuned oherwydd y byddent ar ochrau gwahanol i Ffiniau Awdurdod Lleol a Seneddol. Pe byddai Ffynnon Taf yn symud allan o etholaeth Pontypridd, roedd yr aelodau'n teimlo y byddai'n well ei gwneud yn rhan o etholaeth Gorllewin Caerdydd oherwydd bod gan y Gymuned fwy'n gyffredin â wardiau cyfagos megis Gwaelod-y-garth a Phentyrch.

Gorllewin Caerdydd

Mae'r aelodau'n cydnabod rhesymeg ddaearyddol o ran cydbwyso nifer yr etholwyr sydd ym mhob etholaeth newydd gan wneud ward etholiadol Pont-y-clun yn rhan o etholaeth newydd

Gorllewin Caerdydd. Roedd yr aelodau'n cydnabod 'ymlediad' Gogledd Caerdydd o'i ffiniau hanesyddol a'r cysylltiadau trafnidiaeth cryf sydd gan drigolion o Bont-y-clun i Gaerdydd, fel ardal i gymudwyr ar gyfer y Brifddinas. Cydnabu'r Pwyllgor fod cysylltiad cymdeithasol neu ddiwylliannol cyfyngedig rhwng Pont-y-clun a chanolfan ddinesig yr etholaeth bresennol y mae'n rhan ohoni, sef Pontypridd, a arweiniodd y pwyllgor i ddod i'r casgliad y byddai effaith negyddol gyfyngedig o'r newid hwn, er mai Pont-y-clun fyddai unig ardal yr etholaeth newydd i beidio â bod yn rhan o ardal weinyddol Dinas a Chyngor Caerdydd, a bod hyn yn cyflwyno her o ran cynrychiolaeth ar lefel leol, ac o safbwynt gweinyddu etholiadol hefyd. Cyfeiriodd aelodau hefyd at resymeg gyfartal o ran gwneud y gymuned hon yn rhan o etholaeth Bro Morgannwg i gyflawni meini prawf yr adolygiad.

Merthyr a Chynon Uchaf

Roedd yr aelodau'n cefnogi'r cynigion i wneud Aberaman a Chwm-bach yn rhan o etholaeth Merthyr a Chynon Uchaf yn hytrach nag Etholaeth newydd Pontypridd, a gynigiwyd yn wreiddiol gan y Comisiwn. Mynegodd aelodau drosodd a throsodd eu harsylwad blaenorol bod y cymunedau hyn yn 'edrych i'r gogledd' tuag Aberdâr, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol, yn fwy nag y byddent yn edrych tua Phontypridd. Yn yr un modd, mae'r aelodau hefyd yn cydnabod cysylltiad hanesyddol rhwng Aberdâr a Merthyr Tudful dros genedlaethau, a gefnogodd resymeg y Comisiwn dros wneud y cynnig hwn. Nododd rhai aelodau hefyd fod cynrychiolaeth seneddol wedi cynnwys gogledd cymoedd Cynon a Merthyr yn flaenorol.

Pontypridd

Croesawodd yr aelodau ddychweliad cymunedau Glyn-coch ac Ynys-y-bwl i etholaeth newydd Pontypridd, gan gydnabod y cysylltiadau hanesyddol a chymdeithasol cryf y mae'r cymunedau hyn yn eu rhannu â Phontypridd. Roedd yr aelodau a'r trigolion hefyd o blaid gwneud ward Cilfynydd yn rhan o etholaeth Pontypridd.

Er gwaethaf eu cysylltiad daearyddol agos, ni chydnabu'r aelodau lawer o gysylltiad ymarferol o ddydd i ddydd rhwng ardal Aberpennar fwyaf â thref allweddol Pontypridd, nag ag ardal ehangach yr etholaeth newydd. Mae aelodau'n cydnabod demograffeg wahanol iawn rhwng rhan ddeheuol yr etholaeth newydd hon a'r cymunedau hynny sy'n byw yn etholaeth Cwm Cynon ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd aelodau hefyd at gysylltiad cyfyngedig neu ddim cysylltiad rhwng Pontypridd â chymunedau Llanhari, Brynna a Llanharan (Sy'n rhan o Etholaeth Ogwr ar hyn o bryd) ac roeddent yn gweld mwy o resymeg mewn cysylltu'r ardaloedd hyn â wardiau'r Rhondda—neu Ben-y-bont ar Ogwr neu Fro Morgannwg o bosibl o dan drefniadau etholaethol newydd.

Y Rhondda

Yn rhan o ofyniad i leihau nifer yr etholaethau yng Nghymru, yn y cyd-destun hwn, cydnabu aelodau'r rhesymeg o gynnwys adrannau etholiadol Dwyrain Tonyrefail a Gorllewin Tonyrefail yn etholaeth newydd y Rhondda. Mae'r aelodau'n cydnabod yr ymdeimlad cryf o gysylltiad sydd eisoes yn bodoli rhwng trigolion Tonyrefail a'r Rhondda fel ardal. Mae rhai aelodau yn cydnabod cysylltiad tebyg rhwng Gilfach-goch a'r Rhondda,

gan gydnabod hefyd y cysylltiad sydd hefyd yn bodoli rhwng y cymunedau hyn i'r de tuag at Ben-y-bont ar Ogwr a Llantrisant mewn termau ymarferol, o ran cael gafael ar wasanaethau, teithio a manwerthu.

Mynegodd aelodau amheuon cryf ynghylch cynnwys Pencoed a Phen-prysg o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac Etholaeth bresennol Ogwr.

Roedd pob aelod o'r farn nad oedd yr elfen hon o'r cynnig yn cyd-fynd â sylwadau'r Comisiwn ynghylch "ceisio argymell etholaethau sy'n cynnwys wardiau etholiadol cyfan sydd wrth ymyl ei gilydd ac nad ydynt yn cynnwys rhannau gwahanedig; hynny yw, pan fo'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn ei gwneud yn angenrheidiol i basio drwy etholaeth wahanol"

Er mwyn cael mynediad i'r ddwy gymuned hyn, nodwyd y byddai angen teithio drwy o leiaf dwy etholaeth seneddol newydd arall; ar y sail hon, nid oedd yr Aelodau o'r farn bod y datganiad uchod yn adlewyrchu'r cynnig i gynnwys wardiau Pencoed, Hendre a Felindre yn etholaeth arfaethedig y Rhondda.

Dywedodd aelodau y byddai wardiau Hendre a Felindre yn fwy cyson ag etholaeth newydd Pen-y-bont neu y byddai etholaeth newydd Bro Morgannwg yn llawn cystal; yn y ddwy achos, mae cysylltiad lleol cryfach. Roedd yr aelodau i gyd yn cydnabod nad oedd cysylltiad cymdeithasol, diwylliannol na hanesyddol rhwng yr ardaloedd penodol hyn â'r Rhondda. Nododd yr aelodau hefyd, yn nhermau bodloni'r gynrychiolaeth ofynnol o ran paramedrau etholiadol, na fyddai canlyniad sylweddol yn sgil cael gwared ar y cymunedau hyn o gynnig y Rhondda, neu eu hychwanegu at gynnig newydd Pen-y-bont ar Ogwr Bro Morgannwg.

Mae'r aelodau felly'n awgrymu bod y Comisiwn yn ystyried edrych ar etholaeth Gogledd y Rhondda, ac yn hytrach ei fod yn ystyried cynnwys cymunedau megis Nant-y-moel a Chwm Garw y mae ganddynt gysylltiad daearyddol llawer mwy â'r Rhondda, ac y mae ganddynt gysylltiadau demograffig a diwylliannol tebyg i'r Rhondda hefyd. Neu fel arall, gallai'r comisiwn ystyried cynnwys Brynna a Llanharan yn etholaeth y Rhondda oherwydd bod ganddynt gysylltiadau mwy nag sydd gan wardiau Hendre a Felindre.

Roedd yr aelodau yn gwerthfawrogi ymateb y Comisiwn i nifer o'r sylwadau a wnaed gan y Cyngor i'r cynigion drafft blaenorol, ac wrth wneud hynny, roeddent yn cydnabod yr her sy'n wynebu'r Comisiwn o ran bodloni'r meini prawf a osodwyd mewn ffordd sydd mor ymarferol bosibl, gan adlewyrchu a pharchu'r cysylltiadau a'r cymdeithasau cryf sydd gan drigolion â'u Haelodau Seneddol o dan y trefniadau seneddol presennol.

**BCW-10782 / [redacted] / Bangor**

Dw i'n dal i wrthwynebu'r bwriad o ddiddymu etholaeth Arfon a symud Dinas Bangor i etholaeth newydd Bangor Aberconwy am y rhesymau sy wedi cael eu llefaru eisoes, gan gynnwys maint daearyddol a thirwedd mynyddig yr etholaeth arfaethedig, hunaniaeth ieithyddol, diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd unedig yr etholaeth bresennol, sef ardal Caernarfon, Y Felinheli, dinas Bangor a Bethesda a phentrefi eraill y cylch, a nodweddion arbennig eraill yr ardal sy'n cynnwys dinas brifysgol, Parc Cenedlaethol Eryri a'r Afon Menai. Ni ellir chwaith osgoi'r casgliad fod yr adrefnu ac ailstrwythuro ffiniau etholaeth Arfon yn mynd i roi mantais annheg i bleidiau neilltuol mewn etholiad, gan amharu o ganlyniad ar gyfle cynrychiadol grŵp penodol o bleidleiswyr, sef pleidleiswyr Plaid Cymru Dinas Bangor.

Felly gwrthwynebaf yr ailstrwythuro.

Yn gywir,

[redacted]

**BCW-10783 / Cyng. Grace Ferguson- Thorne / Caerdydd**

**Cyng. Grace Ferguson-Thorne**

**Y Cynghorydd Adamsdown Ward**

**14 Tachwedd 2022**

Annwyl Foneddigion,

Ysgrifennaf yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan Gomisiwn Ffiniau i Gymru, ddydd Mercher, 19 Tachwedd. Ysgrifennaf ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth. Rwyf yn gwrthwynebu'r cam hwn. Mae cysylltiad cynhenid rhwng ward Cathays a'r wardiau sy'n weddill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Adamsdown, Cyncoed, Pen-y-lan a Phlasnewydd.

Dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol gyda ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd a ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac nid yw'n cynnwys ond dwy ward yn symud o'u hetholaethau presennol, o'u cymharu â phedair a fyddai'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac maent wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod yn yr un sedd Seneddol am fwy na thrigain mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn yn ei adolygiadau blaenorol a fethwyd ers 2010 erioed wedi edrych i wahanu Cathays a Phlasnewydd.

Derbyniodd y Comisiwn un cyflwyniad (gan breswylydd yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn. Derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (oddi wrth drigolion Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd yng nghymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Rwyf yn derbyn bod Trowbridge yn ward nad oes ganddi fynediad uniongyrchol i'r Sblot. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr un sefyllfa yn union yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae gan y Sblot a Trowbridge ddegawdau o hanes yn rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r ateb arfaethedig ar gyfer sedd newydd y Rhondda. Ni soniwyd am symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth fel dewis yn ystod y cynigion na'r prosesau ymgynghori blaenorol. Mae ei gyflwyno fel 'fait accompli' ar y cam olaf yn ymddangos yn ddichellgar, ac yn groes i ysbryd y datganiad a wnaeth yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau'r broses.

"Rydym ni'n benderfynol o ddatblygu'r cynigion gorau posibl ar gyfer etholaethau newydd Cymru, ac rydym yn gwybod mai dim ond drwy gynnwys y cyhoedd yn fwy nag erioed o'r blaen y gallwn wneud hynny." "Mae hygyrchedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru lais gwerthfawr i'w ychwanegu at y drafodaeth am newidiadau i ffiniau Cymru, ac rydym yn dymuno sicrhau y gall pawb fynegi eu safbwyntiau."

Nid oes gan Cathays gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae ei lleoli yn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hurt, a bod yn onest, ac ni fydd yr etholwyr yn deall hynny'n rhwydd. Fodd bynnag, mae gan Cathays nifer o gysylltiadau cymunedol ag ardal Adamsdown yr wyf yn ei chynrychioli fel cynghorydd lleol, ac ag ardaloedd y Rhath yng Nghyncoed, Pen-y-lan a Phlasnewydd.

- Mae poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd ar gyfer Prifysgol De Cymru yn byw yn Adamsdown, Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn rhychwantu Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, ac mae adeilad Prifysgol De Cymru yn Adamsdown. Mae neuaddau preswyl y ddwy brifysgol hyn yn agos iawn at Adamsdown, Cathays a Phlasnewydd.
- Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried bod wardiau Cathays a Phlasnewydd mor gymhlethig i'r graddau bod rheolau cynllunio wedi eu pasio i gynnwys Tai Amlfeddiannaeth a bwrdd asiantau gosod yn unig yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)
- Mae dalgylch yr ysgol uwchradd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays,

Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.
 Mae'r plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays ac ym Mhlasnewydd yn mynd rhagddynt i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).
 Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Ben-y-lan a rhannau o Gyncoed, yn golygu bod preswylwyr ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath y mae ardaloedd siopa Ffordd Crwys, Ffordd Albany a Ffordd y Ddinas yn ganolbwynt iddi.=
 Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir rhwng Cathays a Phlasnewydd yn hirsefydlog ac fe'u parchwyd yn gywir gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.
 Trefnir yr Eglwys yng Nghymru o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)
 Mae dalgylchoedd meddygfeydd meddygon teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac maent yn rhannu pryderon a demograffeg gyffredin.
Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Ar ôl darllen y dystiolaeth hon, gobeithiaf yn awr y bydd y Comisiwn yn dymchwel y cynigion diwygiedig ac yn ailgydio yn y cynigion cychwynnol fel y'u cyhoeddwyd

**Yn Gywir**

[redacted]

**Cyng. Grace Ferguson-Thorne**
Cynghorydd dros Adamsdown

**BCW-10784 / Y Cynghorydd Sonia Reynolds / Castell-nedd**

Rwyf yn siomedig iawn o nodi, er gwaethaf nifer o sylwadau gan unigolion, cymunedau a hyd yn oed y Comisiynydd Cynorthwyol yng Nghymru y mae gan bob un ohonynt wybodaeth fwy lleol am yr ardal, fod y Comisiwn yn mynd rhagddo â'i gynnig i gynnwys Cwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman, sy'n rhan o Etholaeth Castell-nedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar hyn o bryd, yn Etholaeth Seneddol Brycheiniog, Sir Faesyfed a Chwmtawe. Mae hyn yn gosod y cymunedau ôl-ddiwydiannol hyn yn y cymoedd mewn etholaeth wledig sy'n canolbwyntio ar Bowys i raddau helaeth. Ymddengys ein Cymunedau ar y map a ddarperir, fel ychwanegiad braidd yn ddatgysylltiedig, sydd wedi eu cysylltu'n ansylweddol â phrif gorff Brycheiniog a Sir Faesyfed i wneud yn iawn am y niferoedd. Mae hyn yn gwneud anghymwynas â'r trigolion lleol yr wyf yn eu cynrychioli.

Bydd sefydlu Etholaeth fawr Brycheiniog, Sir Faesyfed a Chwmtawe yn golygu y bydd trigolion yn ei chael hi'n anodd cael cynrychiolaeth ar eu materion. Byddai'r amrywiad yn y ffiniau rhwng cysylltiadau etholaethol Senedd y DU a Senedd Cymru yn anodd i drigolion a byddai dryswch ychwanegol yn cael ei achosi drwy groesi ffiniau awdurdodau lleol.

Rwyf yn deall bod gan y Comisiwn ofyniad i fodloni nifer penodedig o etholwyr ar gyfer pob ward. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod meini prawf eraill ar gyfer yr adolygiad a mynegaf fy mhryderon yn ymwneud â'r rheini isod.

Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth: - Mae'n amlwg o fapiau ac yn eglur iawn ym mywydau bob dydd y rhai ohonom sy'n byw yn Nyffryn Aman bod cadwyn Bannau Brycheiniog sydd rhwng Cwm Tawe Uchaf a gweddill Brycheiniog a Sir Faesyfed yn rhwystr daearyddol go iawn i gysylltiadau â Phowys wledig. Ôl-ddiwydiannol a chyn-lofaol yw ein cymunedau o ran cymeriad ac nid oes ganddynt lawer yn gyffredin â Brycheiniog a Sir Faesyfed wledig. Byddai'n gwneud mwy o synnwyr uno Ystradgynlais â chymunedau eraill y cymoedd na datgysylltu rhagor o gymunedau o'u cysylltiadau daearyddol a diwylliannol naturiol.

Ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020 a Ffiniau'r etholaethau presennol: - Bydd trigolion Dyffryn Aman Uchaf yn cael eu hunain mewn gwahanol grwpiau ar gyfer Senedd y DU, Senedd Cymru ac Awdurdodau Lleol. Bydd hyn yn gwneud cynrychiolaeth gan ASau y DU, ASau Cymru a Chynghorwyr Lleol ar faterion sy'n pontio cylchoedd gwaith y cynrychiolwyr hyn, yn hynod o anodd mewn rhai achosion a bydd dealltwriaeth o bwy i gysylltu ag ef mewn cysylltiad â beth wedi cynyddu cymhlethdod i drigolion lleol. Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail i nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd y De-orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed-Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth sy'n croesi'r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdod a dryswch gweinyddol sylweddol. Yn hanesyddol, roedd Cwm Tawe bob amser yn rhan o Sir Forgannwg a chyda Chastell-nedd ac Abertawe, ac nid Aberhonddu a'r Canolbarth yn gyffredinol, y mae'r holl gysylltiadau lleol.

Cysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau: - Mae ward Gwauncaegurwen a Brynaman Isaf, fel gweddill Dyffryn Aman a Chwm Tawe, yn wahanol iawn o ran cymeriad i'r wardiau a fyddai'n rhan o weddill etholaeth arfaethedig Brycheiniog, Sir Faesyfed a Chwmtawe. Mae 38% o wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn siaradwyr Cymraeg ar gyfartaledd, o'u cymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigyrau cyfrifiad 2011, wedi eu pwysoli yn unol â phoblogaeth y ward). Roedd dros 60% o Siaradwyr Cymraeg yn ward Brynaman Isaf, sy'n un o'r uchaf yng Nghymru. Mae'r Gymraeg yn realiti byw yn fy ward i. Oherwydd hyn, rwyf wedi dychryn nad oes Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi ei gynnal ac nad yw'n ofynnol. Ymddengys fod hyn yn dangos diystyrwch llwyr am yr agwedd ddiwylliannol arwyddocaol hon o fywydau trigolion lleol. Mae ein Cymunedau ymhlith rhai sy'n ddifreintiedig iawn hefyd, gyda safle MALIC cyfartalog o 813 (unwaith eto, mae Brynaman Isaf yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig) o'i gymharu â 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a Sir Faesyfed (Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru 2019, mae safle is yn dangos mwy o amddifadedd). Yn sicr, bydd trigolion ein ward a'r rhai yng ngweddill Cwm Tawe a Dyffryn Aman (25% ar y mwyaf) yn lleiafrif ymhlith poblogaeth yr etholaeth. Mae hyn yn creu risg gwirioneddol na fydd anghenion gwahanol iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a wneir gan yr etholaeth yn ei chyfanrwydd.

Mae'n amlwg hefyd y bydd ein wardiau yn cael eu rhoi mewn etholaeth nad yw'n rhannu eu treftadaeth lofaol ac mae gwir broblem o ran diogelwch tomenni Glo yn destun pryder yn hyn o beth. Mae gan Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ac Etholaeth Castell-nedd un o'r lefelau uchaf o domenni sborion glo ac o ganlyniad i hynny, mae arbenigedd a gwybodaeth yn etholaeth Castell-nedd sy'n hybu perthnasoedd gweithio cadarnhaol â'r Awdurdod Glo i fynd i'r afael â'r materion fel y maent yn codi. Nid yw hyn yn wir o gwbl yn achos awdurdod lleol Powys nac etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed. Mae materion llithriadau tir ac ysgolion o dan fygythiad yng Nghwm Tawe Uchaf yn gwneud hyn yn fater cyfredol iawn.

Anghyfleustra yn sgil newidiadau o'r fath: - Mae'r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint ac mae ganddi gysylltiadau trafnidiaeth gwael. Yn Llandrindod y mae swyddfa yr AS presennol—taith o dros 55 milltir ac 1 awr ac 20 munud mewn car o Gymunedau Dyffryn Aman. Nid yw'n bosibl gwneud y daith yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod, os yw'r bysiau perthnasol yn rhedeg.

Mae'n hollol amlwg nad yw'r un o'r ffactorau hyn wedi cael sylw wrth ystyried lleoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman. Ymddengys mai ymarfer sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â rhifau yw hyn, heb roi llawer o ystyriaeth, os o gwbl, i gysylltiadau daearyddol, lleol a hanesyddol.

Fel dewis amgen, rwyf yn cefnogi cynigion y Comisiynydd Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr (https://comffin-cymru.gov.uk/sites/bcomm/files/review/ACs%20Report_c_final.pdf) Mae cynnwys Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau presennol a hanesyddol, daearyddol a nodweddion lleol yn llawer gwell.

Y Cynghorydd Sonia Reynolds — Wardiau Gwauncaegurwen a Brynaman Isaf.

**BCW-10785 / [redacted] / Abertawe**

Cynnig newidiadau ffiniau hollol hurt. Yn amlwg, syniad rhywun nad oes ganddo syniad am y cymysgedd gwledig a lled wledig o etholaethau â chanol dinas yw hwn. Rwyf yn anobeithio ynghylch ansawdd y bobl sy'n gwneud y cynigion hurt hyn

**BCW-10786 / [redacted] / Caerdydd**

Rwyf wedi gwneud rhai newidiadau arfaethedig i'r cynnig diweddaraf ynghylch ffiniau. Ceir dau brif newid sy'n effeithio ar etholaethau eraill hefyd. Y prif ganllaw ar gyfer fy argymhellion yw ffiniau llywodraeth leol ac eithrio dwy etholaeth (sy'n cynnwys tri awdurdod lleol), dim ond un neu ddau o awdurdodau lleol y mae'r holl etholaethau eraill yn eu cwmpasu. Mae hyn yn bwysig ar gyfer cysylltiadau cymunedol a pherthynas effeithiol rhwng yr aelodau etholedig a'r awdurdodau sy'n gweithredu polisïau y penderfynir arnynt yn San Steffan. Ystyriwyd cysylltiadau ffordd hefyd.

Y ddau brif newid yw:

1. Etholaeth wledig y Gogledd i gynnwys ardal Bangor/Ogwen, ardaloedd gwledig Conwy a Sir Ddinbych. Ceir cysylltiadau economaidd a diwylliannol cryf yn yr etholaeth hon na rennir cyn gryfed ag arfordir y gogledd. Rwyf wedi gweithio ar y dybiaeth fod y Comisiwn Ffiniau yn mynnu sedd Gwynedd heb ran ogleddol Arfon. O ganlyniad i hynny, mae etholaeth arall sy'n cwmpasu Conwy i'r gorllewin o Fae Cinmel yn y dwyrain yn gyfan gwbl o fewn Cyngor Sir Conwy ac mae ganddi hunaniaeth fwy cydlynol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol.

2. Mae'r ffin rhwng Powys a chymoedd y de yn rhaniad hanesyddol y dylid ei pharchu. Etholaeth wledig yw Brycheiniog a Sir Faesyfed yn bennaf a byddai'n gwneud mwy o synnwyr i symud y ffin tuag i fyny i gynnwys Llanidloes a'r Drenewydd sy'n ymestyn i'r de i'r cymoedd. Mae hyn yn cadw'r etholaeth o fewn ffin Cyngor Sir Powys. Addaswyd rhywfaint ar gyfer yr etholaethau yng nghymoedd y de-orllewin. Ceir cysylltiad agosach â chymoedd Castell-nedd a cheir etholaeth hefyd sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o sedd bresennol Aberafan ond ei bod yn ymestyn i Abertawe ac i mewn i ran orllewinol Pen-y-bont ar Ogwr. Pwysleisiaf eto, mae hon yn gymuned economaidd a diwylliannol fwy cydlynol na'r cynnig i estyn Brycheiniog a Sir Faesyfed i gymoedd y de. Byddai peth diwygio i sedd Gogledd Sir Drefaldwyn a fyddai hefyd yn cymryd rhannau gwledig o dde Cyngor Sir Wrecsam, ond nid yw'r rhain mor economaidd/cymdeithasol wahanol a byddent yn addas fel rhannau o'r un etholaeth.

Rwyf wedi cadw holl seddi Dyfed a Gwent fel y cynigiwyd yn ogystal â seddi Caerdydd gyda rhywfaint o addasu ar gyfer y Rhondda/Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg ond, unwaith eto, nid oes mwy na dau awdurdod lleol ym mhob sedd.

Amgaeaf ddau ffeil—un yr un ar gyfer ardal y gogledd ac un ar gyfer etholaethau y de.

Gobeithiaf y byddwch yn ystyried yr argymhellion hyn gan fy mod yn credu eu bod yn fwy addas ar gyfer y cysylltiadau cymunedol, diwylliannol, ieithyddol ac economaidd ledled Cymru.

Diolch yn fawr,

[redacted]






**BCW-10787 / [redacted] Canolfan Maerdy / Castell-nedd**

Ymateb i Adolygiad Comisiwn Ffiniau y Senedd oddi wrth Ganolfan Maerdy.

Sefydliad Angor Cymunedol sy’n darparu Hwb Bwyd, Gwasanaethau Ieuenctid, Gofal Plant, Caffi Cymunedol, Trafnidiaeth Gymunedol, cyngor, gwybodaeth, cymorth cyflogaeth, hyfforddiant a gweithgareddau datblygu cymunedol cyffredinol i gymunedau Dyffryn Aman Uchaf a chymunedau Cwmtwrch ydym ni.

Mae Bwrdd Canolfan Maerdy yn dymuno mynegi ein pryderon clir, er gwaethaf nifer o sylwadau o’r ardal, fod y Comisiwn yn parhau i roi ein cymunedau cyn-lofa sy’n perthyn i’r cymoedd mewn etholaeth sy’n canolbwyntio ar faterion gwledig i raddau helaeth, gan ei henwi’n Frycheiniog, Sir Faesyfed a Chwmtawe. Teimlwn fod hyn yn peryglu ein cysylltiadau fel sefydliad cymunedol sydd â chynrychiolwyr lleol. O ystyried y tymor hwy, mae’n debygol y byddwn yn gweld y ffiniau newydd yn cael eu defnyddio ar gyfer etholiadau’r Senedd gyda phosibilrwydd o ad-drefnu ffiniau awdurdodau lleol i ddilyn. Byddai colli ein cysylltiadau â chymunedau eraill y cymoedd sydd â threftadaeth lofaol a’n partneriaeth sefydledig o weithio gyda Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot a sefydliadau angor cymunedol eraill yng Nghastell-nedd yn gwneud bywyd yn anodd iawn inni wrth inni fynd i’r afael ag anghenion ein buddiolwyr.

Byddai cwrdd â’n cynrychiolwyr lleol, o gofio bod swyddfa AS presennol Brycheiniog a Sir Faesyfed yn Llandrindod yn anodd. I yrru, mae’n awr a hanner i ffwrdd ac mae cost sylweddol hefyd. Fodd bynnag, rydym yn gymuned lle mae lefelau uwch na’r cyfartaledd heb fynediad at gar. Mae hyn yn golygu y byddai angen defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ac nid yw’n bosibl mynd i Landrindod ac yn ôl i gymryd rhan mewn cyfarfod neu debyg, ar yr un diwrnod. Byddai’n cynnwys aros dros nos.

Rydym yn teimlo efallai y bydd cryn effaith ar y gallu i gael gafael ar gyllid grantiau hefyd, o ystyried symudiad diweddar Llywodraeth y DU i roi cronfeydd yn uniongyrchol i lywodraeth leol, ond bod angen cefnogaeth yr AS perthnasol. Os yw ein sefydliad mewn rhan fach iawn o Etholaeth Seneddol arall, byddai’r AS yn llai tebygol o gefnogi dyraniadau cronfeydd i’r boblogaeth lai sy’n ôl-ddiwydiannol a hynod ... honno uwchben anghenion y mwyafrif yn yr etholaeth pan fo’r buddiannau’n canolbwyntio ar faterion gwledig.

Teimlwn ei bod yn amlwg, dim ond o edrych ar y mapiau ac yna o edrych ar gadwyn Bannau Brycheiniog sydd rhwng Cwm Tawe Uchaf a gweddill ardal Brycheiniog a Sir Faesyfed nad oes llawer sy’n cysylltu cymunedau ôl-ddiwydiannol, cyn-lofaol y Cymoedd Uchaf â Brycheiniog a Sir Frycheiniog wledig. Byddai’n gwneud mwy o synnwyr uno Ystradgynlais â chymunedau eraill y cymoedd na datgysylltu rhagor o gymunedau o’u cysylltiadau daearyddol a diwylliannol naturiol.

Mae ein hardal leol yn cynnwys rhai cymunedau mwy difreintiedig sydd â safle MALIC cyfartalog o 813 o’i gymharu â 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a Sir Faesyfed (Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru 2019, mae safle is yn dangos mwy o amddifadedd). Mae 38% o’r ardal ar gyfartaledd yn siaradwyr Cymraeg hefyd, o’u cymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigyrau cyfrifiad 2011, wedi eu pwysoli yn unol â phoblogaeth y ward). Roedd dros

60% o Siaradwyr Cymraeg yn ward Brynaman Isaf sy'n un o'r uchaf yng Nghymru. Felly, rydym yn siomedig nad oes Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi ei gynnal ac nad yw'n ofynnol.

Teimlwn nad yw'r Comisiwn wedi ystyried yn briodol y cysylltiadau pwysig sydd gan ein cymunedau â chymunedau eraill y cymoedd yng Nghastell-nedd ac Abertawe. Mae'n ymddangos nad yw'r cysylltiadau hanesyddol a diwylliannol hyn na'r cysylltiadau teuluol hirsefydlog wedi eu hystyried wrth feddwl am ble y dylid lleoli cymunedau ***Cwm Tawe*** a Dyffryn Aman. Ymddengys mai ymarfer sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â rhifau yw hyn, heb roi llawer o ystyriaeth, os o gwbl, i gysylltiadau daearyddol, lleol a hanesyddol.

Fel dewis amgen, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynydd Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr (https://comffin-cymru.gov.uk/sites/bcomm/files/review/ACs%20Report_c_final.pdf) Bydd cynnwys Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn etholaeth arfaethedig Dyffryn Lliw sydd yn ei gynigion amgen, yn sicrhau cysylltiadau parhaus â chymunedau cyn-lofaol tebyg yn y cymoedd.

**BCW-10788** [redacted] **Aber-carn**

PAM?

Dim ond rhywun â swydd ymddangosiadol ond nad yw'n cynnwys gwaith defnyddiol nac ystyrlon a gyflogir gan y Llywodraeth sy'n gorfod cyfiawnhau ei swydd o'r fath yw hwn. Er mwyn cynnig syniad a fydd yn rhoi hwb i'w statws a cheisio profi ei fod yn angenrheidiol.

Gadewch bethau fel y maent neu cwtogwch niferoedd yr ASau er mwyn arbed arian i'r wlad drwy gael un yn unig ar gyfer pob ardal cyngor sir fel y maent ar hyn o bryd. Gellid gwneud yr un peth ar gyfer Senedd Cymru—un AS am bob sir.

**BCW-10789 /** [redacted] **Swyddog Canlyniadau ar gyfer Sir Benfro / Hwlffordd**

Ar ran y Swyddog Cofrestru Etholiadol/Swyddog Canlyniadau ar gyfer Sir Benfro

Diolch am gydnabod y sylwadau a wnaed yn ein hymateb yn ystod y cam ymgynghori blaenorol a nodwch fod y sylwadau hyn wedi eu hystyried.

**BCW-10790 /** [redacted] **/ Bae Colwyn**

Ysgrifennaf i wrthwynebu'r ffin seneddol arfaethedig ar gyfer yr ardal yr wyf wedi byw ynddi am y 40 mlynedd ddiwethaf. Rwyf wedi byw yng Nghyffordd Llandudno a Glan Conwy. Mae'r ardal hon yn wahanol iawn i Fangor a Bethesda a rennir yn ddemograffig gan iaith ac oedran, ac yn ddaearyddol gan fynyddoedd y Carneddau. Fe'm gwasanaethir gan wahanol awdurdodau lleol y bydd y cynigion yn eu rhannu ag ardaloedd seneddol eraill gan wneud cynrychiolaeth yn anoddach. Ein prif gysylltiadau yw'r A55 a'r rheilffordd, fel y mae.

**BCW-10791 / [redacted] Cyngor Tref y Fflint / Y Fflint**

Mae Cyngor Tref y Fflint yn cyflwyno tystiolaeth, yn y termau cryfaf posibl, er mwyn nodi ei fod yn anghytuno â chynigion Comisiwn Ffiniau i Gymru i ymgorffori'r Fflint, ochr yn ochr â Bagillt, yn sedd San Steffan, Alun a Glannau Dyfrdwy.

Trwy gydol hanes hir y dref, mae wedi edrych i'r gorllewin ac nid i'r dwyrain am ei gwasanaethau, ei chysylltiadau cymdeithasol a'i chysylltiadau diwylliannol. Mae'r Comisiwn wedi anwybyddu'r ffaith bod trigolion y Fflint yn defnyddio Ysbyty Bwthyn Treffynnon ac Ysbyty Glan Clwyd. Mae hyn yn wahanol i drigolion Alun a Glannau Dyfrdwy, sy'n defnyddio Maelor Wrecsam a Countess the Chester. Yn ogystal â bod yn bwysig o ran y cysylltiadau cymdeithasol sydd o fewn unrhyw ffin arfaethedig newydd, mae hefyd yn bryder logistaidd i unrhyw Aelod Seneddol (AS) sy'n dymuno cynrychioli'r sedd yn effeithiol. O dan y cynigion terfynol, bydd angen i'r AS weithio gyda phedwar ysbyty i gefnogi ei etholwyr dros bellter o filltiroedd lawer. Mae hyn yn anymarferol yn yr hirdymor a bydd yn tanseilio ansawdd y gynrychiolaeth a roddir.

Ni chyfyngir y mater hwn i'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Lleolir swyddfa ddosbarth Swyddfa'r Post yn y Fflint ac mae'n danfon i Fagillt a Threffynnon. Dengys hyn unwaith eto fod gwasanaethau a chysylltiadau dinesig yn edrych tua'r gorllewin yn barhaus ac nid tua'r dwyrain fel y mae'r Comisiwn yn ei gynnig. Yn wir, mae gan y Fflint yr un cod deialu ffôn â llawer o drefi a phentrefi Delyn, megis yr Wyddgrug. Mae'r rhaniadau hanesyddol hyn wedi digwydd am reswm, a bydd gosod ffiniau sy'n gweithio yn erbyn y cysylltiadau hyn yn siŵr o ddieithrio a thanseilio ansawdd y gynrychiolaeth a ddarperir.

Rhwng 1974 a 1996, roedd Cyngor Bwrdeistref Delyn, a oedd yn canolbwyntio ar y Fflint a Bagillt, ar wahân i Gyngor Dosbarth Alun a Glannau Dyfrdwy. Trwy'r Cyngor Sir yr oedd yr unig ryngweithio dinesig oedd gan y Fflint (1888–74 a 1996–presennol). Nid yw hyn yn bryder materol oherwydd bod trefi, megis Caerwys, hefyd yn rhyngweithio â threfi Alun a Glannau Dyfrdwy drwy'r Cyngor Sir ac ni fyddai neb yn awgrymu bod ganddynt gysylltiadau ystyrlon â chymunedau Glannau Dyfrdwy.

Pan ffurfiwyd Bwrdeistref Delyn, gwrthodwyd y cyfle i gysylltu'r Fflint ag Alun a Glannau Dyfrdwy ac nis ystyriwyd yn realistig nac yn seiliedig ar dystiolaeth ffeithiol. Mae'r Cyngor Tref felly'n gofyn pam fod y Comisiwn bellach yn credu bod cysylltiadau newydd wedi ymddangos o dystiolaeth nad yw'n bodoli.

Ymhellach, rhwng 1983 a 1997, roedd y Fflint a Bagillt yn sedd seneddol San Steffan gyda Phrestatyn a rhannau eraill o Gyngor Bwrdeistref Delyn. Pan feddyliwyd am etholaeth San Steffan presennol Delyn, gwrthododd y Comisiwn Ffiniau ar y pryd y syniad o symud y Fflint a Bagillt i etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. Cadarnhaodd ac atgyfnerthodd y Comisiwn y penderfyniad hwn yn 2018 ac yn 2021, pryd y cytunodd y Comisiwn nad oedd atgyfodi hen sedd Dwyrain Sir y Fflint a Gorllewin Sir y Fflint yn seiliedig ar unrhyw dystiolaeth a oedd ar gael. Felly, mae'r Cyngor Tref yn cwestiynu'r dystiolaeth dros symud y Fflint a Bagillt i etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy.

Y tro diwethaf i'r Fflint a Bagillt gael eu cynnwys gyda chymunedau sydd bellach yn sedd bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy oedd yn y 1950au. Mae'r cynigion mwyaf newydd yn codi cwestiynau ynglŷn â pha ymresymiad y mae'r Comisiwn yn ei roi am wrthdroi penderfyniad sy'n dyddio'n ôl dros hanner canrif.

Yn 2018, roedd y Comisiwn yn hapus i gydnabod fod gan gymunedau y Fflint a Bagillt gysylltiadau â'r holl drefi a phentrefi a oedd yn etholaeth newydd arfaethedig y Fflint a Rhuddlan ar y pryd. Mae'r Cyngor Tref yn cwestiynu beth sydd wedi newid i dorri ein cysylltiadau dinesig a chymdeithasol, a'n cysylltiadau o ran gwasanaethau ers 2018 a 2021? Rydym yn anghytuno'n gryf ein bod yn edrych tua'r dwyrain am nwyddau a gwasanaethau.

Mae Cyngor Tref y Fflint wedi dod i arfer â phenderfyniadau ar yr unfed awr ar ddeg gan Gomisiwn Ffiniau i Gymru sy'n effeithio ar ein cynrychiolaeth ac rydym yn pryderu, yn yr adolygiad ffiniau Llywodraeth Leol a'r adolygiad San Steffan hwn, fod newidiadau munud olaf sylweddol yn yr hyn a nodwyd fel y 'cynigion terfynol'. Er enghraifft, roedd y cynlluniau ar gyfer Cyngor Sir y Fflint yn cynnwys y Fflint, oherwydd bod unig ward Sir y Fflint ac iddi dri aelod, sef Cynswllt a Threlawny, yn cael ei newid. Mae'r Cyngor yn pryderu'n fawr fod y penderfyniadau hyn yn cael eu gosod arnom yn hytrach na gweithio gyda ni i helpu'r Comisiwn i lunio ffiniau sy'n gweithio yn unol ag algorithmau a chysylltiadau cymdeithasol go iawn. Roeddem yn gwrthwynebu'r ffiniau blaenorol a osodwyd gan y Comisiwn ar lefel llywodraeth leol ac rydym yn gwneud hynny eto ar lefel San Steffan.

Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'n gryf y cynigion i wneud y Fflint a Bagillt yn rhan o Alun a Glannau Dyfrdwy ac mae'n galw ar Gomisiwn Ffiniau i Gymru i fynd yn ôl i'r dechrau er mwyn sicrhau bod y Fflint a Bagillt yn gallu cadw cysylltiadau â thref Treffynnon a'r pentrefi cyfagos.

## BCW-10792 / Russell George AS / Sir Drefaldwyn

Annwyl Syr / Madam

Fel yr Aelod o'r Senedd dros Sir Drefaldwyn, ysgrifennaf i gefnogi'r cynnig presennol oherwydd fy mod yn teimlo ei bod yn hanfodol bod Sir Drefaldwyn yn parhau'n i fod yn gyfan ac nad yw'n cael ei rhannu.

Mae gan hyn fanteision gweinyddol ac etholiadol amlwg. Bydd Sir Drefaldwyn yn parhau i gael ei chynrychioli yn y Senedd. Felly, drwy gynnal Sir Drefaldwyn (gan groesawu ychwanegiad Llangollen a'i chymunedau cyfagos) yn San Steffan, mae modd cynnal eglurder a sicrwydd i'r etholwyr.

Mae gan Sir Drefaldwyn statws hanesyddol enfawr fel etholaeth seneddol, ac mae hi wedi ei chynrychioli yn y Senedd ers 1542. Pe byddai Sir Drefaldwyn yn cael ei hollti yn ei hanner, byddai pob cysylltiad diwylliannol a hanesyddol cryf yn cael eu dileu am byth. Byddai'n wych cadw Sir Drefaldwyn yn ei chyfanrwydd, a chroesawu wardiau newydd sydd â thirweddau ac anghenion tebyg gydag etholaeth newydd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Derbyniodd y comisiwn nifer sylweddol o gyflwyniadau hefyd yn adlewyrchu'r safbwynt y dylid cynnal Sir Drefaldwyn yn ei chyfanrwydd.

Mewn hanes seneddol, rhoddodd Harri VIII sedd yn y Senedd i Sir Drefaldwyn o dan ei deyrnasiad. Ers hynny, mae Sir Drefaldwyn wedi bod â chynrychiolydd yn San Steffan bron drwy'r amser. Felly, croesewir y cynnig presennol oherwydd ei fod yn cadw Sir Drefaldwyn fel endid ac yn rhoi hyder i'w chymunedau ar gyfer y dyfodol.

Cofion Cynnes

Russell

**Russell George MS / AS**

**Member of the Welsh Parliament for Montgomeryshire**

**Aelod o Senedd Cymru dros Sir Drefaldwyn**

**BCW-10793 / Y Cynghorydd Mark Tribe / Abertawe**

Prynhawn da,

Ysgrifennaf i gadarnhau fy mod yn cefnogi’r adolygiad hwn.

Cofion,

Y Cynghorydd Mark Tribe,
Ward Llangyfelach / Felindre
Abertawe.
(Yr etholaeth Gŵyr presennol)

**BCW-10794 / Y Cynghorydd Owen Jones / Caerdydd**

Ysgrifennaf yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan Gomisiwn Ffiniau i Gymru, ddydd Mercher, 19 Hydref. Ysgrifennaf ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth.

Fel cynghorydd dros ward gyfagos Adamsdown, rwyf yn gwrthwynebu'r cam hwn. Mae cysylltiad cynhenid rhwng ward Cathays a'r wardiau sy'n weddill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Adamsdown, Pen-y-lan, Plasnewydd a Chyncoed. Dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol gyda ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd a ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac nid yw'n cynnwys ond dwy ward yn symud o'u hetholaethau presennol, o'u cymharu â phedair a fyddai'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac maent wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod yn yr un sedd Seneddol am fwy na thrigain mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn yn ei adolygiadau blaenorol a fethwyd ers 2010 erioed wedi edrych i wahanu Cathays a Phlasnewydd. Derbyniodd y Comisiwn un cyflwyniad (gan breswylydd yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn.

Derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (oddi wrth drigolion Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown yng nghymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth. Rwyf yn derbyn bod Trowbridge yn ward nad oes ganddi fynediad uniongyrchol i'r Sblot. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr un sefyllfa yn union yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae gan y Sblot a Trowbridge ddegawdau o hanes yn rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r ateb arfaethedig ar gyfer sedd newydd y Rhondda.

Ni soniwyd am symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth fel dewis yn ystod y cynigion na'r prosesau ymgynghori blaenorol. Mae ei gyflwyno fel 'fait accompli' ar y cam olaf yn ymddangos yn ddichellgar, ac yn groes i ysbryd y datganiad a wnaeth yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau'r broses.

"Rydym ni'n benderfynol o ddatblygu'r cynigion gorau posibl ar gyfer etholaethau newydd Cymru, ac rydym yn gwybod mai dim ond drwy gynnwys y cyhoedd yn fwy nag erioed o'r blaen y gallwn wneud hynny." "Mae hygyrchedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru lais gwerthfawr i'w ychwanegu at y drafodaeth am newidiadau i ffiniau Cymru, ac rydym yn dymuno sicrhau y gall pawb fynegi eu safbwyntiau."

Nid oes gan Cathays gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae ei lleoli yn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hurt, a bod yn onest, ac ni fydd yr etholwyr yn deall hynny'n rhwydd. Fodd bynnag, mae llawer o gysylltiadau cymunedol rhwng Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown:

● Y rhan amlaf o lawer, mae poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd ar gyfer Prifysgol De Cymru yn byw yn

Cathays a Phlasnewydd, ond mae nifer cynyddol o fangreoedd penodol ar gyfer myfyrwyr yn cael eu hadeiladu yn Adamsdown. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn rhychwantu Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, ac mae neuaddau preswyl yn agos at Cathays a Phlasnewydd.

● Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried bod wardiau Cathays a Phlasnewydd mor gymhlethig i'r graddau bod rheolau cynllunio wedi eu pasio i gynnwys Tai Amlfeddiannaeth a bwrdd asiantau gosod yn unig yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)

● Mae dalgylch yr ysgol uwchradd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.

● Mae'r plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays ac ym Mhlasnewydd yn mynd rhagddynt i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

● Myfi yw Cadeirydd y llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Adamsdown ac mae ein dalgylch yn rhychwantu Adamsdown a Cathays.

● Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Ben-y-lan a rhannau o Gyncoed, yn golygu bod preswylwyr ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath y mae ardaloedd siopa Ffordd Crwys, Ffordd Albany a Ffordd y Ddinas yn ganolbwynt iddi.

● Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir rhwng Cathays a Phlasnewydd yn hirsefydlog ac fe'u parchwyd yn gywir gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.

● Trefnir yr Eglwys yng Nghymru o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)

● Mae dalgylchoedd meddygfeydd meddygon teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac maent yn rhannu pryderon a demograffeg gyffredin.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Ar ôl darllen y dystiolaeth hon, gobeithiaf yn awr y bydd y Comisiwn yn dymchwel y cynigion diwygiedig ac yn ailgydio yn y cynigion cychwynnol fel y'u cyhoeddwyd.

Y Cyng | Cllr Owen Llewellyn Jones

Aelod Llafur Adamsdown | Labour Councillor for Adamsdown

**BCW-10795 / [redacted] / Clwyd**

Hoffwn i ddweud diolch am ystyried yr awgrymiadau a wnaed yn y Gwrandawiad yn Wrecsam ynglŷn â'r cynnig i newid ffiniau Dwyrain a Gogledd Clwyd.

Yn bersonol, rwyf i'n hapus iawn i weld bod yr enwau wedi'u newid i "Gogledd Clwyd" a "Dwyrain Clwyd" yn lle "Clwyd" a "Delyn" ac mae'n ymddangos gymaint yn fwy synhwyrol bod New Brighton, Argoed a Choed-llai wedi aros yn Nwyrain Clwyd yn hytrach na'u symud i Alun a Dyfrdwy a bod Bagillt a'r Fflint hefyd wedi'u symud allan o Ddwyrain Clwyd i Alun a Dyfrdwy. Yn yr un modd, bod Rhuthun, Llanfair DC a Llangollen bellach yn Nwyrain Clwyd, ac i'r gwrthwyneb, fod Llandrillo-yn-Rhos yn ôl gyda Bae Colwyn yng Ngogledd Clwyd.

Mae'n braf iawn gweld bod awgrymiadau synhwyrol wedi'u gweithredu, diolch!

**BCW-10796 / Y Cynghorydd Alun Llewellyn / Port Talbot**

Annwyl Gomisiynwyr

Ysgrifennaf i gefnogi cyflwyniad Swyddog Canlyniadau Castell-nedd Port Talbot, fel Arweinydd grŵp Plaid Cymru a Dirprwy Arweinydd y Cyngor.

Mae'r cynigion presennol yn chwalu ffiniau cymunedol presennol ac o bosibl yn creu etholaethau estynedig a fydd yn bell oddi wrth eu cymunedau.

Er nad oes un ateb perffaith oherwydd bod cylch gorchwyl yr adolygiad ffiniau yn seiliedig i raddau helaeth ar gydraddoli etholwyr, mae cynigion y Comisiynydd Cynorthwyol ar gyfer etholaeth Dyffryn Lliw a Chastell-nedd, Aberafan a Maesteg / Castell-nedd, Aberafan a Maesteg yn adlewyrchu cymunedau yn well a dylid eu cefnogi nhw.

Diolch yn fawr / Thank you.

**Cyng / Cllr Alun Llewelyn**

Deputy Leader and Cabinet Member for Housing and Community Safety
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Dai a Diogelwch Cymunedol

**BCW-10797 / [redacted] / Caerdydd**

I bwy bynnag a fynno wybod,

Ynghlwm, ceir llythyr yn eich annog i ailystyried eich penderfyniad i symud ward Cathays i etholaeth De Caerdydd a Phenarth.

Gobeithiaf y byddwch yn darllen fy llythyr ac yn ailystyried eich penderfyniad. Diolch am gymryd yr amser i ddarllen fy nghyflwyniad a gobeithiaf y byddwch yn dod i'r penderfyniad cywir.

Yn gywir

[redacted]

Ysgrifennaf yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan Gomisiwn Ffiniau i Gymru, ddydd Mercher, 19 Tachwedd.

Ysgrifennaf ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth.

Rwyf yn gwrthwynebu'r cam hwn. Mae cysylltiad cynhenid rhwng ward Cathays a'r wardiau sy'n weddill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown.

Dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol gyda ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd a ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac nid yw'n cynnwys ond dwy ward yn symud o'u hetholaethau presennol, o'u cymharu â phedair a fyddai'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac maent wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod yn yr un sedd Seneddol am fwy na thrigain mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn yn ei adolygiadau blaenorol a fethwyd ers 2010 erioed wedi edrych i wahanu Cathays a Phlasnewydd.

Derbyniodd y Comisiwn un cyflwyniad (gan breswylydd yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn. O ystyried hyn, rwyf yn siŵr y byddech yn ystyried fy nghyflwyniad innau i'r un graddau (fe'm lleolir yn Lerpwl) â phreswylydd a leolir ym Manceinion Fwyaf.

Derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (oddi wrth drigolion Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown yng nghymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Rwyf yn derbyn bod Trowbridge yn ward nad oes ganddi fynediad uniongyrchol i'r Sblot. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr un sefyllfa yn union yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae gan y Sblot a Trowbridge ddegawdau o hanes yn

rhan o’r un etholaeth, yn wahanol i’r ateb arfaethedig ar gyfer sedd newydd y Rhondda.

Ni soniwyd am symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth fel dewis yn ystod y cynigion na’r prosesau ymgynghori blaenorol. Mae ei gyflwyno fel ‘fait accompli’ ar y cam olaf yn ymddangos yn ddichellgar, ac yn groes i ysbryd y datganiad a wnaeth yr Ysgrifennydd i’r Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau’r broses.

“Rydym ni’n benderfynol o ddatblygu’r cynigion gorau posibl ar gyfer etholaethau newydd Cymru, ac rydym yn gwybod mai dim ond drwy gynnwys y cyhoedd yn fwy nag erioed o’r blaen y gallwn wneud hynny.” “Mae hygyrchedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru lais gwerthfawr i’w ychwanegu at y drafodaeth am newidiadau i ffiniau Cymru, ac rydym yn dymuno sicrhau y gall pawb fynegi eu safbwyntiau.”

Nid oes gan Cathays gysylltiadau cymunedol â’r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae ei lleoli yn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hurt, a bod yn onest, ac ni fydd yr etholwyr yn deall hynny’n rhwydd. Fodd bynnag, mae llawer o gysylltiadau cymunedol rhwng Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown:

• Y rhan amlaf o lawer, mae poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd ar gyfer Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn rhychwantu Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, ac mae neuaddau preswyl yn agos at Cathays a Phlasnewydd.

• Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried bod wardiau Cathays a Phlasnewydd mor gymhlethig i’r graddau bod rheolau cynllunio wedi eu pasio i gynnwys Tai Amlfeddiannaeth a bwrdd asiantau gosod yn unig yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)

• Mae dalgylch yr ysgol uwchradd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.

• Mae’r plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays ac ym Mhlasnewydd yn mynd rhagddynt i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

• Mae’r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Ben-y-lan a rhannau o Gyncoed, yn golygu bod preswylwyr ym mhob un o’r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath y mae ardaloedd siopa Ffordd Crwys, Ffordd Albany a Ffordd y Ddinas yn ganolbwynt iddi.

• Mae’r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir rhwng Cathays a Phlasnewydd yn hirsefydlog ac fe’u parchwyd yn gywir gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.

• Trefnir yr Eglwys yng Nghymru o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)

• Mae dalgylchoedd meddygfeydd meddygon teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac maent yn rhannu pryderon a demograffeg gyffredin.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Ar ôl darllen y dystiolaeth hon, gobeithiaf yn awr y bydd y Comisiwn yn dymchwel y cynigion diwygiedig ac yn ailgydio yn y cynigion cychwynnol fel y'u cyhoeddwyd.

Yn gywir

[redacted]

**BCW-10798 / [redacted] / Pencoed**

Rwyf yn un o drigolion tref Pencoed ac yn Gyn-aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac rwyf yn gwrthwynebu yn y termau cryfaf gynnwys y dref yn etholaeth seneddol newydd arfaethedig y Rhondda. Nid oes cysylltiadau rheilffordd uniongyrchol na ffyrdd o Bencoed i’r etholaeth newydd.

O ystyried fy sgyrsiau niferus â phobl y dref, mae wedi dod yn amlwg iawn pe byddai amserlen fwy hael wedi ei chynnig ar gyfer coladu safbwyntiau, yna byddai llawer mwy o bobl wedi gwneud eu teimladau’n hysbys. Felly, rwyf yn pryderu na fydd nifer y cyflwyniadau y gallech fod wedi eu derbyn yn adlewyrchu yn gywir gryfder y teimlad yn y gymuned.

Ers dros ganrif, mae pobl Pencoed wedi uniaethu â Phen-y-bont ar Ogwr ac nid y Rhondda, yn wir Pen-y-bont ar Ogwr yw ein tref bost. Mae gennym gampws Coleg Penybont uchel ei barch a leolir yn y dref. Mae gan ein hysgolion ddigonedd o dystiolaeth sy’n dangos eu bod yn rhyngweithio gyda’u cymheiriaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac nid y Rhondda, boed hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg.

Rydym yn cael ein gwasanaethau gofal iechyd eilaidd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn wir mae ein cysylltiad â Phen-y-bont ar Ogwr yn parhau hyd yn oed ar ôl marwolaeth oherwydd bod y mwyafrif helaeth o bobl Pencoed yn dewis cael eu hamlosgi yn yr amlosgfeydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr!

Rwyf yn siŵr na fyddai’r cyhoedd yn disgwyl i newidiadau ffiniau awgrymedig ymwneud â niferoedd yn unig, a siawns na fyddent yn disgwyl i unrhyw newidiadau ffiniau gael eu gwneud i sicrhau sefydlogrwydd economaidd a diwylliannol cymunedau, ond mae cysylltu Pencoed â’r Rhondda drwy bentref Gilfach-goch drwy’r llain deneuaf o dir nad oes ganddi unrhyw gyswllt cerbydol yn afresymol.

Wrth ystyried map y newidiadau ffiniau arfaethedig, mae’n amlwg, os bydd niferoedd yn caniatáu hynny, mai ateb llawer mwy syml a dichonadwy fyddai disodli Pencoed â Chwm Ogwr cyfan sydd â chysylltiadau llawer mwy â’r Rhondda, gyda dwy ffordd ar wahân, yr A4061 a’r A4093, sy’n ei gysylltu’n uniongyrchol ag etholaeth y Rhondda. Mae Cwm Ogwr hefyd yn ffinio ar y Rhondda ar ei ochr ddwyreiniol gyfan. Mae hefyd yn wir fod gan gymunedau Cwm Ogwr h.y. Nant-y-moel, Cwm Ogwr a Melin Ifan Ddu lawer mwy yn gyffredin â chymunedau cyfagos y Rhondda o ran economi, treftadaeth a diwylliant o’u cymharu â Phencoed.

Hyderaf y byddwch yn rhoi ystyriaeth haeddiannol i hyn.

**BCW-10799 / [redacted] / Pencoed**

Rwyf wedi byw yn nhref Pencoed drwy gydol fy oes ac roeddwn yn cynrychioli ward Felindre ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn flaenorol, ac wedi astudio'r cynigion rwy'n gwrthwynebu'n gryf iawn i gynnwys y dref yn etholaeth seneddol newydd arfaethedig Rhondda. Nid oes unrhyw gysylltiadau rheilffordd na ffordd uniongyrchol o Bencoed i'r etholaeth newydd.

O fy sgyrsiau niferus gyda phobl y dref, mae wedi dod yn eglur iawn pe bai amserlen fwy hael wedi cael ei chynnig ar gyfer casglu safbwyntiau yna byddai llawer mwy o bobl wedi mynegi eu teimladau. Felly, rwy'n bryderus na fydd nifer y cyflwyniadau y gallech chi fod wedi eu derbyn yn adlewyrchu cryfder y teimladau yn y gymuned yn briodol.

Ers dros ganrif, mae pobl Pencoed wedi uniaethu â Phen-y-bont ar Ogwr ac nid y Rhondda, ac yn wir Pen-y-bont ar Ogwr yw ein tref bost. Mae gennym un o gampysau Coleg Penybont, sy'n uchel iawn ei barch, wedi'i leoli yn y dref. Mae gan ein hysgolion gyfoeth o dystiolaeth i ddangos eu bod yn rhyngweithio â'u cymheiriaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac nid y Rhondda, pa un a yw hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Rydym yn cael ein gofal iechyd eilaidd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn wir mae ein cysylltiad â Phen-y-bont ar Ogwr yn parhau hyd yn oed ar ôl marwolaeth gan fod mwyafrif llethol y bobl ym Mhencoed yn dewis cael eu hamlosgi yn yr amlosgfeydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr!

Rwy'n siŵr na fyddai'r cyhoedd yn disgwyl i newidiadau a awgrymir i ffiniau ymwneud â niferoedd yn unig a siawns y byddent yn disgwyl y dylai unrhyw newidiadau i ffiniau gael eu gwneud i sicrhau sefydlogrwydd economaidd a diwylliannol cymunedau, ond mae cysylltu Pencoed â Rhondda trwy bentref Gilfach Goch drwy'r llain gulaf o dir heb unrhyw gyswllt cerbydol yn ddim llai na hurt.

Wrth ystyried y map o'r newidiadau arfaethedig i ffiniau, mae'n amlwg, os yw niferoedd yn caniatáu, y byddai disodli Pencoed gyda Chwm Ogwr cyfan, sydd â llawer mwy o gysylltiadau â'r Rhondda â dwy ffordd ar wahân, yr A4061 a'r A4093, yn ei gysylltu'n uniongyrchol ag etholaeth Rhondda, yn ateb llawer symlach a mwy ymarferol. Mae Cwm Ogwr hefyd yn rhannu ffin gyda'r Rhondda ar ei ochr ddwyreiniol gyfan. Mae hefyd yn wir bod gan gymunedau Cwm Ogwr h.y. Nant-y-moel, Bro Ogwr a Melin Ifan Ddu lawer mwy yn gyffredin â chymunedau cyfagos y Rhondda o ran economi, treftadaeth a diwylliant na Phencoed.

Hyderaf y byddwch yn rhoi'r ystyriaeth i hyn y mae'n ei haeddu.

**BCW-10800 / [redacted] / Clwyd**

Annwyl Syr/Fadam

Diben yr e-bost hwn yw cydnabod yn gyntaf y gwaith sylweddol a wnaed gan y Comisiwn. Yn benodol, hoffwn ddiolch i'r Comisiwn am wrando ar gynigion amrywiol a'u cymryd i ystyriaeth, gan gynnwys fy un i, sydd wedi arwain at yr hyn yr wyf i'n ei gredu yw'r ffurfiadau gorau posibl o Ddwyrain Clwyd a Gogledd Clwyd o rannu Dyffryn Clwyd.

Rwy'n credu bod symud Bagillt a'r Fflint allan o Ddwyrain Clwyd a chadw New Brighton, Coed-llai ac Argoed, ynghyd â Llangollen a rhannau gwledig eraill o Dde Sir Ddinbych yn arwain at etholaeth newydd gydlynol ac sy'n cyd-fynd yn wleidyddol i raddau helaeth.

Yn yr un modd, mae cadw Llandrillo-yn-Rhos gyda Bae Colwyn yn benderfyniad i'w groesawu ac eto'n arwain at endid mwy cydlynol.

Yn olaf, rwy'n croesawu'r enwau Dwyrain Clwyd a Gogledd Clwyd.

Yn gywir

[redacted]

Cadeirydd

Cymdeithas Ceidwadwyr Dyffryn Clwyd

**BCW-10801 / Y Cynghorydd Sarah Merry / Caerdydd**

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddydd Mercher 19 Tachwedd ac i wrthwynebu'r cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth.

Mae Cathays wedi'i gysylltu'n annatod â'r wardiau sy'n weddill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown.

Dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol lle mae ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd ac mae ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac yn golygu symud dwy ward yn unig o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na'r pedair sy'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod a pharchu'r cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod o fewn yr un sedd Seneddol am fwy na thrigain mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn, yn ei adolygiadau aflwyddiannus blaenorol ers 2010 erioed wedi ceisio gwahanu Cathays a Phlasnewydd.

Derbyniodd y Comisiwn un cyflwyniad (gan rywun wedi'i leoli yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn.

Derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (gan drigolion Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown o fewn cymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Rwy'n derbyn bod Trowbridge yn ward heb unrhyw fynediad ffordd uniongyrchol i'r Sblot. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr un sefyllfa yn union yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae'r Sblot a Trowbridge yn cynnig degawdau o hanes yn rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r ateb arfaethedig yn sedd newydd Rhondda.

Ni soniwyd am symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth fel opsiwn yn ystod y prosesau cynigion ac ymgynghori blaenorol. Mae ei gyflwyno fel 'fait accompli' ar y cam olaf yn ymddangos yn anonest, ac nid yn ysbryd y datganiad a wnaed ar ddechrau'r broses gan yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn, Shereen Williams.

"Rydym yn benderfynol o ddatblygu'r argymhellion gorau posib ar gyfer etholaethau newydd Cymru, a gwyddom mai'r unig ffordd o sicrhau hynny yw denu'r cyfranogiad cyhoeddus mwyaf rydym erioed wedi ei gael." "Mae hygyrchedd wrth galon beth rydym yn ceisio cyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru llais holl bwysig i'w hychwanegu i'r sgwrs am ffiniau etholaethol Cymru, ac rydym am i bawb yng Nghymru cael cyfle i ddatgan eu barn."

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol gyda'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. A bod yn onest, mae ei lleoli yn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hurt ac ni fydd dealltwriaeth rwydd o hyn ymhlith yr etholaeth. Fodd

bynnag, mae gan Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown lawer o gysylltiadau cymunedol:

· I raddau helaeth iawn, mae poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn rhychwantu Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, a cheir neuaddau preswyl yn agos iawn yn Cathays a Phlasnewydd.

· Mae Cyngor Caerdydd o'r farn bod wardiau Cathays a Phlasnewydd mor rhyng-gysylltiedig bod rheolau cynllunio wedi cael eu pasio dim ond i gynnwys Tai Amlfeddiannaeth ac asiantau gosod yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/). A dweud y gwir, roeddent hyd yn oed wedi ceisio cadw'r diwrnod casglu gwastraff ar yr un diwrnod gan fod cymaint o symudiad trigolion rhwng y ddwy ward. Mae'r cyngor hyd yn oed wedi sefydlu tîm gwastraff Blitz Cathays a Phlasnewydd gan fod gymaint o gysylltiad daearyddol rhwng y ddwy ward a bod y problemau sy'n eu hwynebu mor debyg o ran poblogaeth ddwys, mwy dros dro.

· Mae'r dalgylch ysgol uwchradd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays a Phlasnewydd – ac mae llawer o ddisgyblion o Ben-y-lan ac Adamsdown hefyd yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays

· Mae plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays a Phlasnewydd yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed). Mae'r dalgylch ar gyfer Mynydd Bychan, Ysgol Gynradd Gymraeg, yn torri ar draws Cathays a Phlasnewydd. Mae St Monica's, Ysgol Eglwys yng Nghymru fach yn denu disgyblion o ardal debyg

· Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed, o'r fath bod trigolion ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath sydd wedi'i chanolbwyntio ar ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Plwca.

· Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir rhwng Cathays a Phlasnewydd yn hirhoedlog a chawsant eu parchu'n briodol gan gynigion gwreiddiol y Comisiwn.

· Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi'i threfnu o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)

· Mae dalgylchoedd meddygfeydd teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac yn rhannu pryderon a demograffeg cyffredin.

Mae'n rhaid i unrhyw ystyriaeth o gysylltiadau cymunedol gydnabod y cysylltiadau cymunedol hirhoedlog rhwng yr ardaloedd hyn – gobeithiaf y bydd y penderfyniad hwn yn cael ei ailystyried.

Sarah Merry

[redacted]

[redacted]

Cynghorydd Cathays

**BCW-10802 / [redacted] / Caerdydd**

Noswaith dda,

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddydd Mercher 19 Tachwedd.

Rwy'n ysgrifennu ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth.

Rwy'n gwrthwynebu'r cam hwn. Mae ward Cathays wedi'i chysylltu'n annatod â'r wardiau sy'n weddill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown.

Dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol lle mae ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd ac mae ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Ar ôl symud i Gaerdydd i fynd i'r brifysgol, rwyf wedi treulio 6 mlynedd yn byw yng nghymuned y Rhath gan symud rhwng wardiau Cathays a Phlasnewydd ar sawl achlysur.

Ceir cysylltiad annatod rhwng y ddwy ward ac mae ganddynt gysylltiadau cymunedol cryf. Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei gydnabod a bod gan y rhai sy'n byw yn y gymuned gynrychiolaeth gref a chydlynol.

Mae llawer o wasanaethau cyhoeddus ac amwynderau yn cysylltu Cathays a Phlasnewydd gan gynnwys meddygfeydd teulu, ysgolion, llyfrgelloedd a deintyddion.

Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr gwahanu Cathays a Phlasnewydd a rhoi Cathays yn yr un etholaeth â Dinas Powys – ardal sy'n gwbl wahanol i natur canol y ddinas.

Cofion gorau,

[redacted]

Un o drigolion Plasnewydd

**BCW-10803 / [redacted] / Clwyd**

Annwyl Syr/Fadam

Byddwn yn cefnogi'r cynnig ar gyfer ffurfio'r etholaethau newydd – Dwyrain Clwyd a Gogledd Clwyd, o hen etholaeth Dyffryn Clwyd.

Mae symud Bagillt a'r Fflint allan o Ddwyrain Clwyd a chadw New Brighton, Coed-llai ac Argoed, ynghyd â Llangollen a rhannau gwledig eraill o Dde Sir Ddinbych yn arwain at etholaeth newydd gydlynol ac sy'n cyd-fynd yn wleidyddol i raddau helaeth.

Yn yr un modd, mae cadw Llandrillo-yn-Rhos gyda Bae Colwyn yn benderfyniad i'w groesawu ac eto'n arwain at endid mwy cydlynol.

Yn olaf, rwy'n croesawu enwau newydd arfaethedig yr etholaethau, Dwyrain Clwyd a Gogledd Clwyd.

Yn gywir

**BCW-10804 / [redacted] / Caerffili**

I'r partïon dan sylw,

Rwy'n ysgrifennu i gefnogi'r cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ('y Comisiwn') yn ymwneud ag etholaethau seneddol Caerffili a Gorllewin Casnewydd.

Rwy'n gwerthfawrogi bod y Comisiwn yn amlwg wedi gwrando ar don barn y cyhoedd yn Nyffryn Rhymni isaf, gan gynnwys fy un i, yn erbyn ei gynigion gwreiddiol. Mae'r Comisiwn wedi cydnabod bod gwrthwynebiad cryf i'r cynnig i gysylltu cymunedau Basn Caerffili ag etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd. Rydych wedi cydnabod bod yr awgrym hwn yn anghynaladwy gan ei fod yn ceisio cysylltu dwy ardal sydd â chysylltiadau daearyddol, cyfathrebu, cymdeithasol, hanesyddol, a diwylliannol cyfyngedig.

Rydych hefyd wedi cydnabod ei bod yn llawer mwy synhwyrol, ac yn cyd-fynd â barn y cyhoedd, i gynnal y cysylltiadau rhwng Basn Caerffili a'i berfeddwlad yn y Cymoedd i'r gogledd. Ar yr un pryd, rydych wedi cydnabod bod cymoedd cyfagos Sirhywi ac Ebwy yn cynnig cysylltiad mwy naturiol a rhan orllewinol Casnewydd.

Mae'r cynigion diwygiedig wedi cael croeso cynnes, gan gynnwys gennyf i a fy ffrindiau a'm teulu yma.

Yn gywir,

[redacted]

**BCW-10805 / [redacted] Cyngor Cymuned Dyserth / Dyserth**

Mae Aelodau Cyngor Cymuned Dyserth yn bryderus ynghylch y gostyngiad posibl i gynrychiolaeth Cymru o 40 i 32 - a all fod yn gam yn ôl yn unig, ac mae seilio’r newid hwn ar niferoedd yn dangos diffyg dealltwriaeth o heriau ardaloedd gwledig.

**BCW-10806 / [redacted] / Caerdydd**

Rwy’n ysgrifennu yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddydd Mercher 19 Tachwedd. Rwy’n ysgrifennu ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth. Rwy’n gwrthwynebu’r cam hwn. Mae ward Cathays wedi’i chysylltu’n annatod â’r wardiau sy’n weddill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown. Dylai’r Comisiwn ddychwelyd i’r cynnig gwreiddiol lle mae ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd ac mae ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae’r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac yn golygu symud dwy ward yn unig o’u hetholaethau presennol, yn hytrach na’r pedair sy’n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig. Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod o fewn yr un sedd Seneddol am fwy na thrigain mlynedd. Yn wir, nid yw’r Comisiwn, yn ei adolygiadau aflwyddiannus blaenorol ers 2010 erioed wedi ceisio gwahanu Cathays a Phlasnewydd.

Derbyniodd y Comisiwn un cyflwyniad (gan rywun wedi’i leoli yn Altrincham) yn awgrymu’r newid hwn. Derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (gan drigolion Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown o fewn cymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth. Rwy’n derbyn bod Trowbridge yn ward heb unrhyw fynediad ffordd uniongyrchol i’r Sblot. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr un sefyllfa yn union yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae’r Sblot a Trowbridge yn cynnig degawdau o hanes yn rhan o’r un etholaeth, yn wahanol i’r ateb arfaethedig yn sedd newydd Rhondda.

Ni soniwyd am symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth fel opsiwn yn ystod y prosesau cynigion ac ymgynghori blaenorol. Mae ei gyflwyno fel ‘fait accompli’ ar y cam olaf yn ymddangos yn anonest, ac nid yn ysbryd y datganiad a wnaed ar ddechrau’r broses gan yr Ysgrifennydd i’r Comisiwn, Shereen Williams.

"Rydym yn benderfynol o ddatblygu’r argymhellion gorau posib ar gyfer etholaethau newydd Cymru, a gwyddom mai’r unig ffordd o sicrhau hynny yw denu’r cyfranogiad cyhoeddus mwyaf rydym erioed wedi ei gael.” “Mae hygyrchedd wrth galon beth rydym yn ceisio cyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru llais holl bwysig i’w hychwanegu i’r sgwrs am ffiniau etholaethol Cymru, ac rydym am i bawb yng Nghymru cael cyfle i ddatgan eu barn."

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol gyda’r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. A bod yn onest, mae ei lleoli yn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn hurt ac ni fydd dealltwriaeth rwydd o hyn ymhlith yr etholaeth. Fodd bynnag, mae gan Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown lawer o gysylltiadau cymunedol:

• I raddau helaeth iawn, mae poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn rhychwantu Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, a cheir neuaddau preswyl yn agos iawn yn Cathays a Phlasnewydd.

• Mae Cyngor Caerdydd o’r farn bod wardiau Cathays a Phlasnewydd mor rhyng-gysylltiedig bod rheolau cynllunio wedi cael eu pasio dim ond i gynnwys Tai Amlfeddiannaeth ac asiantau gosod yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)

• Mae’r dalgylch ysgol uwchradd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.

• Mae plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays a Phlasnewydd yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

• Mae’r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed, o’r fath bod trigolion ym mhob un o’r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath sydd wedi’i chanolbwyntio ar ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Plwca.

• Mae’r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir rhwng Cathays a Phlasnewydd yn hirhoedlog a chawsant eu parchu’n briodol gan gynigion gwreiddiol y Comisiwn.

• Mae’r Eglwys yng Nghymru wedi’i threfnu o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)

• Mae dalgylchoedd meddygfeydd teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac yn rhannu pryderon a demograffeg cyffredin.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Gobeithiaf ar ôl darllen y dystiolaeth yma y bydd y Comisiwn bellach yn gwrthdroi’r cynigion diwygiedig ac yn dychwelyd i’r cynigion cychwynnol fel y’u cyhoeddwyd.

**BCW-10807 / [redacted] / Caerdydd**

Annwyl Gomisiwn Ffiniau,

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn cyhoeddiad y cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

Rwy'n ysgrifennu ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth.

Fel un o gyn-drigolion Cathays, ac un o drigolion presennol Plasnewydd, rwy'n gwrthwynebu'r cynnig hwn. Mae ward Cathays wedi'i chysylltu'n annatod â'r wardiau sy'n weddill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown. Mae hefyd yn endid ar wahân i Dde Caerdydd a Phenarth.

Dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol lle mae ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd ac mae ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac yn golygu symud dwy ward yn unig o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na'r pedair sy'n cael eu symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod o fewn yr un sedd Seneddol am fwy na thrigain mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn, yn ei adolygiadau aflwyddiannus blaenorol ers 2010 erioed wedi ceisio gwahanu Cathays a Phlasnewydd.

Derbyniodd y Comisiwn un cyflwyniad (gan rywun wedi'i leoli yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn.

Derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (gan drigolion Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown o fewn cymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Yn ogystal â hyn, bydd gwahanu Cathays a Phlasnewydd yn chwalu'r cysylltiadau cymuned fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd cydlynol a chryf sy'n bodoli yn y ward hon. Bu gan ASau dros Ganol Caerdydd berthynas uniongyrchol a chref gyda'r brifysgol a'r gymuned myfyrwyr o ganlyniad i'r ffaith fod y wardiau hyn yn yr un etholaeth.

Rwy'n credu y bydd cyfuno Cathays â De Caerdydd a Phenarth oddi wrth weddill y gymuned fyfyrwyr yn cael effaith negyddol ar berthynas yr AS gyda myfyrwyr a phrifysgolion.

Bydd yn cael effaith negyddol ar gydlyniant ac effeithlonrwydd llwythi gwaith achos ac ni fydd yn helpu myfyrwyr yn Cathays a Phlasnewydd i ymgysylltu â gwleidyddiaeth, democratiaeth a phleidleisio gan y bydd y system yn troi'n fwy dryslyd oherwydd y ffaith bydd llawer yn ansicr â pha AS y dylent fod yn cysylltu.

Rwy'n gobeithio y gwnewch chi ailystyried eich cynnig a symud ward Cathays yn ôl i mewn gyda chymuned ehangach y Rhath.

Diolch,

[redacted]

[redacted]

**BCW-10808 / [redacted] / Llangollen**

ADOLYGIAD O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU

Ymateb i Adolygiad 2023 y Comisiwn Ffiniau i Gymru o Etholaethau Seneddol – Cynigion Diwygiedig

Cefndir

Mae gan y ddau ohonom gefndir ym maes daearyddiaeth (i lefel raddedig ac ôl-raddedig) ac felly mae gennym ddealltwriaeth dda o ddaearyddiaeth ffisegol, ddynol, a hanesyddol yn ogystal â phrofiad uniongyrchol o dwristiaeth ddiwylliannol a datblygiad economaidd. Mae hyn wedi hysbysu ein sylwadau.

Rydym yn sylweddoli bod y Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi cael tasg anodd iawn i leihau nifer yr etholaethau seneddol yng Nghymru a chadw o fewn paramedrau wedi'u diffinio o ran niferoedd etholwyr. Fodd bynnag, mae canllawiau gan Lywodraeth EM yn amlinellu ffactorau amrywiol y dylid eu cymhwyso i unrhyw argymhellion (e.e., Pennod 2.12), fel daearyddiaeth, ffiniau llywodraeth leol ac unrhyw newidiadau i gysylltiadau lleol y gellid eu torri trwy gynigion. Mae ein trefniadau yn bennaf ond nid yn gyfan gwbl am drefniadau arfaethedig yn ardal Llangollen (sydd yn Ne Clwyd ar hyn o bryd, cynnig cychwynnol Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, a chynigion diwygiedig Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, a hefyd Dwyrain Clwyd).

Y sefyllfa bresennol

Mae'r etholaeth bresennol – De Clwyd – yn cwmpasu ardal gydlynol ac yn adlewyrchu'r llinella gyfathrebu naturiol a chymunedau ar hyd Dyffryn Dyfrdwy. Mae wardiau yn yr etholaeth bresennol wedi'u lleoli mewn dau awdurdod lleol ac yn hanesyddol ac yn economaidd maent, yn gyffredinol, wedi ffurfio cymuned yn seiliedig ar y cysylltiadau da o'r gorllewin i'r dwyrain ar draws yr ardal. Mae'n gweithio'n dda fel adran etholiadol. Dylai unrhyw newidiadau ddefnyddio hyn fel sylfaen. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr etholaeth wedi cael ei gwasgu gan y datblygiadau arfaethedig i'r gogledd ac i'r de heb werthfawrogi'r ffactorau uchod.

Y cynigion cychwynnol a'r cynigion diwygiedig

Roedd y cynigion cychwynnol a ddisodlwyd o leiaf yn cadw'r rhan fwyaf o'r etholaeth bresennol (y rhannau canol a gorllewinol) gyda'i gilydd ac felly'n adlewyrchu'n rhannol y manteision a amlinellir uchod; ond yn ei hychwanegu at yr etholaeth bresennol i'r de – Sir Drefaldwyn i ffurfio adran newydd (o'r enw Sir Drefaldwyn a Glyndŵr). Nid yw cyfuno ardal ôl-ddiwydiannol yn ei hanfod (De Clwyd) gydag ardal sydd bron yn gwbl amaethyddol a gwledig (Sir Drefaldwyn) yn cyd-fynd yn dda o ran cydlyniant.

Mae'r cynigion diwygiedig bellach yn cynnig bod ward Llangollen (a ward Llangollen Wledig - gweler isod) yn cael ei thynnu o etholaeth arfaethedig Sir Drefaldwyn a Glyndŵr ac yn cael ei hychwanegu - fel allwthiad - at yr etholaeth ymhellach i'r gogledd - Dwyrain Clwyd. Mae hyn yn torri'r llif naturiol yn Nyffryn Dyfrdwy gan y bydd wardiau i'r gorllewin a'r dwyrain yn aros yn etholaeth newydd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Mae hyn yn edrych yn rhyfedd iawn, ac mae'n rhyfedd iawn - mae'n edrych

ac yn teimlo fel ôl-ystyriaeth. Nid oes unrhyw gyfiawnhad yn y dogfennau trafodaeth a ddarparwyd o ran pam mae hyn wedi digwydd - gwnaed rhai sylwadau ar y cynigion cychwynnol yn yr ardal ehangach e.e., Corwen, ac ardaloedd o gwmpas Wrecsam, ond nid oeddent yn ymwneud â Llangollen. Byddai'n ymddangos mai'r unig reswm am y newid yw hwyluso newidiadau mewn mannau eraill i sicrhau bod niferoedd y pleidleiswyr yn aros y fewn y terfynau a ddiffiniwyd. Nid oes unrhyw gyfiawnhad yn yr adroddiad.

Mae Llangollen yn ardal Cyngor Sir Ddinbych ond ar ymyl deheuol y sir. Mae ei phrif linellau cyfathrebu (yn hanesyddol ac ar hyn o bryd) i'r dwyrain a'r gorllewin, ac yn economaidd hefyd. Mae Safle Treftadaeth y Byd Camlas Pontcysyllte a Llangollen - sy'n ffynhonnell fawr o incwm twristiaeth - yn berthnasol yma gan ei bod hithau hefyd yn dilyn y dyffryn. Mae rhwystrau ffisegol fel Bwlch yr Oernant /Mynyddoedd Llantysilio yn llinellau da i'r comisiwn ffiniau eu hystyried (yn unol â'r meini prawf) - ond ni wnaed hynny yn yr achos hwn.

Mae bellach yn golygu y bydd etholaeth arfaethedig Dwyrain Clwyd yn cynnwys tair ardal Awdurdod Lleol – Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn bennaf a dim ond un ward (Llangollen Wledig) sydd wedi'i lleoli o fewn CBS Wrecsam! Mae rhywun yn amau nad yw staff y Comisiwn Ffiniau wedi bod yn gwbl ymwybodol, hyd yn oed ag enw sy'n cynnwys Llangollen, a) bod ward Llangollen Wledig yn Wrecsam mewn gwirionedd, ond yn bwysicach b) bod ganddi nodweddion (tai, diwydiant) sy'n cyd-fynd yn agosach â wardiau ymhellach i'r gogledd a'r dwyrain fel Rhiwabon, Cefn ac ati. Mae'n ymddangos bod hyn yn groes i'r ffactorau statudol y dylech fod wedi eu cymryd i ystyriaeth.

Mae'r cynigion cychwynnol a diwygiedig ar gyfer etholaeth 'Sir Drefaldwyn a Glyndŵr' yn ymddangos yn rhyfedd gan eu bod yn methu â gwerthfawrogi daearyddiaeth. Mae Mynyddoedd y Berwyn (sy'n well enw, siawns, na Glyndŵr ar gyfer yr etholaeth) yn ffurfio rhwystr mawr a hanesyddol bwysig rhwng y gogledd a'r de. Nid yw ceisio atodi rhannau o etholaeth bresennol De Clwyd i holl etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn yn gweithio o safbwynt daearyddol. Mae unrhyw gyfathrebu rhwydd rhwng y ddwy ran trwy Loegr mewn gwirionedd! Sut gellir cael unrhyw gysylltiad ystyrlon rhwng Corwen a Threfaldwyn neu Riwabon a Llangurig? Prin yw ymwybyddiaeth hanesyddol neu ofodol unrhyw un sy'n dweud bod cysylltiadau da rhwng y ddwy ran (fel y soniwyd yn benodol yn y papur trafodaeth). Hyd yn oed ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, roedd hen Gyngor Dosbarth Glyndŵr a oedd yn cwmpasu rhai rhannau i'r de o Langollen (yn ogystal ag i'r gogledd i Ddinbych) yn cael trafferth i ddatblygu unrhyw hunaniaeth. Mae'n fwy gwir fyth y dyddiau yma gyda lleoedd fel Llansilin yn gadarn o fewn Sir Powys. Mae'r tir bryniog a'r dyffrynnoedd i'r de o Langollen (afonydd sy'n llifo o'r gorllewin i'r dwyrain) yn golygu bod cyfathrebu o'r gogledd i'r de (ac felly unrhyw gydlyniant) yn anodd ar yr ochr orau. Mae hefyd yn wir bod gan Langollen lai o gysylltiad â gogledd Sir Ddinbych (a dim gyda Sir y Fflint) na chyda Wrecsam (yn enwedig mewn ystyr economaidd, a'r Safle Treftadaeth y Byd pwysig hefyd). Byddem yn ail-bwysleisio'r gwahaniaethau hanesyddol o ran datblygiad economaidd a nodweddion rhwng y ddau 'hanner' arfaethedig.

Casgliadau

Mae’r cynigion diwygiedig i gynnwys Llangollen gyda Dwyrain Clwyd yn ddaearyddol simsan ac yn amlwg yn nonsens, yn enwedig gan eu bod i bob pwrpas yn torri Dyffryn Dyfrdwy yn ddwy ran at ddibenion seneddol. Mae’n ymddangos bod Llangollen wedi cael ei throsglwyddo i Ddwyrain Clwyd er mwyn cadw etholaeth ddiwygiedig Sir Drefaldwyn a Glyndŵr o fewn y terfynau etholwyr – ac am ddim rheswm arall! Nid ydym yn cytuno â chynnwys Llangollen (a Llangollen Wledig) yn Nwyrain Clwyd. Roedd y cynigion cychwynnol o leiaf yn cadw Llangollen (a Llangollen Wledig) wedi’u cysylltu â’u cymunedau lleol yn Nyffryn Dyfrdwy, felly dylai’r comisiwn ddychwelyd i’w gynnig gwreiddiol. Byddai Dwyrain Clwyd yn dal i fodloni meini prawf pleidleiswyr heb etholwyr Llangollen/ Llangollen Wledig.

I fod o gymorth, dyma rai awgrymiadau er mwyn cadw Dyffryn Dyfrdwy gan gynnwys Llangollen (a’r rhan helaeth o Dde Clwyd) yn rhan o etholaeth newydd ystyrlon.

[nid ein cyfrifoldeb ni yw dadansoddi’r ffigurau ond byddem yn gobeithio y gellid bodloni’r meini prawf gyda rhai mân ddiwygiadau]

Mae’n ymddangos bod y Comisiwn wedi penderfynu y dylai dwy etholaeth bresennol Powys (Brycheiniog a Sir Faesyfed; Sir Drefaldwyn) gael eu cadw cyn belled â phosibl. Nid ydym yn siŵr pam. Pam na ellir cyfuno’r rhain yn un (â rhai diwygiadau) trwy:

a) symud ardaloedd cwm Tawe uchaf (Ystradgynlais) i etholaethau ymhellach i’r de, gan fod gan yr ardal hon gymeriad cwbl wahanol i weddill Brycheiniog a Sir Faesyfed (er ei bod ym Mhowys).

b) Symud Corwen a Llandrillo i Ddwyfor/ Meirionnydd os oes angen. Roedd yr ardaloedd hyn yn rhan o Sir Feirionnydd yn hanesyddol ac mae ganddynt fwy o gysylltiad â Dyffryn Dyfrdwy Uchaf h.y., y Bala (ac yn sicr nid â rhan ddeheuol Sir Drefaldwyn). [gellid bodloni meini prawf ar gyfer etholwyr trwy drosglwyddiad o’r fath].

c) Pe bai un etholaeth (canolbarth) Powys yn cael ei chreu yna byddai’n bosibl creu etholaeth De Clwyd a Berwyn newydd ar wahân yn cynnwys y rhan fwyaf o etholaeth bresennol De Clwyd a rhai rhannau gogleddol o Sir Drefaldwyn. Er nad yw hyn yn ddelfrydol, byddai’n gweithio’n well i’n hardal ni.

Gobeithiwn y gwnewch chi ystyried yr awgrymiadau hyn

[redacted]

Tachwedd 2022

**BCW-10809 / [redacted] / Dinbych**

Annwyl CFfG

Rwy'n ysgrifennu i gofnodi dau wrthwynebiad i'r cynigion diwygiedig a gyhoeddwyd ar eich gwefan yn ddiweddar yn ymwneud â'r etholaethau seneddol yng Nghymru.

Fy ngwrthwynebiad cyntaf yw herio'r penderfyniad i gynnwys ward Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch (sydd wedi'i lleoli yn etholaeth bresennol Gorllewin Clwyd) yn etholaeth newydd Bangor Aberconwy.

Dyma fy rhesymau am wrthwynebu

1) Byddwn yn dadlau bod gan ward Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch llawer mwy yn gyffredin o safbwynt economaidd-gymdeithasol gyda'r hyn a fydd yn troi'n Ddwyrain Clwyd, oherwydd cysylltiad agos llawer o'r boblogaeth gyda thref Dinbych a'r ardal a adnabyddir fel Dyffryn Clwyd, y mae llawer o drigolion ochr ddwyreiniol y ward hon yn ystyried eu hunain yn rhan ohono.

2) bydd unrhyw AS sy'n gwasanaethu ardal mor helaeth ac anhygyrch ag etholaeth arfaethedig Bangor Aberconwy yn ei chael yn anodd cynrychioli yn briodol pleidleiswyr ar y naill ben a'r llall, sef poblogaeth Bangor yn y gorllewin a phleidleiswyr Llanrhaeadr yn y dwyrain. Ceir o leiaf un rhos, corff mawr o ddŵr, a llawer o fryniau a mynyddoedd sylweddol rhwng y ddwy ardal eithafol o boblogaeth. Hefyd, ceir llawer o ffermydd ynysig yn ward Llanrhaeadr. Wedi sefyll yn y gorffennol fel ymgeisydd i fod yn gynghorydd sir dros y ward hon, gallaf ddweud wrthych ei bod yn cymryd tua mis dim ond i ymweld â phob etholwr cofrestredig, ac mae hynny mewn un ward yn unig. Byddai gwir faint Bangor Aberconwy a'i gwasgariad gwledig yn gwneud cynrychiolaeth briodol o'i phobl yn anodd iawn.

Hoffwn gofrestru ail wrthwynebiad hefyd o ran yr enw.

Os nad yw'r comisiwn ffiniau o'r farn y dylid newid yr ardal i symud Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch, yna byddai "Bangor Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch" yn enw mwy priodol i'r etholaeth, ac mae hyn am ddau reswm
1) mae'n parchu yn fwy cywir eithafoedd yr ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn yr etholaeth a'i natur wledig.
2) Mae Bangor ac Aberconwy nesaf at ei gilydd ac eto mae'r etholaeth yn gymaint mwy na'r ddau le cyfagos hyn; ac

3) mae'n etholaeth enfawr ac felly mae'n briodol bod ganddi enw enfawr.

Hoffwn son hefyd, gan fod poblogaeth bleidleisio'r ward hon yn 1,496 o bleidleiswyr yn unig, prin yw'r gwahaniaeth y byddai ei symud i Ddwyrain Clwyd yn ei wneud i'r meini prawf a ddilynwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ac rwy'n credu y gellir hwyluso'r newid hwn yn rhwydd.

Gobeithiaf y gwnewch chi ystyried fy ngwrthwynebiadau.

Yn gywir

[redacted]

**BCW-10810 / [redacted] / Llanbradach**

Annwyl Gomisiynydd Ffiniau

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am wrando ar farn y cyhoedd a derbyn gwrthgynnig ein AS, Wayne David, ar gyfer ardal Caerffili, yr oeddem ni'n ei gefnogi'n llawn fel Cyngor Cymuned. Rydym yn falch iawn gyda'ch penderfyniad.

Diolch yn fawr

Cofion cynnes / Warm regards

[redacted]

**BCW-10811 / Cyngor Cymuned Cwmllynfell / Cwmllynfell**

Hoffai Cyngor Cymuned Cwmllynfell wrthwynebu cynnig y Comisiwn Ffiniau i gynnwys Cwmllynfell, a wardiau eraill yng Nghwm Tawe a Dyffryn Aman, yn etholaeth newydd Brycheiniog, Sir Faesyfed a Chwmtawe.

Roeddem yn siomedig na newidiwyd y cynllun ar gyfer ein hardal o'r cynnig cychwynnol er gwaethaf gwrthwynebiadau niferus, gan gynnwys rhai'r Comisiynwyr Cynorthwyol. Mae'n ymddangos mai'r brif ddadl yw y byddai newid y cynnig ar gyfer wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn gwneud y niferoedd yn rhy anodd ar gyfer ardaloedd eraill, sy'n ein gadael wedi'n gwasanaethu'n wael iawn gan yr adolygiad hwn.

Yn ogystal â'r rheidrwydd i fodloni'r nifer ofynnol o etholwyr fesur ward, mae Rheol 5 yn Atodlen 2 Deddf 1986 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Adolygiad 2023, ac yn benodol:

• ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth;

• ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020

• ffiniau etholaethau presennol

• unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau

• yr anhwylustod sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath

Mae'n amlwg nad yw'r un o'r ffactorau hyn wedi cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ystyried lleoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

Mae'r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint â chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae swyddfa'r AS presennol yn Llandrindod - taith o fwy na 49 milltir ac 1 awr ac 20 munud mewn car o Gwmllynfell. Nid yw'n bosibl gwneud y daith yno ac yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod.

Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail ar gyfer nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd De-orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth yn croesi'r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdodau a dryswch gweinyddol sylweddol. Bydd yn rhaid i unrhyw AS dros yr etholaeth newydd gyfathrebu a gweithio'n effeithiol gyda llawer mwy o sefydliadau a chyrff sector cyhoeddus nag ar hyn o bryd.

Yn hanesyddol, roedd Cwm Tawe yn rhan o Sir Forgannwg erioed, ac mae'r cysylltiadau lleol i gyd gyda Chastell-nedd ac Abertawe, nid gydag Aberhonddu.

Bydd gan yr etholaeth arfaethedig begwn deheuol sy'n wahanol iawn o ran cymeriad i'r gweddill. Mae gan wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman gyfartaledd o 38% o siaradwyr Cymraeg, o'i gymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigurau cyfrifiad 2011, wedi'u pwysoli yn ôl poblogaeth y ward). Mae

wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman hefyd yn llawer mwy difreintiedig, â sgôr MALIC cyfartalog o 813 o'i gymharu ag 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a Sir Faesyfed (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, sgôr is yn dynodi mwy o amddifadedd). Bydd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn cynnwys dim ond 25% o boblogaeth yr etholaeth, gan beri risg wirioneddol na fydd anghenion gwahanol iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a wneir gan yr etholaeth yn ei chyfanrwydd.

Ceir datgysylltiad sylweddol o ddemocratiaeth yn lleol eisoes, gan fod llawer o drigolion yn teimlo eu bod ar ben etholaeth Castell-nedd sydd wedi mynd yn angof. Bydd y diffyg ymgysylltiad hwn ddim ond yn cael ei wneud yn waeth gan gynigion y Comisiwn Ffiniau. Byddai'n eironig pe bai ymarfer a oedd â'r nod o wneud y broses ddemocrataidd yn decach yn arwain at lai o bobl yn trafferthu i bleidleisio.

Fel opsiwn amgen, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnwys Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau presennol a hanesyddol, daearyddiaeth a nodweddion lleol yn llawer gwell.

**BCW-10812 / [redacted] Plaid Cymru Etholaeth Arfon / Caernarfon**

Mae dau draean o hen etholaeth Arfon ymuno â etholaeth Dwyfor Meirionnydd, ond nid yw hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr enw arfaethedig. Mae hyn yn cyferbynnu gyda etholaeth newydd Bangor Aberconwy lle cydnabyddir yr ardal o Arfon sydd yn symud i etholaeth arall.

Dyma ambell awgrymiad posib;

1. Arfon Dwyfor Meirionnydd
2. Caernarfon Dwyfor Meirionnydd
3. Caernarfon Meirionnydd
4. Gwynedd

**BCW-10813 / [redacted] / Pontardawe**

MAE CYNGOR TREF PONTARDAWE YN GWRTHOD CYNNIG Y COMISIWN FFINIAU

Mae holl gysylltiadau gweinyddol, cymdeithasol, economaidd a chymunedol ardal Pontardawe gyda Chastell-nedd ac Abertawe. Nid oes gennym unrhyw gysylltiad â Phowys wledig. Mae cynnig y Comisiwn Ffiniau yn torri ar draws awdurdodau Heddlu, Iechyd ac Unedol ac nid yw hynny’n cefnogi anghenion Etholaethol yr ardal.

Mae Cyngor y Dref yn gwrthod cynnig y Comisiwn Ffiniau felly, ac yn hytrach yn cefnogi’r model sy’n debyg i hen Gyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw a oedd yn bodoli tan 1996. Mae gan y cymunedau a oedd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw gynt gysylltiadau hanesyddol ac maent yn rhannu nodweddion cymunedol tebyg. Rydym yn deall bod y cynnig amgen hwn hefyd yn cael ei gefnogi gan yr Awdurdod Unedol a’r Cynghorau Tref a Chymuned eraill yn yr ardal.

**BCW-10814 / [redacted] / Caerfyrddin**

Mae perthynas agos gyda preswylwyr ardaloedd gorllewinol o fewn ward cyngor sir newydd Llangyndeyrn (yn arbennig ardaloedd fel Cwmffrwd, Idole, Croesyceiliog) gyda Caerfyrddin a dyna'r ganolfan drefol mwyaf perthnasol ag agos atyn nhw o ran gwaith, cymdeithasu, siopa a phellter a chyfleustra teithio naturiol.

Mae'r gymuned yn naturiol yn uniaethu gyda Chaerfyrddin ac wedi gwneud hynny erioed heb unrhyw berthynas gydag ardal Llanelli.

Bydd rhannu'r etholaeth bresennol a rhoi yr ardal yma gydag ardal Llanelli yn anodd i'r trigolion ag i unrhyw aelod etholedig i ymwneud ag uniaethu a gweithio o fewn ward mor fawr ag eang ag amrywiol ei natur.

Yn y pendraw mae amheuaeth os yw'r newidiadau sydd yn cael eu hystyried er lles trigolion lleol a hynny allai niweidio ein hardaloedd a'n cymunedau. Bydd yn anodd iawn i unrhyw aelod etholedig wasanaethu wardiau mor eang mor llwyddiannus a wardiau llai o faint.

**BCW-10815 / Luke Fletcher AS / Pencoed**

Rwyf wedi byw ym Mhencoed am y rhan fwyaf o'm hoes, ac eithrio'r 5 mlynedd yr oeddwn i yn y brifysgol, ac fel cymuned, ni fu adeg erioed pan rydym wedi uniaethu â'r Rhondda. Mae Pencoed yn sicr yn dref Pen-y-bont ar Ogwr ac mae ei thrigolion yn uniaethu â 'hunaniaeth' Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn fy marn i, bydd rhoi Pencoed yn etholaeth Rhondda yn drysu trigolion Pencoed. I'r perwyl hwnnw, fel aelod o'r Senedd ar gyfer ar ardal, ac un o'i thrigolion, mae nifer o etholwyr ym Mhencoed wedi cysylltu â mi i godi eu pryderon eu hunain. Rwyf wedi eu cyfeirio at yr ymgynghoriad hwn a gobeithiaf eu bod hwythau wedi cynnig eu hadborth hefyd. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod cynrychiolwyr y cyngor lleol yn rhannu fy mhryderon.

Rwyf hefyd yn bryderus nad oes unrhyw gysylltiadau seilwaith yn yr etholaeth arfaethedig sy'n cysylltu Pencoed â'r gweddill. Yn wir, mae mynydd yn y ffordd. Mae trigolion Pencoed yn cael gafael ar y mwyafrif o'u gwasanaethau yn ogystal â chymdeithasu a siopa ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn sir ehangach Pen-y-bont ar Ogwr. Ystyrir mai Pen-y-bont ar Ogwr yw tref 'ganolbwynt' Pencoed.

Yn fy marn i, byddai'n gwneud mwy o synnwyr i gwm Ogwr gael ei gysylltu â Rhondda o ystyried ei fod yn ddyffryn sy'n cysylltu Pen-y-bont ar Ogwr â Threorci neu fod 4 ward RhCT sydd yn etholaeth Ogwr ar hyn o bryd yn cael eu rhoi yn etholaeth Rhondda.

Rwy'n deall anhawster y dasg a gyflwynwyd i'r comisiwn ffiniau ond byddwn yn erfyn ar y comisiwn i beidio â rhoi Pencoed yn etholaeth Rhondda ac yn hytrach sicrhau ei bod yn rhan o etholaeth newydd Pen-y-bont ar Ogwr lle'r wyf yn credu y mae'n perthyn.

**BCW-10816 / [redacted] / Prestatyn**

Rwy’n cymeradwyo cynigion y comisiwn ar gyfer sedd Dwyrain Clwyd. Mae gan Brestatyn gysylltiadau cryf gyda llawer o ardaloedd cyfagos Sir y Fflint. Mae’r trefi bach a’r ardaloedd gwledig yn yr etholaeth arfaethedig yn rhannu llawer o agweddau tebyg. Mae’n gwneud synnwyr i’r Fflint a Bagillt gael eu symud i sedd fwy cydweddol Glannau Dyfrdwy.

**BCW-10817 / [redacted] Cangen Llafur Pontardawe a Threbanos / Pontardawe**

Mae Cangen Llafur Pontardawe a Threbanos yn gwrthwynebu'n gryf cynnig y Comisiwn Ffiniau i gynnwys wardiau Pontardawe a Threbanos, a wardiau eraill yng Nghwm Tawe a Dyffryn Aman, yn etholaeth newydd Brycheiniog, Sir Faesyfed a Chwmtawe. Mae'n siomedig iawn gweld nad yw'r cynllun ar gyfer ein hardal, er gwaethaf gwrthwynebiadau niferus, gan gynnwys rhai'r Comisiynwyr Cynorthwyol, wedi newid o'r cynnig cychwynnol o hyd. Yn ogystal â'r rheidrwydd i fodloni'r nifer ofynnol o etholwyr fesur ward, mae Rheol 5 yn Atodlen 2 Deddf 1986 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Adolygiad 2023, ac yn benodol:

• ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth;

• ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020

• ffiniau etholaethau presennol

• unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau

• yr anhwylustod sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath

Mae'n amlwg nad yw'r un o'r ffactorau hyn wedi cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ystyried lleoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

Mae'r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint â chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae swyddfa'r AS presennol yn Llandrindod - taith o fwy na 50 milltir ac 1 awr ac 20 munud mewn car o Bontardawe. Nid yw'n bosibl gwneud y daith yno ac yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod.

Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail ar gyfer nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd De-orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth yn croesi'r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdodau a dryswch gweinyddol sylweddol.

Yn hanesyddol, roedd Cwm Tawe yn rhan o Sir Forgannwg erioed, ac mae'r cysylltiadau lleol i gyd gyda Chastell-nedd ac Abertawe, nid gydag Aberhonddu.

Bydd gan yr etholaeth arfaethedig begwn deheuol sy'n wahanol iawn o ran cymeriad i'r gweddill. Mae gan wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman gyfartaledd o 38% o siaradwyr Cymraeg, o'i gymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigurau cyfrifiad 2011, wedi'u pwysoli yn ôl poblogaeth y ward). Mae wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman hefyd yn llawer mwy difreintiedig, â sgôr MALIC cyfartalog o 813 o'i gymharu ag 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a Sir Faesyfed (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, sgôr is yn dynodi mwy o amddifadedd). Bydd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn cynnwys dim ond 25% o boblogaeth yr etholaeth, gan beri risg wirioneddol na fydd anghenion gwahanol iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a wneir gan yr etholaeth yn ei chyfanrwydd.

Fel opsiwn amgen, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnwys Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau presennol a hanesyddol, daearyddiaeth a nodweddion lleol yn llawer gwell.

**BCW-10818/[redacted] Cangen Llafur Pontardawe a Threbanos /Abertawe**

Mae Cangen Llafur Pontardawe a Threbanos yn gwrthwynebu'n gryf cynnig y Comisiwn Ffiniau i gynnwys wardiau Pontardawe a Threbanos, a wardiau eraill yng Nghwm Tawe a Dyffryn Aman, yn etholaeth newydd Brycheiniog, Sir Faesyfed a Chwmtawe. Mae'n siomedig iawn gweld nad yw'r cynllun ar gyfer ein hardal, er gwaethaf gwrthwynebiadau niferus, gan gynnwys rhai'r Comisiynwyr Cynorthwyol, wedi newid o'r cynnig cychwynnol o hyd. Yn ogystal â'r rheidrwydd i fodloni'r nifer ofynnol o etholwyr fesur ward, mae Rheol 5 yn Atodlen 2 Deddf 1986 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Adolygiad 2023, ac yn benodol:

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth;
- ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- yr anhwylustod sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath

Mae'n amlwg nad yw'r un o'r ffactorau hyn wedi cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ystyried lleoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

Mae'r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint â chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae swyddfa'r AS presennol yn Llandrindod - taith o fwy na 50 milltir ac 1 awr ac 20 munud mewn car o Bontardawe. Nid yw'n bosibl gwneud y daith yno ac yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod.

Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail ar gyfer nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd De-orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth yn croesi'r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdodau a dryswch gweinyddol sylweddol.

Yn hanesyddol, roedd Cwm Tawe yn rhan o Sir Forgannwg erioed, ac mae'r cysylltiadau lleol i gyd gyda Chastell-nedd ac Abertawe, nid gydag Aberhonddu. Bydd gan yr etholaeth arfaethedig begwn deheuol sy'n wahanol iawn o ran cymeriad i'r gweddill. Mae gan wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman gyfartaledd o 38% o siaradwyr Cymraeg, o'i gymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigurau cyfrifiad 2011, wedi'u pwysoli yn ôl poblogaeth y ward). Mae wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman hefyd yn llawer mwy difreintiedig, â sgôr MALIC cyfartalog o 813 o'i gymharu ag 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a Sir Faesyfed (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, sgôr is yn dynodi mwy o amddifadedd). Bydd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn cynnwys dim ond 25% o boblogaeth yr etholaeth, gan beri risg wirioneddol na fydd anghenion gwahanol iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a wneir gan yr etholaeth yn ei chyfanrwydd.

Fel opsiwn amgen, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnwys Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn

adlewyrchu ffiniau presennol a hanesyddol, daearyddiaeth a nodweddion lleol yn llawer gwell.

**BCW-10819/[redacted] Cangen Llafur Pontardawe a Threbanos /Abertawe**

Mae Cangen Llafur Pontardawe a Threbanos yn gwrthwynebu'n gryf cynnig y Comisiwn Ffiniau i gynnwys wardiau Pontardawe a Threbanos, a wardiau eraill yng Nghwm Tawe a Dyffryn Aman, yn etholaeth newydd Brycheiniog, Sir Faesyfed a Chwmtawe. Mae'n siomedig iawn gweld nad yw'r cynllun ar gyfer ein hardal, er gwaethaf gwrthwynebiadau niferus, gan gynnwys rhai'r Comisiynwyr Cynorthwyol, wedi newid o'r cynnig cychwynnol o hyd. Yn ogystal â'r rheidrwydd i fodloni'r nifer ofynnol o etholwyr fesur ward, mae Rheol 5 yn Atodlen 2 Deddf 1986 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Adolygiad 2023, ac yn benodol:

• ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth;
• ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020
• ffiniau etholaethau presennol
• unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
• yr anhwylustod sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath

Mae'n amlwg nad yw'r un o'r ffactorau hyn wedi cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ystyried lleoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

Mae'r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint â chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae swyddfa'r AS presennol yn Llandrindod - taith o fwy na 50 milltir ac 1 awr ac 20 munud mewn car o Bontardawe. Nid yw'n bosibl gwneud y daith yno ac yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod.

Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail ar gyfer nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd De-orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth yn croesi'r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdodau a dryswch gweinyddol sylweddol.

Yn hanesyddol, roedd Cwm Tawe yn rhan o Sir Forgannwg erioed, ac mae'r cysylltiadau lleol i gyd gyda Chastell-nedd ac Abertawe, nid gydag Aberhonddu. Bydd gan yr etholaeth arfaethedig begwn deheuol sy'n wahanol iawn o ran cymeriad i'r gweddill. Mae gan wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman gyfartaledd o 38% o siaradwyr Cymraeg, o'i gymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigurau cyfrifiad 2011, wedi'u pwysoli yn ôl poblogaeth y ward). Mae wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman hefyd yn llawer mwy difreintiedig, â sgôr MALIC cyfartalog o 813 o'i gymharu ag 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a Sir Faesyfed (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, sgôr is yn dynodi mwy o amddifadedd). Bydd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn cynnwys dim ond 25% o boblogaeth yr etholaeth, gan beri risg wirioneddol na fydd anghenion gwahanol iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a wneir gan yr etholaeth yn ei chyfanrwydd.

Fel opsiwn amgen, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnwys Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn

adlewyrchu ffiniau presennol a hanesyddol, daearyddiaeth a nodweddion lleol yn llawer gwell.

**BCW-10820 / [redacted] / Wrecsam**

Rwy'n byw yn y Waun, AR y ffordd A5 wreiddiol a adeiladwyd gan Telford i Gaergybi, trwy ogledd Cymru. Rwy'n teimlo fy mod yn rhan o ogledd Cymru, ac o Wrecsam. Dyna lle'r wyf yn cyflawni busnes, yn cymdeithasu, yn cael hwyl, yn teithio ac yn byw. Wrecsam yw fy Awdurdod Lleol.

Rwy'n hapus iawn gyda De Clwyd ond yn derbyn yr angen am etholaethau mwy. Byddwn yn hapus iawn i fod yn Wrecsam. Neu yn Nwyrain Clwyd os oes rhaid.

Rwy'n ANHAPUS IAWN o fod yn rhan o etholaeth canolbarth Cymru helaeth. Ac yn fwy anhapus fyth o fod mewn polyp sy'n tyfu oddi ar derfyn gogleddol "Sir Drefaldwyn a Glyndŵr". Mae'r rhain yn fannau pell i ffwrdd yr wyf i'n gwybod dim amdanynt ac â llai fyth o ddiddordeb. Nid oes unrhyw lwybrau trafnidiaeth synhwyrol o'r Waun i'r lleoedd hyn.

Rwy'n cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol. Ni fyddaf yn gallu parhau os yw'n golygu teithiau hirfaith ar ffyrdd gwael i leoliadau anhysbys.

Dylid rhannu'r "Ardal Rhiwabon ac Esclusham" a ddangosir ar eich map rhwng Wrecsam a Dwyrain Clwyd. Meintiau etholaeth cyson yw'r unig reswm a all fod am ei atodi i leoedd oriau a milltiroedd i ffwrdd. Mae hwn yn nod cyffredinol dymunol ond ni ddylid ei gymryd i eithafoedd mor hurt.

Ar sail y cynigion hyn, bydd gennyf Awdurdod lleol mewn un lle, aelod o'r Senedd mewn lle arall, ac Aelod Seneddol ag etholaeth chwerthinllyd o fawr a dim amser i ymdrin â'n problemau.

Fel y dywedodd Cromwell, "*I beseech you in the Bowels of Christ, Think it Possible You May Be Mistaken*"

[redacted]

**BCW-10821 / [redacted] / Pontardawe**

Rwy'n anghytuno'n gryf â'r cynigion ar gyfer ffiniau newydd. Nid oes gan Bontardawe unrhyw gysylltiad cyffredin â Brycheiniog a Sir Faesyfed.

Syniad gwirioneddol wael.

Cofion,

[redacted]

**BCW-10822 / [redacted] / Pontardawe**

Yn y lle cyntaf, credaf ei bod yn annerbyniol bod llais democrataidd Cymru yn cael ei dorri o 20% ac mae'r newidiadau a gynigir i'r gynrychiolaeth ar gyfer Cwm Tawe yn gwbl annerbyniol.

Anghytunaf yn llwyr gyda'r cynnig i osod rhannau o Gwm Tawe, ac yn benodol y ward rwy'n gynghorydd tref arni, sef Pontardawe a Threbannws, yn rhan o etholaeth newydd "Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe". Rwy'n hynod siomedig nad yw'r cynlluniau wedi eu haddasu ers y drafft cyntaf ac nid oes unrhyw sylw wedi ei roi i'r ystyriaethau eraill y gellid eu cynnwys wrth ddod i benderfyniad e.e. ffiniau etholaethau presennol; unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau; yr anghyfleustra sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath a natur daearyddol yr etholaeth.

Dyma rai o'r rhesymau dros fy ngwrthwynebiad chwyrn:

- Nid oes gan yr ardaloedd hyn yr un traddodiadau na diwylliant, na phoblogaeth sy'n rhannu profiad bywyd a gwaith neu ddaliadau. Ardal ol-ddiwydiannol yw Cwm Tawe ac nid yw'n rhannu yr un pwyslais ar faterion gwledig a geir ym Mrycheiniog a Maesyfed.

- Mae'r etholaeth arfaethedig yn anferth o ran maint gyda chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae swyddfa'r AS presennol yn Llandrindod – taith o 50 milltir ac 1 awr ac 20 munud mewn car o Bontardawe. Nid yw'n bosibl gwneud y daith yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod.

- Bydd etholaeth sy'n croesi cymaint o ffiniau amrywiol ar gyfer sawl llu Heddlu; cynghorau sir amrywiol; a byrddau iechyd amrywiol yn achosi cymhlethdodau gweinyddol sylweddol a dryswch.

- Ers degawdau, mae Cwm Tawe wedi bod yn rhan o weinyddiaeth a chymuned ardaloedd diwydiannol cymoedd y de, ac nid ardaloedd amaethyddol Aberhonddu etc.

- mae natur ieithyddol Cwm Tawe yn gwbl wahanol i ardaloedd Aberhonddu a Maesyfed gyda chryn dipyn mwy o Gymraeg i'w glywed yn yr ardal hon. Nid wyf yn dymuno gweld y Gymraeg yn dioddef ar sail y newid hwn.

- mae Cwm Tawe yn ardal llawer mwy difreintiedig nac ardaloedd Aberhonddu a Maesyfed ac mae'n bur anhebygol oherwydd yr amrywiaeth dybryd mewn profiadau, cefndiroedd a daliadau na fydd yr etholaeth yn cynyrchioli nac yn adlewyrchu anghenion poblogaeth Cwm Tawe. Rhagwelir na fydd anghenion trigolion Cwm Tawe yn cael chwarae teg na'u hadlewyrchu yn nyheadau'r etholwyr na blaenoriaethau'r Aelod Seneddol.

Bydd y newidiadau a gynigir yn gwanhau llais trigolion Cwm Tawe, yn peryglu hollt bellach rhwng etholwyr a'r sawl sydd yn honni eu cynyrchioli ac yn siwr o arwain at gynnydd yn yr heriau a'r anghyfartaledd mae pobl yr ardal hon yn ei brofi. Gwrthwynebaf y cynllun yn llwyr.

Yn hytrach, rwy'n cefnogi'r cynnig sydd wedi ei roi gerbron trwy Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol sef i ail-lunio Dyffryn Lliw a chynnwys Pontardawe a Threbannws yn yr ardal hon. Dyma ateb llawer mwy cydnaws a rhesymol i ardal sy'n haeddu gwell.

**BCW-10823 / [redacted] y Blaid Lafur / Caerdydd**

Amgaeaf gyflwyniad y Blaid Lafur i'r ymgynghoriad ar y Cynigion Diwygiedig.

Cofion gorau,
[redacted]

# Adolygiad 2023 o Etholaethau Seneddol

Ymgynghoriad ar y Cynigion Diwygiedig:

Ymateb Swyddogol gan y Blaid Lafur

Cymru

Welsh Labour Llafur Cymru

## Cyflwyniad

Y ddogfen hon yw ymateb swyddogol Llafur Cymru i gyfnod ymgynghori terfynol Adolygiad 2023 o Etholaethau Seneddol. Hoffem ddiolch i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru a'r Comisiynwyr Cynorthwyol am eu holl waith caled trwy gydol y broses ac am wneud yr ymgynghoriadau mor rhwydd a hygyrch â phosibl.

Ar y cyfan, nid yw'r safbwynt a ffefrir gan Lafur wedi newid o'r hyn a gyflwynwyd yn y ddau ymgynghoriad cyntaf; hynny yw, lle gwnaethom gefnogi'r Cynigion Cychwynnol a'r gwrthgynigion a wnaed gennym ni, rydym yn credu mai dyna oedd y gyfres orau o ffiniau i Gymru a oedd yn parchu'r ffactorau statudol orau. Rydym yn derbyn, fodd bynnag, bod y Comisiwn yn annhebygol o gynnig unrhyw newid sylweddol o'u Cynigion Diwygiedig ar y cam hwn.

O'r herwydd, bydd ein hawgrymiadau ar gyfer diwygiadau i'r Cynigion Diwygiedig yn y cyflwyniad hwn yn canolbwyntio ar ardaloedd lleol penodol lle'r ydym yn credu y gallai fod siawns o hyd i'r Comisiwn wneud mân newidiadau, ond a fydd, yn ein barn ni, yn gwella'n sylweddol sut y mae'r cynigion yn parchu'r ffactorau statudol. Nid ydym yn dymuno gwneud unrhyw wrthwynebiad i fwyafrif y Cynigion Diwygiedig. Ceir sawl ardal lle'r ydym, ar y cyfan, yn cefnogi'r hyn y mae'r Comisiwn wedi ei gyflwyno dros opsiynau eraill a oedd ar y bwrdd, hyd yn oed pe byddem wedi ffafrio'r Cynigion Cychwynnol neu ein gwrthgynnig ein hunain.

Un pwynt cyffredinol yw ein bod yn meddwl, yn seiliedig ar ddarllen adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol a'r adroddiad ar y Cynigion Diwygiedig, bod rhai ardaloedd lle mae'n ymddangos bod y newidiadau a awgrymwyd i'r Cynigion Cychwynnol wedi cael eu gwneud dim ond er mwyn newid ac nad oedd eu hangen o reidrwydd ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad ysgrifenedig a'r gwrandawiadau cyhoeddus. Yn yr adroddiad, nodir sawl gwaith nad oedd Llafur Cymru, yn syml, wedi gwneud gwrthgynnig. Mae hyn yn awgrymu ein bod yn niwtral ar y mater, er ein bod mewn gwirionedd wedi cyflwyno dadleuon lluosog o blaid y Cynigion Cychwynnol yn yr ardaloedd lle'r oeddem yn eu cefnogi. Mae'n ymddangos ei bod yn wir y neilltuwyd mwy o bwys i'r gwrthgynigion a oedd ar gael dros y dadleuon a wnaed o blaid y Cynigion Cychwynnol, gan arwain at ychydig o etholaethau arfaethedig yn y Cynigion Diwygiedig nad ydym yn credu sydd ddim gwell na'r Cynigion Cychwynnol, ac yn waeth mewn rhai achosion, o safbwynt y ffactorau statudol.

Wedi dweud hynny, rydym yn sylweddoli na fydd y Comisiwn yn debygol o ddychwelyd i'r Cynigion Cychwynnol nac o wneud diwygiadau sylweddol. Rydym yn derbyn bod y Comisiwn a'r Comisiynwyr Cynorthwyol wedi ystyried yr holl dystiolaeth yn fanwl ac wedi gwneud y cynigion yn seiliedig ar yr hyn y maent yn ei gredu yw'r cydbwysedd gorau o'r ffactorau statudol. Caiff ein sylwadau isod eu gwneud o fewn cyfyngiadau'r Cynigion Diwygiedig fel y'u cyflwynwyd a chan dybio mai mân newidiadau yn unig sy'n debygol

Rydym wedi darllen adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol ochr yn ochr ag adroddiad y Cynigion Diwygiedig. Rydym yn nodi bod yr adroddiad yn cynnwys nifer o gynigion arwyddocaol nad oeddent wedi cael eu gwneud gan unrhyw un o'r sylwadau yn ystod ymgynghoriadau blaenorol, ac nad ydym yn credu byddai wedi cael eu cefnogi gan y cyhoedd. Rydym yn croesawu'r ffaith fod y Comisiwn wedi penderfynu peidio ag argymell llawer o'r cynigion hyn.

**Gogledd-ddwyrain Cymru**

Mae'r Comisiwn wedi gwneud newidiadau mawr i'r Cynigion Cychwynnol yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Ar y cyfan, nid ydym yn credu bod y newidiadau hyn yn adlewyrchu cyfanswm y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y camau ymgynghori blaenorol. Yn benodol, mae symud y Fflint a Bagillt o etholaeth Delyn i etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy yn amlwg yn torri cysylltiadau lleol yn yr ardal honno. Mae'r Fflint a Bagillt wedi'u cysylltu'n weinyddol â Threffynnon a'r Wyddgrug ers 1974 ac roeddent yn rhan o hen Gyngor Bwrdeistref Delyn. Mae eu cysylltiadau â'r ardaloedd hynny yn llawer cryfach na'r rhai gyda Chei Connah a Shotton. Mae'r Comisiwn yn datgan yn eu hadroddiad eu bod wedi derbyn sylwadau 'y dylid dychwelyd' y Fflint a Bagillt i Alun a Glannau Dyfrdwy, ond nid yw'r trefi hynny wedi bod yn rhan o etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy yn ei ffurf fodern – roedd gan etholaeth flaenorol Dwyrain Sir y Fflint ffiniau cwbl wahanol ac fe'i diddymwyd ym 1983. Roedd cynnig y Blaid Geidwadol yn cynnwys y trefniant arfaethedig hwn, ond ni chafodd lawer o gefnogaeth gan gyflwyniadau lleol.

Wedi dweud hynny, rydym yn sylweddoli bod y Comisiwn yn annhebygol o ddychwelyd i'r Cynigion Cychwynnol, yr ydym o'r farn oedd yn etholaethau cwbl resymegol fel y nodwyd yn ein cyflwyniadau blaenorol. Rydym hefyd yn sylweddoli bod cynnig newydd eang ar y cam hwn – na fyddai'n destun unrhyw ymgynghoriad pellach – yn annhebygol o gael ei fabwysiadu.

Fodd bynnag, hoffem gynnig mân ddiwygiad sydd hefyd yn effeithio ar etholaeth Wrecsam. Mae lleoli Llangollen Wledig – un o wardiau cyngor Wrecsam – yn etholaeth Dwyrain Clwyd yn amlwg yn anghyson. Mae'n gyfystyr â'r union ddiffiniad o 'ward amddifad' – ward o ddim ond 1631 o etholwyr sy'n rhan o un cyngor sy'n o etholaeth sy'n cynnwys dim wardiau eraill o'r cyngor hwnnw. Er gwaethaf yr enw, nid oes gan Langollen Wledig gysylltiadau cryf â ward Llangollen. Mae gogledd Llangollen Wledig (i'r gogledd o Afon Dyfrdwy) yn ffurfio rhan o gymuned fwy Cefn Mawr ac mae'r de (i'r de o Afon Dyfrdwy) yn wynebu Wrecsam a chymuned gyfagos y Waun. Byddai'n llawer mwy naturiol lleoli'r ward yn Sir Drefaldwyn a Glyndŵr.

I wneud iawn am symud Llangollen Wledig i Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, rydym yn cynnig symud ward Esclusham i etholaeth Wrecsam, fel y cynigiwyd yn wreiddiol. Prin yw'r cysylltiadau rhwng Esclusham a Rhosllannerchrugog i'r gorllewin. Mae'r A483 yn ffurfio ffin eglur rhwng y ddwy ardal ac mae gan Esclusham

yn amlwg gysylltiadau cryf â Wrecsam a chysylltiadau trafnidiaeth da iawn i mewn i Wrecsam ar yr A5152.

| **Etholaeth Arfaethedig** | **Etholaeth Bresennol** | **Newid** | | | | **Etholaeth Newydd Arfaethedig** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dwyrain Clwyd | 76,395 | Heb Langollen Wledig | 1,631 | | | 74,764 |
| Sir Drefaldwyn a Glyndŵr | 76,953 | Â Llangollen Wledig | 1,631 | Heb Esclusham | 2,013 | 76,571 |
| Wrecsam | 70,964 | Ag Esclusham | 2,013 | | | 72,977 |




Rydym o'r farn mai'r gwrthgynnig hwn yw'r union fath o fân newid, sydd serch hynny yn gwella'n sylweddol cydymffurfiad yr etholaeth arfaethedig â'r ffactorau statudol, y dylai'r Comisiwn ei ystyried ar y cam hwyr hwn. Mae ward amddifad Llangollen Wledig yn amlwg yn anomali ac mae'r cynnig hwn yn datrys hynny tra'n parchu cysylltiadau'r ward honno â Chefn Mawr a'r Waun, a rhai Esclusham â Wrecsam.

**Rhondda a Phen-y-bont ar Ogwr**

Y prif anomali amlwg arall yn y Cynigion Diwygiedig yw ychwanegu ardal Pencoed at etholaeth Rhondda. Mae'n amlwg bod hyn yn ffurfio rhan ar wahân i bob pwrpas ac yn creu etholaeth sy'n siâp eithriadol o ryfedd.

Ceir ychydig o ffyrdd y gellid gwella'r sefyllfa hon, ond byddai'r Blaid Lafur yn gwrthwynebu unrhyw gynigion a oedd yn ceisio symud Cwm Ogwr neu Gwm Garw i Rondda. Mae gan y cymoedd hyn gysylltiadau gwael â Rhondda ac yn edrych tuag at Ben-y-bont ar Ogwr ar gyfer eu gwasanaethau. Yn wir, mae'n debygol y byddai'n rhaid i rywun deithio i mewn i etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr i deithio o Gwm Garw i weddill etholaeth Rhondda, pe bai'n cael ei leoli yn y sedd honno. Byddai cynnig o'r fath hefyd yn gwahanu ardal Cyngor Cymuned Cwm Garw.

Rydym yn gyffredinol gefnogol o'r Cynigion Diwygiedig ar gyfer etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr, ac felly byddem yn gwrthwynebu newidiadau a fyddai'n ceisio ei datod, er y gallai fod dadl dros gydnabod Cwm Ogwr yn yr enw, sydd wedi bod yn etholaeth ers 1918. Rydym yn cynnig felly mai Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Ogwr ddylai fod enw'r etholaeth.

Gallai ward Brynna symud o etholaeth Pontypridd i Rondda. Byddai hyn yn gwella siâp etholaeth arfaethedig Rhondda yn sylweddol, er na fyddai cyswllt ffordd uniongyrchol o hyd. Gellid gwneud hyn heb unrhyw effaith ar y cydymffurfiad â'r cwota etholaethol. Fodd bynnag, byddai symud ward Brynna yn gwahanu Cyngor Cymuned Llanharan.




Mae'n debygol y byddai cynigion eraill i ddatrys y broblem hon yn llawer mwy trafferthus i'r etholaethau yn yr ardal a byddem yn debygol iawn o'u gwrthwynebu, beth bynnag fo'u ffurf.

**Caerdydd**

Rydym yn cydnabod bod y Comisiwn yn teimlo'n angen i fynd i'r afael â mater rhan ar wahân Trowbridge, a godwyd yn y gwrandawiadau cyhoeddus, yn eu Cynigion Diwygiedig. Rydym yn teimlo nad yw tynnu ward Cathays o Ganol Caerdydd yn ddelfrydol gan fod y ward yn rhan annatod o'r etholaeth, ond ar y cyfan y newidiadau arfaethedig yw'r ffordd leiaf trafferthus o fynd i'r afael â mater Trowbridge. Mae gan y cynnig y fantais o uno mwy o ganol y ddinas yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth, tra bod gan ward Cathays ffiniau sydd wedi'u diffinio'n dda gan brif ffyrdd a rheilffyrdd.

Rydym yn cefnogi'n gryf penderfyniad y Comisiwn i gadw'r cynnig cychwynnol i ward Dinas Powys fod yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth, gan gydnabod bod ganddi gysylltiadau cryf drwy ffyrdd a rheilffyrdd i mewn i Gaerdydd. Fe wnaethom wrthwynebu'r gwrthgynnig iddi gael ei chadw yn etholaeth Bro Morgannwg, sy'n arwain at batrwm llawer gwaeth o etholaethau yng Nghaerdydd ac yn torri mwy o gysylltiadau lleol yno. Rydym yn cefnogi'n gryf etholaeth arfaethedig Bro Morgannwg fel y gwnaethom yn ystod yr ymgynghoriadau cynharach.

## Abertawe

Abertawe oedd un o'r ardaloedd yr oedd Llafur wedi gwneud gwrthgynnig cynhwysfawr ar ei chyfer. Rydym yn credu bod llawer i'w gymeradwyo am hwnnw ond rydym yn cydnabod bod ganddo wendidau hefyd ac nad yw'r Comisiwn bellach yn mynd i wrthdroi ei safbwynt yn sylweddol o'r Cynigion Diwygiedig, sy'n newid cymharol fân o'r Cynigion Cychwynnol. Mae cynnwys Glandŵr yng Nghastell-nedd a Dwyrain Abertawe yn cael gwared ar dalp o ganol y ddinas ac yn cynnwys ynddo ardaloedd y mae ganddo gysylltiadau cyfyngedig ag ef, yn enwedig gan nad yw'r wardiau Coed-ffranc sy'n agosach ac â chysylltiadau gwell yn gymharol, yn yr etholaeth. Mae Afon Tawe yn gweithredu fel ffin naturiol ac fe'i defnyddiwyd felly yn y Cynigion Cychwynnol.

Fodd bynnag, o ystyried y byddai newidiadau i ddychwelyd Glandŵr i Ganol a Gogledd Abertawe yn debygol o gael sgil-effeithiau yn Aberafan Porthcawl a hyd yn oed Pen-y-bont ar Ogwr o bosibl, nid ydym yn dymuno gwneud unrhyw wrthgynnig pellach ar hyn o bryd. Rydym yn cydnabod bod y Comisiwn wedi cadw Gŵyr a Gorllewin Abertawe heb ei newid o'r Cynigion Cychwynnol ac felly mae'r etholaeth honno yn annhebygol o gael ei newid nawr ar y cam hwyr hwn.

Rydym yn cefnogi newidiadau arfaethedig y Comisiwn i enwau etholaethau Abertawe i symud Gŵyr a Chastell-nedd i flaen enwau'r etholaethau.

## Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen

Roedd Llafur yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol yn yr ardal hon – yn cysylltu Gorllewin Casnewydd â Chaerffili, yn hytrach na chydag Islwyn – ond rydym yn cydnabod bod y Comisiwn wedi derbyn nifer sylweddol o sylwadau am y mater hwn o Gaerffili, ac wedi newid y cynigion bellach, nad yw'r mynd i'w gwrthdroi eto. Rydym hefyd yn derbyn bod gan y gwrthgynnig ei rinweddau a bod cydbwysedd agos o ran y mater hwn. Nid ydym yn cynnig unrhyw newid felly i'r Cynigion Diwygiedig yn yr ardal hon.

Rydym yn cefnogi newidiadau arfaethedig y Comisiwn i etholaeth Merthyr Tudful iddi gynnwys Aberaman, ond yn cynnig y gellid ei galw'n Merthyr Tudful ac Aberaman yn hytrach na Merthyr Tudful a Chwm Cynon Uchaf.

Rydym yn cefnogi'n gryf bod etholaethau arfaethedig Blaenau Gwent a Rhymni, Sir Fynwy a Thorfaen heb eu newid o'r Cynigion Cychwynnol, ac yn nodi y cafodd pob un ohonynt gefnogaeth eang ar y camau ymgynghori blaenorol.

## Sir Gaerfyrddin

Rydym yn cefnogi'r cynnig i symud ward Llangynnwr i etholaeth Caerfyrddin, fel y nodwyd gennym yn ystod y gwrandawiadau cyhoeddus. Rydym yn cefnogi'n gryf y Cynigion Diwygiedig ar draws Sir Gaerfyrddin.

**Sir Benfro**

Mae'r Blaid Lafur yn cefnogi'n gryf y Cynigion Diwygiedig yn yr ardal hon. Yn benodol, y penderfyniad i fabwysiadu'r gwrthgynnig a wnaed gennym ni i ychwanegu Tyddewi, Solfach a Threletert at Ganol a De Sir Benfro a Maenclochog at Geredigion Preseli. Rydym yn credu bod hyn yn parchu'r cysylltiadau lleol yn yr ardal hon yn llawer gwell.

**Brycheiniog a Sir Faesyfed**

Fel y nodwyd gennym yn ein cyflwyniadau blaenorol, mae gan y dewis o sut i ehangu etholaeth bresennol Brycheiniog a Sir Faesyfed oblygiadau arwyddocaol i'r patrwm o etholaethau yng ngweddill de Cymru. Cydnabuwyd y cyfyngiadau ar y Comisiwn gennym ac ni wnaethom wrthwynebu dewis y Comisiwn i wneud hynny trwy gynnwys naw ward o Gastell-nedd Port Talbot yn yr etholaeth, ac rydym yn dal i gefnogi'r Cynigion Diwygiedig nad ydynt yn cynnig unrhyw newid.

**Gogledd-orllewin Cymru**

Mae'r Blaid Lafur yn cefnogi symud ward Pentir o etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd i Aberconwy, a gafodd gefnogaeth eang yn y gwrandawiadau cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod bod y newidiadau eraill i etholaeth arfaethedig Aberconwy yn rhannol o ganlyniad i'r cynigion mewn rhannau eraill o'r gogledd. Nid yw'r ffaith nad yw'r wardiau arfordirol yng Ngogledd Clwyd yn yr un etholaeth â'u perfeddwlad wledig mwyach yn gyson â'r dull ymhellach i lawr yr arfordir ac yn sicr yn torri cysylltiadau lleol yn yr ardal honno.

Ar y cyfan, fodd bynnag, nid ydym yn cymuno cynnig unrhyw newidiadau pellach i'r Cynigion Diwygiedig o ystyried y cwmpas cyfyngedig ar gyfer newidiadau ar y cam hwn. Rydym yn cefnogi'r enw Gogledd Clwyd, gan gydnabod y newidiadau a wnaed o'r sedd Clwyd a oedd yn rhan o'r Cynigion Cychwynnol.

**Casgliad**

Hoffem ddiolch unwaith eto i'r Comisiynwyr, staff y Comisiwn a'r Comisiynwyr Cynorthwyol am eu gwaith caled drwy gydol y broses. Edrychwn ymlaen at weld yr Argymhellion Terfynol.

Welsh Labour Llafur Cymru [redacted]

**BCW-10824 / [redacted] / Pontardawe**

Swansea and Aman Valley = Cwm Tawe a Chwm Aman NEU Abertawe a Chwm Aman

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf cynnig y Comisiwn Ffiniau i gynnwys wardiau Pontardawe a Threbanos, a wardiau eraill Cwm Tawe a Chwm Aman, yn etholaeth newydd Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe. Mae'n siomedig iawn gweld, er gwaethaf nifer o wrthwynebiadau, gan gynnwys un gan y Comisiynwyr Cynorthwyol, nad yw'r cynllun ar gyfer ein hardal wedi newid o'r cynnig cyntaf. Yn ogystal â'r rheidrwydd i fodloni'r nifer gofynnol o etholwyr fesul ward, mae Rheol 5 yn Atodlen 2 o Ddeddf 1986 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu hystyried wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Adolygiad 2023, yn benodol:

• ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaethau;

• ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020

• Ffiniau'r etholaethau presennol

• unrhyw gysylltiadau lleol fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau

• yr anghyfleustra a ddaw yn sgil newidiadau o'r fath

Mae'n amlwg nad oes un o'r ffactorau hyn wedi'u hystyried wrth roi sylw i leoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

Mae'r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint gyda chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae swyddfa'r AS presennol yn Llandrindod - taith o 50 milltir, awr ac 20 munud mewn car o Bontardawe. Nid yw'n bosibl gwneud y daith gron ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod. Felly bydd yn amhosibl ymweld â'ch AS drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail i nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd De Orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth sy'n croesi'r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdodau a dryswch gweinyddol sylweddol.

Yn hanesyddol roedd Cwm Tawe bob amser yn rhan o Sir Forgannwg ac mae'r cysylltiadau lleol i gyd â Chastell-nedd ac Abertawe, nid ag Aberhonddu. Hefyd, mae gan gymoedd Abertawe a Chwm Aman dreftadaeth ddiwydiannol gryf yn debyg i Gastell-nedd ac Abertawe, mae hyn yn wahanol iawn i'r dreftadaeth amaethyddol sydd gan Frycheiniog a Maesyfed.

Bydd gan yr etholaeth arfaethedig ben uchaf deheuol sy'n wahanol iawn o ran cymeriad i'r gweddill. Mae gan wardiau Gwm Tawe a Dyffryn Aman 38% o siaradwyr Cymraeg ar gyfartaledd, o'i gymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigyrau cyfrifiad 2011, wedi'u pwyso yn ôl poblogaeth y ward). Mae wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman hefyd yn llawer mwy difreintiedig, gyda safle MALIC ar gyfartaledd yn 813 o'i gymharu â 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a

Maesyfed (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, mae safle is yn dangos mwy o amddifadedd). Bydd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn cynnwys dim ond 25% o boblogaeth yr etholaeth, gan greu risg gwirioneddol na fydd anghenion gwahanol iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a fydd yn cael eu gwneud gan yr etholaeth yn ei chyfanrwydd.

Fel dewis arall, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnwys Cymoedd Abertawe ac Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau, daearyddiaeth a nodweddion lleol presennol a hanesyddol yn well o lawer.

**BCW-10825 / [redacted] / Pontardawe**

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf cynnig y Comisiwn Ffiniau i gynnwys wardiau Pontardawe a Threbanos, a wardiau eraill Cwm Tawe a Chwm Aman eraill, yn etholaeth newydd Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe. Mae'n siomedig iawn gweld, er gwaethaf nifer o wrthwynebiadau, gan gynnwys un y Comisiynwyr Cynorthwyol, nad yw'r cynllun ar gyfer ein hardal wedi newid o'r cynnig cyntaf. Yn ogystal â'r rheidrwydd i fodloni'r nifer gofynnol o etholwyr fesul ward, mae Rheol 5 yn Atodlen 2 o Ddeddf 1986 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu hystyried wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Adolygiad 2023, yn benodol:

• ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaethau;

• ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020

• Ffiniau'r etholaethau presennol

• unrhyw gysylltiadau lleol fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau

• yr anghyfleustra a ddaw yn sgil newidiadau o'r fath

Mae'n amlwg nad oes un o'r ffactorau hyn wedi'u hystyried wrth roi sylw i leoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

Mae'r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint gyda chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae swyddfa'r AS presennol yn Llandrindod - taith o 50 milltir, awr ac 20 munud mewn car o Bontardawe. Nid yw'n bosibl gwneud y daith gron ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod. Felly bydd yn amhosibl ymweld â'ch AS drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail i nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd De Orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth sy'n croesi'r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdodau a dryswch gweinyddol sylweddol.

Yn hanesyddol roedd Cwm Tawe bob amser yn rhan o Sir Forgannwg ac mae'r cysylltiadau lleol i gyd â Chastell-nedd ac Abertawe, nid ag Aberhonddu. Hefyd, mae gan gymoedd Abertawe a Chwm Aman dreftadaeth ddiwydiannol gryf yn debyg i Gastell-nedd ac Abertawe, mae hyn yn wahanol iawn i'r dreftadaeth amaethyddol sydd gan Frycheiniog a Maesyfed.

Bydd gan yr etholaeth arfaethedig ben uchaf deheuol sy'n wahanol iawn o ran cymeriad i'r gweddill. Mae gan wardiau Gwm Tawe a Dyffryn Aman 38% o siaradwyr Cymraeg ar gyfartaledd, o'i gymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigyrau cyfrifiad 2011, wedi'u pwyso yn ôl poblogaeth y ward). Mae wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman hefyd yn llawer mwy difreintiedig, gyda safle MALIC ar gyfartaledd yn 813 o'i gymharu â 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a Maesyfed (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, mae safle is yn dangos mwy o amddifadedd). Bydd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn cynnwys dim ond 25% o boblogaeth yr etholaeth, gan greu risg gwirioneddol na fydd anghenion gwahanol

iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a fydd yn cael eu gwneud gan yr etholaeth yn ei chyfanrwydd.

Fel dewis arall, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnwys Cymoedd Abertawe ac Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau, daearyddiaeth a nodweddion lleol presennol a hanesyddol yn well o lawer.

**BCW-10826 / [redacted] / Pontardawe**

Rwy’n gwrthwynebu’n gryf cynnig y Comisiwn Ffiniau i gynnwys wardiau Pontardawe a Threbanos, a wardiau eraill Cwm Tawe a Chwm Aman, yn etholaeth newydd Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe. Mae’n siomedig iawn gweld, er gwaethaf nifer o wrthwynebiadau, gan gynnwys un gan y Comisiynwyr Cynorthwyol, nad yw’r cynllun ar gyfer ein hardal wedi newid o’r cynnig cyntaf. Yn ogystal â’r rheidrwydd i fodloni’r nifer gofynnol o etholwyr fesul ward, mae Rheol 5 yn Atodlen 2 o Ddeddf 1986 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu hystyried wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Adolygiad 2023, yn benodol:

• ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaethau;
• ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020
• Ffiniau’r etholaethau presennol
• unrhyw gysylltiadau lleol fyddai’n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau
• yr anghyfleustra a ddaw yn sgil newidiadau o’r fath

Mae’n amlwg nad oes un o’r ffactorau hyn wedi’u hystyried wrth roi sylw i leoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

Mae’r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint gyda chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae swyddfa’r AS presennol yn Llandrindod - taith o 50 milltir, awr ac 20 munud mewn car o Bontardawe. Nid yw’n bosibl gwneud y daith gron ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod. Felly bydd yn amhosibl ymweld â’ch AS drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail i nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd De Orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth sy’n croesi’r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdodau a dryswch gweinyddol sylweddol.

Yn hanesyddol roedd Cwm Tawe bob amser yn rhan o Sir Forgannwg ac mae’r cysylltiadau lleol i gyd â Chastell-nedd ac Abertawe, nid ag Aberhonddu. Hefyd, mae gan gymoedd Abertawe a Chwm Aman dreftadaeth ddiwydiannol gryf yn debyg i Gastell-nedd ac Abertawe, mae hyn yn wahanol iawn i’r dreftadaeth amaethyddol sydd gan Frycheiniog a Maesyfed.

Bydd gan yr etholaeth arfaethedig ben uchaf deheuol sy’n wahanol iawn o ran cymeriad i’r gweddill. Mae gan wardiau Gwm Tawe a Dyffryn Aman 38% o siaradwyr Cymraeg ar gyfartaledd, o’i gymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigyrau cyfrifiad 2011, wedi’u pwyso yn ôl poblogaeth y ward). Mae wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman hefyd yn llawer mwy difreintiedig, gyda safle MALIC ar gyfartaledd yn 813 o’i gymharu â 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a

Maesyfed (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, mae safle is yn dangos mwy o amddifadedd). Bydd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn cynnwys dim ond 25% o boblogaeth yr etholaeth, gan greu risg gwirioneddol na fydd anghenion gwahanol iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a fydd yn cael eu gwneud gan yr etholaeth yn ei chyfanrwydd.
Fel dewis arall, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnwys Cymoedd Abertawe ac Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau, daearyddiaeth a nodweddion lleol presennol a hanesyddol yn well o lawer.

**BCW-10827 / [redacted] / Pontardawe**

Rwy’n gwrthwynebu’n gryf cynnig y Comisiwn Ffiniau i gynnwys wardiau Pontardawe a Threbanos, a wardiau eraill Cwm Tawe a Chwm Aman, yn etholaeth newydd Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe. Mae’n siomedig iawn gweld, er gwaethaf nifer o wrthwynebiadau, gan gynnwys un gan y Comisiynwyr Cynorthwyol, nad yw’r cynllun ar gyfer ein hardal wedi newid o’r cynnig cyntaf. Yn ogystal â’r rheidrwydd i fodloni’r nifer gofynnol o etholwyr fesul ward, mae Rheol 5 yn Atodlen 2 o Ddeddf 1986 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu hystyried wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Adolygiad 2023, yn benodol:

• ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaethau;
• ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020
• Ffiniau’r etholaethau presennol
• unrhyw gysylltiadau lleol fyddai’n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau
• yr anghyfleustra a ddaw yn sgil newidiadau o’r fath

Mae’n amlwg nad oes un o’r ffactorau hyn wedi’u hystyried wrth roi sylw i leoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

Mae’r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint gyda chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae swyddfa’r AS presennol yn Llandrindod - taith o 50 milltir, awr ac 20 munud mewn car o Bontardawe. Nid yw’n bosibl gwneud y daith gron ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod. Felly bydd yn amhosibl ymweld â’ch AS drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail i nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd De Orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth sy’n croesi’r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdodau a dryswch gweinyddol sylweddol.

Yn hanesyddol roedd Cwm Tawe bob amser yn rhan o Sir Forgannwg ac mae’r cysylltiadau lleol i gyd â Chastell-nedd ac Abertawe, nid ag Aberhonddu. Hefyd, mae gan gymoedd Abertawe a Chwm Aman dreftadaeth ddiwydiannol gryf yn debyg i Gastell-nedd ac Abertawe, mae hyn yn wahanol iawn i’r dreftadaeth amaethyddol sydd gan Frycheiniog a Maesyfed.

Bydd gan yr etholaeth arfaethedig ben uchaf deheuol sy’n wahanol iawn o ran cymeriad i’r gweddill. Mae gan wardiau Gwm Tawe a Dyffryn Aman 38% o siaradwyr Cymraeg ar gyfartaledd, o’i gymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigyrau cyfrifiad 2011, wedi’u pwyso yn ôl poblogaeth y ward). Mae wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman hefyd yn llawer mwy difreintiedig, gyda safle MALIC ar gyfartaledd yn 813 o’i gymharu â 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a

Maesyfed (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, mae safle is yn dangos mwy o amddifadedd). Bydd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn cynnwys dim ond 25% o boblogaeth yr etholaeth, gan greu risg gwirioneddol na fydd anghenion gwahanol iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a fydd yn cael eu gwneud gan yr etholaeth yn ei chyfanrwydd.

Fel dewis arall, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnwys Cymoedd Abertawe ac Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau, daearyddiaeth a nodweddion lleol presennol a hanesyddol yn well o lawer.

**BCW-10828 / [redacted] / Pontardawe**

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf cynnig y Comisiwn Ffiniau i gynnwys wardiau Pontardawe a Threbanos, a wardiau eraill Cwm Tawe a Chwm Aman, yn etholaeth newydd Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe. Mae'n siomedig iawn gweld, er gwaethaf nifer o wrthwynebiadau, gan gynnwys un gan y Comisiynwyr Cynorthwyol, nad yw'r cynllun ar gyfer ein hardal wedi newid o'r cynnig cyntaf. Yn ogystal â'r rheidrwydd i fodloni'r nifer gofynnol o etholwyr fesul ward, mae Rheol 5 yn Atodlen 2 o Ddeddf 1986 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu hystyried wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Adolygiad 2023, yn benodol:

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaethau;
- ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent yn bodoli ar 1 Rhagfyr 2020
- Ffiniau'r etholaethau presennol
- unrhyw gysylltiadau lleol fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau
- yr anghyfleustra a ddaw yn sgil newidiadau o'r fath

Mae'n amlwg nad oes un o'r ffactorau hyn wedi'u hystyried wrth roi sylw i leoliad wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

Mae'r etholaeth arfaethedig yn fawr iawn o ran maint gyda chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae swyddfa'r AS presennol yn Llandrindod - taith o 50 milltir, awr ac 20 munud mewn car o Bontardawe. Nid yw'n bosibl gwneud y daith gron ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn un diwrnod. Felly bydd yn amhosibl ymweld â'ch AS drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae ffin sirol Castell-nedd Port Talbot / Powys yn sail i nifer o ffiniau gweinyddol eraill, gan gynnwys rhanbarth economaidd De Orllewin / Canolbarth Cymru, tiriogaethau Heddlu De Cymru / Dyfed Powys, a Byrddau Iechyd Powys a Bae Abertawe. Bydd etholaeth sy'n croesi'r holl ffiniau hyn yn achosi cymhlethdodau a dryswch gweinyddol sylweddol.

Yn hanesyddol roedd Cwm Tawe bob amser yn rhan o Sir Forgannwg ac mae'r cysylltiadau lleol i gyd â Chastell-nedd ac Abertawe, nid ag Aberhonddu. Hefyd, mae gan gymoedd Abertawe a Chwm Aman dreftadaeth ddiwydiannol gryf yn debyg i Gastell-nedd ac Abertawe, mae hyn yn wahanol iawn i'r dreftadaeth amaethyddol sydd gan Frycheiniog a Maesyfed.

Bydd gan yr etholaeth arfaethedig ben uchaf deheuol sy'n wahanol iawn o ran cymeriad i'r gweddill. Mae gan wardiau Gwm Tawe a Dyffryn Aman 38% o siaradwyr Cymraeg ar gyfartaledd, o'i gymharu â dim ond 16% yng ngweddill yr etholaeth arfaethedig (ffigyrau cyfrifiad 2011, wedi'u pwyso yn ôl poblogaeth y ward). Mae wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman hefyd yn llawer mwy difreintiedig, gyda safle MALIC ar gyfartaledd yn 813 o'i gymharu â 1159 ar gyfer wardiau Brycheiniog a

Maesyfed (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, mae safle is yn dangos mwy o amddifadedd). Bydd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn cynnwys dim ond 25% o boblogaeth yr etholaeth, gan greu risg gwirioneddol na fydd anghenion gwahanol iawn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y dewisiadau etholiadol a fydd yn cael eu gwneud gan yr etholaeth yn ei chyfanrwydd.

Fel dewis arall, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd, Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnwys Cymoedd Abertawe ac Aman yn eu hetholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau, daearyddiaeth a nodweddion lleol presennol a hanesyddol yn well o lawer.

**BCW-10829 / [redacted] / Caerdydd**

Yn dilyn cyhoeddi Etholaethau Seneddol y DU i Gymru diwygiedig, hoffwn gyflwyno fy sylwadau a fy mhryderon o ran y cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth, yn hytrach na'i bod yn aros yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Caerdydd.

Nodaf, er fy mod yn byw yn Nwyrain Caerdydd, roeddwn yn byw yn sedd bresennol Canol Caerdydd ers dros 20 mlynedd, ac am dros 15 o'r blynyddoedd hyn roeddwn yn byw yn Cathays. Rydw i hefyd yn gweithio yn y sector cyhoeddus ar hyn o bryd, ac rydw i wedi fy lleoli yn ward Cathays.

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cam arfaethedig ac yn credu y dylai'r Comisiwn ddychwelyd at y cynnig gwreiddiol, lle mae ward Cathays yng Nghanol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd ac mae ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth. Er fy mod, mewn egwyddor, yn anghytuno â'r cynnig gwreiddiol bod Trowbridge yn cael ei datgysylltu o Rymni a Llanrhymni, o leiaf y byddai Trowbridge yn parhau o fewn etholaeth y mae ganddi gysylltiadau â hi ers tro. Nid oes unrhyw gysylltiadau hanesyddol rhwng Cathays ac etholaeth De Caerdydd a Phenarth, ac nid oes cysylltiadau felly wedi bod yn y 40 mlynedd bron i mi fyw yng Nghaerdydd.

Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac mae'n golygu bod dim ond dwy ward yn symud o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na'r pedair sy'n symud yn y cynigion diwygiedig.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod yn yr un sedd Seneddol am fwy na thrigain mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn, ers 2010, yn ei adolygiadau blaenorol aflwyddiannus erioed wedi edrych i wahanu Cathays a Phlasnewydd. Er bod ward Cathays yn ymestyn i lawr drwy ganol y ddinas i gyffwrdd â Threbiwt, mewn gwirionedd mae'r mwyafrif helaeth o drigolion Cathays yn byw i'r gogledd o ardaloedd Canol y Ddinas a Chanolfan Ddinesig Caerdydd, ac felly nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad daearyddol â De Caerdydd a Phenarth.

Ni chafodd symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth gael ei grybwyll fel dewis yn ystod y cynigion blaenorol a'r prosesau ymgynghori. Mae ei gyflwyno fel 'fait accompli' ar y cam olaf yn ymddangos yn annidwyll, ac nid yn ysbryd datganiadau a wnaethpwyd gan Ysgrifennydd i'r Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau'r broses. Yn ogystal, fy nealltwriaeth i yw mai dim ond un cyflwyniad a gafodd y Comisiwn (gan breswylydd wedi'i leoli yn Altrincham am ryw reswm?!) yn cynnig y newid hwn. Tra bod y Comisiwn wedi derbyn dwsinau o ymatebion (gan drigolion sy'n byw yn ninas Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown yng nghymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae ei lleoli yn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili, yn hurt, a dweud y gwir, ac ni fydd hynny'n hawdd i etholwyr ei ddeall deall. Fodd bynnag, mae llawer o gysylltiadau cymunedol rhwng Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown:

• Gan amlaf, mae poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn pontio Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, gyda neuaddau preswyl yn agos at Cathays a Phlasnewydd.

• Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried wardiau Cathays a Phlasnewydd mor ynghlwm wrth ei gilydd fel bod rheolau cynllunio wedi'u pasio dim ond i gynnwys tai amlfeddiannaeth a byrddau asiantau gosod tai yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)

• Mae'r dalgylch ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.

• Mae plant ysgolion cynradd yn Cathays a Phlasnewydd yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (wedi'i lleoli ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (wedi'i lleoli yng Nghyncoed).

• Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed, yn golygu bod trigolion yn y tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned Y Rhath sy'n canolbwyntio ar ardaloedd siopa Heol y Grwys, Heol Albany a Heol y Ddinas.

• Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cael eu rhannu rhwng Cathays a Phlasnewydd, wedi bod yn eu lle ers tro ac roedd cynigion cychwynnol y Comisiwn yn eu parchu'n briodol.

• Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi'i threfnu o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)

• Mae dalgylchoedd meddygfeydd meddygon teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac yn rhannu pryderon a demograffeg gyffredin.

Rwy'n derbyn mai ward heb fynediad uniongyrchol ar y ffyrdd i'r Sblot yw Trowbridge. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr un sefyllfa'n union yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer y Rhondda. Mae gan Sblot a Trowbridge ddegawdau o hanes fel rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r ateb arfaethedig yn sedd newydd y Rhondda.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Rwy'n gobeithio, ar ôl darllen y dystiolaeth, y bydd y Comisiwn yn penderfynu gwrthod ei gynigion diwygiedig a dychwelyd at y cynigion cychwynnol fel y'i cyhoeddwyd.

**BCW-10830 / Cynghorydd Anthony John Richards / Pontardawe**

Rwy’n gwrthwynebu’n cynnig y Comisiwn Ffiniau’n gryf. Rwy’n cynrychioli ward Pontardawe fel y Cynghorydd Sir ac nid wyf eto wedi siarad ag unrhyw un sy’n cefnogi cynigion y Comisiynau Ffiniau. Bydd y cynnig presennol yn darnio’r etholaethau ac yn creu ardal ddaearyddol annerbyniol o fawr i Gwm Tawe/Aberhonddu ac ati.

Rwy’n llwyr gefnogi safiad cyngor Castell-nedd Port Talbot sydd yn ei dro yn adlewyrchu adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol – Cwm Tawe a Dyffryn Aman, i gysylltu â rhannau o hen Ddyffryn Lliw. Mae cynnwys Cwm Tawe a Dyffryn Aman o fewn ei etholaeth Dyffryn Lliw arfaethedig yn adlewyrchu ffiniau presennol a hanesyddol, daearyddiaeth a nodweddion lleol yn well o lawer.

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023